

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynadledda drwy Zoom P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 11 Medi 2023 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (13.30)

2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 (13.30 – 13.40)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

2.1 SL(6)370 – Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023

(Tudalennau 1 – 6)

[Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 1 – Adroddiad drafft

2.2 SL(6)371 – Rheoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru (Diwygio) 2023

(Tudalennau 7 – 8)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 2 – Adroddiad drafft



**2.3 SL(6)373 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr
(Diwygio) 2023**

(Tudalennau 9 – 19)

[Gorchymyn](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 3 – Adroddiad drafft

LJC(6)-23-23 – Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 21
Gorffennaf 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at
Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 21 Gorffennaf 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 6 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid
Hinsawdd, 21 Gorffennaf 2023

**2.4 SL(6)375 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio)
(Rhif 2) 2023**

(Tudalennau 20 – 21)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 7 – Adroddiad drafft

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

2.5 SL(6)367 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023

(Tudalennau 22 – 26)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 8 – Adroddiad drafft

LJC(6)-23-23 – Papur 9 – Llythyr gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y
Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol at Weinidog y Gymraeg ac
Addysg, 30 Mehefin 2023

2.6 SL(6)368 – Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023

(Tudalennau 27 – 28)

[Rheoliadau](#) [Saesneg yn unig]

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 10 – Adroddiad drafft

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(13.40 – 13.45)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol Drafft

3.1 SL(6)374 – Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

(Tudalennau 29 – 30)

[Cod](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 11 – Adroddiad drafft

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.45 – 13.50)

4.1 SL(6)364 – Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023

(Tudalennau 31 – 32)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 3 Awst 2023

5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 – 14.05)

5.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth

(Tudalennau 33 – 34)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 13 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, 6 Medi 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 14 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, 11 Gorffennaf 2023

5.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Dilysu Dulliau Amgen ar gyfer Teipio Salmonela (Diwygio) 2023

(Tudalennau 35 – 38)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 15 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 17 Gorffennaf 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 18 Gorffennaf 2023

5.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2023

(Tudalennau 39 – 40)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 17 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 18 Gorffennaf 2023

5.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Adroddiad ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol

(Tudalennau 41 – 97)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 18 – Adroddiad ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol

LJC(6)-23-23 – Papur 19 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 18 Gorffennaf 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 20 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, 18 Gorffennaf 2023

5.5 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig–Gwyddelig

(Tudalennau 98 – 100)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–23–23 – Papur 21 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, 19 Gorffennaf 2023

LJC(6)–23–23 – Papur 22 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 19 Gorffennaf 2023

5.6 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru

(Tudalennau 101 – 102)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–23–23 – Papur 23 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Gorffennaf 2023

LJC(6)–23–23 – Papur 24 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Gorffennaf 2023

5.7 Datganiad Ysgrifenedig gan, a gohebiaeth gyda'r, Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Safonau Cynnyrch Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023

(Tudalennau 103 – 117)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–23–23 – Papur 25 – Datganiad Ysgrifenedig gan Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 6 Medi 2023

LJC(6)–23–23 – Papur 26 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 6 Medi 2023

LJC(6)–23–23 – Papur 27 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 21 Gorffennaf 2023

LJC(6)–23–23 – Papur 28 – Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 7 Gorffennaf 2023

5.8 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu) 2023

(Tudalennau 118 – 123)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 29 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 10 Awst 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 30 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 10 Awst 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 31 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 1 Awst 2023

5.9 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi etc.) 2023

(Tudalennau 124 – 130)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 32 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 6 Medi 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 33 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 6 Medi 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 34 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 9 Awst 2023

5.10 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023

(Tudalennau 131 – 134)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 35 – Datganiad Ysgrifenedig gan Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 5 Medi 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 36 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 9 Awst 2023

5.11 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cymorth Ariannol) (Marcio Nwyddau Manwerthu) 2023

(Tudalennau 135 – 140)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 37 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 5 Medi 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 38 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 5 Medi 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 39 – Llythyr gan y Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 31 Awst 2023

5.12 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder

(Tudalen 141)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 40 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 30 Awst 2023

5.13 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) 2023

(Tudalennau 142 – 143)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 41 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 1 Medi 2023 [Saesneg yn unig]

5.14 Gohebiaeth gan y Weinidog yr Economi: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach

(Tudalen 144)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 42 – Llythyr gan y Weinidog yr Economi, 5 Medi 2023

5.15 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023

(Tudalennau 145 – 146)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 43 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 5 Medi 2023

5.16 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid

(Tudalennau 147 – 148)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 44 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 7 Medi 2023

6 Papurau i'w nodi

(14.05 – 14.20)

6.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Addysg Ddewisol yn y Cartref

(Tudalennau 149 – 181)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 45 – Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 12 Gorffennaf 2023

6.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

(Tudalen 182)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 46 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 13 Gorffennaf 2023

6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Pwyllgor Busnes: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

(Tudalen 183)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 47 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Pwyllgor Busnes, 13 Gorffennaf 2023

**6.4 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion**
(Tudalen 184)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 48 – Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Gorffennaf 2023

6.5 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Craffu ar waith Gweinidogion
(Tudalennau 185 – 188)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 49 – Llythyr gan Weinidog yr Economi at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Gorffennaf 2023

6.6 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogeledd, Diogelwch a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill
(Tudalennau 189 – 190)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 50 – Llythyr gan Prif Weinidog at Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 25 Gorffennaf 2023

6.7 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023
(Tudalen 191)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 51 – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd, 27 Gorffennaf 2023

6.8 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Datganiad ar gynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
(Tudalen 192)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 52 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 28 Gorffennaf 2023

6.9 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: cywiriad i'r cofnod 10 Gorffennaf

(Tudalen 193)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 53 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 2 Awst 2023

6.10 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Cytundebau rhyngwladol: Y DU/y Swistir: Cytundeb ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol

(Tudalennau 194 – 197)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 54 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 7 Awst 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 55 – Llythyr at y Prif Weinidog, 12 Gorffennaf 2023

6.11 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 6) ynghylch y Bil Caffael

(Tudalennau 198 – 213)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 56 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 8 Awst 2023

6.12 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

(Tudalennau 214 – 216)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 57 – Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 11 Awst 2023

6.13 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023

(Tudalennau 217 – 224)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 58 – Datganiad ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Awst 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 59 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 22 Awst 2023

6.14 Cyflwyniadau ysgrifenedig: Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE

(Tudalennau 225 – 349)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 60 – Cyflwyniad ysgrifenedig gan Charles Whitmore [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-23 – Papur 61 – Cyflwyniad ysgrifenedig gan Tanja Buzek, Cadeirydd ar ran Grŵp Cynghori Domestig yr UE [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-23 – Papur 62 – Cyflwyniad ysgrifenedig gan Cillian Lohan, Cadeirydd Pwyllgor Dilydol yr UE a'r DU [Saesneg yn unig]

6.15 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

(Tudalennau 350 – 361)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 63 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 1 Medi 2023

6.16 Gohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Craffu ar waith y Gweinidog

(Tudalennau 362 – 371)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 64 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 4 Medi 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 65 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 24 Gorffennaf 2023

6.17 Gohebiaeth gan y Brif Weinidog Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

(Tudalennau 372 – 376)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 66 – Llythyr gan y Brif Weinidog Cymru, 5 Medi 2023

- 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**
(14.20)

8 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni

(14.20 – 15.05)

(Tudalennau 377 – 458)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\)](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 3\)](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 67 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

LJC(6)-23-23 – Papur 68 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol
(Memorandwm Rhif 2)

LJC(6)-23-23 – Papur 69 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol
(Memorandwm Rhif 3)

LJC(6)-23-23 – Papur 70 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 1 Medi 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 71 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd, 25 Gorffennaf 2023

LJC(6)-23-23 – Papur 72 – Llythyr gan Lywodraeth y DU, 24 Gorffennaf 2023
[Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-23 – Papur 73 – Llythyr at Lywodraeth y DU, 12 Gorffennaf 2023
[Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-23 – Papur 74 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

9 Cytundebau rhyngwladol

(15.05 – 15.15)

(Tudalennau 459 – 470)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 75 – Papur briffio [Saesneg yn unig]

10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Ardrethu Annomestig

(15.15 – 15.25)

(Tudalennau 471 – 482)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-23-23 – Papur 76 – Nodyn cyngor cyfreithiol

LJC(6)-23-23 – Papur 77 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

SL(6)370 – Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023

Cefndir a diben

Mae Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 (**Rheoliadau a Chyfarwyddydau 2023**) yn diwygio Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 (**y Rheoliadau a Chyfarwyddydau 2016**) mewn perthynas â Chymru. Mae Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 yn nodi'r dyluniad gorfodol ar gyfer arwyddion traffig ym Mhrydain Fawr, yr hyn maent yn ei olygu, sut maent yn cael eu gosod a sut maent yn cael eu goleuo.

Mae'r diwygiadau hyn yn ganlyniadol i Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022 ac yn atodol i'r Gorchymyn hwnnw, sy'n gostwng y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig o 30 milltir yr awr i 20 milltir yr awr yng Nghymru pan ddaw i rym ar 17 Medi 2023.

Mae'r gwelliannau a wnaed gan Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cynnwys:

Arwyddion diogelwch ffyrdd newydd

Er enghraifft, yr arwydd newydd hwn i rybuddio am gamera cyflymder ac i atgoffa gyrwyr o'r terfyn cyflymder 20 milltir yr awr:



Cael gwared ar yr arwyddion presennol

Er enghraifft, ni fydd angen yr arwydd hwn (sy'n rhybuddio am ddiwedd parth 20 milltir yr awr ac sy'n dangos bod y terfyn cyflymder cenedlaethol yn berthnasol) mwyach pan fydd y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yn cael ei leihau i 20 milltir yr awr:



Arwyddion dros dro newydd

Er enghraifft, yr arwydd dros dro newydd hwn sy'n nodi pwynt cychwyn terfyn cyflymder newydd o 20 milltir yr awr (y gellir ei osod yn ystod y 12 mis cyntaf y mae'r cyfyngiad 20 milltir yr awr mewn grym):



Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu

(ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 5 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 3(1)(b) yn cyflwyno testun Cymraeg i gyd-fynd â'r arwydd canlynol:



Y testun Cymraeg i'w ddefnyddio gyda'r arwydd hwn yw "Ysgol", "Hebryngwr", "Maes chwarae", "Plant Anabl", "Plant dall" neu "Plant byddar".

Y disgrifiad cyffredinol Saesneg a roddwyd ar gyfer yr arwydd hwn yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yw "children going to or from school or playground area". Fodd bynnag, yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016, y disgrifiad cyffredinol sy'n cyd-fynd â'r arwydd hwn yw "plant ymhellach ymlaen yn mynd i'r ysgol neu faes chwarae neu oddi yno". O ganlyniad, ar ôl i reoliad 3(1) ddod i rym, bydd disgrifiad gwahanol o'r arwydd hwn yng Nghymru ac yn Lloegr.


Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a fwriedir y newid o "faes chwarae ymhellach ymlaen" i "ardal y maes chwarae" ac, os bwriedir hynny, pa wahaniaeth y mae hynny'n ei wneud i osod yr arwydd hwn a'i effaith?

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol


Gan fod Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn gymwys mewn perthynas â Chymru, mae angen i rai arwyddion ffyrdd presennol sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr fod yn gymwys yn Lloegr yn unig (h.y. mae angen tynnu Cymru o gymhwysiad rhai arwyddion yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion

Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016). Mae Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cyflawni hyn drwy fewnosod y geiriau "Mewn perthynas â Lloegr" o ran rhai arwyddion yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016. Mae'r geiriau i'w mewnosod "ar ddechrau" y golofn berthnasol, ond nid yw'n glir yn union ble y dylid mewnosod y geiriau hynny.

Er enghraifft, mae rheoliad 4(a) o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn awgrymu y bydd y geiriau (h.y. y testun coch isod) yn cael eu mewnosod fel a ganlyn: **cyn** rhif y diagram:



Fodd bynnag, lle mae Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cyflwyno arwydd newydd ar gyfer Cymru, gosodir y geiriau "Mewn perthynas â Chymru" **ar ôl** rhif y diagram. Er enghraifft, mae rheoliad 5 o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cynnwys y cofnod newydd hwn:



Byddem yn ddiolchgar o gael eglurder ynghylch ble y dylid mewnosod y geiriau "In relation to England" yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016. Rydym yn ychwanegu bod cysondeb o ran ymdrin â materion fel hyn yn bwysig er mwyn sicrhau eglurder a hygyrchedd deddfwriaeth.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yng nghyfarwyddyd cyffredinol 9 o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023, mae'r paragraff 2 newydd yn dechrau gyda'r geiriau "This sign...". Mae hyn, fodd bynnag, yn anghyson â drafftio'r paragraff 2 presennol a'r holl baragraffau eraill yn Rhan 4 o Atodlen 10 i Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016 sy'n dechrau gyda'r geiriau "The sign...".

4. Rheol Sefydlog 21.2(i) – ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires; Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod ei ddrafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mewn perthynas â Rhan 3 o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023, rydym yn codi'r pwyntiau a ganlyn:

- Nid yw'r rhagymadrodd yn nodi pa bwerau galluogi y mae Gweinidogion Cymru yn dibynnu arnynt i wneud Rhan 3. Er ein bod yn credu bod gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud Rhan 3 o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, dylid dyfynnu'r pwerau hynny yn y rhagymadrodd. Mae'r pwerau galluogi ar gyfer Rhan 1 a Rhan 2 wedi'u nodi yn y rhagymadrodd.
- Mae'r rhagymadrodd yn cadarnhau y cydymffurfiwyd â'r gofynion ymgynghori a nodir yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 o ran Rhan 1 a Rhan 2, ond nid oes sôn am ymgynghori ar Ran 3. Nodwn fod Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn gofyn am ymgynghori **cyn y gellir gwneud rheoliadau a chyn y gellir rhoi cyfarwyddydau cyffredinol**. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru a yw unrhyw un o'r gofynion ymgynghori yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn gymwys i Ran 3 ac, os ydynt, a gynhaliwyd ymgynghoriad o'r fath cyn gwneud Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023.
- Mae Rhan 1 a Rhan 2 yn benodol yn cynnwys darpariaethau i ddatgan eu bod yn dechrau ar 17 Medi 2023. Fodd bynnag, nid yw Rhan 3 yn cynnwys darpariaeth gychwyn. Er ei bod yn ymddangos o'r cyd-destun cyffredinol bod Rhan 3 hefyd wedi'i fwriadu i ddechrau ar 17 Medi 2023, dylai fod darpariaeth benodol yn datgan pryd y daw Rhan 3 i rym.
- Nid yw'n glir sut y dylid dyfynnu Rhan 3. Mae Rheoliad 1(1)(a) yn datgan y gellir dyfynnu Rhan 1 fel Rheoliadau Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023. Mae Rheoliad 1(1)(b) yn datgan y gellir dyfynnu **Rhan 1 ynghyd â Rhan 2** fel Rheoliadau a Chyfarwyddydau Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) h.y Rheoliadau a

Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i ni fod Rhan 3 hefyd yn rhan o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023, yn anad dim oherwydd enw'r offeryn yn ei gyfarwydd yw Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023.

5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rhifo darpariaethau Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016 yn dechrau gydag "1" ar ddechrau'r rheoliad yn Rhan 1 a'r cyfarwyddydau cyffredinol yn Rhan 2. Fodd bynnag, nid yw'r rhifo yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn ail-ddechrau o "1" ar bob Rhan; Yn hytrach, mae'r rhifo yn parhau drwy Ran 1, Rhan 2 a Rhan 3.

Nodwn hefyd fod y ddarpariaeth yn 11(4) yn Rhan 3 yn cyfeirio ato'i hun fel "rheoliad". Fodd bynnag, cyfeirir at gyfarwyddydau cyffredinol 9 a 10 hefyd fel "rheoliadau" (gweler cyfarwyddyd cyffredinol 8 yn Rhan 2).

Mae hyn yn ychwanegu ymhellach at y dryswch o ran dyfynnu gwahanol ddarpariaethau Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae Rhan 3 o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cynnwys darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed; fel mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

Pan fydd Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 ar waith, ni fydd angen nifer o arwyddion traffig a marciau ffordd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd mwyach, ac felly ni chaniateir eu defnyddio yng Nghymru. Diben y darpariaethau a'r arbedion trosiannol hyn yw darparu cyfnod gras ar gyfer rhai arwyddion traffig a marciau ffordd, gan roi rhagor o amser i awdurdodau traffig, ar ôl i Reoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 ddod i rym, i sicrhau bod yr arwyddion traffig a'r marciau ffordd cywir ar waith, a bod arwyddion traffig a marciau ffordd nad oes eu hangen / nad ydynt yn cydymffurfio'n cael eu tynnu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro beth yw goblygiadau hyn ar gyfer gorfodi troseddau traffig ffyrdd yn ystod y cyfnod 'gras'.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau adrodd.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Awst 2023

SL(6)371 – Rheoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru (Diwygio) 2023

Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru 2010 (“**Rheoliadau 2010**”) yn darparu ar gyfer sefydlu [Tribiwnlys Prasio Cymru](#) (“TPC”), ei aelodaeth a’i weinyddiaeth, yn ogystal â’r gweithdrefnau ar gyfer apelau treth gyngor.

Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn dribiwnlys annibynnol sy’n datrys anghydfodau yn ymwneud â phrisio eiddo ar gyfer ardrethi annomestig, y dreth gyngor a chyfraddau draenio.

Mae’r Rheoliadau hyn (“**Rheoliadau 2023**”) yn diwygio Rheoliadau 2010 ac yn gwneud newidiadau mewn perthynas â gweinyddu Cyngor Llywodraethu TPC, ei delerau aelodaeth a gweinyddu apelau treth gyngor.

Diben Rheoliadau 2023, fel yr eglurir yn y Memorandwm Esboniadol, yw helpu TPC i foderneiddio ei arferion gweinyddol a chynnal aelodaeth gynaliadwy o’r tribiwnlys.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i’r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 11 yn nodi ei fod yn hepgor darpariaeth o reoliad 46(11) o Reoliadau 2010.

Mae’r ddarpariaeth sydd i’w hepgor wedi’i nodi’n anghywir fel “paragraff (a)”. Fodd bynnag, y disgrifiad cywir yw “is-baragraff (a)”.

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae Rheoliad 12(b) yn nodi ei fod yn diwygio paragraff 12(a) o Atodlen 2 i Reoliadau 2010.



Mae lleoliad y diwygiad wedi'i nodi'n anghywir fel "ar ddiwedd paragraff 12(a)". Mae paragraff 12(a) hefyd yn cwmpasu paragraffau 12(a)(i) a 12(a)(ii). Felly, mae "diwedd" paragraff 12(a), mewn gwirionedd, ar ddiwedd paragraff (ii).

Mae'r llinell doriad em hir y mae'n ymddangos bod y gwelliant yn ceisio ei nodi i'w weld "ym mharagraff 12(a), ar ddiwedd y geiriau o flaen paragraff (i)" (*gweler Drafftio Deddfau i Gymru 7.11(3)*).

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

3. Rheol Sefydlog 21.3(vi) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â Rheoliadau 2023. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol ac yn nodi'r manteision a ganlyn o wneud Rheoliadau 2023:

[...] cynnal aelodaeth gynaliadwy o'r tribiwnlys a chadw aelodau profiadol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad amherir ar y gwasanaeth y mae TPC yn ei ddarparu [...].

Bydd Cyngor Llywodraethu TPC yn gweithredu'n fwy effeithiol, gyda newidiadau i helpu i atal swyddi gwag ac absenoldebau rhag rhwystro busnes arferol a phenodiadau. Bydd galluogi unrhyw aelod i gael ei ystyried i gael ei ethol yn gynrychiolydd cenedlaethol yn helpu i sicrhau nad yw penodiadau'r dyfodol yn cael eu cyfyngu'n ormodol.

Bydd trefniadau ynghylch gwrandawiadau apelau treth gyngor yn elwa ar welliannau a wnaed eisoes mewn perthynas ag ardrethu annomestig, gan sicrhau cysondeb yn y dull gweithredu, pan fo hynny'n briodol. Mae gallu cynnal gwrandawiadau cwbl rithwir yn faes pwysig ar gyfer cysondeb, o ran moderneiddio gweithrediadau TPC.

4. Rheol Sefydlog 21.3(vi) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Daeth Rheoliadau 2023 i rym ar 2 Awst 2023, yn ystod toriad haf y Senedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r ddau bwynt adrodd technegol yn unig.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

01 Medi 2023



SL(6)373 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023

Cefndir a diben

Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau ("ETS") y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("y prif Orchymyn") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, a fydd yn ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Cafodd ei ddylunio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr lleihau allyriadau yng Nghymru.

Cafodd ETS y DU ei sefydlu gan y prif Orchymyn i fod yn weithredol o 1 Ionawr 2021 ac i bara am ddeng mlynedd. Mae'r cynllun yn gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gweithfeydd diwydiannol ynni-ddwys, cynhyrchwyr pŵer a gweithredwyr awyrennau fonitro, adrodd ar ac ildio "lwfansau" sy'n cyfateb i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Mae rhai cyfranogwyr yn cael dyraniad o lwfansau yn ddi-dâl. Cyhoeddir eu manylion mewn tablau dyrannu.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys cyfres o ddiwygiadau technegol sy'n ceisio rheoleiddio gweithrediad ETS y DU. Mae'r Memoradum Esboniadol yn darparu mai dyma ddiben y prif newidiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn:

- Ymateb i effeithiau pandemig Covid-19 ar y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei weithredu;
- Cryfhau darpariaethau'r cynllun i'w wneud yn fwy effeithiol ond gan ei wneud yn fwy hyblyg i gyfranogwyr;
- Gwneud y ddeddfwriaeth yn gliriach i wneud pethau'n sicrach ac yn fwy cyson i gyfranogwyr a rheoleiddwyr.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn hwn yn y Cyfrin Gyngor gan Ei Fawrhydi cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd, Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon ar 21 Gorffennaf 2023. Caiff unrhyw un o'r deddfwrfeydd hynny ddiddymu'r Gorchymyn, yn unol â'r gweithdrefnau penderfyniad negyddol sy'n gymwys i'r deddfwrfeydd hynny.



Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Nodwn y cafodd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ei wneud gan Ei Fawrhydi a'i osod gerbron pob un o'r pedair deddfwrfa yn y Deyrnas Unedig, ac felly mae yn Saesneg yn unig.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

22 Awst 2023



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 10

Legislation, Justice and Constitution Committee



Ein cyf/Our ref: MA/JJ/1687/23

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw,

Ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am Ymateb Llywodraethau Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i'r Ymgynghoriad ar "Ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU", a gyhoeddwyd ar 3 Gorffennaf. Mae'r diweddariad hwn yn dilyn fy natganiad llafar ar 4 Gorffennaf 2023.

Fel y nodais, y newid allweddol o fewn Ymateb y Llywodraethau yw lleihau cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â thargedau sero net. O fewn yr Ymateb, ymrwymodd yr Awdurdod (sy'n gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i roi cap newydd ar waith erbyn mis Ionawr 2024. Nod yr Awdurdod yw rhoi rhaglen deddfwriaethol ar waith yn unol â'r penderfyniadau a'r bwriadau yn Ymateb y Llywodraethau, gan gynnwys ar gyfer y cap. Fel arfer byddai newidiadau i'r cap (uchafsymiau allyriadau adroddadwy sydd ar gael o dan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("Gorchymyn 2020") wedi cael eu gwneud drwy reoliadau o dan bŵer galluogi o fewn Deddf Newid Hinsawdd 2008 ("Deddf 2008"). Byddai rheoliadau o'r fath ar ffurf offeryn statudol wedi'i osod o fewn pob un o bedair deddfwrfeydd y Deyrnas Unedig ar ffurf Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Byddai offerynnau statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gan y byddent yn cynnwys darpariaeth a fyddai'n gwneud gofynion y cynllun masnachu'n "fwy beichus o lawer". Fodd bynnag, o ganlyniad i absenoldeb Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Chynulliad sy'n eistedd, nid oes modd gwneud deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ym mhob deddfwrfa ar yr un pryd.

Heb ddyddiad clir ar gyfer ffurfio Gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon, ac am fod amser yn ffactor critigol wrth wneud y newidiadau, mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU wedi bod yn asesu opsiynau eraill.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr opsiwn arall y cytunwyd arno yw i Lywodraeth y DU ddiwygio Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021 ("y Rheoliadau Arwerthu") drwy bŵer galluogi o fewn Deddf Cyllid 2020 ("Deddf 2020"), nes y gellir gwneud y newidiadau o dan Ddeddf 2008.

Mae'r pŵer galluogi o dan Adran 96(3) o Ddeddf 2020 yn gwneud y ddarpariaeth ganlynol: *The Treasury may make schemes about the conduct and terms of allocations of emissions allowances in return for payment (the schemes having effect subject to any regulations under this section).*

Mae'r Rheoliadau Arwerthu'n rhan o Fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac maent yn cael eu defnyddio i bennu cyfran y lwfansau y gellir eu harwerthu bob blwyddyn. Bydd y diwygiad hwn yn pennu'r gyfran y gellir ei harwerthu, ac felly nifer y lwfansau sy'n cylchredeg yn unol â'r cap sero net arfaethedig. Bydd hyn yn golygu bod nifer y lwfansau sydd ar gael i'r farchnad yn cyd-fynd â chap is sy'n gyson â sero net. Nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Arwerthu yn newid y cap a nodir yng Ngorchymyn 2020, a bydd angen diwygiadau i ddeddfwriaeth drwy bŵer galluogi o dan Ddeddf 2008 i gyflwyno'r polisi yn yr hirdymor. Fodd bynnag, bydd lleihau cyfran y lwfansau sydd ar gael i'w harwerthu yn cael yr effaith a ddymunir, nes y gellir gwneud y diwygiadau i'r ddeddfwriaeth drwy bŵer galluogi o dan Ddeddf 2008 – sef, cyfyngu ar allyriadau cyfranogwyr drwy leihau nifer y lwfansau sydd ar gael.

Yn unol â Fframwaith Cyffredin Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, safbwynt Llywodraeth Cymru ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yw mai mecanwaith yw'r elfennau ariannol, ar gyfer cyflawni nod terfynol y system, sef diogelu'r amgylchedd drwy roi cymhellion i ysgogi datgarboneiddio. Gan fod y diwygiad i leihau'r lwfansau arwerthu yn cael ei wneud i'r Rheoliadau Arwerthu, ac nid i'r ddeddfwriaeth sylfaenol, nid yw Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn berthnasol. Mae'r diwygiad yn cael ei wneud i is-ddeddfwriaeth drwy offeryn statudol. Gan nad yw'r is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio yn brif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir o dan baragraff 4 o Ran 1 o Atodiad 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, nid yw'r weithdrefn sydd i'w chymhwyso gerbron y Senedd yr un fath â'r hyn a fyddai'n berthnasol i'r ddeddfwriaeth honno pe bai'n diwygio deddfiad mewn deddfwriaeth sylfaenol. Fel, nid oes angen Memorandwm Cydsynio ar gyfer offeryn statudol, yn unol â Rheolau Sefydlog Llywodraeth Cymru¹. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd bwrw ymlaen â'r cynnig i addasu'r Rheoliadau Arwerthu yn golygu na fyddai Senedd Cymru (na'r Seneddau eraill) yn cael y cyfle i asesu'r newidiadau arfaethedig. Felly, rwy'n bryderus ynghylch defnyddio'r dull hwn.

Fodd bynnag, mae amser yn ffactor critigol wrth leihau cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Heb lwybr deddfwriaethol y cytunwyd arno, ni fyddai cyhoeddi Ymateb y Llywodraethau gyda'r ymrwymiad i gyflwyno'r cap erbyn 2024 wedi bod yn bosibl. Byddai methu â gwneud hwn wedi arwain at oedi wrth roi'r cap ar waith, a byddai hyn wedi peri risgiau sylweddol i'n targedau ar gyfer newid hinsawdd a chyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Y cyfan y bydd oedi wrth gyflwyno'r cap yn ei wneud yw creu amserlen dynnach ar gyfer cyflwyno'r cap (a datgarboneiddio) yn nes ymlaen yn y degawd hwn, a byddai hyn wedi rhoi rhagor o bwysau ar ein diwydiannau.

I gydnabod brys a phwysigrwydd y cynnig hwn, a'r angen i barchu'r prosesau gwleidyddol a deddfwriaethol yng Ngogledd Iwerddon, rwyf wedi cytuno gyda'r Gweinidogion Portffolio eraill ar draws yr Awdurdod i'r diwygiadau gael eu gwneud yn y ffordd hon. Rydym hefyd wedi ymrwymo, drwy lythyr, i ddeddfu o dan Ddeddf 2008 i leihau cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. I osgoi oedi wrth gyhoeddi Ymateb y Llywodraethau, ac o ganlyniad wrth gyflwyno'r cap newydd, bydd y broses graffu'n cael ei

¹ [Rheolau Sefydlog Senedd Cymru \(Senedd Cymru\)](#) Tudalen y pecyn 12

chynnal yn y ffordd arferol ar draws y pedair deddfwrfa yn dilyn deddfu ar gyfer y cap, drwy'r pŵer galluogi o dan Ddeddf 2008. Gan edrych tua'r dyfodol, byddaf yn parhau i geisio cymeradwyaeth y Senedd pan fydd gwneud hynny'n berthnasol.

O ran y cynigion eraill o fewn Ymateb y Llywodraethau, bydd rhai yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, yn unol â Deddf 2008, gan ddiwygio Gorchymyn 2020. Bydd hyn yn gwneud nifer o newidiadau gweithredol i'r cynllun a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y DU gyfan, fel cynnwys meincnodau yng Nghyfraith y DU. Mae'n dal i fod yn bosibl gosod deddfwriaeth o dan weithdrefn penderfyniad negyddol yng Ngogledd Iwerddon. Pan fydd wedi'i osod, bydd yr offeryn statudol yn dod i rym ar y dyddiad cychwyn a nodwyd. Fodd bynnag, pan fyddant yn dychwelyd, os bydd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn pasio penderfyniad i ddirymu o fewn y cyfnod statudol (sef cyfnod o ddeg diwrnod o leiaf pan fydd y Cynulliad wedi bod yn eistedd, ond heb fod yn llai na 30 diwrnod calendr mewn unrhyw achos yn ystod un sesiwn Cynulliad neu fwy) yna bydd y rheol honno yn ddi-rym o ddyddiad y penderfyniad hwnnw.

Bydd newidiadau eraill yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a byddant yn berthnasol i Brydain Fawr yn unig – er enghraifft, capio'r dyraniad am ddim ar gyfer hedfanaeth i 100% o allyriadau gweithredwr. Gan nad oes unrhyw weithredwyr yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd y byddai'r darpariaethau'r offeryn statudol hwn yn effeithio arnynt, mae'r Awdurdod wedi cytuno y byddai offeryn statudol ar gyfer Prydain Fawr yn unig yn dderbyniol yn y tymor byr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Ein cyf/Our ref: MA/JJ/1687/23

Llŷr Gruffudd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Gorffennaf 2023

Annwyl Llŷr,

Ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am Ymateb Llywodraethau Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i'r Ymgynghoriad ar "Ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU", a gyhoeddwyd ar 3 Gorffennaf. Mae'r diweddariad hwn yn dilyn fy natganiad llafar ar 4 Gorffennaf 2023.

Fel y nodais, y newid allweddol o fewn Ymateb y Llywodraethau yw lleihau cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â thargedau sero net. O fewn yr Ymateb, ymrwymodd yr Awdurdod (sy'n gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i roi cap newydd ar waith erbyn mis Ionawr 2024. Nod yr Awdurdod yw rhoi rhaglen ddeddfwriaethol ar waith yn unol â'r penderfyniadau a'r bwriadau yn Ymateb y Llywodraethau, gan gynnwys ar gyfer y cap. Fel arfer byddai newidiadau i'r cap (uchafsymiau allyriadau adroddadwy sydd ar gael o dan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("Gorchymyn 2020") wedi cael eu gwneud drwy reoliadau o dan bŵer galluogi o fewn Deddf Newid Hinsawdd 2008 ("Deddf 2008"). Byddai rheoliadau o'r fath ar ffurf offeryn statudol wedi'i osod o fewn pob un o bedair deddfwrfeydd y Deyrnas Unedig ar ffurf Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Byddai offerynnau statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gan y byddent yn cynnwys darpariaeth a fyddai'n gwneud gofynion y cynllun masnachu'n "fwy beichus o lawer". Fodd bynnag, o ganlyniad i absenoldeb Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Chynulliad sy'n eistedd, nid oes modd gwneud deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ym mhob deddfwrfa ar yr un pryd.

Heb ddyddiad clir ar gyfer ffurfio Gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon, ac am fod amser yn ffactor critigol wrth wneud y newidiadau, mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU wedi bod yn asesu opsiynau eraill.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 14
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr opsiwn arall y cytunwyd arno yw i Lywodraeth y DU ddiwygio Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021 ("y Rheoliadau Arwerthu") drwy bŵer galluogi o fewn Deddf Cyllid 2020 ("Deddf 2020"), nes y gellir gwneud y newidiadau o dan Ddeddf 2008.

Mae'r pŵer galluogi o dan Adran 96(3) o Ddeddf 2020 yn gwneud y ddarpariaeth ganlynlol: *The Treasury may make schemes about the conduct and terms of allocations of emissions allowances in return for payment (the schemes having effect subject to any regulations under this section).*

Mae'r Rheoliadau Arwerthu'n rhan o Fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac maent yn cael eu defnyddio i bennu cyfran y lwfansau y gellir eu harwerthu bob blwyddyn. Bydd y diwygiad hwn yn pennu'r gyfran y gellir ei harwerthu, ac felly nifer y lwfansau sy'n cylchredeg yn unol â'r cap sero net arfaethedig. Bydd hyn yn golygu bod nifer y lwfansau sydd ar gael i'r farchnad yn cyd-fynd â chap is sy'n gyson â sero net. Nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Arwerthu yn newid y cap a nodir yng Ngorchymyn 2020, a bydd angen diwygiadau i ddeddfwriaeth drwy bŵer galluogi o dan Ddeddf 2008 i gyflwyno'r polisi yn yr hirdymor. Fodd bynnag, bydd lleihau cyfran y lwfansau sydd ar gael i'w harwerthu yn cael yr effaith a ddymunir, nes y gellir gwneud y diwygiadau i'r ddeddfwriaeth drwy bŵer galluogi o dan Ddeddf 2008 – sef, cyfyngu ar allyriadau cyfranogwyr drwy leihau nifer y lwfansau sydd ar gael.

Yn unol â Fframwaith Cyffredin Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, safbwynt Llywodraeth Cymru ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yw mai mecanwaith yw'r elfennau ariannol, ar gyfer cyflawni nod terfynol y system, sef diogelu'r amgylchedd drwy roi cymhellion i ysgogi datgarboneiddio. Gan fod y diwygiad i leihau'r lwfansau arwerthu yn cael ei wneud i'r Rheoliadau Arwerthu, ac nid i'r ddeddfwriaeth sylfaenol, nid yw Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn berthnasol. Mae'r diwygiad yn cael ei wneud i is-ddeddfwriaeth drwy offeryn statudol. Gan nad yw'r is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio yn brif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir o dan baragraff 4 o Ran 1 o Atodiad 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, nid yw'r weithdrefn sydd i'w chymhwyso gerbron y Senedd yr un fath â'r hyn a fyddai'n berthnasol i'r ddeddfwriaeth honno pe bai'n diwygio deddfiad mewn deddfwriaeth sylfaenol. Fel, nid oes angen Memorandwm Cydsynio ar gyfer offeryn statudol, yn unol â Rheolau Sefydlog Llywodraeth Cymru¹. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd bwrw ymlaen â'r cynnig i addasu'r Rheoliadau Arwerthu yn golygu na fyddai Senedd Cymru (na'r Seneddau eraill) yn cael y cyfle i asesu'r newidiadau arfaethedig. Felly, rwy'n bryderus ynghylch defnyddio'r dull hwn.

Fodd bynnag, mae amser yn ffactor critigol wrth leihau cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Heb lwybr deddfwriaethol y cytunwyd arno, ni fyddai cyhoeddi Ymateb y Llywodraethau gyda'r ymrwymiad i gyflwyno'r cap erbyn 2024 wedi bod yn bosibl. Byddai methu â gwneud hwn wedi arwain at oedi wrth roi'r cap ar waith, a byddai hyn wedi peri risgiau sylweddol i'n targedau ar gyfer newid hinsawdd a chyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Y cyfan y bydd oedi wrth gyflwyno'r cap yn ei wneud yw creu amserlen dynnach ar gyfer cyflwyno'r cap (a datgarboneiddio) yn nes ymlaen yn y degawd hwn, a byddai hyn wedi rhoi rhagor o bwysau ar ein diwydiannau.

I gydnabod brys a phwysigrwydd y cynnig hwn, a'r angen i barchu'r prosesau gwleidyddol a deddfwriaethol yng Ngogledd Iwerddon, rwyf wedi cytuno gyda'r Gweinidogion Portffolio eraill ar draws yr Awdurdod i'r diwygiadau gael eu gwneud yn y ffordd hon. Rydym hefyd wedi ymrwymo, drwy lythyr, i ddeddfu o dan Ddeddf 2008 i leihau cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. I osgoi oedi wrth gyhoeddi Ymateb y Llywodraethau, ac o ganlyniad wrth gyflwyno'r cap newydd, bydd y broses graffu'n cael ei chynnal yn y ffordd arferol ar draws y pedair deddfwrfa yn dilyn deddfu ar gyfer y cap, drwy'r

¹ [Rheolau Sefydlog Senedd Cymru \(senedd.cymru\)](#) Tudalen y pecyn 15

pŵer galluogi o dan Ddeddf 2008. Gan edrych tua'r dyfodol, byddaf yn parhau i geisio cymeradwyaeth y Senedd pan fydd gwneud hynny'n berthnasol.

O ran y cynigion eraill o fewn Ymateb y Llywodraethau, bydd rhai yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, yn unol â Deddf 2008, gan ddiwygio Gorchymyn 2020. Bydd hyn yn gwneud nifer o newidiadau gweithredol i'r cynllun a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y DU gyfan, fel cynnwys meincnodau yng Nghyfraith y DU. Mae'n dal i fod yn bosibl gosod deddfwriaeth o dan weithdrefn penderfyniad negyddol yng Ngogledd Iwerddon. Pan fydd wedi'i osod, bydd yr offeryn statudol yn dod i rym ar y dyddiad cychwyn a nodwyd. Fodd bynnag, pan fyddant yn dychwelyd, os bydd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn pasio penderfyniad i ddirymu o fewn y cyfnod statudol (sef cyfnod o ddeg diwrnod o leiaf pan fydd y Cynulliad wedi bod yn eistedd, ond heb fod yn llai na 30 diwrnod calendr mewn unrhyw achos yn ystod un sesiwn Cynulliad neu fwy) yna bydd y rheol honno yn ddi-rym o ddyddiad y penderfyniad hwnnw.

Bydd newidiadau eraill yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a byddant yn berthnasol i Brydain Fawr yn unig – er enghraifft, capio'r dyraniad am ddim ar gyfer hedfanaeth i 100% o allyriadau gweithredwr. Gan nad oes unrhyw weithredwyr yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd y byddai'r darpariaethau'r offeryn statudol hwn yn effeithio arnynt, mae'r Awdurdod wedi cytuno y byddai offeryn statudol ar gyfer Prydain Fawr yn unig yn dderbyniol yn y tymor byr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Llywybrau Deddfwriaethol ar gyfer newid Cynllun Masnachu
Allyriadau'r DU

DYDDIAD 21 Gorffennaf 2023

GAN Julie James AS, Gweinidog Newid Hinsawdd

Fel y dywedais yn fy adroddiad llafar a roddais ar 4 Gorffennaf 2023, mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU) – sydd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn aelodau ohono – bellach wedi cyhoeddi Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar "Ddatblygu ETS y DU".

Yn y datganiad, disgrifiais y newidiadau strategol a thechnegol sydd yn Ymateb y Llywodraeth a'u harwyddocâd i Gymru. Y prif newid strategol a gyhoeddais oedd y gostyngiad yng nghap ETS y DU i fod yn gyson â'r targedau sero net. Mae'r Awdurdod wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i fabwysiadu'r cap newydd hwn ym mis Ionawr 2024 a bydd am ddilyn rhaglen deddfwriaethol yn unol â'r penderfyniadau a'r bwriadau yn Ymateb y Llywodraeth, gan gynnwys y cap.

Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau a ddaw yn sgil Ymateb y Llywodraeth yn dechnegol a/neu'n weithredol eu natur a rhaid eu gwneud drwy offeryn statudol (OS), gan ddilyn y weithdrefn negyddol, i ddiwygio Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("Gorchymyn 2020") yn unol â Deddf Newid Hinsawdd 2008 ("Deddf 2008"). Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl gwneud nifer o newidiadau gweithredol i'r cynllun a'u cymhwyso ledled y DU, megis cynnwys meincnodau yng nghyfraith y DU. Mae'n dal yn bosibl gosod deddfwriaeth o dan y weithdrefn penderfyniadau negyddol yng Ngogledd Iwerddon. Ar ôl ei osod, bydd yr OS yn dod i rym ar y dyddiad cychwyn penodedig. Fodd bynnag, ar ôl dychwelyd, os bydd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn pasio penderfyniad diddymu o fewn y cyfnod statudol (cyfnod sy'n cynnwys o leiaf 10 diwrnod y bydd y Cynulliad wedi bod yn eistedd, ond ddim llai na 30 diwrnod calendr yn ystod un neu fwy o sesiynau'r Cynulliad) yna bydd y rheol honno'n ddi-rym o ddyddiad y penderfyniad hwnnw.

Byddai newidiadau mwy arwyddocaol eraill, fel y cap, wedi cael eu gwneud fel arfer trwy OSau yn y Cyfrin Gyngor, o dan y weithdrefn gadarnhaol, a'u gosod yn holl deddfwrfeydd y DU yr un pryd, yn unol â Deddf 2008. Fodd bynnag, gan nad oes

Gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon na Chynulliad sy'n eistedd, nid yw'n bosibl gwneud deddfwriaeth ledled y DU drwy'r weithdrefn gadarnhaol.

Gellir rhoi'r rhan fwyaf o'r newidiadau arwyddocaol hyn ar waith trwy OS trwy weithdrefn gadarnhaol, a dyna a wneir, gan eu cymhwyso yn unig i Brydain Fawr, er enghraifft cap o 100% ar y dyraniadau am ddim ar allyriadau gweithredwyr hedfan. Gan nad oes gweithredwyr yng Ngogledd Iwerddon y byddai'r darpariaethau'r OS hwn yn effeithio arnynt, mae'r Awdurdod wedi cytuno y byddai OS i Brydain Fawr yn unig yn dderbyniol yn y tymor byr.

Fodd bynnag, ni cheir cymhwyso'r newidiadau i'r cap i Brydain Fawr yn unig gan eu bod yn effeithio ar y DU gyfan. Gan nad oes dyddiad clir ynghylch pryd y caiff Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ei ffurfio a chan fod amseru'n elfen hanfodol i weithredu'r newidiadau gofynnol, rhaid felly wrth drefn arall yn lle gosod OS ym mhob deddfwrfa yn y DU yr un pryd.

Yr ateb y cytunwyd arno yw bod Lywodraeth y DU yn diwygio Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021 (y "Rheoliadau Arwerthu") trwy bŵer galluogi o dan Ddeddf Cyllid 2020, nes y gellir gwneud y newidiadau o dan Ddeddf 2008.

Mae'r Rheoliadau Arwerthu yn rhan o Fframwaith ETS y DU ac fe'u defnyddir i bennu'r gyfran o lwfansau y gellir eu dwyn i ocsiwn bob blwyddyn. Bydd y diwygiad hwn yn gosod y gyfran arwerthu, ac felly nifer y lwfansau sy'n mynd i gylchrediad, yn unol â'r cap sero net newydd. Bydd hyn yn golygu bod nifer y lwfansau sydd ar gael i'r farchnad yn cyfateb i'r cap is, sy'n gyson â sero net. Mae'n bwysig nodi nad yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Arwerthu'n gostwng y cap fel y'i nodir yng Ngorchymyn 2020. Bydd angen diwygiadau deddfwriaethol, drwy bŵer galluogi o dan Ddeddf 2008, i ddarparu polisi yn y tymor hir. Fodd bynnag, bydd y newid interim hwn yn cael yr effaith a ddymunir nes y gellir gwneud y deddfwriaeth o dan Ddeddf 2008; sef lleihau allyriadau'r rhai sy'n cymryd rhan drwy leihau nifer y lwfansau sydd ar gael.

Fel y gwyddoch, yn unol â Fframwaith Cyffredin ETS y DU, barn Llywodraeth Cymru am ETS y DU yw mai unig ddiben yr elfennau ariannol yw bod yn fecanwaith ar gyfer gwireddu nod y system – sef diogelu'r amgylchedd trwy roi cymhelliad i ddatgarboneiddio. Gan fod y diwygiad i ostwng y lwfansau arwerthu yn cael ei wneud i'r Rheoliadau Arwerthu, ac nid i deddfwriaeth sylfaenol, nid oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae'r diwygiad yn cael ei wneud trwy OS i is-ddeddfwriaeth. Gan nad yw'r is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio yn brif deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir o dan baragraff 4 o ran 1 o dan atodlen 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, nid y weithdrefn hon yw'r weithdrefn y byddai Senedd Cymru yn ei dilyn pe bai'n diwygio deddfiad a gynhwysir mewn deddfwriaeth sylfaenol. Felly, nid oes angen Memorandwm Cydsyniad OS, yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru¹.

¹ [Rheolau Sefydlog Senedd Cymru \(Senedd Cymru\)](#) Tudalen 18 pecyn 18

Gallai newid y Rheoliadau Arwerthu, heb wneud y newidiadau angenrheidiol drwy'r pŵer galluogi o dan Ddeddf 2008, olygu o bosibl bod Senedd Cymru (a Seneddau eraill) yn colli'r cyfle i asesu'r newidiadau arfaethedig. O ganlyniad, rwy'n ofalus ynghylch defnyddio'r dull hwn.

Serch hynny, mae'r amserlen ar gyfer gostwng cap ETS y DU yn hanfodol. Heb gytuno ar lwybr deddfwriaethol, ni fyddai wedi bod yn bosib cyhoeddi Ymateb y Llywodraeth gyda'i hymrwymiad i roi'r cap ar waith erbyn 2024. Byddai peidio â gwneud hyn wedi gohirio'r cap ac felly wedi peryglu ein targedau hinsawdd a chyfranogwyr ETS y DU. Bydd gohirio'r cap ond yn arwain at ostyngiad llymach i'r cap (a datgarboneiddio) nes ymlaen yn y degawd hwn, gan roi mwy o bwysau ar ein diwydiannau.

Er fy mod wedi ymrwymo i sicrhau bod gan Senedd Cymru'r hawl a'r gallu i asesu darpariaethau sy'n dod o fewn ei chymhwysedd deddfwriaethol, mae'n bwysig bod y broses yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei pharchu. Felly, i gydnabod brys a phwysigrwydd y newid hwn, rwyf wedi cytuno â Gweinidogion Portffolios eraill yn yr Awdurdod bod y diwygiadau'n cael eu gwneud fel hyn. Rhag gohirio cyhoeddi Ymateb y Llywodraeth ac felly'r cap newydd, caiff y broses graffu ei chynnal fel arfer yn y pedair deddfwrfa pan y deddfir ar gyfer y cap drwy'r pŵer galluogi o dan Ddeddf 2008.

Rwyf wedi ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w hysbysu o'r amgylchiadau a'r broses a ddefnyddir. Yn ogystal, rwyf i a'r Gweinidogion Portffolios eraill yn yr Awdurdod hefyd wedi ymrwymo trwy gyfnewid llythyrau i ddeddfu o dan Ddeddf 2008 i ostwng cap ETS y DU cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Wrth symud ymlaen, byddaf yn parhau i geisio cymeradwyaeth Senedd Cymru pan ddaw materion o fewn cymhwysedd Senedd Cymru.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Eitem 2.4

SL(6)375 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2023

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) 2009 ("Rheoliadau 2009"), sy'n darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau i fyfyrrwyr sy'n amodol ar incwm yng Nghymru a Lloegr.

Mae Rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gostyngiad dros dro yn y gyfradd llog ar fenthyciadau israddedig a bennir yn rheoliadau 21A a 21C, a benthyciadau gradd ôl-raddedig a bennir yn rheoliad 21B, o Rheoliadau 2009. Mae'r gyfradd llog wedi'i gosod ar 7.3% ar gyfer y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi 2023 ac yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2023 ac, yn ymarferol, mae'n berthnasol i fenthycwyr Cynllun 2 a Chynllun 3. Ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y gyfradd llog yn dychwelyd i'r gyfradd wreiddiol a nodir yn Rheoliadau 2009, oni bai bod rheoliadau pellach yn cael eu dwyn i rym.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro (ym mharagraff 4.2) y byddai cyfraddau llog ar fenthyciadau, heb ymyrraeth, yn cynyddu i rhwng 12.91% a 15.91% ar gyfer benthycwyr Cynllun 2, ac i 15.91% ar gyfer benthycwyr Cynllun 3.

Y weithdrefn

Negyddol Cyfansawdd.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd. Gall Senedd y Deyrnas Unedig hefyd ddirymu'r Rheoliadau, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y Deyrnas Unedig.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, felly mae'r Rheoliadau: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y DU. O ganlyniad, gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig.



Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio fel a ganlyn:

"Fe wnaed Rheoliadau 2009 fel rheoliadau cyfansawdd gan Weinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) a'r Ysgrifennydd Gwladol. Maent yn llywodraethu ad-daliadau o fenthyciadau myfyrwyr gan fenthycwyr sydd wedi cymryd benthyciad yn seiliedig ar incwm ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl Medi 1998. Mae Rheoliadau 2009 yn cynnwys darpariaethau (heb eu datganoli i Weinidogion Cymru) a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru a Lloegr sy'n ymwneud â'r system dreth a weithredir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Gwneir rhai darpariaethau eraill gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.

Gan y bydd y Rheoliadau'n destun craffu gan Senedd y DU, ni ystyrir ei fod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog. Felly, mae Rheoliadau 2023 yn cael eu gwneud yn Saesneg yn unig."

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Awst 2023



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 21

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 2.5

SL(6)367 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) **2023**

Cefndir a diben

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("Mesur 2011") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ("safonau"). Mae'r safonau hyn yn disodli'r cynlluniau iaith Gymraeg y darperir ar eu cyfer yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae adran 26 o Fesur 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau, ac mae adran 39 yn eu galluogi i ddarparu bod safon yn benodol gymwys i berson drwy awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i roi hysbysiad i'r person hwnnw sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon ("hysbysiad cydymffurfio").

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth a nodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau fel "cyrff"). Penodir ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth o dan adran 6 neu drwy amrywio penodiad o dan adran 7 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Oherwydd bod y cyrff y mae'r safonau hyn yn ymwneud â hwy o fewn Atodlen 8 i Fesur 2011, mae adran 37 o Fesur 2011 yn darparu mai dim ond safonau cyflenwi gwasanaethau a safonau cadw cofnodion y gellir eu gwneud yn benodol gymwys iddynt. Nid yw safon cyflenwi gwasanaethau yn gymwys ond i'r graddau ei bod yn ymwneud â darparu gan y corff wasanaeth a bennir yng ngholofn 2 o gofnod y corff yn Atodlen 8 i Fesur 2011. Yn achos yr ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n dod o fewn Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn, mae'r gwasanaethau penodedig yn wasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd wrth arfer swyddogaethau ymgwymerwr dŵr neu ymgwymerwr carthffosiaeth (fel y bo'n briodol) ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni.

Mae'r Rheoliadau hyn yn defnyddio'r wyddor Gymraeg. Mae hyn yn effeithio ar baragraffau 26(3), 26(4), 33 o Atodlen 1. Mae'r arddull hon yn wahanol i'r arddull rifo arferol a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Mabwysiadwyd yr un arddull yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a'r Rheoliadau dilynol sy'n pennu safonau'r Gymraeg.

Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023. Os cânt eu pasio gan y Senedd, y rhain fydd wythfed Rheoliadau Safonau'r Gymraeg i'w gwneud. Fel arfer mae rhif yn enw un o gyfres o Offerynnau Statudol yn cyfeirio at y nifer a wnaed yn y flwyddyn benodol, fodd bynnag y bwriad yw y bydd yr holl Rheoliadau a wneir o dan adran 26 o Fesur 2011 yn cael eu gwneud mewn cyfres, yn yr un modd â gorchmynion cychwyn.

Gweithdrefn



Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Yn y Rheoliadau hyn ystyr "corff" yw person sy'n dod o fewn un neu'r ddau o'r categorïau o bersonau a restrir yn Atodlen 4. Mae Atodlen 4 yn rhestru personau sy'n darparu gwasanaethau dŵr neu garthffosiaeth i'r cyhoedd ac sydd, yn rhinwedd penodiad o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu yn rhinwedd amrywio penodiad o'r fath o dan adran 7 o'r Ddeddf honno, yn ymgwymerwyr dŵr neu garthffosiaeth ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni. Ni all aelod o'r cyhoedd sy'n darllen y Rheoliadau hyn adnabod yn hawdd y cyrff sy'n dod o fewn Atodlen 4. Er y cydnabyddir bod Atodlen 4 yn ailadrodd geiriad Mesur 2011 ac y gall y cyrff sy'n dod o fewn Atodlen 4 newid, byddai'n caniatáu ar gyfer mwy o hygyrchedd pe bai'r cyrff sy'n dod o fewn Atodlen 4 ar hyn o bryd yn cael eu rhestru yn ôl enw, naill ai yn y Rheoliadau eu hunain neu yn y Memorandwm Esboniadol.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau hyn rhwng 15 Chwefror 2023 a 5 Ebrill 2023. Nodir yn y ddogfen 'Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymateb' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, gan mai hwn oedd yr ail ymgynghoriad ar safonau drafft ar gyfer ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth, fod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori am gyfnod byrrach na'r arfer o 7 wythnos.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Gwnaed y penderfyniad i beidio â rhestru'r cwmnïau presennol sy'n dod o fewn Atodlen 4 i'r Rheoliadau yn ôl eu henwau er mwyn sicrhau hirhoedledd y Rheoliadau. Gallai rhestru cwmnïau yn ôl eu henwau fod wedi ei gwneud yn ofynnol i Rheoliadau diwygio gael eu gwneud a/neu achosi amwysedd pe bai ymgwymerwr dŵr a/neu ymgwymerwr carthffosiaeth newydd yn dechrau darparu gwasanaethau; pe bai cwmni a enwid yn rhoi'r gorau i ddarparu



gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru; pe bai cwmni yn mabwysiadu enw newydd, neu pe bai cwmni'n uno â chwmni arall.

Yn ogystal, dim ond pan fydd rhaid i gorff gydymffurfio â'r hysbysiad cydymffurfio a roddir gan Gomisiynydd y Gymraeg y bydd unrhyw ddyletswyddau neu hawliau yn codi. Bryd hynny, byddai Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pa gyrff sy'n gorfod cydymffurfio â'r safonau. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn bod y Rheoliadau Drafft yn achosi unrhyw broblem o ran hygyrchedd y gyfraith, mae'r Memorandwm Esboniadol wedi cael ei ddiwygio er mwyn cynnwys rhestr o'r holl gyrff a gwmpesir ar hyn o bryd gan y diffiniad yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

20 Gorffennaf 2023



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 24

Legislation, Justice and Constitution Committee

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Llywodraeth Cymru

Copi at: Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad

30 Mehefin 2023

Yngghylch: Rheoliadau drafft Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023

Annwyl Jeremy,

Diolch am eich llythyr dyddiedig **27 Mehefin 2023**, yn rhoi gwybod am eich bwriad i osod Rheoliadau drafft Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023 ("y Rheoliadau") gerbron y Senedd.

Gwnaethom drafod eich llythyr yn ein cyfarfod ddydd Iau 29 Mehefin 2023. Nodwn eich bod wedi gosod y Rheoliadau gerbron y Senedd ar 27 Mehefin 2023. Ysgrifennaf atoch i gadarnhau nad yw'r Pwyllgor yn bwriadu craffu ar y Rheoliadau hyn a chyflwyno adroddiad arnynt.

Er bod y Pwyllgor wedi dewis peidio â gwneud gwaith craffu ar y Rheoliadau penodol hyn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i drafod rheoliadau ynghylch Safonau'r Gymraeg a gwneud gwaith craffu arnynt yn y dyfodol. Hoffem wneud cais bod digon o amser yn cael ei neilltuo yn y dyfodol i'r Pwyllgor wneud gwaith craffu o'r fath a chyhoeddi adroddiad cysylltiedig. Yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu hysbysiad ymlaen llaw ynghylch ei bwriad i osod rheoliadau o'r fath, ac wedi cynnig rhoi ystyriaeth i drafodaethau'r Pwyllgor ynghylch y rheoliadau dan sylw wrth drefnu dyddiad ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn. Byddem yn ddiolchgar pe byddai modd cynnwys trefniadau o'r fath wrth gyflwyno rheoliadau ynghylch Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.

Yn gywir,

Delyth Jewell

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

SL(6)368 – Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023

Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023 (“y Rheoliadau hyn”) yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 9 i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (O.S. 2016/1154). Mae’r Rhan honno’n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr cyfleusterau deunyddiau hysbysu’r rheoleiddiwr os ydynt yn cael 1,000 tunnell neu ragor o ddeunydd gwastraff. Rhaid i weithredwyr gymryd sampl o’r gwastraff sy’n cyrraedd ac yn gadael y cyfleuster, a chofnodi ac adrodd ar yr wybodaeth honno i’r rheoleiddiwr.

Yn rhinwedd y diwygiadau hyn (ac yn benodol y diffiniad o ddeunydd gwastraff yn rheoliad 2(4)), bydd y math o ddeunydd gwastraff y mae’r trothwy ar gyfer hysbysu’r rheoleiddiwr yn gymwys iddo yn cynnwys deunydd gwastraff o un math, yn hytrach na dim ond deunydd o ddau fath neu ragor wedi eu cymysgu.

Mae gofynion samplu wedi eu diwygio, mewn cysylltiad â deunydd gwastraff a geir mewn cyfleuster deunyddiau (rheoliad 2(7)) a deunydd gwastraff sy’n gadael y cyfleuster hwnnw (rheoliad 2(8)), i estyn y mathau o ddeunydd y mae’n ofynnol eu nodi, gan gynnwys mathau o ddeunydd pacio.

Mae rheoliad 2(9) yn diwygio’r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion i adlewyrchu’r gofynion cymryd sampl newydd ac i’w gwneud yn ofynnol nodi cyflenwr pob swp o ddeunydd gwastraff a geir yn y cyfleuster deunyddiau. Mae rheoliad 2(11) yn gwneud diwygiadau cyfatebol i’r trefniadau ar gyfer adrodd i’r rheoleiddiwr.

Mae’r cyfnod y mae’n ofynnol cadw cofnodion ynddo ar gyfer gwybodaeth a gofnodir ar ôl i’r Rheoliadau hyn ddod i rym wedi ei estyn o bedair i saith mlynedd (rheoliad 2(10)).

Caniateir rhannu gwybodaeth a gafwyd gan y rheoleiddiwr â’r gweinyddwr ar gyfer cynllun ar gyfer cyfrifoldeb cynhyrchwyr am gostau gwaredu (rheoliad 2(12)).

Bydd yn ofynnol i’r holl gyfleusterau deunyddiau o fewn cwrdd gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn erbyn 1 Hydref 2024 ac adrodd ar ddata’r chwarter cyntaf i’r rheoleiddiwr erbyn 1 Ionawr 2025.

Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft Cyfansawdd

Gosodwyd drafft o’r Rheoliadau gerbron Senedd Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig.

Ni chaiff Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU wneud y Rheoliadau oni bai bod Senedd Cymru a Senedd y DU yn cymeradwyo’r Rheoliadau drafft.



Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn gyfansawdd eu natur. Mae paragraff 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

"Gan y bydd y rheoliadau'n destun craffu gan Senedd y DU, nid ystyrir ei bod yn ymarferol resymol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog."

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â fframweithiau cyffredin. Yn flaenorol, gwnaed ymrwymiad i'r Pwyllgor i hysbysu'r Senedd pan fydd deddfwriaeth yn ymwneud â fframwaith cyffredin.

Mae [llythyr](#) gan Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ar 26 Mehefin 2023, yn datgan fel a ganlyn:

"Rwy'n ysgrifennu er mwyn eich hysbysu bod Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023 a fydd yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru yn fuan yn dod o dan gwmpas y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Adnoddau a Gwastraff."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
17 Awst 2023



SL(6)374 – Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

Cefndir a diben

Mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a gyhoeddwyd yn 2013 wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023") a ddaeth i rym ar 3 Mai 2023

Fe wnaeth Rheoliadau 2023 ddiwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") er mwyn cynnwys opsiwn i apelau derbyn gael eu cynnal o bell, yn ogystal ag yn bersonol, neu drwy gymysgedd o'r ddau. Maent yn codio rhai trefniadau dros dro a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws.

Mae Rheoliadau 2023 yn gymwys i'r ddau fath o wrandawriad apêl derbyn yr ymdrinnir â hwy o dan Reoliadau 2005, hynny yw apelau yn erbyn penderfyniad awdurdod derbyn i wrthod derbyn plentyn ac apelau gan gyrff llywodraethu yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol i dderbyn i'w hysgol blentyn sydd wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor.

Mae'r Cod hwn hefyd yn cynnwys rhai diwygiadau technegol sy'n adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ers i'r Cod blaenorol gael ei gyhoeddi yn 2013.

Er gwybodaeth, gosodwyd y Cod hwn yn gyntaf ar 10 Mai 2023. Nododd adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a ddosbarthwyd ar 17 Mai 2023 nifer sylweddol o wallau yn yr offeryn, a chafodd y Cod ei dynnu'n ôl wedyn gan Lywodraeth Cymru ar 26 Mai 2023. Cafodd ei ailosod ar 7 Awst 2023.

Y weithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft).

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Cod hwn.



1. Ym mharagraff 3.3, mae datganiad ynghylch pobl "... sydd â phrofiad yn cynnal ymchwiliadau neu wrandawiadau disgyblu." [**pwyslais wedi'i ychwanegu**]. O ystyried y cyd-destun, mae'n ymddangos y dylai gyfeirio at "ymholiadau" yn hytrach nag "ymchwiliadau". Ategir yr asesiad hwn gan y ffaith bod y datganiad, yn y testun Cymraeg, yn cyfeirio at "ymchwiliadau" yn hytrach nag "ymholiadau" trwy ddefnyddio'r gair "ymchwiliadau" yn hytrach nag "ymholiadau".
2. Ym mharagraff 4.23, mae datganiad mewn cromfachau ynghylch yr apelwyr yn ildio'u "hawl i **gyfnod rhybudd 14 diwrnod** ynglŷn â'u hapêl" ac yna cyfeiriad at y paragraff sy'n nodi'r hawl honno i gyfnod rhybudd (paragraff 4.4). Fodd bynnag, mae paragraff 4.4 yn darparu bod yn rhaid "rhoi o leiaf **10 diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig** i apelwyr ynglŷn â dyddiad y gwrandawriad apêl". Mae'r anghysondeb hwn yn debygol o achosi dryswch i'r darllenydd, ac felly dylid diwygio paragraff 4.23 i gyfeirio'n gywir at yr hyn a nodir ym mharagraff 4.4.
3. Ym mharagraff 7.3, yn y testun Cymraeg, efallai y byddai'n fwy priodol defnyddio term gwahanol fel "cyflwyno" ar gyfer y cyfieithiad o "gofrestru". Mae'r term presennol, "cofrestru", yn awgrymu na ddylai'r dyddiad y bydd y panel apêl yn cyfarfod fod yn hwyrach na'r 15fed diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod pan **gofrestrir** yr apêl yn hytrach na'r diwrnod y caiff ei gyflwyno neu ei dderbyn.
4. Yn Atodiad A, ym mharagraff A.20, yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau "fel disgybl" ar goll o'r cyfieithiad o'r frawddeg "**derbyn plentyn fel disgybl**" [**pwyslais wedi'i ychwanegu**].

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

30 Awst 2023



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 30

Legislation, Justice and Constitution Committee



3 Awst 2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Annwyl Huw

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023

Gwnes i'r ymrwymiad yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Gorffennaf i ysgrifennu at y Pwyllgor yn amlinellu'r newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud i Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023 cyn eu cyflwyno. Gwnaed y newidiadau canlynol mewn perthynas â'r pwyntiau craffu a adroddwyd gan y Pwyllgor:

- Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae rheoliad 3(2)(a) wedi ei gywiro yn y testun Saesneg drwy fewnosod “, in the appropriate places in alphabetical order” ar ôl “regulation 2”, ac wedi ei gywiro yn y testun Cymraeg drwy fewnosod “, yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor” ar ôl “rheoliad 2”.
- Pwynt Craffu Technegol 2:** Mae'r rhagymadrodd wedi ei gywiro yn y testun Saesneg drwy ddileu'r geiriau (“the 1984 Act”) ar ôl “the Animal Health and Welfare Act 1984”, ac wedi ei gywiro yn y testun Cymraeg drwy ddileu'r geiriau (“Deddf 1984”) ar ôl “Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984”.
- Pwynt Craffu Technegol 3:** Mae rheoliadau 2(5)(a) a (b) wedi eu cywiro yn y testun Saesneg drwy fewnosod "Column 2" a "Column 3" ym mhen y colofnau yn y rhes gyntaf ac wedi ei cywiro yn y testun Cymraeg drwy fewnosod "Colofn 2" a "Colofn 3".

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Pwynt Craffu Technegol 4: Yn y testun Saesneg yn unig, mae rheoliad 3(8)(a)(iii)(aa) wedi ei gywiro drwy fewnosod “, in the first place it occurs,”. Dim ond yn y testun Saesneg yr oedd angen y mewnosodiad hwn gan nad yw'r un mater yn codi yn y testun cyfatebol Cymraeg.
- Pwynt Craffu Technegol 5: Yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg mae'r dyfynodau cau yn rheoliad 3(11)(c) wedi eu symud i ddiwedd y rheoliad.
- Pwynt Craffu ar rinweddau 7: Mae'r pwerau galluogi y cyfeirir atynt yn y rhagymadrodd wedi eu cywiro. Yn y testun Saesneg mewnosodwyd "(1) and (3)(c)" ar ôl "section 10". Ac yn y testun Cymraeg mewnosodwyd "(1) a (3)(c)" ar ôl "adran 10".
- Pwynt Craffu ar rinweddau 8: Mae cyfeiriad at baragraff 12 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wedi'i ychwanegu at y troednodyn perthnasol. Yn y testun Saesneg mewnosodwyd "Paragraph 1(8) of Schedule 7 applies to regulations under Schedule 4 by virtue of paragraph 12(3) of Schedule 7 to the 2018 Act." ar ddechrau'r troednodyn. Yn y testun Cymraeg, mewnosodwyd "Mae paragraff 1(8) o Atodlen 7 yn gymwys i reoliadau o dan Atodlen 4 yn rhinwedd paragraff 12(3) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018." ar ddechrau'r troednodyn.

Ar yr un pryd, cywirwyd rhai materion mân iawn o ran drafftio a fformatio, a nodwyd yn anffurfiol gan gyfreithiwr y Senedd a chan y Cofrestrydd OS. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys cywiro fformatio yn y troednodiadau, cywiro dau fân wall yn y troednodiadau ac yn y Nodyn Esboniadol, a chywiro rhai mân wallau atalnodi (e.e. gosod hanner colon yn hytrach nag atalnodi llawn ar ddiwedd is-baragraff).

Yn gywir



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

6 Medi 23

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinigol ar Drafnidiaeth

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu o gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinigol ar Drafnidiaeth, a fydd yn cael ei gynnal ar 13 Medi.

Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan Weinidog Trafnidiaeth Llywodraeth yr Alban a bydd yn ymdrin â'r lefelau gwasanaethau sydd eu hangen fan lleiaf, diwygio rheilffyrdd, a'r mandad ar gyfer cerbydau di-allyriadau.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfarfod.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoni AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

11 Gorffennaf

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 9 Mai cyn cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth, a gynhaliwyd ar 24 Mai, cyhoeddwyd cyd-hysbysiad sy'n crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfod ar deithio llesol a rhannu data. Fe'i cyhoeddwyd yma: : [Interministerial Group for Transport Matters Communiqué: 24 May 2023 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Dilysu Dulliau Amgen ar gyfer Teipio Salmonela
(Diwygio) 2023

DYDDIAD 17 Gorffennaf 23

GAN Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bydd Aelodau'r Senedd am wybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes mewn perthynas â Chymru.

Ceisiwyd cydsyniad gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon, y Gweinidog dros Fioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig, i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw [Rheoliadau Dilysu Dulliau Amgen ar gyfer Teipio Salmonela \(Diwygio\) 2023](#).

Gwnaed yr OS uchod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 13 Gorffennaf, wrth arfer y pwerau cydredol plws a roddwyd gan Erthygl 4(1) o Reoliad (EC) 2160/2003, ar gyfer rheoli salmonela a chyfryngau milheintiol eraill a nodwyd a gludir mewn bwyd.

Mae'r OS yn diwygio'r pedwar darn canlynol o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir, sy'n gysylltiedig â'r amryw ofynion ar gyfer samplu a phrofi am salmonela.

- **Rheoliad 1190/2012** (yn gysylltiedig â tharged undeb ar gyfer lleihau *Salmonella enteritidis* a *Salmonella typhimurium* mewn heidiau o dyrçiod)
- **Rheoliad 517/2011** (mewn perthynas â tharged undeb ar gyfer lleihau mynychder seroteipiau penodol o Salmonela mewn ieir dodwy o'r rhywogaeth *Gallus gallus*)
- **Rheoliad 200/2012** (yn gysylltiedig â tharged undeb ar gyfer lleihau *Salmonella enteritidis* a *Salmonella typhimurium* mewn heidiau o frwyliaid)
- **Rheoliadau 200/2010** (mewn perthynas â tharged undeb ar gyfer lleihau mynychder seroteipiau Salmonela mewn heidiau bridio aeddfed o'r rhywogaeth *Gallus gallus*)

Bydd y diwygiad bach i'r rheoliadau, a fydd yn cynnwys cyfeiriad at ddull teipio ISO – 16140-6, yn galluogi'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) i ddefnyddio Trefnu Genomau Cyfain fel dull teipio annibynnol ar gyfer Salmonella mewn dofednod.

Mae Trefnu Genomau Cyfain yn darparu mwy o wybodaeth o lawer na seroteipio traddodiadol, ac mae'n hwyluso gwneud cysylltiadau rhwng clefydau pobl a chlefydau anifeiliaid – rhywbeth sy'n allweddol ar gyfer cynnal ymchwiliadau epidemiolegol.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 13 Gorffennaf ac maent yn dod i rym ar 4 Awst 2023.

Bydd Aelodau am nodi nad yw'r Rheoliadau'n trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfreithiau sy'n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud a'u diwygio gan weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, oherwydd natur y diwygiadau, ystyrir ei bod yn briodol i OS ar gyfer y DU gyfan (wedi'i wneud gan Lywodraeth y DU) fod yn berthnasol i Gymru, gan nad oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y Rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Yn ogystal, mae natur y newidiadau y mae'r Rheoliadau'n eu gwneud yn fach ac yn dechnegol. O ganlyniad, rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 3 Ebrill. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Dilysu Dulliau Amgen ar gyfer Teipio Salmonela (Diwygio) 2023 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig sydd ar gael yn [Senedd Cymru](#).

Gwnaed yr OS uchod gan yr Ysgrifennydd Gwladol, wrth arfer y pwerau cydredol plws a roddwyd gan Erthygl 4(1) o Reoliad (EC) 2160/2003, ar gyfer rheoli salmonela a chyfryngau milheintiol eraill a nodwyd a gludir mewn bwyd. Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 13 Gorffennaf ac maent yn dod i rym ar 4 Awst 2023. Bydd Aelodau am nodi nad yw'r Rheoliadau'n trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfreithiau sy'n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud a'u diwygio gan weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, oherwydd natur y diwygiadau, ystyrir ei bod yn briodol i OS ar gyfer y DU gyfan (wedi'i wneud gan Lywodraeth y DU) fod yn berthnasol i Gymru, gan nad oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y Rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Yn ogystal, mae natur y newidiadau y mae'r Rheoliadau'n eu gwneud yn fach ac yn dechnegol. O ganlyniad, rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Yn gywir,



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SeneddLJC@senedd.wales

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw,

Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2023

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 28 Mehefin 2023. Rwy'n sgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2023 mewn cysylltiad â Chymru. Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig, gweler [Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus \(Diwygio\) 2023 \(3 Gorffennaf 2023\) | LLYW.CYMRU](#).

Mae'r OS yn diwygio Rheoliad (UE) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar lygryddion organig parhaus (ail-lunio) ("y Rheoliad POP a ddargedwir"). Mae'n estyn o 4 Gorffennaf 2023 i 3 Rhagfyr 2025 ddyddiad rhanddirymiad o ran gweithgynhyrchu, rhoi ar y farchnad a defnyddio asid perfflorooctanoig (PFOA), ei halwynau a chyfansoddion PFOA ar gyfer tecstilau sy'n gwrthsefyll olew a dŵr er amddiffyn gweithwyr rhag hylifau peryglus sy'n risg i iechyd a diogelwch. Mae'r Rheoliadau'n estyn i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Gwnaed yr Offeryn Statudol o dan erthyglau 2A, 15(1) a 18(1) Rheoliad POPs. Roedd yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 29 Mehefin 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol bod sylwedd y diwygiadau'n ymwneud â Chymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU ar y mater hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn gydlynol ac yn gyson, gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn. At hynny, Rheoliad ar gyfer Prydain Fawr yw'r rheoliad sy'n cael ei ddiwygio, felly rhaid gwneud y diwygiadau yn Saesneg yn unig.

Yn gywir,

A handwritten signature in cursive script that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in black ink on a white background.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



CYHOEDDIAD

Cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru: adroddiad ar gysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer y cyfnod 2021 i 2023

Adroddiad trosolwg ar y cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2023.

Cyhoeddwyd gyntaf: 18 Gorffennaf 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 18 Gorffennaf 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfrain](#).

Cynnwys

Cyflwyniad

Crynodeb

Cysylltiadau rhynglywodraethol

Casgliad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau a'r Ffynhonnellau.

Gwybodaeth am [hawlfrain](#).

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad trosolwg hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2023, ac mae'n cael ei gyhoeddi **yng nghyd-destun y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru** yn 2019. Mae'n bosibl bod y swyddi a amlinellir yn yr adroddiad hwn wedi newid a/ neu wedi datblygu ers y cyfnod adrodd hwn. Gan hynny, mae'r adroddiad yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â diweddariadau rheolaidd Llywodraeth Cymru i'r Senedd mewn cyfarfodydd llawn a phwyllgorau, a thrwy ddatganiadau a gohebiaeth, sef ar gael ar **wefan y Senedd**.

Crynodeb

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i elwa o berthynas gref gyda'r llywodraethau datganoledig eraill a chyda'r aelod-weinyddiaethau o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig y tu allan i'r DU yn ystod y cyfnod hwn.

3. Mae meysydd lle mae cydweithio a deialog adeiladol wedi bod yn bosibl gyda Llywodraeth y DU, er enghraifft mewn perthynas ag agweddau ar ymateb i bandemig Covid-19, ac mewn perthynas ag Wcráin.

4. Fodd bynnag, mae ymdrechion Llywodraeth y DU i danseilio'r setliad datganoli a'i diffyg parch parhaus at Lywodraeth Cymru a'r Senedd yn ystod llawer o'r cyfnod hwn wedi amharu ar waith rhynglywodraethol ac wedi niweidio undeb y Deyrnas Unedig. Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU a'r achosion niferus o dorri Confensiwn Sewel yn enghreifftiau penodol o hyn.

5. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae'r cytundeb a wnaed ddiwedd mis Mawrth i ddatblygu dau Borthladd Rhydd yng Nghymru yn dangos beth sy'n bosibl pan fydd Llywodraeth y DU yn mynd ati i weithio'n agored ac ar y cyd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

6. Datblygiad strategol nodedig yn ystod y cyfnod oedd cyhoeddi'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ym mis Ionawr 2022. Yn dilyn hyn, roedd arwyddion cynnar cadarnhaol o welliannau, gan ddefnyddio'r peirianwaith rhynglywodraethol cadarn a ddatblygwyd ar y cyd gan Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Mae 16 o'r 20 Grŵp Rhyngweinidogol arfaethedig ar lefel portffolio wedi eu sefydlu, ac mae'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol haen ganol a'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol Cyllid wedi cyfarfod, er bod hynny'n afreolaidd. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Prif Weinidog a'r Cyngor Penaethiaid Llywodraethau Datganoledig ym mis Tachwedd 2022.

7. Fodd bynnag, o ystyried ansefydlogrwydd Llywodraeth y DU dros y cyfnod hwn a newidiadau Gweinidogol rheolaidd yn y DU, roedd y cynnydd a'r momentwm o ran gweithredu'r ffyrdd newydd o weithio a'r mecanweithiau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Adolygiad yn arafach na'r disgwyl. Yn anffodus, roedd haf a dechrau tymor yr hydref 2022 yn gyfnod o ymgysylltu sal gan Lywodraeth y DU.

8. Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweld Cymru gref mewn DU lwyddiannus. Gall y strwythurau a'r mecanweithiau sy'n deillio o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol fod yn gam tuag at Deyrnas Unedig ddiwygiedig a chryfach, lle mae'r holl lywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd er budd y naill a'r llall. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n adeiladol i'r perwyl hwn, ond dim ond pan fydd ymddygiad a meddylfryd Llywodraeth y DU yn hwyluso hyn y mae cynnydd yn bosibl.

9. Yn yr hirdymor, rydym yn gobeithio y bydd gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, a gyhoeddodd ei adroddiad interim ym mis Rhagfyr 2022, yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer newid cyfansoddiadol ac ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol gwell.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau a'r Ffynhonnellau Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cysylltiadau rhynglywodraethol

Cyfansoddiad a datganoli

10. Mae'r amgylchiadau sy'n codi yn dilyn ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a COVID-19 wedi gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o fewn Llywodraeth y DU o'r Senedd, a rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ac wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau datganoli i sicrhau dyfodol yr Undeb. Daeth yr ymateb i COVID-19 â datganoli i'r amlwg yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Mae pobl ledled y DU bellach yn gwerthfawrogi'n ehangach beth mae cael pedair llywodraeth a deddfwrfa yn ei olygu mewn gwirionedd, a sut mae pwerau ein sefydliadau'n rhyngweithio.

11. Yn ystod 2021 a 2022, parhaodd Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ein pwerau gyda chryfder a hyder i liniaru effeithiau gwaethaf y pandemig ar ein dinasyddion, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi. Roedd hyn yn tynnu sylw at ein gallu i ddilyn ein dull gweithredu ein hunain, yn ogystal â'n dymuniad i gydweithredu ag eraill. Mae datganoli wedi hen ennill ei blwyf erbyn hyn, ac wedi'i gymeradwyo gan ein dinasyddion, ac mae ei sefydlogrwydd wedi'i wreiddio yn y gyfraith.

12. Mae cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a'u hymgysylltiad â chonfensiwn Sewel wedi arwain at straen penodol yn ystod y cyfnod hwn. O ran rhai o Fesurau Llywodraeth y DU, mae'r gwaith rhwng y llywodraethau wedi bod yn brydlon ac yn adeiladol. Mewn rhai achosion, mae cydweithio o'r fath wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru argymhell bod y Senedd yn cydsynio i ddeddfwriaeth y DU mewn rhai meysydd datganoledig, yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cymru.

13. Fodd bynnag, nid yw'r darlun ehangach ar Ddeddfwriaeth y DU yn gadarnhaol. Mae ymgysylltiad hwyr gan dimau'r Bil yn Llywodraeth y DU, ynghyd ag amharoddrwydd i rannu gwybodaeth a drafftio, yn symptomau o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i [https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023.html)

[adroddiad-2021-i-2023.html](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023.html) i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfrain](#).

anwybyddu'r diddordeb dilys sydd gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd yn neddfwriaeth y DU sy'n cyffwrdd â materion datganoledig. O ganlyniad, o Filiau'r DU a gyflwynwyd yn 2022, gwrthododd y Senedd roi cydsyniad i Fil Protocol Gogledd Iwerddon; y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl); y Bil Masnachu (Awstralia a Seland Newydd); y Bil Caffael (yn rhannol) a'r Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Mae Llywodraeth y DU wedi mynd yn ei blaen i anwybyddu penderfyniad clir y Senedd i wrthod cydsyniad yn groes i gonfensiwn Sewel – mae'r Mesurau Bridio Manwl a'r Mesurau Masnach bellach yn gyfraith.

14. O 31 Mawrth, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi argymhell bod cydsyniad yn cael ei gadw'n ôl mewn perthynas â'r Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Sylfaenol), y Mesur Mudo Anghyfreithlon a'r rhan fwyaf o'r Mesur Ffyniant Bro ac Adfywio. Nid yw cydsyniad wedi cael ei argymhell eto mewn perthynas â nifer o Fesurau eraill a gyflwynwyd, gan gynnwys y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2).

15. Yn fwy cyffredinol, mae strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig wedi cael eu profi'n sylfaenol. Roedd penderfyniad Llywodraeth y DU i ddefnyddio a35 Deddf yr Alban i atal deddfwriaeth a basiwyd gan Senedd yr Alban mewn perthynas â chydabod rhywedd rhag dod yn gyfraith yn garreg filltir beryglus. Yn y cyfamser, mae diffyg Pwyllgor Gwaith yng Ngogledd Iwerddon wedi gadael un rhan o'r Deyrnas Unedig heb lywodraeth ddatganoledig weithredol dan arweiniad Gweinidogion. Mae'r pwysau hyn wedi arwain at drafodaeth gyhoeddus fwy cyffredinol am weithrediad priodol cyfansoddiad y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

16. Yn hydref 2021, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, sy'n rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Mae'r Comisiwn wedi cael y dasg o ddatblygu opsiynau ar gyfer diwygio strwythurau cyfansoddiadol y DU yn sylfaenol, ac o ystyried a datblygu opsiynau i gryfhau democratiaeth yng Nghymru a sicrhau gwelliannau i bobl Cymru. Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad interim ym mis Rhagfyr 2022. Tynnodd y Comisiwn sylw at fregusrwydd cysylltiadau rhynglywodraethol fel pwynt pwysu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023.html> i weld y Ffynhonnellau ychydig yn fwy. Gwybodaeth am [hawlffraint](#).

allweddol yn y trefniadau cyfansoddiadol presennol. Maent yn nodi yn eu hadroddiad interim fod y peirianwaith ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol yn gweithredu yn ôl disgrisiwn Llywodraeth y DU, ac mae'r ffaith ei bod wedi ymgysylltu llai dros y blynyddoedd diwethaf wedi cyd-daro â'i pharodrwydd i ddiystyru confensiynau. Mae hyn yn golygu y gellir gwneud penderfyniadau unochrog nad ydynt yn cyfrannu at y canlyniadau gorau i ddinasyddion.

17. Cyfeiriwyd at waith y Comisiwn yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Gomisiwn ar Ddyfodol y Deyrnas Unedig Godron Brown, a wnaeth gyfres o gynigion radical ar gyfer diwygio cyfansoddiadol. Mae'r Comisiwn wedi dechrau cam nesaf ei waith a disgwylir iddo gynhyrchu ei adroddiad terfynol erbyn diwedd 2023.

Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol

18. Yn dilyn blynyddoedd o waith dwys gan Weinidogion a swyddogion yn ystod yr Adolygiad ar y cyd o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, cytunodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, i ddefnyddio'r pecyn o ddiwygiadau a ddaeth i'r amlwg o'r Adolygiad fel sail ar gyfer cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol.

19. Cafodd y pecyn ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2022 ac mae ar gael yma: [Adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol](#) ar GOV.UK

20. Ers cyhoeddi'r Adolygiad, mae cynnydd amrywiol wedi'i wneud o ran sefydlu ei beirianwaith. Ar ôl pob cyfarfod, cyhoeddir cyd-ddatganiad byr, ond mae Gweinidogion Cymru wedi gweithio i ddarparu rhagor o wybodaeth mewn Datganiadau Ysgrifenedig neu lythyrau manwl i Bwyllgorau perthnasol y Senedd:

- Mae 16 o grwpiau rhyngweinidogol wedi cael eu sefydlu ac ar waith.
- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cyngor Prif Weinidog y DU a Phenaethiaid y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Llywodraethau Datganoledig ar 10 Tachwedd 2022, a oedd yn canolbwyntio ar gostau byw a'r GIG ([Datganiad Ysgrifenedig: Cyngor Prif Weinidog y DU a Phenaeithaid y Llywodraethau Datganoledig](#)).

- Fe wnaeth y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol gyfarfod dair gwaith yn ystod y cyfnod hwn (Mawrth a Mehefin 2022 a Chwefror 2023) gan ganolbwyntio ar faterion trawsbynciol fel deddfwriaeth y DU, y sefyllfa barhaus yn Wcráin, a'r cynnydd mewn costau byw, ymysg materion eraill ([Datganiad Ysgrifenedig: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol](#)).
- Fe wnaeth FISC gyfarfod bedair gwaith yn ystod y cyfnod hwn (Mawrth, Mehefin a Hydref 2022 a Chwefror 2023); a thrafododd faterion allweddol fel adfer COVID-19, Sero Net, a'r cynnydd mewn costau byw ([Sefydlwyd Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid](#) ar [senedd.cymru](#)).
- Gwnaed cynnydd tuag at sefydlu Ysgrifenyddiaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol annibynnol.

21. Mae'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn nodi'r arferion gorau ar gyfer gwaith rhynglywodraethol, ac yn darparu llwybrau uwchgyfeirio pan fydd anghytuno yn codi. Mae osgoi anghydfod yn rhan annatod o'r peirianwaith sydd wedi'i sefydlu, gyda [mecanweithiau osgoi a datrys anghydfod](#) ar gael fel dewis olaf lle bo angen. Rydym wedi parhau i fynegi ein pryderon ynghylch pynciau rhynglywodraethol perthnasol (er enghraifft, mewn perthynas â rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin) gyda Llywodraeth y DU ar bob cyfle, gan ddefnyddio'r holl fecanweithiau sydd ar waith, a bod yn barod i uwchgyfeirio lle bo hynny'n briodol.

Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

22. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliwyd pedwar Uwchgynhadledd gan y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, gan gynnwys un a gynhaliwyd yng Nghymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffyniant Gyffredin ychydig yn fwy. Tudalen ympecyn 48
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Uwchgynhadledd Gogledd Iwerddon: 11 Mehefin 2021

23. Roedd Uwchgynhadledd Gogledd Iwerddon yn canolbwyntio ar flaenoriaethau ar gyfer adferiad Covid-19. Cafodd y Cyngor drafodaeth adeiladol a llawn gwybodaeth am y pwnc a oedd yn ymwneud ag effeithiau hirdymor posibl Covid-19, a dulliau cynaliadwy o adfer ([Datganiad Ysgrifenedig: 35ain cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig](#) ar LLYW.CYMRU).

Uwchgynhadledd Cymru: 19 Tachwedd 2021

24. Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Cymru yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan yng Nghaerdydd. Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod yr Uwchgynhadledd yn arddangos bywiogrwydd Cymru a Diwylliant Cymru. Un ffocws penodol ar gyfer yr Uwchgynhadledd oedd cefnogi leithoedd Lleiafrifol, Brodorol a Llai eu Defnydd, gan gyfeirio'n benodol at bolisi gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. Wrth arwain yr eitem hon, fe wnaethom arddangos gwaith arloesol Llywodraeth Cymru ar addysg iaith blynyddoedd cynnar ([Datganiad gan y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yng Nghymru](#) ar [senedd.cymru](#)).

Uwchgynhadledd Guernsey: 7 ac 8 Gorffennaf 2022

25. Roedd Uwchgynhadledd Guernsey yn canolbwyntio ar Gynllunio Gofodol Cydweithredol. Fe wnaeth y Cyngor fyfyrto ar ddatblygiadau gwleidyddol diweddar a manteisio ar y cyfle i ymgysylltu ar nifer o bynciau sydd o ddiddordeb i bawb. Cynhaliodd y Cyngor hefyd drafodaeth thematig ar gyfraniad cynllunio gofodol at adfywio trefi a'r agenda datgarboneiddio ([Datganiad Ysgrifenedig: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Guernsey](#) ar LLYW.CYMRU).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf. Tudalen y pecyn 49
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Uwchgynhadledd Blackpool: 10 ac 11 Tachwedd

26. Roedd Uwchgynhadledd Blackpool yn canolbwyntio ar Dwf ac Adfywio Cynaliadwy. Canolbwyntiodd y Cyngor ar ymdrechion sydd ar y gweill ar draws Aelod-Weinyddiaethau BIC i ysgogi a chefnogi twf economaidd cynaliadwy, datblygu cymunedau mwy cynhwysol, a'r pwysau ar dai yn benodol ([Datganiad Ysgrifenedig: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Blackpool](#) ar LLYW.CYMRU).

Coffáu'r diweddar Frenhines Elizabeth II

27. Yn dilyn marwolaeth drist Ei Mawrhydi, y Frenhines Elizabeth, ym mis Medi 2022, bu cyfnod o alaru cenedlaethol i fyfrio ar deyrnasiad Ei Mawrhydi. Roedd teyrngedau ar draws y DU ac ymwelodd y Brenin Charles a'r Frenhines Gydweddog â holl wledydd y DU, gan gynnwys Cymru, lle cawsant eu croesawu gan y Prif Weinidog.

28. Cafodd y digwyddiadau hyn eu cynnal yn llwyddiannus ac yn barchus drwy gydweithio a chydlynu agos ar draws y pedair gwlad. Cafodd y cydlynu hwn ei alluogi a'i gefnogi'n fedrus drwy strwythurau llywodraethu strategol a gweithredol effeithiol pedair gwlad, o'r cam cynllunio hyd at gyflawni.

COVID-19

29. Yn ystod 2021-22 fe wnaeth Llywodraeth Cymru barhau i ganolbwyntio ar yr ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus mwyaf arwyddocaol yn ein cyfnod. Parhaodd Llywodraeth Cymru i arwain ymateb gofalus sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r pandemig yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth â gwledydd eraill y DU a gweithio'n agos gyda'n partneriaid, gan arwain ar ein cyfrifoldebau datganoledig sylweddol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau ychydig yn fwy.

Gwybodaeth am [hawlfrain](#).

30. Mae ymgysylltu â llywodraeth y DU ynghylch COVID-19 wedi bod yn gymysg, ac er bod rhai pethau cadarnhaol o ran yr ymgysylltu agos rhwng y pedair gwlad, bu cyfnodau hir hefyd o ddim ond ychydig iawn o gyswllt â gweinidogion y DU, ac yn rhy aml mae datblygiadau wedi dod i'r amlwg drwy'r wasg a thrwy randdeiliaid cyn i lywodraeth y DU ymgysylltu ar lefel rynglywodraethol gyda Llywodraeth Cymru.

31. Yn ystod camau cynnar y pandemig, aeth y Prif Weinidog a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarfodydd COBR. Mae COBR yn dod ag uwch weinidogion a swyddogion o adrannau llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig at ei gilydd i ddarparu lefel uchel o gydlynw a gwneud penderfyniadau mewn ymateb i'r pandemig. Y cyfarfod COBR diwethaf a fynychwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd 1 Ionawr 2021.

32. Roedd cyfarfodydd rheolaidd rhwng Gweinidogion yn dal yn eu lle yn ystod 2021/22 ond ar ôl i don Omicron gyrraedd ei hanterth ym mis Ionawr, gwelsom wahaniaethau mewn trefniadau pontio ac amseru dileu cyfyngiadau cyfreithiol ar draws y gwledydd yn ystod 2022. Roedd trafodaethau cyllido ar gyfer 2022/23 yn heriol gyda Llywodraeth y DU oherwydd gostyngiad sylweddol mewn cyllid a threfniadau rhynglywodraethol wrth i'r pwyslais symud i wledydd sy'n datblygu eu trefniadau pontio eu hunain a chynlluniau ar gyfer byw gyda Covid-19 gan ganolbwyntio ar ddiogelu'r rheini sydd fwyaf agored i niwed. Mae newidiadau mewn Gweinidogion yn Llywodraeth y DU hefyd wedi effeithio ar lefel yr ymgysylltu.

33. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o bob adran yn ymgysylltu'n rheolaidd â'u cymheiriaid yn llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill, ac yn bennaf mae'r cysylltiadau hyn wedi parhau i fod yn adeiladol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Wcráin

34. Mae gwaith rhynglywodraethol sylweddol wedi bod ar y cynllun fisa Cartrefi ar gyfer Wcráin ers ei lansio ym mis Mawrth 2022. Mae Llywodraeth y DU wedi arwain dull gweithredu pedair gwlad, gyda chyfarfodydd uwch swyddogion wythnosol a phatrwm rheolaidd o ymgysylltu rhyngweinidogol.

35. Am y chwe mis cyntaf, roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar faterion gweithredol i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflwyno a'i weithio ar draws yr holl weinyddiaethau datganoledig, gan ystyried gwahanol ddulliau gweithredu ar faterion nad ydynt wedi eu datganoli, fel diogelu, trafnidiaeth ac addysg. Mae'r ymgysylltu hwn wedi cael ei gynnal wrth i'r cynllun ddatblygu ac wrth i nifer y bobl sy'n cyrraedd gynyddu'n sylweddol yn ystod misoedd yr haf.

36. Mae ymgysylltu parhaus â Gweinidogion wedi canolbwyntio ar gymorth cyfartal i wahanol garfannau sy'n cyrraedd ar wahanol lwybrau fisa, cyllid ar gyfer tariffau integreiddio a gwesteiwyr a'r cynlluniau hirdymor ar gyfer y rhaglen. Cafodd y trafodaethau hyn eu huwchgyfeirio o fis Rhagfyr 2022 ymlaen yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i dorri cyllid tariff integreiddio o 1 Ionawr 2023.

37. Ac eithrio'r toriadau cyllid a grybwyllwyd uchod, mae'r gwaith rhynglywodraethol ar yr Ymateb i Sefyllfa Wcráin wedi bod yn enghraifft dda o sut gall Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio'n adeiladol i ategu'r gwaith o integreiddio mudwyr yn ein cymunedau. Rydym yn annog Llywodraeth y DU i atgynhyrchu'r parch at ddatganoli, y mynediad at ddata ac ymgysylltu adeiladol rydym wedi'i gael drwy'r cynllun hwn mewn perthynas â chynlluniau sy'n ymwneud ag Affganistan, Hong Kong, y system lloches ac adsefydlu ffoaduriaid.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau ychydig yn fwy.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Mudo Arall Seiliedig ar Ddiogelu

38. Mae ein hymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chynlluniau mudo eraill sy'n seiliedig ar ddiogelu wedi bod yn llai cadarnhaol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref/yr Adran Ffyniant Bro yn trafod yn rheolaidd mewn perthynas â chynlluniau BNO Affganistan a Hong Kong, ond yn aml nid yw Llywodraeth Cymru yn cael digon o ddata na rhybudd ymlaen llaw o newidiadau arfaethedig i bolisiâu er mwyn galluogi'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol bosibl.

39. Mewn perthynas â'r system lloches, ychydig iawn o ddata a ddarperir i Lywodraeth Cymru ac nid oes unrhyw drafodaeth ddwyochrog reolaidd rhwng Gweinidogion na swyddogion i sicrhau bod newidiadau polisi'n cael eu deall, a bod effeithiau datganoli tebygol yn cael eu deall ymlaen llaw. Dim ond unwaith y mae'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo wedi cyfarfod, ac mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip wedi cael un cyfarfod ar wahân gyda'r Gweinidog Mewnfudo presennol, Robert Jenrick AS.

40. Mae'r system lloches yn dal i ddibynnu'n helaeth ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig, gan gynnwys gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a llywodraeth leol, ond nid ymgynghorir yn ddigonol â Llywodraeth Cymru i ddeall a pharatoi ar gyfer newidiadau, ac nid yw Llywodraeth y DU yn darparu cyllid priodol.

41. Rhoddir gwybod i Weinidogion Cymru am fwriad y Swyddfa Gartref i gaffael llety lloches gyda 24 awr o rybudd. Mae hyn yn welliant bach ar yr amgylchiadau blaenorol, ond yn aml ni all Gweinidogion y Swyddfa Gartref ateb cwestiynau Llywodraeth Cymru am gynigion yn brydlon.

42. Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 a'r Bil Mudo Anghyfreithlon, ond mae Gweinidogion y Swyddfa Gartref wedi ailddatgan

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf. Tudalen y pecyn 53
Gwybodaeth am [hawlfrain](#).

eu safbwynt bod y ddeddfwriaeth yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl yn unig. Mae hyn er bod Senedd Cymru wedi cytuno â Gweinidogion Cymru bod y darpariaethau yn Neddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 o fewn cymhwysedd datganoledig, ac wedi pleidleisio i wrthod rhoi cydsyniad i Senedd y DU ddeddfu. Bydd Senedd Cymru yn trafod gyda darpariaethau yn y Bil Mudo Anghyfreithlon fis Mehefin 2023.

43. Er bod y system mewnfudo a lloches yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am integreiddio'r rhai sy'n byw yng Nghymru. Mae adrannau Llywodraeth y DU sydd â chyfrifoldebau cyfatebol (yr Adran Addysg; yr Adran Iechyd; yr Adran Ffyniant Bro) yn ymwneud â chynllunio ar draws Whitehall ar gyfer cymorth integreiddio, ond nid yw hyn yn cael ei gynnig i Lywodraeth Cymru.

Ystadegau a dadansoddi

44. Cyhoeddwyd **Concordat ar Ystadegau** wedi'i ddiweddarau ym mis Hydref 2021 sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer cydweithredu ar draws y DU ar faterion ystadegol. Llofnodwyd y Concordat gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar y pryd, ynghyd â'r Ystadegydd Cenedlaethol ac Ysgrifenyddion Parhaol o bob gweinyddiaeth yn y DU.

45. Mae'r Concordat wedi gweithredu'n dda ers ei ddiweddarau, gyda chysylltiadau rhynglywodraethol wedi'u cydlynu'n bennaf ar lefel swyddogol rhwng y Prif Ystadegwyr a'r Ystadegydd Cenedlaethol. Mae Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhagweithiol yn bwrw ymlaen ag ysbryd y Concordat, gan weithio'n adeiladol ac ar y cyd ag ystadegwyr yn Llywodraeth y DU, a llywodraethau datganoledig eraill. Rhoddwyd sylw penodol i wella cymaroldeb a chydlyniaeth ystadegau ledled y DU. Yn ddiweddar, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar ystadegau iechyd, lle mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan weithredol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffyniant ychydig
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Caffael

Fframwaith Cyffredin Caffael Cyhoeddus

46. Roedd anghysondeb mewn polisi caffael cyhoeddus rhwng y pedair gweinyddiaeth eisoes yn bodoli cyn Brexit, ac mae'n dal yn bodoli ar ôl Brexit. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith Cyffredin ar gyfer Caffael Cyhoeddus wedi cadarnhau ymrwymiad pob gweinyddiaeth i rannu gwybodaeth am faterion polisi domestig a rhyngwladol sy'n ymwneud â chaffael, gan gynnwys unrhyw gynigion i ddeddfu, a allai effeithio ar weddill y DU. Er ei fod yn anneddfwriaethol, mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gynnal yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ac er bod gwahaniaethau polisi'n dal yn bodoli rhwng y gweinyddiaethau, mae bellach yn cael ei weithredu mewn ffordd fwy ystyriol.

47. Mewn cyfarfod rhwng uwch swyddogion o'r pedair gweinyddiaeth, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth eleni, cytunwyd yn unfrydol bod y Fframwaith Cyffredin yn hybu perthynas waith gadarnhaol sydd wedi sicrhau manteision y tu hwnt i gwmpas y fframwaith, gan gynnwys trafodaeth gydgysylltiedig ynghylch syniadau polisi ac archwilio dulliau gweithredu cyffredin.

Deddfwriaeth Caffael

48. Mae'r berthynas â Swyddfa Cabinet y DU ynghylch datblygu'r Bil Caffael a'i is-ddeddfwriaeth wedi bod yn gadarnhaol i raddau helaeth yn ystod y cyfnod hwn.

49. Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Bil Caffael, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gweithio'n agos ar lefel Gweinidogion a swyddogion i sicrhau'r cysondeb gorau posibl, ac i leihau'r risg o unrhyw wahaniaethau yn y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

ddeddfwriaeth fel y byddai'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr.

50. Cyn cyflwyno'r Bil i'r Senedd, cafodd dau aelod o Dîm Diwygio'r Broses Gaffael yn Llywodraeth Cymru eu secondio i Swyddfa Cabinet y DU am dri diwrnod yr wythnos. Drwy hyn, a'r ymgysylltu cadarnhaol rhwng swyddogion yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu dylanwadu'n helaeth ar gynnwys y Bil i sicrhau bod polisiau priodol yn cael eu hadlewyrchu yn narpariaethau'r Bil. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cynnal cysondeb i gyflenwyr sy'n rhan o brosesau caffael trawsffiniol.

51. Mae'r ymgysylltu hwn hefyd wedi cael cydnabyddiaeth am ennill 'cymeradwyaeth uchel' yng ngwobrau Cydweithredu a Phartneriaeth Swyddogaeth Fasnachol y Llywodraeth.

52. Roedd materion o bryder yr oedd angen eu datrys wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd. Mae swyddogion a Gweinidogion wedi gallu datrys yr holl faterion hyn ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â Masnach (fel y nodir isod). Mae'r berthynas â Swyddfa'r Cabinet ar lefel swyddogion a Gweinidogion yn parhau i fod yn gadarnhaol.

53. Un o'r meysydd allweddol ar gyfer cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yw datblygu'r pecyn dysgu a fydd ar gael i'r sector cyhoeddus i gefnogi'r broses o roi'r Bil Caffael ar waith. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, mae Swyddfa'r Cabinet yn creu rhaglen dysgu a datblygu wedi'i hariannu gynhwysfawr i helpu pawb sy'n gweithredu yn y drefn gaffael newydd i ddeall beth sy'n newid o'r systemau presennol sydd ar waith.

54. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu'r cynnwys dysgu i sicrhau bod y gwahaniaeth bach mewn polisi rhwng gwahanol awdurdodaethau yn y DU yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y deunyddiau dysgu a datblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Gweithgor Dysgu a Datblygu Trawsnewid Caffael Cyhoeddus a Bwrdd Rhaglen Dysgu a Datblygu Trawsnewid Caffael Cyhoeddus, sy'n darparu ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau a'r Ffynhonnellau. Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gyfer ystyried amrywiaeth ehangach o safbwyntiau gan amrywiaeth ehangach o randdeiliaid wrth ddatblygu'r dysgu. Ar ben hynny, mae rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cynnwys fel "uwch ddefnyddwyr" sy'n cynrychioli eu sefydliad / sector unigol fel rhan o weithgareddau parhaus Cymunedau Maes Llywodraeth y DU.

55. Yn gysylltiedig â hyn, ond mewn cam ar wahân, penderfynodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr (DHSC) gyflwyno trefn gaffael newydd ar gyfer cyrchu gwasanaethau iechyd yn Lloegr, a elwir yn 'Gyfundrefn Dethol Darparwyr' (PSR). Er mwyn gwneud hyn, mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys darpariaeth ddatgymhwyso yn y Bil Caffael a fyddai'n caniatáu iddynt eithrio gwasanaethau iechyd yn Lloegr, i bob pwrpas, rhag y gofynion a'r prosesau sy'n cael eu cyflwyno o dan y Bil Caffael. Bwriad y PSR yw symud i ffwrdd oddi wrth gystadleuaeth fel trefn arferol at drefn gaffael fwy hyblyg a chydweithredol o gaffael ar wasanaethau iechyd clinigol.

56. Gan y byddai'r PSR a'r ddarpariaeth ddatgymhwyso yn berthnasol i Loegr yn unig, golygai hyn y byddai trefn gaffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn parhau o dan drefn bresennol Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a'r gyfundrefn Mesur Caffael newydd sydd ar ddod. Byddai hyn wedi arwain at ddwy gyfundrefn gaffael wahanol rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG.

57. Rhoddodd GIG Cymru adborth y gallai cyflwyno'r PSR yn Lloegr effeithio'n andwyol ar gaffael gwasanaethau iechyd 'clinigol' yng Nghymru trwy ystumio'r farchnad gyflenwyr yn anfwriadol. Gallai hefyd effeithio ar y gallu i gomisiynu gwasanaethau iechyd ar sail gydgydymffurfiol / gydweithredol rhwng GIG Lloegr a GIG Cymru a negyddu unrhyw fanteision cysylltiedig o ran cost ac adnoddau. O ganlyniad, aeth Gweinidogion Cymru ati i ystyried y ffordd orau o liniaru'r risgiau hynny, a phenderfynwyd cyflwyno deddfwriaeth debyg yng Nghymru i ddarparu opsiwn i gyd-fynd â'r PSR.

58. Mae **Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)** a gyflwynwyd ym mis

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Chwefror 2023 ac sydd yn awr Nghyfnod 3 proses graffu'r Senedd, yn ceisio unioni'r sefyllfa hon a darparu'r pwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso'r darpariaethau yn y Bil Caffael ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, yn yr un modd â'r hyn a ddarparwyd ar gyfer DHSC. Mae hefyd yn darparu ar gyfer mewnosod pŵer i wneud rheoliadau yn Neddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i ddarparu ar gyfer trefn gaffael bwrpasol ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bydd y pwerau hyn yn cynnig opsiwn i gysoni cyfundrefnau caffael y gwasanaeth iechyd rhwng Cymru a Lloegr trwy adlewyrchu'r PSR, cyn belled ag sy'n briodol ac yn angenrheidiol, gan hefyd ddarparu'r hyblygrwydd i wyro oddi wrth y PSR lle nad yw'n cyd-fynd â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru.

59. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â'u cymheiriaid yn DHSC i sicrhau dealltwriaeth gynnar o'r modd y mae cynigion, rheoliadau a chanllawiau PSR yn cael eu datblygu.

Masnach a chaffael

60. Mae cyfarfodydd misol Llywodraeth y DU a'r Fforwm Llywodraethau Datganoledig wedi cael eu cynnal drwy gydol 2021-2023 gyda swyddogion Masnach, y Gyfraith a Chaffael Llywodraeth Cymru yn bresennol i drafod manylion parhaus i'w cynnwys mewn penodau caffael mewn trafodaethau Masnach Rydd drafft, ac mae'r rhain wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan.

61. Mae'r Pwerau Cydredol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) a'r Pwerau Cydredol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Caffael sy'n ymwneud â Masnach, a'r penderfyniad i wrthod diwygio'r rhain, wedi cael effaith negyddol ar y berthynas.

62. Tua diwedd mis Mawrth 2023, penderfynwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud ac yn gosod ei hofferyn statudol ei hun ar gyfer diwygiadau sy'n ymwneud â manylion sydd wedi'u cynnwys yng Nghytundebau Masnach Rydd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynonau ychydig

Tudalen n. 58

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Awstralia a Seland Newydd, yr oedd angen eu hadlewyrchu yn y Rheoliadau Caffael Domestig. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ar ôl y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn.

Etholiadau

63. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynychu a chynnal y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru, a gyfarfu bedair gwaith yn 2021-2023 ([Hysbysiad gan y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru](#) ar GOV.UK),

a gweithgorau swyddogion. Mae'r fforymau hyn wedi dod yn bwyntiau cyswllt allweddol ar gyfer nodi materion a rennir sy'n rhyng-ddibyniaethau, ac atebion arfer gorau.

64. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru drafodaethau helaeth gyda Llywodraeth y DU ar Ddeddf Etholiadau 2022 drwy gydol ei thaith i ddeddfwriaeth, ar lefel Gweinidogion a swyddogion. Ar 9 Medi 2021, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nad oedd yn argymhell cydsyniad i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, gan ffafrio archwilio rhai o'r materion drwy ddeddfwriaeth y Senedd.

65. Gosodwyd gwelliannau i'r Bil yn y camau diweddarach er mwyn gwthio Cymru allan o ddarpariaethau. Roedd y rhain yn sicrhau bod y Ddeddf yn cydnabod pwerau datganoledig yn well.

66. Er gwaethaf yr anghytundeb hwn ynghylch cymhwysedd sy'n ymwneud ag argraffu digidol a bygythiadau, cytunodd y Senedd ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn argymhell cydsyniad ar 29 Mawrth 2022.

67. Mae gwaith yn mynd rhagddo i reoli'r goblygiadau sy'n deillio o'r gwahaniaethau yn null gweithredu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gweithgor gwyro yn edrych ar effeithiau ymarferol newidiadau Deddf Etholiadau 2022, yn enwedig ar geisiadau am bleidlais bost, a'r ffordd orau o osgoi dryswch i bleidleiswyr.

68. O ystyried y pryder hwn, roedd Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y DU i leihau'r risg o etholiadau datganoledig ac etholiadau wedi eu cadw yn cyd-daro neu'n cael eu cyfuno yn y dyfodol. Croesawodd Gweinidogion Cymru ymateb Llywodraeth y DU i hyn: ymrwymiad Blwch Anfon ym mis Tachwedd 2021 y byddai Prif Weinidog yn ceisio osgoi cynnal etholiadau o dan drefniadau gwahanol ar yr un pryd neu'n agos iawn.

Pontio Ewropeaidd

69. Drwy gydol y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, roedd Llywodraeth Cymru yn ceisio ymgysylltu'n adeiladol â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r gwaith ar ôl diwedd y cyfnod pontio, o ystyried y gorgyffwrdd cymhleth rhwng cyfrifoldebau datganoledig a chyfrifoldebau wedi eu cadw. Parhaodd Gweinidogion Cymru i fynychu cyfarfodydd cyn Bwyllgor XO (Pwyllgor Cabinet y DU a oruchwyliodd faterion yn ymwneud ag ôl-drosglwyddo, a gafodd ei ailenwi yn ddiweddarach yn Bwyllgor Prydain Fyd-eang (Gweithrediaethau)) lle trafodwyd materion a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r Llywodraethau datganoledig. Sefydlwyd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ac mae bellach ar waith.

70. Ar ôl i'r DU adael yr UE a diwedd y cyfnod pontio, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU ar feysydd polisi lle mae pwerau'n dychwelyd o'r UE ac yn rhyngblethu â chymhwysedd datganoledig, drwy ddatblygu Fframweithiau Cyffredin y DU. Mae hyn yn ddatblygiad arwyddocaol yn y ffordd y mae Llywodraethau'r DU yn gweithio gyda'i gilydd yn yr hirdymor. Cytunwyd ar Fframweithiau Dros Dro ar ddiwedd y cyfnod pontio, ym mis Rhagfyr 2020. Ers

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau

Gwybodaeth am [hawlfraint](#). Tudalen ym 60

hynny, mae'r rhain wedi bod yn gweithredu fel cytundebau ar lefel swyddogol ac maent wedi bod yn destun craffu gan ddeddfwrfeydd, a fydd yn cael eu cwblhau pan fydd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn ailymgynnull. Mae **cyhoeddiadau Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â rhaglen Fframweithiau Cyffredin y DU** ar GOV.UK.

71. Cafodd Deddf Marchnad Fewnol y DU y Cydsyniad Brenhinol heb gydsyniad y Senedd na Senedd yr Alban. Mae'r Ddeddf yn achosi problemau o ran datganoli ac mae ganddi'r potensial i danseilio'r cynnydd a wneir drwy'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Yn dilyn hynny, cychwynnodd Llywodraeth Cymru weithredu cyfreithiol gan herio rhannau o'r Ddeddf a'i heffaith honedig ar y setliad datganoli. Gwrthododd y Goruchaf Lys y cam gweithredu hwn ar y sail ei fod yn gynamserol yn absenoldeb unrhyw enghreifftiau ymarferol ar ffurf deddfwriaeth y Senedd i brofi'r materion dan sylw yn eu herbyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu ei safbwynt yn yr ymglyfreitha a bydd yn parhau i fonitro cyfleoedd ar gyfer heriau pellach yn y dyfodol. Er hynny, mae defnydd Llywodraeth y DU o'r pwerau cymorth ariannol yn y Ddeddf yn parhau i danseilio datganoli ac yn rhoi gwerth gwael am arian i'r trethdalwr.

72. Drwy gydol 2021/2022 roedd trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch ei chynlluniau a'i chynigion ar gyfer cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE wedi parhau ac roedd y llwybr hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio i rannu adnoddau ac asedau cyfathrebu cysylltiedig. Mae'r ymgysylltu â Llywodraeth Cymru o ran Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE wedi bod ar y gweill ac o natur gydweithredol gydag amcan ar y cyd i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddinasyddion yr UE.

73. Parhaodd Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE drwy gydol 2021/2022 ac i 2022/2023 ar gyfer parhad gwasanaethau o'r fath yng Nghymru. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ragor o gyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, er bod y cyhoeddiad hwn yn hwyr iawn yn eu cyfnod cyllido ac wedi arwain at nifer

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023.html> i weld y fersiwn diweddaraf. Tudalen y pecyn 61
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

o randdeiliaid o Gymru yn lleisio pryderon bod y dull hwn wedi arwain at lefel uchel o ansicrwydd ynghylch cyflawni yn y dyfodol.

74. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, ni fu unrhyw ymgysylltu ymlaen llaw â llywodraethau datganoledig ynghylch newidiadau arfaethedig i'r system fewnfudo a dim cyfle i lywodraethau datganoledig gyfrannu at ddiwygiadau'r hydref a'r gwanwyn.

75. Yn gyffredinol, mae ymgysylltiad Llywodraeth y DU â mewnfudo wedi gwella rhywfaint ac mae fforwm System Ffiniau a Mewnfudo'r Dyfodol wedi bod yn fecanwaith defnyddiol iawn ar gyfer rhannu gwybodaeth.

76. O ran trefn ffiniau newydd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r gwledydd eraill, gan gynnal parch at y setliad datganoli ar yr un pryd. Mae hyn yn allweddol er mwyn osgoi dryswch posibl i fusnesau a chynnal trefn gyson o reolaethau iechyd mewnfurio ar draws Prydain Fawr. Wrth ddylunio'r Model Gweithredu Targed newydd, cefnogir ei brif egwyddorion gan y tair gweinyddiaeth. Mae'r cyrff llywodraethu ar gyfer asesu risg iechyd anifeiliaid a phlanhigion hefyd ar draws y DU.

77. Parhaodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda llywodraethau eraill y DU i sefydlu'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo, gyda chynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn y maes hwn a chyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol hwn yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2023.

78. Mae ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyngori ar Fudo (corff a noddir gan Lywodraeth y DU) wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'r ffaith bod y Pwyllgor wedi recriwtio cynrychiolydd o Gymru yn 2022 yn dangos ei ymrwymiad i ymgysylltu â llywodraethau datganoledig.

79. Tybir bod Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE yn ofynnol erbyn diwedd y cyfnod pontio, i wneud cywiriadau pellach i gyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau bod llyfr statud y gellir ei weithredu ac i weithredu'r Cytundeb Ymadael a'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i [https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html)

[adroddiad-2021-i-2023-html](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html) i weld y Ffynhonnellau ychwanegol. Tudalen ympecyn 62

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

cytundebau cysylltiedig, yn cael eu cyflawni'n unol â'r amserlen. Roedd nifer fach o'r offerynnau statudol hyn yn parhau i gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, a chyda chydysyniad yn cael ei roi i offerynnau statudol y DU mewn meysydd datganoledig, wrth i'r pŵer i'w gwneud ddod i ben ddiwedd 2022.

80. Cafodd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU ei gyflwyno yn y Senedd ym mis Medi 2022. Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r Bil yn gryf ac mae wedi gwneud hyn yn glir i Lywodraeth y DU, tra bod y Senedd wedi gwrthod cydysyniad deddfwriaethol ar ei gyfer ym mis Mawrth 2023, ond mae ymgysylltu wedi bod â Llywodraeth y DU ynghylch y goblygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir o dan y Bil, yn ganolog ac mewn meysydd polisi, fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

81. Mae gwaith rheoleiddio digidol Llywodraeth y DU yn parhau, yn fwyaf nodedig gyda'r Bil Diogelwch Ar-lein, y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol(Rhif 2) a'r Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Mae rhai agweddau ar y rhain wedi eu datganoli ac mae dull anghyson o rannu drafftiau cynnar Biliau. Mae hyn yn arwain at ddiffyg cytundeb ar faterion datganoledig yn ystod hynt y Biliau, ac mae hefyd yn rhoi pwysau gormodol ar dimau polisi a chyfreithiol.

Cysylltiadau rhyngwladol

82. Mae tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru wedi cael sesiynau briffio rheolaidd gan adrannau llywodraeth y DU, gan gynnwys y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) a'r Swyddfa Gartref, ar Lywyddiaeth y DU o'r G7 a chan Swyddfa'r Cabinet ar yr Adolygiad Integredig o Ddiogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Pholisi Tramor.

83. Mae FCDO wedi rhaeadru gwybodaeth gan lywodraeth y DU mewn ymateb i argyfyngau rhyngwladol fel ymadawiad y DU o Affganistan a'r materion dyngarol yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Yn ystod y broses o bobl yn gadael

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Tudalen y pecyn 63
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Afghanistan ym mis Awst 2021, y tîm Cysylltiadau Rhyngwladol oedd y prif bwynt cyswllt gyda'r FCDO. Cafodd swyddogion gudd-wybodaeth allweddol a'i rhannu ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rheini a oedd yn datblygu'r polisi adsefydlu. Yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin ym mis Chwefror 2022, cysylltodd swyddogion â'r FCDO gan rannu gwybodaeth/ystadegau dyddiol â Grŵp Cydlynu Risg a Pharodrwydd Llywodraeth Cymru. Mae adroddiadau dyngarol ar y sefyllfa yn parhau i gael eu darparu bob pythefnos ynghyd â dangosfwrdd economaidd bob pythefnos sy'n nodi effeithiau'r gwrthdaro ar economïau Rwsia ac Wcráin.

84. Mae cyfarfodydd swyddogion lefel uwch rheolaidd rhwng yr FCDO a'r Llywodraethau Datganoledig hefyd wedi cael eu trefnu, i drafod yr amrediad llawn o faterion rhyngwladol.

Cytundebau masnach rydd

85. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio gydag adrannau polisi arweiniol yn llywodraeth y DU ar Bwyllgorau Arbenigol Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE. Mae pob pwyllgor wedi'i sefydlu ychydig yn wahanol gan ddibynnu ar adran bolisi arweiniol llywodraeth y DU gyda chyfraniad Llywodraeth Cymru yn amrywio o drafodaeth gychwynnol ar agendâu, a mynd i'r pwyllgorau fel arsylwyr neu gyda rôl gyfranogol lawn. Yn gyffredinol, mae'r ymgysylltu ag adrannau polisi arweiniol llywodraeth y DU wedi bod yn gadarnhaol. Daethpwyd i gytundeb ynghylch sut y bydd y Llywodraethau Datganoledig yn ymwneud â'r pwyllgorau sydd wedi eu sefydlu o ganlyniad i Gytundebau Masnach Rydd gyda Gweddill y Byd. Bydd y trefniadau hyn yn adlewyrchu'r trefniant a roddwyd ar waith ar gyfer pwyllgorau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, gyda swyddogion yn ymgysylltu ar y pwyllgorau a'r opsiwn i drafod presenoldeb lle mae gennym ddiddordeb penodol.

86. Mae'r berthynas â'r Adran Masnach Ryngwladol (Yr Adran Busnes a Masnach ers mis Chwefror 2023) ar negodiadau Gweddill y Byd wedi parhau'n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023.html> i weld y ffaith hon yn eiddo'r Ffôn. Tudalen n. 64
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gadarnhaol i raddau helaeth. Mae rhannu gwybodaeth mewn meysydd sy'n cael eu hystyried yn 'ddatganoledig' gan Lywodraeth y DU yn dda ac mae rhai gwelliannau wedi bod o ran sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ystod camau olaf y trafodaethau. Cafodd gwelliannau ehangach o ran rhannu gwybodaeth eu rhoi ar waith yn gynnar yn 2023 ac erbyn hyn mae swyddogion yn gweld y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn iddynt allu ymgysylltu'n llawn ar wahanol gamau yn y trafodaethau. Mae swyddogion eisoes wedi gweld mantais hyn yn rhai o'r trafodaethau mwy newydd - er enghraifft, gyda Chyngor Cydweithredol y Gwlff a Chanada.

87. Cynhaliwyd dau gyfarfod ffurfiol (ym mis Gorffennaf ac Ionawr) o'r Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach (sydd bellach yn rhan o'r strwythur Cysylltiadau Rhyngwladol ehangach fel y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Masnach) yn ystod 2021/22, yn ogystal â chyfarfodydd dwyochrog gweinidogol rheolaidd. Rydym wedi cael cyfle i roi sylwadau ar faterion sy'n ymwneud â'r holl drafodaethau masnach sy'n mynd rhagddynt, gan gynnwys camau olaf y trafodaethau gydag Awstralia a Seland Newydd a gosod mandad ar gyfer trafodaethau newydd sydd ar y gweill, fel India. Er nad oedd gwybodaeth ddigonol yn cael ei rhannu â ni bob amser yn ystod camau olaf y trafodaethau ag Awstralia, gwnaed gwelliannau yn ystod y trafodaethau gyda Seland Newydd ac, er gwaethaf pryderon ynghylch y cytundeb ei hun, roedd y broses ymgysylltu'n rhedeg yn fwy esmwyth. Rydym yn gobeithio gweld cynnydd parhaus yn y maes hwn.

88. Mae'r ymgysylltu ar ymuno â'r Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP) wedi bod yn wahanol i'r trafodaethau ar gyfer Cytundebau Masnach Rydd newydd, sydd wedi'i ysgogi'n rhannol gan y ffaith y bydd y DU yn cadw at gytundeb sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, fe wnaeth yr ymgysylltu ar y fargen wella yn ystod 2022 a dechrau 2023.

Cyllid

89. Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Rhagfyr 2022 cynhaliwyd saith o gyfarfodydd â

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Gweinidogion Cyllid y DU. Cynhaliwyd cyfarfodydd pedairochrog ar 20 Gorffennaf 2021, 14 Hydref 2021 a 12 Ionawr 2022. Ar 21 Mawrth 2022, cyfarfu'r Gweinidogion am y tro cyntaf fel y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar gyfer Cyllid (F:ISC), gyda thri chyfarfod arall yn cael eu cynnal ar 15 Mehefin 2022, 20 Hydref 2022 a 9 Chwefror 2023, er i gyfarfod mis Hydref gael ei gwtogi oherwydd ymddiswyddiad y Prif Weinidog yn ystod y cyfarfod hwnnw. Mae'r F:ISC yn ffurfioli cyfarfodydd Pedairochrog y Cyn-Weinidogion Cyllid o dan yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

90. Roedd y trafodaethau dros y cyfnod yn canolbwyntio ar amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys ein hymateb i Covid ac adferiad ar ôl Covid, yr argyfwng costau byw, cefnogi'r rheini sy'n ffoi rhag rhyfel yn Wcráin, cyflogau'r sector cyhoeddus, defnyddio'r pwerau Cymorth Ariannol yn Neddf Marchnad Fewnol y DU, cyllid disodli'r UE, Sero Net a hyblygrwydd y gyllideb, yn ogystal â gweithredu trefniadau newydd F:ISC.

91. Pan ddaeth Omicron i'n sylw yn ystod Gaeaf 2021-22, roedd yr ymgysylltu yn ystod y cyfnod hwn yn canolbwyntio ar ofynion cyllid Covid ac ymatebion y Llywodraeth, gyda chais ar y cyd gan y llywodraethau datganoledig i yn gofyn i Lywodraeth y DU barhau i fod yn bragmatig petai amgylchiadau yn unrhyw un o'r pedair gwlad yn mynnu bod y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod Coronafeirws a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig yn cael eu hadfer yn ogystal â chais i wneud y cynnydd parhaol o £20 i Gredyd Cynhwysol.

92. Fe wnaethom barhau hefyd roi pwyslais ar werth sicrwydd cynnar a mwy o dryloywder o ran gwneud penderfyniadau ariannol gan Lywodraeth y DU. Ochr yn ochr â'r llywodraethau datganoledig eraill, cawsom sicrwydd gan Lywodraeth y DU y byddai'r arian a ddyrannwyd i gefnogi'r ymateb i Covid-19 yn cael ei ddarparu'n llawn, a chytunwyd ymhellach y gellid trosglwyddo'r cyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU i'r llywodraethau datganoledig ddiwedd y flwyddyn ariannol i'w ddefnyddio yn y flwyddyn ganlynol. Mae trafodaethau hefyd wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd sicrwydd a chyllid cyfartal mewn perthynas â chymorth i bobl Wcráin yn y DU.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Tudalen nwyddyn 66
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

93. Cynhaliwyd sawl trafodaeth am yr argyfwng costau byw sy'n dod i'r amlwg a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Roedd llywodraethau datganoledig yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i ddarparu cymorth i aelwydydd a busnesau. Gofynnwyd hefyd am wybodaeth am gynigion Llywodraeth y DU, gan gydnabod mai Llywodraeth y DU oedd yn dal y prif adnoddau a dulliau cyllidol i fynd i'r afael â'r argyfwng. Wrth i'r argyfwng barhau, fe wnaethom annog Llywodraeth y DU i dargedu cymorth i'r bobl fwyaf agored i niwed, gan gyflwyno camau ymarferol mewn perthynas â thai, ynni a lles y gallai Llywodraeth y DU eu cymryd i wneud gwahaniaeth go iawn i'r rheini sy'n cael eu taro galetaf. Roeddem hefyd wedi gofyn i Lywodraeth y DU gymryd camau i fynd i'r afael ag effaith chwyddiant ar gyllidebau'r sector cyhoeddus a buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi twf economaidd.

94. Gyda COP26 ym mis Tachwedd 2021 yn gefndir, bu ffocws ar ein hymdrechion ar y cyd i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rhannwyd gwybodaeth am gamau arloesol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni Sero-Net. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd ein cais i Lywodraeth y DU am hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol, yn enwedig mewn perthynas â'n terfyn benthyca cyfalaf, i ganiatáu buddsoddi mewn seilwaith carbon isel.

95. O ran pwerau Cymorth Ariannol Deddf Marchnad Fewnol y DU, fe wnaethom barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU ynghylch sut yr oedd yn bwriadu gweithio gyda llif polisi llywodraeth ddatganoledig, fel y nodir gan Weinidog y DU dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Gwnaethom hefyd barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gyflawni ei hymrwymiad i ddisodli cyllid yr UE yn llawn a darparu enghreifftiau o raglenni cenedlaethol, gan gynnwys prentisiaethau a chymorth busnes, a oedd yn dibynnu ar y cyllid hwn ac a oedd yn hanfodol i'n heconomi. O ran disodli cyllid gwledig yr UE, ochr yn ochr â'r llywodraethau datganoledig eraill, fe wnaethom fynegi ein pryderon ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU, gan amlinellu sut nad yw'n disodli cyllid yr UE yn llawn. Sicrhawyd cam gweithredu yn F:ISC Chwefror 2023 ar gyfer Llywodraethau'r DU a Llywodraethau datganoledig i drafod y gwahaniaethau yn eu hasesiad o'r cwantwm mewn cyllid yn lle'r UE drwy ymarfer llyfr agored ac i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

archwilio sut y gallant gyflawni mwy o gysondeb strategol wrth ddarparu cyllid a fydd yn cymryd lle cyllid yr UE.

96. Ar ben hynny, fe wnaethom barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau ei bod yn talu costau ychwanegol swyddogaethau newydd sy'n deillio'n uniongyrchol o ymadael â'r UE, fel y gweithrediadau sydd eu hangen ar y ffin â Chymru.

97. Cyflwynwyd cynnig i'r F:ISC yn ceisio gwelliannau i gryfhau prosesau er mwyn darparu mwy o sicrwydd diwedd blwyddyn i'r llywodraethau datganoledig a gefnogir gan hyblygrwydd cyllidebol priodol, ac mae trafodaethau'n parhau.

98. Cyn Digwyddiadau Cyllidol y DU, fe wnaethom amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a gofyn am eglurder gan Lywodraeth y DU ar ei chynlluniau gwariant a threth. Cyn Cyllideb yr Hydref a'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ym mis Hydref 2021, fe wnaethom ofyn i Lywodraeth y DU weithio gyda ni a darparu cyllid i gefnogi'r gwaith o adfer ac ailbwrpasu tomennydd glo yng Nghymru yn yr hirdymor. Roeddem hefyd wedi pwysu am eglurder ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac ni chawsom unrhyw fanylion ar hynny. Cyn Datganiad Gwanwyn y DU ym mis Mawrth 2022, digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU yn ystod hydref 2022 a Chyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2023, prif ffocws ein hymgysylltiad â Llywodraeth y DU oedd pwysu am gamau brys i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus.

99. Roeddem hefyd wedi parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'i thanffuddsoddiad hanesyddol mewn rheilffyrdd ac Ymchwil a Datblygu yng Nghymru, ac wedi tynnu sylw at gyfleoedd mewn perthynas â datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cymorth i'r Diwydiant Dur a gwella tryloywder o ran Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a'r Mekanwaith Addasu Ffiniau Carbon.

100. Ni chafwyd unrhyw wybodaeth (neu wybodaeth gyfyngedig iawn) gan

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i [https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html)

[adroddiad-2021-i-2023-html](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html) i weld y Ffynonau a'r Ffynonau

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Llywodraeth y DU cyn ei digwyddiadau cyllidol er gwaethaf y goblygiadau i'r gwledydd datganoledig, gan gynnwys ein gwaith ein hunain yn cynllunio cyllidebau a chraffu ar y Senedd. Dim ond ar fore Datganiad y Canghellor y cawsom wybod am becyn costau byw Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2022.

101. Mae adegau wedi bod lle mae Llywodraeth y DU wedi gweithio'n gadarnhaol ac yn adeiladol gyda ni, er enghraifft, mewn perthynas â Phorthladdoedd rhydd lle dangosodd Llywodraeth y DU barodrwydd i weithio fel partneriaid cyfartal. Dyma enghraifft o sut y gallwn weithio gyda'n gilydd a dod â'n gwahanol bwerau, dulliau ac arbenigedd i gyflawni dros Gymru. Mae angen i'r ffordd hon o weithio fod yn berthnasol i feysydd eraill gan gynnwys Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r Gronfa Ffyniant Bro, lle dylai cyllid ddod yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru er mwyn i bob sector allu elwa o'r rhaglenni hyn.

102. Roedd sefydlu'r F:ISC ym mis Mawrth 2022 yn benllanw ymdrechion sylweddol i gryfhau a ffurfioli cysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol. Cymeradwyodd y Gweinidogion Cyllid Gylch Gorchwyl F:ISC a chytunwyd ar brotocol gweithredu sy'n rhoi cyfarfodydd ar sail fwy cyfartal gyda Chadeiryddiaeth ac ysgrifenyddiaeth gylchredol. Mae swyddogion hefyd wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu swyddogaeth ysgrifenyddiaeth ar y cyd. Mae parodrwydd hefyd i alluogi swyddogion o bob rhan o'r Gweinyddiaethau i weithio gyda'i gilydd i ystyried materion o ddiddordeb cyffredin gan gynnwys cyfathrebu a hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn y gyllideb. Y gobaith yw y bydd y dull newydd hwn yn parhau i ddatblygu, er mwyn galluogi mwy o ymgysylltu a rhannu gwybodaeth mewn ysbryd o barch at ei gilydd.

Porthladdoedd Rhydd

103. Mae'r polisi Rhaglen Porthladd Rhydd yng Nghymru yn feincnod ar gyfer sut gall Llywodraeth Cymru weithredu mewn partneriaeth sy'n gyfartal â Llywodraeth y DU. Roedd y ddwy lywodraeth wedi cyd-gynllunio'r broses

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023.html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am [hawlfrain](#).

ddethol; roedd swyddogion o'r ddwy lywodraeth wedi asesu'r ceisiadau ar y cyd ac roedd gan y ddwy lywodraeth lais cyfartal yn y penderfyniad terfynol ar y safleoedd a fydd yn symud ymlaen yn y broses. Mae'r ddwy Lywodraeth, ar lefel swyddogion a Gweinidogion, wedi ymrwymo i'r dull hwn.

104. Fe wnaethom weithio'n helaeth gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y Rhaglen Porthladd Rhydd yng Nghymru wedi cael ei dylunio i gyd-fynd â'n polisiau ar waith teg a sero net.

105. Mae'r cydweithio hwn wedi cael ei ymestyn i'r Parthau Buddsoddi. Rydym yn cynnal trafodaethau cynnar â Llywodraeth y DU gan ei bod bellach wedi ail-lansio a newid ffocws ei rhaglen Parthau Buddsoddi, fel y cyhoeddwyd yng Nghyllideb y Gwanwyn.

Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

106. Gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn disodli cyllid yr UE, nid yn unig mae'n gadael Cymru £1.1 biliwn yn fyr o'i gymharu â chronfeydd Strwythurol a Gwledig yr UE, ond mae hefyd yn sefydlu system gyllido sy'n: anwybyddu Llywodraeth Cymru a'r Senedd; yn eithrio sectorau twf allweddol gan gynnwys prifysgolion, colegau a'r sector gwirfoddol; yn atal prosiectau strategol sy'n cael effaith uchel; ac yn rhoi gofynion annerbyniol ar ein hawdurdodau lleol.

107. Mae dyluniad a darpariaeth wael y cynllun yn glir. Dim ond i awdurdodau lleol ar ddiwedd mis Ionawr 2023 y rhyddhawyd cyllid o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 (roedd Llywodraeth y DU i fod i gymeradwyo'r cynlluniau a dechrau'r taliadau ym mis Hydref 2022). Er mwyn sicrhau bod gwariant yn cael ei gwblhau yn ôl yr angen erbyn 31 Mawrth 2025, bydd angen i weithgarwch prosiect y Gronfa Ffyniant Gyffredin ddod i ben erbyn mis Rhagfyr 2024. Mae hyn yn golygu, er ei fod yn gynllun tair blynedd, mai dim ond tua 18 mis fydd ar gael i gyflawni prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffyniant Gyffredin yn eiddo'r Ffyniant Gyffredin. Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

108. Mae cwmpas llai y Gronfa Ffyniant Gyffredin o'i gymharu â rhaglenni cyllido'r UE yn cael effaith wirioneddol ar yr economi a sgiliau yng Nghymru.

109. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn brigdorri'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi cynllun rhifedd oedolion Llywodraeth y DU o'r enw Lluosi, gan wrthod cyllid inni i gefnogi blaenoriaethau strategol fel Busnes Cymru, SMART Cymru a Phrentisiaethau. Nid yn unig y mae Lluosi wedi'i gynllunio'n wael gyda phroblemau lu o ganlyniad i oedi, ond mae hefyd yn amharu ar faes polisi datganoledig, mae'n rhy gul o ran ffocws ac mae perygl o ddyblygu'r ddarpariaeth yng Nghymru.

110. Rydym wedi parhau i godi ein pryderon gyda Llywodraeth y DU gan nodi bod y ffordd y mae'n ymdrin â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn rhannu'r dirwedd gyllido yng Nghymru, yn peryglu ffyrdd o weithio'n rhanbarthol ac yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol er mwyn delio â'r canlyniadau.

Economi, ynni a newid yn yr hinsawdd

111. Ym mis Rhagfyr 2022, mynychodd y Gweinidog Newid Hinsawdd COP15 fel rhan o'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Yn COP15 siaradodd mewn nifer o ddigwyddiadau a chynhaliodd gyfarfodydd dwyochrog â llywodraethau datganoledig neu wladwriaethol eraill fel Quebec a Chatalwnia. Gwnaethom rannu'r dull a ddatblygwyd yng Nghymru o gyrraedd y targed o 30x30, tynnu sylw at bwysigrwydd rôl llywodraethau is-genedlaethol wrth fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, a thrafod yr angen i nodi ffynonellau cyllid ychwanegol a oedd yn osgoi gwyrddgalchu ac a oedd o fudd i gymunedau lleol.

112. Cytunwyd ar Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd yn COP15 sy'n nodi pedwar o nodau hirdymor a 23 o dargedau sy'n ceisio sicrhau byd sy'n bositif i natur erbyn 2030. Bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn cyflwyno targedau bioamrywiaeth ddomestig statudol mewn Bil arfaethedig er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni yn erbyn y fframwaith byd-eang newydd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfrain](#).

113. Mae ymdrech sylweddol wedi bod yn canolbwyntio ar wella ein cysylltiadau rhynglywodraethol a gweithio ar y cyd â BEIS (cyn newidiadau i beirianwaith llywodraeth y DU yn 2023) ac mae'r cysylltiadau hyn wedi cael eu cryfhau er bod rhai heriau'n parhau.

114. Roedd blaenoriaeth ar y cyd o ymateb i effeithiau economaidd Covid-19 yn 2021 yn golygu bod angen cyflymu'r ymdrechion a oedd eisoes ar waith a darparu eglurder pwrpas i'n hymgysylltiad. Yn dilyn yr ymateb brys i'r pandemig, symudodd y Grŵp Rhyngweinigol ar gyfer Busnes a Diwydiant i gyfarfodydd wythnosol a sefydlodd fforwm Cyfarwyddwyr newydd gyda'r llywodraethau datganoledig, BEIS a Thrysorlys Ei Fawrhydi. Roedd sefydlu ysgrifenyddiaeth ar y cyd yn dangos newid yn y dull gweithredu ac roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn ysbryd o barch at ei gilydd. Roedd y fforymau hyn, ynghyd â chyfarfodydd dwyochrog rheolaidd â llywodraeth y DU, wedi sicrhau bod gan Gymru lais uniongyrchol yn ystod y gwaith o ddatblygu rhai dulliau polisi pwysig ledled y DU.

115. Fodd bynnag, er bod ymgysylltu wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig, roeddem yn dal i wynebu heriau o ran cydweithio; roedd Llywodraeth Cymru yn aml yn cael ei thrin fel rhanddeiliad yn hytrach na phartner llywodraeth ddatganoledig. Gallai'r cyfle i lywio polisi a oedd yn sicrhau bod anghenion Cymru'n cael eu hadlewyrchu'n briodol fod yn heriol weithiau wrth wynebu penderfyniadau sydd eisoes wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU gydag ychydig iawn o ymgynghori.

116. Ers diwedd y pandemig, cafodd amllder Grwpiau Gweinidogol Rhynglywodraethol a fforymau rhynglywodraethol eraill eu lleihau i gyfarfodydd misol neu chwarterol. Roedd hwn yn gam cadarnhaol a derbyniol mewn cyfnod o her economaidd sylweddol i Gymru a'r DU.

117. Fodd bynnag, dim ond dau Grŵp Rhyngweinigol ar gyfer Busnes a Diwydiant a gynhaliwyd yn 2022; cynhaliwyd y ddiwethaf ym mis Mai. Roedd y cynnwrf yn Llywodraeth y DU dros fisoedd yr haf 2022 yn golygu bod portffolios

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Erch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y ffaith ychydig yn fwy. Tudalen n. 72
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Gweinidogion adrannol yn aml yn aneglur, ac roedd ymgysylltu dilynol yn y cyfnod hwn ar lefel wleidyddol yn peri problemau. Eto, rhaid nodi bod y berthynas â BEIS ar lefel swyddogol bob amser yn dal yn adeiladol drwy gydol y misoedd hyn o ansicrwydd. Roedd yr ysgrifenyddiaeth ar y cyd yn dal yn ei lle ac roedd cyswllt rheolaidd yn cael ei roi ar waith mewn ysbryd o gydweithredu rhwng y ddwy ochr.

118. Wrth i'r cynnwrf a'r tyrfedd yn Llywodraeth y DU dawelu, ac i weinyddiaeth newydd gael ei chyflwyno ym mis Hydref 2022, y bwriad oedd y byddai cysylltiadau rhynglywodraethol yn setlo i rythm o ymgysylltu rheolaidd sy'n edrych tua'r dyfodol. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol gyfer Busnes a Diwydiant ym mis Ionawr 2023. Cynhaliwyd y cyfarfod mewn ysbryd adeiladol a thrafodwyd strategaeth y Grŵp Rhyngweinidogol yn y dyfodol.

119. Mae creu tair Adran newydd o Lywodraeth y DU ym mis Chwefror 2023 yn lle BEIS (yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, a'r Adran Busnes a Masnach) wedi tarfu ar y broses y Grŵp Rhyngweinidogol. Rydym yn dal i aros am gadarnhad o bortffolios Gweinidogol newydd ac am sefydlu cyfrifoldebau adrannol. Fodd bynnag, mae fforymau eraill, fel Fforwm Cyfarwyddwyr yr Economi, wedi parhau ar gyflymder rheolaidd.

120. Dros y cyfnod hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio'n agos gyda DLUHC a BEIS ar brosiectau sydd o bwysigrwydd strategol. Yn benodol, mae cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu polisi porthladd rhydd Llywodraeth y DU yng Nghymru, trafodaethau ar ddarparu cymorth i ddefnyddwyr ynni annomestig mewn ymateb i'r cynnydd sydyn mewn prisiau ynni, a datblygu cynigion ar gyfer Parthau Buddsoddi.

121. Mae'r Grwpiau Rhyngweinidogol yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o wneud penderfyniadau ar draws Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, sy'n cael ei redeg ar y cyd gan bedair Llywodraeth y DU. Yn benodol, mae wedi bod yn fforwm ar gyfer trafod meysydd mwy dadleuol, yn ogystal â bod yn gyfrwng effeithiol i'w cymeradwyo'n derfynol ar draws Gweinidogion y portffolio. Fodd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

bynag, oherwydd natur dechnegol gymhleth a brys Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, mae trafodaethau ar hyn ar lefel Grŵp Rhyngweinigol yn cymryd amser oddi wrth eitemau eraill ar yr agenda, gan arwain at oedi i'r ffrydiau gwaith hyn.

122. Rydym hefyd wedi parhau i ymgysylltu ar faterion y cyfnod Pontio o'r UE, gyda Whitehall a llywodraethau datganoledig eraill yn rhannu gwybodaeth mewn perthynas â materion busnes. Mae ymgysylltu rheolaidd ar REUL a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â masnach ryngwladol hefyd wedi cael ei gynnal drwy fforwm misol BEIS-DA drwy gydol 2022.

123. Bu'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn fforwm cyntaf yr Ynysoedd a gynhaliwyd yn Orkney ar 28 Hydref 2022, a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelwch ynni a'r cyfleoedd a oedd yn cael eu darparu gan ynni adnewyddadwy. Canolbwyntiodd y Gweinidog ar botensial ynni adnewyddadwy ar y môr, yn enwedig datblygiadau ffrwd lanw o gwmpas cymunedau ynysoedd yng Nghymru a'r cyfleoedd ehangach a ddaw yn sgil y trawsnewid i system ynni sero net yng Nghymru.

124. At ei gilydd, mae cysylltiadau rhynglywodraethol wedi cryfhau yn y gofod economaidd. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn dal i fodoli, gydag ymgysylltu'n gyson wael mewn meysydd fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac mewn meysydd eraill sydd o arwyddocâd strategol i Gymru. Serch hynny, rydym yn parhau i adeiladu ar y strwythurau ffurfiol sydd ar waith nawr a byddwn yn parhau i ddilyn dull gweithredu cadarnhaol o ran cysylltiadau rhynglywodraethol ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â datblygu economaidd.

Sgiliau a chyflogadwyedd

125. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddarpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd carchardai Cymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i [https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html)

[adroddiad-2021-i-2023-html](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html) i weld y Ffyniant Gyffredin

Gwybodaeth am [hawlfrain](#).

perthynas waith agos a chynhyrchiol â'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ac yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gysoni'r ddarpariaeth addysg mewn carchardai â pholisïau Llywodraeth Cymru.

Addysg

126. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ar lefel swyddogol yn ystod 2021 a 2022 i drafod materion sy'n effeithio ar bortffolio'r Gweinidog Addysg. Prif ffocws y trafodaethau yn ystod y cyfnod hwn oedd effaith pandemig COVID-19 gan gynnwys trefniadau gweithredol mewn ysgolion a cholegau ac adferiad addysg.

127. Yn gysylltiedig ag effaith COVID-19, cafwyd trafodaethau am gymwysterau hefyd. Roedd y pandemig wedi creu'r angen am gydweithio agosach a rhannu gwybodaeth ar draws y pedair gwlad ym mhob maes addysg. Yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig, cafodd llawer o benderfyniadau gan Lywodraeth y DU eu gwneud neu eu rhannu heb fawr o amser i Lywodraeth Cymru ystyried y rhain yn briodol wrth wneud penderfyniadau (un enghraifft o hyn fyddai'r addasiadau i gymwysterau 2020).

128. Mae'r sefyllfa wedi gwella ers hynny, lle mae pob gwlad bellach yn cydnabod y rhyngddibyniaethau. Cafwyd trafodaethau polisi manwl (er enghraifft cwmpas y broses apelio yn ystod haf 2021 a gwahaniaethau ar draws y DU) ac mae dulliau gwahanol wedi cael eu cydnabod a'u parchu. Bu Rheoleiddwyr Cymwysterau hefyd yn cydweithio yn ystod y cyfnod hwn.

129. Bu tensiynau hefyd ynghylch cwmpas a chylch gwaith Corff Hyd Braich arfaethedig y Cwricwlwm yn Lloegr. Cyflwynodd Llywodraethau Cymru a'r Alban sylwadau i Lywodraeth y DU yn 2022 gan bwysleisio sut mae dulliau digidol yn cyd-fynd â'i gilydd a sut maent yn wahanol ar draws y pedair gwlad, nid yn unig oherwydd cwricwla gwahanol ond hefyd y ffaith bod gan lywodraethau datganoledig eu sefydliadau, eu prosesau a'u rhwydweithiau digidol eu hunain i gefnogi dysgu a datblygu adnoddau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

130. Ar 27 Ionawr 2022, fe wnaeth Cyngor Gweinidogion Addysg y DU gyfarfod am y tro cyntaf. Mae Cyngor Gweinidogion Addysg y DU yn bwriadu cydlynu a hyrwyddo mwy o gydweithio mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin rhwng Gweinidogion Addysg. Er bod portffolios gweinidogol yn amrywio o ran cwmpas ar draws y pedair gweinyddiaeth, mae'r meysydd diddordeb a rennir yn cwmpasu'r ystod lawn o wasanaethau addysg, o'r Blynyddoedd Cynnar i Addysg Oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys y materion polisi, cyflawni, technegol a deddfwriaethol lle mae'r llywodraethau wedi penderfynu ymgysylltu ar sail amlochrog.

131. Cynhaliwyd ail gyfarfod Cyngor Gweinidogion Addysg y DU ar 17 Mehefin yng Nghaeredin a chynhaliwyd y trydydd cyfarfod yng Nghaerdydd ar 9 Rhagfyr 2022. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a bu'n canolbwyntio ar heriau a datblygiadau ym meysydd lle mae costau byw yn cynyddu, cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol a dysgu gydol oes gyda chyflwyniad gan Goleg Caerdydd a'r Fro ar y cynnig eang gan y sector ôl-16. Bydd llywodraeth y DU yn cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2023.

Yr amgylchedd, amaethyddiaeth, bwyd

132. Mae'r cysylltiadau â DEFRA wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan yn ystod y cyfnod hwn ac mae'r rhan fwyaf o fframweithiau cyffredin Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA) wedi cael eu cyhoeddi ac ar waith ar ffurf dros dro. Fodd bynnag, mae rhai meysydd lle mae Llywodraeth y DU yn ceisio gwro oddi wrth fframweithiau cyffredin EFRA lle mae'r cysylltiadau wedi bod yn waeth, gydag ymgysylltu hwyr yn gadael ychydig iawn o amser i ystyried ein hymatebion. Mae hwn wedi bod yn fater penodol lle nad oes fframweithiau penodol ar waith neu lle mae polisi'n ffitio rhwng sawl fframwaith.

133. Er enghraifft, roedd ymgysylltu ar Ddeddf Technoleg Enetig (Bridio Manwl) Llywodraeth y DU, nad oes fframwaith cyffredin ar ei gyfer, yn hwyr iawn er gwaethaf yr effaith y bydd y ddeddfwriaeth hon yn ei chael yng Nghymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i [https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html)

[adroddiad-2021-i-2023-html](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html) i weld y Ffynhonnellau ychydig yn fwy.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

134. Mae cysylltiadau hefyd yn dechrau dioddef oherwydd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL). Mae'r oedi cyn cael gwybodaeth am gynlluniau DEFRA ynghylch REUL wedi cynyddu'r tensiynau ar adegau, yn ogystal â phryderon bod gan y Bil y potensial i gyflwyno gwahaniaethau lle nad oedd yn ddisgwyliedig o'r blaen. Er bod yr ymgysylltu ar REUL wedi gwella yn 2023, nid oes modd cyflawni dyddiadau cau DEFRA, ac mae'r ymgysylltu wedi bod yn anghyson ar draws meysydd polisi. Ers y cyfnod adrodd hwn ac yn dilyn y dull gweithredu diwygiedig mewn perthynas â'r cymal machlud ym Mil REUL y DU, rhoddodd DEFRA restr o'r ddeddfwriaeth y bwriedir ei diddymu i'w chynnwys yn yr atodlen arfaethedig i swyddogion. Mae'r dadansoddiad cychwynnol o fewn yr amserlen dynn yn dangos na fyddai'r rhan fwyaf o'r offerynnau statudol arfaethedig yn debygol o achosi problem. Dim ond un maes sy'n peri pryder o hyd yn y Cynllun Rheoli Llygredd Aer Cenedlaethol (NAPCP) ac mae trafodaethau rhwng swyddogion yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda DEFRA, ond maent wedi bod yn araf.

135. Hefyd mae pryder o hyd ynghylch colli goruchafiaeth cyfraith yr UE ac effeithiau deongliadol. Gwnaed sawl cais ar lefel swyddogion a Gweinidogion am ddadansoddiad DEFRA o'r effeithiau, ond ni chafodd unrhyw beth ei rannu. Ers diwedd y cyfnod adrodd hwn, mae swyddogion y llywodraethau datganoledig a DEFRA wedi cyfarfod i drafod y gwaith ar effeithiau deongliadol, ac mae ymrwymiad i rannu'r dadansoddiad wedi cael ei wneud.

136. Lle mai DEFRA oedd yr adran arweiniol ar fater penodol, roedd y cysylltiadau ar y cyfan yn well na lle'r oedd adrannau eraill o lywodraeth y DU yn cymryd rhan, yn enwedig mewn perthynas â rhannu gwybodaeth neu amserlenni ar gyfer darparu adborth. Mae cyfranogiad ehangach y DU hefyd wedi arafu neu atal mewn rhai meysydd lle'r oedd cytundeb gyda DEFRA a'r Awdurdodau Datganoledig eisoes wedi'i wneud drwy fframweithiau. Mae gwaith ar ffiniau ac ar blastigau untro yn feysydd lle mae buddiannau ehangach Llywodraeth y DU na DEFRA wedi effeithio ar gysylltiadau.

137. Parhaodd Grŵp Rhyngweinidogol DEFRA i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

cyfnod hwn, ac mae'r cyfarfodydd wedi bod yn adeiladol ar y cyfan gyda thrafodaethau ar faterion a rennir. Fodd bynnag, gyda nifer o gyfarfodydd yn cael eu canslo ar fyr rybudd ac Ysgrifennydd Gwladol DEFRA yn peidio â mynychu cyfarfodydd ers 7 Tachwedd 2022, mae ansawdd y cyfarfodydd hyn wedi lleihau, ac mae'r berthynas wedi dod dan straen

138. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru y swyddogaeth o ddatblygu polisiau a chynghori Gweinidogion Cymru mewn perthynas â diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r berthynas wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan yn ystod y cyfnod hwn.

139. Mae cydweithio â'r ASB ar y model gweithredu targed ar y ffin wedi bod yn gadarnhaol. Mae swyddogion a'r Gweinidogion wedi cyfarfod â'r ASB yn rheolaidd ac wedi cael eu briffio drwy gydol y broses.

140. Er mai polisi Defra ydyw, roedd y Ddeddf Technoleg Enetig (Bridio Manwl) yn gofyn am ymwneud sylweddol â'r ASB. Fel sy'n wir gyda Defra, mae dau fframwaith cyffredin yr ASB wedi'u sefydlu sy'n nodi'r egwyddorion y dylai pedair gwlad y DU eu dilyn wrth ddatblygu polisiau a sut y dylid rheoli gwahaniaethau ac anghydfodau. Nid fu'r naill fframwaith na'r llall yn destun ystyried a thrafod yn gynnar rhwng y pedair gwlad ar fridio manwl. Er mai polisi Lloegr ydyw, mae'r Ddeddf yn sbarduno'r elfen cyd-gydnabyddiaeth o ran y Farchnad Fewnol, felly mae'n effeithio ar fusnesau a chyrrff gorfodi yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn codi cwestiwn ynglŷn â'r dylanwad sydd gan Lywodraeth y DU dros arbenigedd a ffocws polisi'r ASB ac a allai Llywodraeth Cymru fynnu'r un peth.

141. Ar hyn o bryd mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymgymryd â rhaglen o weithgarwch diwygio rheoleiddiol gyda'r nod o sicrhau bod rheoleiddio bwyd yn parhau i fod yn gymesur, yn briodol ar gyfer yr hinsawdd bresennol ac yn effeithiol. Mae cytundeb cydweithredol wedi'i sefydlu ar gyfer Cymru ac mae'n gosod sut mae Llywodraeth Cymru, yr ASB ac Awdurdodau Lleol yn cydweithio i sicrhau bod cynigion yn briodol i Gymru a bod holl randdeiliaid perthnasol Cymru yn cymryd rhan lawn yn y broses.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau a'r Ffynhonnellau
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

142. Yng ngoleuni'r uchod, a'r cyfrifoldebau newydd ar yr ASB yn dilyn ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, cynhelir adolygiad o swyddogaeth yr ASB yng Nghymru eleni. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw strwythur a gweithrediad presennol yr ASB a'i chysylltiad â Llywodraeth Cymru yn briodol o ran y ffordd orau o gyflawni amcanion statudol yr ASB yng Nghymru.

lechyd

143. Roedd trafodaethau yn ystod y cyfnod hwn ar lefel Weinidogol yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar faterion sy'n ymwneud â COVID-19; er bod ymgysylltu hefyd ar faterion eraill gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r cyfnod pontio o'r UE, Deddf lechyd a Gofal Llywodraeth y DU a materion polisi strategol sydd o ddiddordeb ledled y DU, fel cyfraniad iechyd at yr agenda newid yn yr hinsawdd. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, rhoddwyd ystyriaeth i ddatblygu'r mecanweithiau pedair gwlad presennol yn raddol i strwythur Grŵp Rhyngweinidogol.

144. Trefnwyd dau gyfarfod ffurfiol o'r Grŵp Rhyngweinidogol. ond cafodd y ddau eu canslo ar fyr rybudd oherwydd argaeledd Gweinidog Llywodraeth y DU. Mae'r diffyg cynnydd hwn o ran agenda'r Grŵp yn gwneud cydweithredu ar draws y DU yn anodd iawn; Mae nifer o faterion pwysig a fyddai'n elwa ar drafodaeth a dull gweithredu pedair gwlad. Mae Gweinidogion Cymru a'r Alban wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am gyfarfod o'r Grŵp.

145. Cyfarfu Gweinidogion Cymru, yr Alban a Llywodraeth y DU i drafod y Bil Lefelau Gwasanaeth Gofynnol (ymgyngoriad gwasanaethau ambiwlans); gwnaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban eu safbwynt polisi yn glir a dywedwyd na fyddai swyddogion yn ymgysylltu â'r ymgynghoriad hwn.

146. Y tu ôl i hyn, roedd gwaith rhynglywodraethol yn weithredol ar y cyfan, gydag ymgysylltu adeiladol yn gyffredinol ar lefel swyddogol drwy wahanol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

fecanweithiau ar lefel swyddogion. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys grŵp cydlynu cyfnod pontio'r UE ar gyfer y pedair gwlad, grŵp cadernid cyflenwi ledled y DU, a thrafodaethau ynghylch Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU. Roedd gwaith rhynglywodraethol hefyd yn parhau i gael ei gefnogi gan y gwaith manwl a wnaed drwy gysylltiadau'r GIG, yn enwedig gan gynnwys sefydliadau GIG Cymru fel Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Gwyddoniaeth

147. Cafwyd amrywiaeth o drafodaethau a chyfarfodydd ag Adrannau o Lywodraeth y DU ar lefel swyddogol sy'n cynnwys Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru neu gynrychiolwyr o'i swyddfa. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd rheolaidd â rhwydwaith Prif Gynghorwyr Gwyddonol y DU, wedi'i gadeirio gan Brif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU, Syr Patrick Vallance FRS FMedSci FRCP HonFREng. Bydd y Fonesig Athro Angela McLean DBE FRS yn ymgymryd â'r rôl fis Ebrill 2023.

148. Ar ben hynny, mae trafodaethau parhaus wedi digwydd drwy gydol y cyfnod hwn ar faterion penodol sy'n ymwneud â gwyddoniaeth, arloesi, ymchwil a datblygu gydag Adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU fel yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o faterion fel Adolygiad Nyrsio Llywodraeth y DU (y dirwedd Ymchwil, Datblygu ac Arloesi), Cymdeithas Horizon Ewrop neu Gynllun B (a elwir bellach yn Pioneer fel y rhaglen i gefnogi ymchwil ac arloesi yn y DU pe na bai'n bosibl cysylltu â chynllun Horizon Ewrop), a hyrwyddo cyfleoedd yng Nghymru i Adrannau o Lywodraeth y DU fel ymgysylltu ar gynigion sy'n ymwneud â Phrosiect ARTHUR (Advanced Radioisotopes Technology for Health Utility Reactor). Prif bwrrpas trafod gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi ag Adrannau o Lywodraeth y DU yw helpu i gasglu gwybodaeth a deall y dystiolaeth sydd ar gael yn well. Gellir defnyddio pob un o'r rhain i ddarparu cyngor clir i Weinidogion ar faterion sy'n effeithio ar Gymru, neu i helpu i ganfod dewisiadau ar gyfer Gweinidogion

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau ychydig
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cymru a fydd yn helpu i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer buddsoddi neu fentrau cydweithredol a fydd yn arwain at fudd i Gymru.

Cyfiawnder

Mae Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhynglywodraethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2022 yn nodi bod:

“ cynnydd wedi'i wneud hefyd rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru o ran canfyddiadau Comisiwn Thomas ”

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn rhoi argraff fwy cadarnhaol na'r hyn sy'n haeddiannol.

150. Ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu yw mynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli cyfiawnder a phlisma. Nid yw Llywodraeth y DU yn cefnogi datganoli cyfiawnder, ac felly roedd wedi diystyru argymhellion canolog Comisiwn Thomas yn syth. Yn 2021, cytunodd Llywodraeth y DU i weithio gyda Llywodraeth Cymru i 'frysbennu' argymhellion eraill Comisiwn Thomas i nodi meysydd lle roedd budd i'r naill ochr a'r llall o ran gweithredu, ond mae'n bwysig nodi cyfyngiadau'r ymarfer hwn.

151. Hyd yn oed yn y maes cyfyngedig hwn, er bod sgysiau ar lefel swyddogion a Gweinidogion wedi cael eu cynnal ers diwedd 2021, bu cyfnodau sylweddol o anweithgarwch oherwydd lefel trosiant gweinidogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd wedi effeithio ar drafodaethau brysbennu. Cafodd y broses hon ei nodweddu yn **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru** (t20-22) ym mis Mai 2022 fel un "rhwystrdig" ac "araf i gynhyrchu canlyniadau", ac ni fu unrhyw welliant sylweddol ers hynny. Mae'r broses yn dal i fynd rhagddi ac, o'r 45 o argymhellion y nodwyd eu bod o fewn y cwmpas, dim ond 14 sydd wedi cael eu trafod hyd yma, gyda rhywfaint o gytundeb ar bump yn unig.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf. Tudalen y pecyn 81
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

152. At ei gilydd, mae hyn wedi bod yn ymateb siomedig gan Lywodraeth y DU. Gan fod yr ymarfer yn gorgyffwrdd â rhaglenni gwaith yr oedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwrw ymlaen â nhw beth bynnag fo'r broses hon, nid yw'n glir o hyd a yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu ymgymryd ag unrhyw weithgarwch pellach sylweddol o ganlyniad i drafodaethau Comisiwn Thomas.

153. Yr un argymhelliad lle mae cynnydd addawol yw'r maes dadgyfuno data cyfiawnder Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer mapio data cyfiawnder troseddol ac wedi nodi nifer o feysydd lle mae data ar gyfer Cymru yn cael ei gasglu ond heb ei wahanu oddi wrth ddata Lloegr. Mae'r dadansoddiad hwn wedi cael ei rannu â swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac rydym yn aros am ymateb.

154. O ystyried y diffyg cynnydd, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried pa mor ymarferol fyddai parhau â'r broses brysbennu.

155. Mae'r berthynas â Llywodraeth y DU ar gyfiawnder yn gyffredinol yn dal yn weddol gadarnhaol, wedi'i hategu gan ymgysylltiad cadarn gan Lywodraeth Cymru mewn gwaith i wella canlyniadau o dan y system bresennol. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Plismona yng Nghymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru i gyflawni'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig.

156. Fe wnaethom gyhoeddi Cynlluniau Gweithredu a oedd yn tynnu sylw at gynnydd yn erbyn y ddau Lasbrint ym mis Mai 2022 ac rydym yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddatblygu rhagor o waith ar faterion sy'n ymwneud â menywod a chyfiawnder ieuencid i sicrhau rhagor o welliannau i'r system. Bydd y rhain yn defnyddio argymhellion ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd i brofiadau menywod o'r system gyfiawnder.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau a'r Ffynhonnellau
Gwybodaeth am [hawlfrain](#).

Diogelwch cymunedol

157. Mae'r Is-adran Diogelwch Cymunedol yn Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Gartref ar draws amrywiaeth o wahanol feysydd polisi. Cefnogir hyn gan drafodaethau rheolaidd a chadarnhaol rhwng Llywodraeth Cymru ac Uned UK Domestic, Overseas Territories, Americas a 5 Eyes y Swyddfa Gartref. Mae enghreifftiau o waith perthnasol dros gyfnod yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Mae gwaith yn parhau gyda'r Swyddfa Gartref a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddyletswydd Trais Difrifol a gychwynnodd ar 31 Ionawr 2023. Fe wnaethom weithio gyda phartneriaid yng Nghymru a chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref ar bennod Gymreig bwrpasol ar gyfer y canllawiau statudol ar y Ddyletswydd i sicrhau eu bod yn llawn adlewyrchu'r cyd-destun darparu penodol yng Nghymru.
- Mae'r Swyddfa Gartref wedi lansio adolygiad o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Rydym wedi gweithio gyda Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid yng Nghymru yn cael eu bwydo'n ôl i'r tîm adolygu. Bydd yn bwysig sicrhau bod y gwaith hwn yn adlewyrchu cyd-destun datganoledig gwasanaethau yng Nghymru.
- Rydym yn parhau i weithio gyda'r Heddlu yng Nghymru a chydweithwyr eraill yn y gwasanaethau brys ar Gyfamod Gwasanaethau Brys yng Nghymru, gan barhau i fod yn gysylltiedig â gwaith Llywodraeth y DU ar Gyfamod yr Heddlu.
- Mae buddiannau Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru (aelodau sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, cyn-filwyr, a'u teuluoedd) ac ôl troed y Lluoedd Arfog yn cael eu cynnal drwy gysylltiadau â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr. Cafwyd cyfarfodydd rheolaidd ar lefel swyddogion a, dros y cyfnod adrodd, rhwng Gweinidogion mewn perthynas â Chyfamod y Lluoedd Arfog, yn arbennig paratoi ar gyfer y 'Ddyletswydd Sylw Dyledus' newydd. Wrth symud ymlaen, rydym yn gobeithio gweld gwell

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

cydgysylltiad â'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr mewn perthynas â chynlluniau a chyhoeddiadau ar gyfer mentrau sy'n cwmpasu'r DU gyfan.

158. Mae'r enghreifftiau uchod yn rhoi syniad o sut gall ymgysylltiad y Swyddfa Gartref â Chymru arwain at ganlyniadau polisi cryfach yn gyffredinol. Rydym yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar ac yn effeithiol â Llywodraeth Cymru o ystyried pwysigrwydd y cyd-destun Cymreig penodol ar gyfer materion diogelwch cymunedol, a'r cysylltiad â materion datganoledig fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

159. Bu tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Llywodraeth Cymru a swyddogion ym maes iechyd yn gweithio'n agos gydag Adran Iechyd Llywodraeth y DU ar droseddoli profion gwryfodod a hymenoplasti fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022. Roedd y berthynas hon yn adeiladol ac yn gydweithredol, i sicrhau bod menywod a merched yn cael eu hamddiffyn rhag yr arferion ffaidd hyn sy'n gyfystyr â thrais yn erbyn menywod a merched. Rhoddodd Senedd Cymru gydsyniad i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ei rhan yn hyn o beth. Cyfrannodd tîm VAWDASV Llywodraeth Cymru at ganllawiau Llywodraeth y DU i sicrhau bod natur ddatganoledig iechyd a mynd i'r afael â VAWDASV yn cael ei hystyried. Aeth Llywodraeth Cymru gam ymhellach a chyhoeddodd **becyn gwella ymwybyddiaeth** ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod rhagor o bobl yn ymwybodol o natur droseddol yr arferion ymwithiol a diraddiol hyn.

160. O ganlyniad i Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, mae Llywodraeth y DU wedi cynhyrchu canllawiau statudol i gynyddu dealltwriaeth o rai o'r diffiniadau yn y Ddeddf hon, yn ogystal ag ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi. Cynhyrchwyd y ddwy set o ganllawiau ar ôl ymgysylltu a chael mewnbwn gan Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at gyfrifoldebau datganoledig yn unol â Deddf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i [https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html)

[adroddiad-2021-i-2023-html](https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html) i weld y Ffynhonnellau ychydig yn fwy.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 sy'n torri tir newydd er mwyn atal cam-drin ar sail rhywedd, ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr.

161. Mae mudwyr sy'n dioddef VAWDASV yn dal i gael eu gadael ar ôl gan bolisi Llywodraeth y DU a deddfwriaeth y DU. Yn 2021, lansiodd y Swyddfa Gartref ei chefnogaeth i'r Cynllun Mudwyr sy'n Ddioddefwyr (SMVS) i gefnogi rhai dioddefwyr sy'n fudwyr ac yn ffoi rhag cam-drin domestig. Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynllun hwn, nid yw'n mynd yn ddigon pell ac mae bylchau yn y ddarpariaeth sy'n gadael dioddefwyr heb ddewis ond aros gyda phartneriaid camdriniol neu ddychwelyd atynt. Ym mis Rhagfyr 2022, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd i sefydlu cronfa argyfwng y gall darparwyr gwasanaethau ei defnyddio i roi cymorth i ferched sy'n fudwyr ac yn ddiodeswyr neu'n oroeswyr trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd, ac sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus. Bydd y gronfa, a fydd yn cael ei sefydlu yng ngwanwyn 2023, yn llenwi bylchau SMVS wrth inni aros am gyhoeddiad gwerthusiad y Swyddfa Gartref o'r cynllun peilot.

Tai

Diogelwch adeiladau

162. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd cyfarfodydd bob pythefnos gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i drafod materion sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau, ac i rannu'r arferion gorau ac unrhyw wersi a ddysgwyd. Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn hynod ddefnyddiol o ran cynyddu dealltwriaeth o'r gwahanol dulliau gweithredu ar draws llywodraethau, yn ogystal â meysydd cyffredin. Mae'r berthynas yn un gadarnhaol. Roedd rhannu gwybodaeth, fel dogfennau contract, yn ein galluogi i fabwysiadu dull gweithredu cyson gyda datblygwyr, a oedd yn sicr yn arbed amser. Yn ogystal â hyn, rydym

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Tudalen 85
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

wedi rhannu'r arferion gorau, gan gyflwyno mentrau Cymreig fel y Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid, a mynychu Panel Arbenigwyr Diogelwch Adeiladau Gogledd Iwerddon i egluro ein dull gweithredu yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Alban ac wedi cyhoeddi llythyrau ar y cyd ar faterion sydd o fudd i'r naill a'r llall.

163. Yn ogystal â hyn, mae nifer o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU i drafod yswiriant yng nghyd-destun argymhellion Adroddiad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar Yswiriant Adeiladau Aml-feddiannaeth, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu deddfwriaeth ynghylch tryloywder yng nghostau a chomisiynau yswiriant Asiantiad Rheoli.

164. Ar ben hynny, bu trafodaethau rheolaidd drwy gyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol â Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig, lle trafodir materion sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau.

Digartrefedd

165. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â'u cymheiriaid ym mhob un o'r pedair llywodraeth yn y DU, drwy gyfarfod misol o'r pedair gwlad, yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Bydd y cyfarfodydd hyn yn parhau drwy gydol 2023 i roi cipolwg cynnar ar waith sydd ar y gweill, i rannu arferion da a pholisïau rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Byddwn yn adeiladu ar y cysylltiadau sefydledig hyn i ddatblygu ein diwygiad deddfwriaethol i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Lesddaliad

166. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, arweiniodd trafodaethau rhwng

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn mwyaf diweddar.

Tudalen n. 86

Gwybodaeth am [hawlfrain](#)t.

gweinyddiaethau ar ddiwygio lesddaliadau at basio'r Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) ym mis Chwefror 2022, a ddatblygwyd gyda chyfraniad Gweinidogion Cymru, ac a gafodd gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Mae rhagor o waith ar y cyd yn mynd rhagddo tuag at gyflwyno Bil diwygio lesddaliad pellach yng Nghymru a Lloegr yn ddiweddarach eleni, a hynny i weithredu argymhellion o adroddiadau Comisiwn y Gyfraith ar Ryddfrenio, Hawl i Reoli a Chyfunddaliad, yn ogystal â diwygiadau eraill i wella profiad lesddeiliaid. I gefnogi hyn, lansiwyd ymgynghoriad ar y cyd ar ddechrau 2022 ar agweddau ar drefn ddiwygiedig. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Gweinidog Newid Hinsawdd â Lucy Frazer AS, Gweinidog Tai y DU ar y pryd, ym mis Chwefror 2023. Yn y cyfarfod hwnnw, mynegodd y ddau Weinidog ddiddordeb brwd mewn cydweithio pellach ar agweddau ar ddiwygio lle ceir cytundeb ar y cyd.

Ombwdsmon Cartrefi Newydd

167. Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan Weinidogion Cymru rôl ffurfiol a phwrpasol yng nghynllun yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar wahanol agweddau ar yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd, o ystyried y darpariaethau datganedig ar wyneb y Ddeddf Diogelwch Adeiladau ("y Ddeddf"), ac maent yn ganlyniad i gydweithredu a thrafodaethau rhynglywodraethol.

168. Cafwyd trafodaethau effeithiol a chydweithredu rhynglywodraethol hefyd mewn perthynas â sicrhau nad effeithir yn negyddol ar gymhwysedd y Senedd drwy ddarpariaethau i ddileu'r angen i gael cydsyniad Gweinidog priodol Llywodraeth y DU i dynnu swyddogaethau o'r Ombwdsmon os ydym yn dymuno gwneud hynny. Er bod Llywodraeth y DU bob amser yn awyddus i'r Ombwdsmon fod yn un ar gyfer y DU gyfan, roedd ein gallu i ddylanwadu ar y darpariaethau er mwyn peidio â chyfyngu ar Weinidogion Cymru yn y dyfodol wedi arwain at gynnwys Cymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023.html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

169. Drwy gydol y cyfnod adrodd hwn, mae Llywodraeth y DU wedi trafod yn adeiladol â swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch yr Ombwdsmon. Gyda'n gilydd, rydym wedi sicrhau cyfrwng ar gyfer trafod ac ymgynghori ystyrlon a phrydlon rhwng Llywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig drwy Weithgor Trawslywodraethol yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd. Rydym yn parhau i gydweithio'n gadarnhaol ar fanylion cynllun yr Ombwdsmon, cynnwys y Rheoliadau a'r trafodaethau sydd eu hangen.

Gwarantau Cartrefi a Adeiledir o'r Newydd

170. Gwnaed diwygiad hwyr iawn i'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau, gan osod gofyniad yn y gyfraith ar ddatblygwyr cartrefi a adeiledir o'r newydd yn Lloegr i ddarparu gwarant o 15 mlynedd o leiaf; gan ymestyn y cyfnod gwarant o 10 i 15 mlynedd.

171. Dywed taflen ffeithiau Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar y pryd:

“ We are in discussions with the devolved administrations, and they will consider how this might be taken forward in their jurisdictions. ”

Ni fu trafodaeth â Llywodraeth Cymru ar hyn ac ni roddwyd cyfle i ymestyn hyn i Gymru. Gallai hyn arwain at yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn dyfarnu yn erbyn darpariaeth wahanol.

172. Ychydig iawn mae Llywodraeth y DU wedi trafod â Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn dilyn diffyg unrhyw drafodaeth ar yr agwedd hon, cyn y diwygiad hwyr, yn groes i fanylion y daflen ffeithiau, ac mae wedi'i gyfyngu i ddiweddariadau drwy rwydweithiau'r Ombwdsmon yn hytrach nag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y ffeithiau hysbysu.
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Rheoleiddio Tai Cymdeithasol

173. Bu cysylltiad agos rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil Rheoleiddio Tai Cymdeithasol, sydd yn ei gamau olaf ar hyn o bryd. Roedd cyfarfodydd cynnar wedi ystyried goblygiadau polisi'r Bil ac yn fwy diweddar, mewn cysylltiad â'r gwaith o reoli ac amseru'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd.

Budd-daliadau sy'n gysylltiedig â Thai

174. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod â swyddogion yn yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) ynghylch diwygio'r sector tai â chymorth yn Lloegr, wedi'i sbarduno gan Fil Tai â Chymorth (Goruchwyliaeth Reoleiddiol) o dan arweiniad DLUHC. Gallai'r diwygiadau hyn arwain at ddiwygiadau cysylltiedig i reolau Budd-dal Tai sydd heb eu datganoli ar gyfer unigolion sy'n byw mewn mathau penodol o dai â chymorth. Ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddatblygu canllawiau ar gyfer safonau cymorth mewn lleoliadau tai â chymorth yng Nghymru, wedi'u comisiynu drwy'r Grant Cymorth Tai. Bwriad hyn yw cyfrannu at unrhyw newidiadau yn y dyfodol i reolau budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai yn y DU. Mae swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau yn awyddus i drafod yn rheolaidd ynghylch y datblygiadau hyn er mwyn dylanwadu ar eu cynlluniau.

Lles Cymdeithasol/Costau Byw

175. Mae'r rhan fwyaf o'r dulliau i fynd i'r afael â thlodi a chefnogi pobl Cymru drwy'r argyfwng costau byw yn nwylo Llywodraeth y DU, ac er bod perthynas waith dda ar lefel swyddogion y gwasanaeth sifil sydd wedi hwyluso cyflwyno cronfeydd fel Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Cymorth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Costau Byw yn gyflym, ychydig o ryngweithio sydd wedi bod ar lefel Weinidogol.

176. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip wedi ysgrifennu droeon at Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau (gan gynnwys llythyrau ar y cyd a anfonwyd gyda'r llywodraethau datganoledig eraill) yn awgrymu newidiadau polisi y gellid eu gwneud i roi llwybr allan o dlodi i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol ledled y DU, heb unrhyw ymateb. Mae'r anwybyddiad llwyr hwn o'r unig fath o gyfathrebu ag Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau yn bryder mawr. Yn ystod y cyfnod adrodd, anfonwyd o leiaf 9 llythyr heb unrhyw ateb.

177. Mae'r adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Policy in Practice yn amcangyfrif bod cyfanswm y budd-daliadau a'r tariffau cymdeithasol seiliedig ar incwm nad ydynt yn cael eu hawlio bellach yn £18.7 biliwn y flwyddyn. Mae hyn yn ein hatgoffa'n amserol bod angen ymdrech strategol ar y cyd rhwng y pedair llywodraeth i sicrhau bod incwm aelwydydd yn cael ei gynyddu drwy annog unigolion i hawlio'u hawl. Er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol, mae angen arweinyddiaeth ar lefel Weinidogol.

178. Mae ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i archwilio'r seilwaith angenrheidiol sydd ei angen i baratoi ar gyfer datganoli'r gwaith o weinyddu lles mewn perygl o gael ei danseilio gan ddiffyg cefnogaeth Llywodraeth y DU, oherwydd bydd hyn yn gofyn am gydweithrediad gan y ddwy lywodraeth. Roedd hyn yn amlwg yn ymateb Llywodraeth y DU i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i'r System Fudd-daliadau yng Nghymru, pan oeddent wedi gwrthod yr argymhellion yn llwyr. Roedd y neges yn glir nad yw'n bwriadu datganoli unrhyw elfennau o nawdd cymdeithasol i Lywodraeth Cymru, nad oes ganddi unrhyw fwriad i drafod hyn ymhellach, a gwrthododd yr argymhelliad i sefydlu Bwrdd Cyngori Rhyngweinidogol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar Nawdd Cymdeithasol.

179. Roedd yr ymateb gan Lywodraeth y DU yn cydnabod y trafodaethau cadarnhaol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion yr Adran

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau ychydig yn fwy.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Gwaith a Phensiynau. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru'n cael cyfarfodydd rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau ac fel rhan o'r peirianwaith rhynglywodraethol, dylid sefydlu grŵp Rhyngweinidogol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar lefel portffolio rhwng y pedair gwlad. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn pwysu'n gyson am y lefel hon o ymgysylltu ac mae trafodaethau'n parhau i gytuno ar y strwythur gorau ar gyfer y grŵp hwn.

180. Yn yr un modd, cafodd argymhelliad y Pwyllgor Materion Cymreig yn ymwneud â chynnal asesiad effaith ar y cyd o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ei ddiystyru'n syth gan Lywodraeth y DU. Wrth ddatblygu'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod ag adrannau o Lywodraeth y DU ynghylch sut mae'r cynllun yn rhyngweithio â meysydd polisi treth, budd-daliadau a chymorth cyfreithiol. Roedd perthynas waith dda rhwng swyddogion a Chyllid a Thollau EF wrth gytuno ar y ffordd yr ymdrinnir â thaliadau treth a chawsom rai trafodaethau defnyddiol cychwynnol â chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar oblygiadau'r cynllun peilot o ran cael gafael ar gymorth cyfreithiol. Mae'r rhyngweithio ar lefel Weinidogol â Llywodraeth y DU wedi bod yn llai cadarnhaol o ran rhyngweithio â'r systemau budd-daliadau a chymorth cyfreithiol, yn enwedig y ffordd yr ymdriniwyd â'r ohebiaeth ddiweddaraf ynghylch cymorth cyfreithiol.

Trafnidiaeth

181. Ar ôl bwloch sylweddol, ailddechreuodd y trafodaethau rhwng Gweinidogion â'r Adran Drafnidiaeth ym mis Mawrth 2023 pan gafodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd gyfarfod â'r Gwir Anrhydeddus Mark Harper, yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth. Ar ben hynny, cafodd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth ei ailgyfansoddi, gyda chytundeb cadeiryddiaeth gylchredol ar draws y pedair llywodraeth. Ar ôl y cyfnod adrodd hwn, cyfarfu'r Grŵp Rhyngweinidogol am y tro cyntaf ym mis Mai 2023, dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru (y Dirprwy

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Weinidog Newid Hinsawdd). Mae Gweinidogion a swyddogion yn parhau i ddadlau'r achos dros ddatganoli materion rheilffyrdd i Gymru i raddau mwy, ochr yn ochr â setliad cyllido teg, gan gynnwys ein cyfran deg o'r buddsoddiad gwerth £100 biliwn gan Lywodraeth y DU yn HS2 sy'n cael ei wrthod i Gymru ar hyn o bryd oherwydd bod HS2 yn cael ei ddosbarthu fel prosiect Cymru a Lloegr. Mae'r ymgynghori â Llywodraeth Cymru yn anghyson. Er enghraifft, nid oedd gan Lywodraeth Cymru rôl yn yr estyniad diweddar i gontract Avanti West Coast, ac nid oedd yn rhan o'r ymgynghoriad yn ei gylch, er ei fod yn lleihau lefel y gwasanaethau i deithwyr yng Nghymru yn sylweddol.

182. Drwy gydol y newidiadau Gweinidogol amrywiol yn Llywodraeth y DU dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r berthynas swyddogol â'r Adran Drafnidiaeth wedi aros yn gadarnhaol ac yn adeiladol, gyda thrafodaethau trawsbynciol rheolaidd drwy gyfarfod misol rhwng y pedair gwlad, a chysylltiadau hirsefydlog rhwng y timau polisi perthnasol. Mae'r berthynas â Transport Scotland a swyddogion yng Ngogledd Iwerddon yr un mor gadarnhaol, gyda thrafodaethau rheolaidd ynghylch amrywiaeth o feysydd polisi trafnidiaeth.

183. O ran polisi bysiau, ychydig iawn o drafodaethau Gweinidogol sydd wedi bod ond mae swyddogion yn cyfarfod â swyddogion cyfatebol o Lywodraethau'r DU, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn rheolaidd i drafod materion polisi a chyflawni cyffredin. Mae gan swyddogion Llywodraeth Cymru gysylltiadau gwaith gweithredol â'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau, a'r Adran Gwaith a Phensiynau i reoli materion gweithredol sy'n ymwneud â gwasanaethau bysiau a chardiau teithio rhatach.

184. O ystyried sefyllfa polisi Gweinidogion Cymru, mae'r trafodaethau â'r Adran Drafnidiaeth ynghylch y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) wedi bod yn gyfyngedig iawn. Bu trafodaethau mwy agored mewn perthynas â Chyfraith yr UE a ddargedwir, gyda swyddogion yn cyfnewid gwybodaeth am yr heriau polisi a'r heriau cyfreithiol sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig, gan sicrhau ar yr un pryd bod safbwynt polisi Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyfleu'n gadarn drwy gydol y broses.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023.html> i weld y Ffynhonnellau ychydig yn fwy. Tudalen y pecyn 92
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

185. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Drafnidiaeth ar faterion eraill gan gynnwys datgarboneiddio trafnidiaeth, deddfwriaeth Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat, a'r Cynllun Bathodyn Glas.

186. Mae swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â'r Swyddfa Cerbydau Di-allyriadau ar seilwaith gwefru cerbydau trydan, gan hwyluso mynediad at gyllid ar gyfer awdurdodau lleol Cymru a rhannu gwybodaeth am ddiwygiadau i reoliadau adeiladu.

187. O ran Teithio Llesol, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd pedairochrog chwarterol rhwng arweinwyr polisi o bob un o'r llywodraethau datganoledig a'r Adran Drafnidiaeth, yn ogystal ag Active Travel England. Yn bennaf, mae'r cyfarfodydd ar-lein hyn yn darparu fforwm anffurfiol i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisiâu a rhaglenni perthnasol, a phrofiadau cyflawni.

188. Drwy gydol 2021, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o'r grŵp llywio ar gyfer y diweddariad gan yr Adran Drafnidiaeth i Reolau'r Ffordd Fawr a oedd yn cryfhau'r Rheolau mewn perthynas â diogelwch cerddwyr, beicwyr a phobl ar gefn ceffylau, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2022, ac yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r ymgyrch cyhoeddusrwydd i gyd-fynd â'r newidiadau.

189. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda'r Adran Drafnidiaeth, y llywodraethau datganoledig eraill a rhanddeiliaid eraill ar ddatblygiad cychwynnol Canllawiau Strydoedd Ysgolion yn ystod 2021 a 2022. Bydd pob llywodraeth nawr yn addasu ac yn cyhoeddi'r canllawiau hyn ar wahân.

Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

190. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos ac yn effeithiol gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

draws y portffolio diwylliant, chwaraeon a thwristiaeth cyfan. Mae gan swyddogion berthynas gadarn o ran Digwyddiadau, ac maent yn gweithio ochr yn ochr â chyrrff Digwyddiadau holl wledydd y DU i ddatblygu a gwneud ceisiadau am ddigwyddiadau gan gynnwys, er enghraifft, y cais ar y cyd rhwng y DU ac Iwerddon am Ewro 2028.

191. Cynhelir cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda phenaethiaid asiantaethau treftadaeth llywodraethau eraill y DU. Fel gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru, mae Cadw'n cymryd rhan yng Ngrŵp Cynghori Treftadaeth y Byd a sefydlwyd i roi cyngor i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar faterion strategol sy'n ymwneud â'r gwaith o weithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd 1972 UNESCO yn y DU. Mae'r grŵp yn darparu cyngor mewn perthynas â'r dull domestig o enwebu Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y dyfodol gan y Wladwriaeth sy'n Barti a materion strategol sy'n ymwneud â'r Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n bodoli eisoes ledled y DU. Yn ystod 2022-23, roedd y grŵp wedi cefnogi'r adolygiad o Restr Amodol y DU o enwebiadau yn y dyfodol.

192. Mae'r Is-adran Diwylliant yn cynrychioli Llywodraeth Cymru ar y Grŵp Diplomyddiaeth Ddiwylliannol, gan gyfarfod â swyddogion a phartneriaid o bob rhan o'r DU. Ym mis Awst 2022, aeth swyddogion i'r Uwchgynhadledd Diwylliant Ryngwladol yng Nghaeredin, a drefnwyd gan y British Council ac a oedd yn canolbwyntio ar Addysg a Diwylliant, a Diwylliant a Dyfodol Cynaliadwy. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad brecwast a chynnal cyfres o gyfarfodydd dwyochrog gyda chynrychiolwyr eraill.

193. Roedd swyddogion wedi cyfarfod yn rheolaidd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i drafod materion sy'n ymwneud â'r sector amgueddfeydd yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn wedi cynnwys gwaith i sicrhau bod effaith yr argyfwng costau byw a phrisiau ynni uwch yn cael ei bwydo i arolwg Llywodraeth y DU i bennu'r angen am gymorth costau ynni i fusnesau ar ôl mis Ebrill 2023. Cysylltodd swyddogion â chydweithwyr yn Llywodraeth y DU ynghylch y newidiadau i'r diffiniad o drysor

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau ychydig yn fwy. Tudalen ychydig yn fwy. Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

yn Neddf Trysor 1996 a'r newidiadau cysylltiedig i'r cod ymarfer.

194. Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ar ddatblygu cystadleuaeth Dinas Diwylliant y DU 2025, sydd bellach yn croesawu ceisiadau gan drefi a rhanbarthau yn ogystal â dinasoedd, ac mae'r panel dyfarnu annibynnol bellach yn cynnwys cynrychiolydd o Gymru, wedi'i benodi gyda'n cyfraniad ni. Roedd Wreccsam yn un o'r tri a ddaeth i'r brig, gan gael £125,000. Er y trafodaethau helaeth ar lefel swyddogion a Gweinidogion, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei phenderfyniad i ddefnyddio pwerau cymorth ariannol Deddf Marchnad Fewnol y DU i ddarparu grantiau i'r rhai sy'n dod yn ail, gan gynnwys i Wreccsam, er ein bod wedi galw am ddefnyddio'r trefniadau cyllido datganoledig arferol.

195. Ers dechrau 2023, mae swyddogion yr Is-adran Diwylliant sy'n gweithio ar ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon i drafod meysydd sydd o ddiddordeb i bawb.

196. Bu swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth yr Alban, Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â'r trefniadau ar gyfer Grŵp Rhyngweinidogol arfaethedig ar gyfer y Diwydiannau Creadigol a Diwylliant.

197. Mae trafodaethau pellach wedi cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar amrywiaeth o faterion trawsffiniol, gan gynnwys cyfranogiad a chystadlu yn erbyn athletwyr o Rwsia/Belarws a chanllawiau cyfergyd ar gyfer chwaraeon cymunedol. Roedd yr ymgysylltu hwn yn gynhyrchiol ac yn ystyrlon. Ar lefel Weinidogol, rydym wedi cael trafferth trefnu cyfarfod ar gyfer y Cabinet Chwaraeon yn erbyn y protocolau presennol, ac wedi cyfarfod ddwywaith yn unig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cafodd y diweddaraf ei gwtogi i awr, gan roi sylw i ddim ond un brif eitem ar yr agenda. Roedd hynny ym mis Awst 2022 ac nid ydym wedi gallu trefnu cyfarfod dilynol hyd yma.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cwpan y Byd

198. Ceisiodd Llywodraeth Cymru fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r manteision a ddaeth y sgil cyfranogiad tîm pêl-droed dynion Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA 2022 yn Qatar. Roedd pedwar amcan:

- hyrwyddo Cymru
- cyfleu ein gwerthoedd
- sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru yn y twrnament
- a sicrhau gwaddol cadarnhaol a pharhaol o'n cyfranogiad yng Nghwpan y Byd.

Roedd y gweithgareddau'n canolbwyntio ar bedair elfen graidd:

- ymgyrch farchnata well
- Cronfa Cefnogi Partneriaid
- ymgysylltu drwy ein rhwydwaith o swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru
- ymgysylltiad Gweinidogol yn y twrnament.

199. Roedd yr ymgysylltu â'r FCDO a Jon Wilks, Llysgennad y DU yn Qatar, yn gadarnhaol iawn. Ymwelodd Llysgennad y DU â Chymru ym mis Mehefin 2022, yn fuan ar ôl i Gymru ennill ei lle yn y twrnament ar gyfer ymgysylltu â Chymru gan ganolbwyntio ar Gwpan y Byd, ac anfonodd yr FCDO gynrychiolwyr i Gymru ar gyfer trafodaethau pellach. Roedd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol fel Cymdeithas Bêl-droed Cymru hefyd yn rhan o Fwrdd Cydlynu rheolaidd Cwpan y Byd 22 ar draws Llywodraeth Ei Fawrhydi dan arweiniad yr FCDO. Buom yn gweithio'n agos gyda Llysgenhadaeth Prydain yn Qatar i gynnal digwyddiadau cyn ac yn ystod Cwpan y Byd, gan gynnwys derbyniad mawr i Gymru ym mhreswylfa'r Llysgennad fel rhan o raglen y Prif Weinidog.

200. Bu tîm marchnata Brand Cymru Wales yn gweithio gyda thîm ymgyrchu UKG GREAT yn ystod y misoedd yn arwain at Gwpan y Byd FIFA yn hydref

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y Ffynhonnellau a'r Ffynhonnellau Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

2022 ar gynrychiolaeth Cymru mewn Pafiliwn GREAT yn Qatar, a oedd yn cynnwys cerdd ddwyieithog gan Hanan Issa am y Goedwig Genedlaethol.

201. Bu Swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled y byd hefyd yn gweithio gyda Llysgenhadaeth ac Is-genhadaethau'r DU i gynnal digwyddiadau ar y cyd.

Casgliad

202. Bwriad yr adroddiad trosolwg hwn yw darparu asesiad o sylwedd a chytbwys o natur gwaith rhynglywodraethol ar draws Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd hwn a chrynhoi'n benodol yr ymgysylltu sydd wedi digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

203. Fel y dangosir, rydym yn parhau i gael perthynas gadarnhaol â'r llywodraethau datganoledig eraill, ac mae enghreifftiau clir hefyd o gydweithio adeiladol a chydweithredol â Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, am lawer iawn o'r cyfnod hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi wynebu Llywodraeth y DU sydd wedi rhoi'r argraff ei bod yn gwrthwynebu datganoli, ac mae ei gweithredoedd yn niweidiol i'r Undeb o ganlyniad, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a materion ariannol.

204. Cafwyd rhai arwyddion bod modd gwella'r berthynas ers hydref 2022, ac rydym yn croesawu'r arwyddion hynny o gynnydd. Mae profion clir i ddod o hyd lle'r ydym yn gobeithio gweld Llywodraeth y DU yn gweithredu ar ei hymrwymiad datganedig i gonfensiwn Sewel, datganoli a'r Undeb.

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru
Mehefin 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drlllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-senedd-adroddiad-2021-i-2023-html> i weld y fersiwn diweddar.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).



Ein cyf/Our ref MA/FM/1379/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Adroddiad Cysylltiadau
Rhynglywodraethol**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu fy mod heddiw wedi gosod yr Adroddiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2023. Gellir gweld yr adroddiad cyhoeddedig [yma](#).

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford".

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 96
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Adroddiad ynglŷn â Chysylltiadau Rhynglywodraethol 2021-23
DYDDIAD 18 Gorffennaf 2023
GAN Y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS

Mae Llywodraeth Cymru heddiw wedi cyhoeddi adroddiad am gysylltiadau rhynglywodraethol sy'n ymwneud â'r cyfnod 2021-23. Mae ar gael yma: [Darparu gwybodaeth rhynglywodraethol i'r Senedd: adroddiad 2021 i 2023](#)

Diben yr adroddiad yw rhoi asesiad cytbwys o natur y gwaith rhynglywodraethol ar draws Llywodraeth Cymru, a chrynhofi'r ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yng nghyd-destun y [Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru](#).

Mae'n ychwanegu at y diweddariadau rheolaidd y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi i'r Senedd, yn y cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor, a thrwy ddatganiadau ysgrifenedig a gohebiaeth.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Jersey

DYDDIAD 19 Gorffennaf 2023

GAN Y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS

Roeddwn yn bresennol yn 39ain cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar 15 a 16 Mehefin, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Jersey.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Brif Weinidog Jersey, y Cynrychiolydd Kristina Moore, ar ran Llywodraeth Jersey. Ymysg y rhai eraill a oedd yn bresennol oedd y Taoiseach Leo Varadkar TD; y Tánaiste Micheál Martin TD; Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Humza Yousaf ASA; Prif Weinidog Guernsey, y Cynrychiolydd Peter Ferbrache; Prif Weinidog Ynys Manaw, yr Anrhydeddus Alfred Cannan MHK; y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol; a'r Gwir Anrhydeddus Chris Heaton-Harris AS, Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon.

Roedd hwn yn gyfle i fyfyrto ynghylch 25 mlynedd ers arwyddo Cytundeb Dydd Gwener y Groglith a phwysigrwyd y sefydliadau a sefydlwyd ganddo, gan gynnwys y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ei hun.

Roedd thema'r uwchgynhadledd hon yn canolbwyntio ar bolisi tai ac ynni. Buom yn trafod yr ymdrechion sydd ar waith ar draws aelod-weinyddiaethau'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i ddarparu tai fforddiadwy a chyflawni datgarboneiddio. Pwysleisiais fod dulliau adeiladu modern yn mynd y tu hwnt i ddylunio adeiladau modiwlwr ac y gallant helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ynni cynaliadwy. Maent hefyd yn cynnwys ymgorffori draenio trefol cynaliadwy ac yn gallu gwella fforddiadwyedd yn y pen draw.

Bu'r Cyngor yn trafod y datblygiadau geowleidyddol diweddaraf, gan gynnwys yr ymosodiad gan Rwsia ar Wcráin; yr argyfwng costau byw; newid yn yr hinsawdd; a pherthynas y DU â'r UE. Roedd hyn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon, gan ganolbwyntio ar Fframwaith Windsor. Wrth gyfrannu at y drafodaeth hon, tynnais sylw at bwysigrwyd sylfaenol ailsefydlu Gweithrediaeth ar gyfer Gogledd Iwerddon ac arwyddocâd Fframwaith Windsor, sy'n gam cyntaf wrth ailsefydlu perthnasoedd rhwng y DU a'r UE. Mae Llywodraeth Cymru am weld y perthnasoedd hyn yn

dyfnhau, gan gynnwys, er enghraifft, o ran cyfnewidiadau myfyrwyr, rhaglenni ymchwil ac Ewrop Greadigol.

Cyhoeddwyd cyd-hysbysiad ar ôl y cyfarfod, sydd ar gael yma: [39th British-Irish Council Summit, Government of Jersey 16 June 2023 Communiqué](#) (Saesneg yn Unig)

Bydd Uwchgynhadledd nesaf y Cyngor yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Iwerddon.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

19 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw,

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Jersey

Ymhellach at fy llythyr ar 12 Mehefin ynghylch y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Jersey a'r drafodaeth ynghylch polisi tai ac ynni, hoffwn dynnu eich sylw at fy [natganiad ysgrifenedig](#) a gyhoeddwyd heddiw, ac at [hysbysiad](#) y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd.

Tra oeddwn yn yr Uwchgynhadledd, manteisiais ar y cyfle i gael cyfarfodydd anffurfiol, dwyochrog â Phrif Weinidog Jersey, y Cynrychiolydd Kristina Moore; y Taoiseach Leo Varadkar TD; y Tánaiste Micheál Martin TD; Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Humza Yousaf ASA; a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 100
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

TEITL Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru

DYDDIAD 19 Gorffennaf 2023

ERBYN Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y
Cyfansoddiad

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, gallaf gadarnhau wrth Aelodau'r Senedd fy mod wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru ar 14 Mehefin.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn rhithiol a'i gadeirio y tro hwn gennyf i. Yn bresennol oedd, George Adam ASA, Y Gweinidog dros Fusnes Seneddol, Llywodraeth Yr Alban, Steve Baker AS, Gweinidog Gwladol yn Swyddfa Gogledd Iwerddon Llywodraeth y DU a Barwnes Scott, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Llywodraeth y DU.

Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i glywed diweddariad gan Lywodraeth y DU ar weithredu Deddf Etholiadau 2022 ac ar ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar ddiwygio etholiadol, yn ogystal â rhoi ddiweddariad ar fwriadau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio etholiadol.

Cyhoeddwyd Datganiad ar y cyd ynghylch y cyfarfod ar 18 Gorffennaf 2023: [Communiqués from the Interministerial Group for Elections and Registration](#) (dolen allanol, Saesneg yn unig).

Rydym yn parhau i gydweithio a bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter. Byddaf yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Aelodau.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

19 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 02 Mehefin ynghylch cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru a gynhaliwyd ar 14 Mehefin, rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig yn crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfod sy'n cynnwys Communiqué y cytunwyd arno. Mae wedi cael ei gyhoeddi yma: [\(dolen allanol mewn saesneg yn unig\)](#).

Yn gywir,

Mick Antoniw MS/AS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 102
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|----------------|---|
| TEITL | Rheoliadau drafft Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Marchnata a Safonau Cynnyrch Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023 |
| DYDDIAD | 06 Medi 2023 |
| GAN | Lesley Griffiths Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon i wneud Offeryn Statudol o'r enw Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Marchnata a Safonau Cynnyrch Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023 ("Y Rheoliadau 2023") i fod yn gymwys mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig (DU)

Gwneir yr Offeryn Statudol dan y teitl uchod gan y Gweinidog Gwladol, wrth arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 Atodlen 7 iddi. Mae'r Offeryn Statudol yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Ar hyn o bryd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae nwyddau bwyd-amaeth a gynhyrchir ac a symudir i Ogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i safonau anifeiliaid, planhigion, iechyd cyhoeddus, marchnata ac organig yr UE. Bydd y gwelliannau a wnaed i Brotocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir yn Fframwaith Windsor, yn rhannol yn galluogi sefydlu Cynllun Symud Manwerthu a fydd yn galluogi nwyddau bwyd-amaeth manwerthu i symud o DU i Ogledd Iwerddon a bodloni safonau iechyd y DU, marchnata ac organig y cyhoedd. Bydd yn dal yn ofynnol i nwyddau fodloni safonau'r UE ar gyfer iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a safonau'r UE sy'n berthnasol i sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Bydd yr UE yn datgymhwyso offerynnau deddfwriaethol perthnasol yr UE ar gyfer y categorïau o nwyddau y gellir eu symud o dan y cynllun symud manwerthu, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n gosod safonau ar iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig ar gyfer nwyddau yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer eu gorfodi. Fodd bynnag, bydd pwerau gorfodi yn erbyn safonau'r UE yn parhau i fod ar gyfer nwyddau a gynhyrchir yn Gogledd Iwerddon. Felly, mae angen deddfwriaeth ar sail ddomestig i sicrhau bod nwyddau sy'n cael eu symud o dan y cynllun yn ddarostyngedig i safonau DU, ac mae'r awdurdodau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon yn gallu gorfodi yn erbyn peidio â chydymffurfio â safonau'r DU.

Bydd y Cynllun Symud Manwerthu newydd hwn yn caniatáu masnachu nwyddau manwerthu penodedig rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn symlach ar gyfer aelodau'r cynllun, yn unol â'r cytundebau a wnaed gyda'r UE o dan Fframwaith Windsor.

Gosodwyd yr offeryn gerbron Senedd y DU ar 5 Medi 2023 gyda dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2023.

Unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r offeryn hwn yn gwneud darpariaeth ar y gyfraith sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon. Nid yw'r offeryn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Pwrpas yr Offeryn Statudol

Pwrpas y Rheoliadau yw diogelu bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Gogledd Iwerddon ("NI") a Phrydain Fawr ("GB"), yn dilyn cytundeb Fframwaith Windsor. Mae'r offeryn yn mynd i'r afael ag effaith Erthygl 1(2) i Reoliad arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd (cyfeirnod arfaethedig (UE) COM(2023)124) ar hyn o bryd yn unol â Fframwaith Windsor, mewn perthynas â rhai nwyddau manwerthu a symudwyd o Brydain Fawr i Gogledd Iwerddon a'u rhoi ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu na fydd deddfwriaeth yr UE bellach yn berthnasol i'r nwyddau penodol hynny nac i sefydliadau Gogledd Iwerddon wrth drin y nwyddau hynny yn Ngogledd Iwerddon lle bodlonir gofynion Rheoliad arfaethedig yr UE.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, pwrpas ac effaith Rheoliadau 2023 ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/id/uksi/2023/959>.

Pam bod caniatâd wedi'i roi?

Rhodddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud yr Offeryn hwn o ganlyniad i Gytundeb Fframwaith Windsor y daethpwyd iddo gan y DU a'r UE ac a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2023 ac i amddiffyn bioddiogelwch trwy gyflwyno mesurau amddiffynnol fel y Cynllun Symud Manwerthu newydd ar draws y DU.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

06 Medi 2023

Annwyl Huw

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr 30 Mehefin 2023 atoch chi. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghaniatâd i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Marchnata a Safonau Cynnyrch Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023 drafft mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma: <https://senedd.cymru/media/1bfljml/ws-ld16012-w.pdf>.

Rhodddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn yn dilyn Cytundeb Fframwaith Windsor a gyrhaeddwyd gan y DU a'r UE ac a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2023. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 5 Medi 2023 gyda dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2023.

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 106
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

21 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ar 7 Gorffennaf ynghylch *Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Marchnata a Safonau Cynnyrch Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023*. Gallaf gadarnhau mai hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o bum offeryn statudol sydd wedi'u cynllunio ar hyn o bryd, sy'n symud ymlaen yn erbyn llinellau amser amrywiol.

Rwyf wedi adolygu cwestiynau'r pwyllgorau yn dilyn eich cyfarfod ar 3 Gorffennaf, nodir fy atebion yn yr Atodiad canlynol.

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn Gywir,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad:

Cwestiynau gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cwestiwn 1: Dywedasoeh wrthym eich bod wedi derbyn llythyr gan Weinidog Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon, yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i'r Rheoliadau hyn. Allwch chi gadarnhau pryd ysgrifennodd yr Arglwydd Benyon atoch chi? Yn eich llythyr atom ar 2 Rhagfyr 2022, ymrwymoch i gynnwys dyddiad gohebiaeth â Gweinidogion y DU mewn llythyrau at Bwyllgorau'r Senedd.

Cwestiwn 2: Gallwch rannu gyda ni yr ohebiaeth berthnasol gyda'r Arglwydd Benyon. Unwaith eto, yn eich llythyr atom ar 2 Rhagfyr 2022, dywedasoeh y byddech yn anelu at ddarparu copïau o ohebiaeth gyda Llywodraeth y DU i Bwyllgorau'r Senedd priodol.

Ymateb.

Ysgrifennodd y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig, y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Benyon, at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar 23 Mai 2023, i ofyn i Weinidogion Cymru gydsynio i Reoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Marchnata a Safonau Cynnyrch Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023 drafft.

Amgaeëdig yw copi o'r llythyr uchod a'r ymateb ynghylch yr offeryn penodol hwn.

Cwestiwn 3: Dywedasoeh wrthym fod y Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig. Ydych chi wedi gwneud asesiad o'r rhaniad datganoledig/neilltuedig? Os felly, a allwch chi roi manylion yr asesiad hwnnw?

Cwestiwn 4: A wnaethoch ystyried cyflwyno eich Rheoliadau eich hun i ddelio â materion o fewn cymhwysedd datganoledig?

Ymateb.

Ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn statudol hwn gan Lywodraeth y DU fod yn gymwys i Gymru gan fod yr offeryn yn cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n cael eu pennu fel y cytunwyd arnynt yn Fframwaith Windsor. Daethpwyd i gytundeb gan y DU a'r UE a'i gyhoeddi ar 27 Chwefror 2023. Cafodd ei wirio ym Mhenderfyniad Rhif 1/2023 y Cyd-bwyllgor a sefydlwyd gan y Cytundeb ar Ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon o'r Undeb Ewropeaidd a Chymuned Ynni Atomig Ewrop. Mae'n briodol i Lywodraeth y DU wneud y rheoliadau er mwyn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson.

Er bod yr offeryn hwn yn ymwneud â deunydd pwnc sydd wedi'i ddatganoli mewn perthynas â Chymru (gan gynnwys safonau bwyd, a safonau iechyd planhigion), mae Rhan 2 yn ymwneud â diwygio deddfwriaeth Prydain gyfan ac mae Rhan 3 o'r offeryn hwn yn ymwneud yn benodol â chymhwyso'r gyfraith yng Ngogledd Iwerddon. Barn Llywodraeth Cymru yw nad oes gan Weinidogion Cymru ddigon o bwerau i wneud yr offeryn hwn ar wahân mewn perthynas â Chymru.

Mae'n bosibl y gallai diwygiadau i ddeddfwriaeth ar draws Prydain yn Rhan 2 o'r offeryn hwn, i'r graddau y maent yn gwneud darpariaethau sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru, fod wedi cael eu gweithredu ar wahân mewn perthynas â Chymru. Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys ar sail y DU gyfan gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng llywodraethau Cymru a llywodraethau eraill y DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r diwygiadau i'r ddeddfwriaeth ar draws Prydain yn hygyrch mewn un offeryn. Rwy'n credu nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau angenrheidiol na defnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Cwestiwn 5: A allwch gadarnhau bod y Rheoliadau hyn wedi'u datblygu drwy'r prosesau fframwaith cyffredin perthnasol.

Ymateb:

Mae swyddogion wedi defnyddio'r Fframwaith Cyffredin Iechyd Planhigion i weithio ar y cyd â Llywodraeth y DU ar y gwelliant hwn. Yn ogystal, mae swyddogion polisi yn trafod gyda DEFRA ynghylch y trefniadau llywodraethu i sicrhau bod buddiannau a safbwyntiau Cymru ar y Cynllun Symud Manwerthu yn cael eu hystyried a'u trin. Bydd Memorandwm Cydddealltwriaeth arfaethedig yn nodi sut y bydd proses y cytundeb yn gweithredu ar gyfer unrhyw newidiadau posibl i'r Cynllun yn y dyfodol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru, ynghyd â swyddogion o Lywodraeth yr Alban, Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli Rhaglen a Phrosiectau a gadeirir gan DEFRA a Bwrdd Rhaglen cyffredinol Gogledd Iwerddon sy'n goruchwylio gweithrediad Fframwaith Windsor.

Paratowyd Rheoliadau 2023 ac maent yn destun trafodaethau parhaus rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Offerynnau Statudol Drafft a dogfennau cysylltiedig mewn perthynas â'r rheoliadau hyn wedi'u rhannu neu maent yn broses o gael eu rhannu. Bu hanes hir o gydweithio o fewn y maes hwn, ac adlewyrchwyd hyn wrth ddrafftio'r offeryn hwn.

Cwestiwn 6: A yw Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu atoch am y pedair set arall o Reoliadau y cyfeirir atynt fel NID/011, NID/012, NID/013, a NID/015 yn llythyr Llywodraeth yr Alban?

b. Os nad yw Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu atoch am y Rheoliadau eraill, pa gamau y byddwch yn eu cymryd nawr?

c. Os yw Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu atoch am y Rheoliadau eraill, pam mae eich llythyr dyddiedig 30 Mehefin ond yn cyfeirio at Reoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Safonau Cynnyrch Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023 (NID/014)?

d. Oeddech chi'n ymwybodol o'r amseriadau ynghylch y Rheoliadau sy'n destun eich llythyr?

e. Oeddech chi'n ymwybodol y byddai Deddf 2023 yn arwain at y Rheoliadau sy'n destun i'ch llythyr ddim yn cael eu gwneud i'r weithdrefn gadarnhaol ?

Ymateb:

Mae'r llythyr gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon Gweinidog dros Fioddiogelwch, Môr a Materion Gwledig wedi'i amgáu. Mae'r offeryn Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Marchnata a Safonau Cynnyrch Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023 - NID/014) yn un o bump, a fydd yn sicrhau y gall nwyddau lôn werdd fynd i mewn i'r farchnad yn Ngogledd iwerddon yn gyfreithlon wrth gydymffurfio â safonau DU ar iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig (lle mae safonau'r UE yn cael eu datgymhwyso o dan Erthygl 1(2) ac Atodiad I o destun cyfreithiol drafft yr UE) a byddant yn cynnwys y mesurau gorfodi a chosbi angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth.

Nod Llywodraeth Cymru oedd sicrhau bod gan y Pwyllgor ddigon o amser i ystyried pob offeryn, unwaith y byddai drafftiau ar gael ac wedi cael adolygiad manwl cyn cael ei ystyried gan Weinidogion Cymru. Gan fod yr offerynnau i'w cyflwyno o dan amserlenni amrywiol, mae drafftio DEFRA ar adegau amrywiol. Ystyriwyd ei bod yn briodol ac yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor sicrhau bod yr offerynnau ar gael i chi, cyn gynted ag y byddent mewn sefyllfa, lle y gallent gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

I'r perwyl hwn, ar adeg ysgrifennu at y Pwyllgor, roedd NID014 i fod i gael ei gyflwyno o hyd o dan y weithdrefn gadarnhaol. Cafodd ei drosi wedyn i'r weithdrefn negyddol o gofio bod hynt Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir wedi dileu'r sbardun cadarnhaol yn dilyn ei Chydsyniad Brenhinol.

Bydd yr offerynnau sy'n weddill yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor cyn gynted ag y byddant yn cael yr un broses.

Cwestiwn 7: Ydych chi'n ymwybodol o weithredu deddfwriaeth sy'n cael ei pharatoi ymhellach i weithredu Fframwaith Windsor ac fel y disgrifir gan ddogfennau cysylltiedig y Fframwaith? Os felly, gallwch roi manylion, gan gynnwys amseriadau.

Mae'r tabl isod yn cynnwys pob un o'r offerynnau sy'n cael eu paratoi a'r amseriadau presennol a ddarparwyd i ni (os bydd unrhyw ddeddfwriaeth bellach yn dod i'r amlwg, byddwn yn ymdrechu i hysbysu'r Pwyllgor yn unol â hynny). Mae'r dyddiadau gosod wedi newid:

| Cyf | Enw | Pwerau | Gweithdrefn | Gosod |
|---------|---|----------|--------------------------|--------------|
| NID/013 | Rheoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi ayb.) 2023 | Adran 8C | Drafft Cadarnhaol | 4 Medi 2023 |
| NID/014 | Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Marchnata a Safonau Cynnyrch Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023 | Adran 8C | Wedi'i wneud yn negyddol | 30 Awst 2023 |
| NID/011 | Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu) 2023 | Adran 8C | Wedi'i wneud yn negyddol | 8 Awst 2023 |
| NID/012 | Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023 | Adran 8C | Wedi'i wneud yn negyddol | 30 Awst 2023 |

| | | | | |
|---------|--|-------------|--------------------------------|--------------------|
| NID/015 | Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cymorth Ariannol) (Marcio Nwyddau Manwerthu) 2023 | Adran 8C | Wedi'i wneud yn negyddol | 30 Awst 2023 |
|---------|--|-------------|--------------------------------|--------------------|



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

The Rt Hon Lord Benyon
Minister for Biosecurity, Marine and Rural Affairs

2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

T: +44 (0) 3459 335577
E: correspondence.section@defra.gov.uk
W: gov.uk/defra

Lesley Griffiths MS
Minister for Rural Affairs and
North Wales, and Trefnydd,
Welsh Government
5th Floor, Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ref
NID/011/012/013/014/015

23 May 2023

Dear Lesley,

DEFRA SI PROGRAMME

I am writing to seek your formal consent in respect of five Statutory Instruments (SIs) due to be laid in July and August 2023. These SIs intersect with devolved policy and will apply to Wales. Details of these SIs are provided in **Annex A**.

As these Regulations will make provisions that could be made by Welsh ministers in exercise of your own powers, I am writing to ask for your consent to the devolved provisions contained within them. This is in line with the UK Government's commitment that it will not normally use the powers set out in the legislation to make provisions that could be made by a devolved administration without the consent of the relevant devolved administration(s).

I would like to express my continued appreciation for the positive cooperation that exists between our officials that has enabled this work to progress so effectively to date. Should any changes to this forward look occur, my officials will continue to keep yours updated. Please do not hesitate to get in touch if you need further information.

I am copying this letter to Julie James MS who I understand may have an interest in some of these SIs.

Yours sincerely,

THE RT HON LORD BENYON

List of Defra SIs with devolved policy whose application extends to Wales and consent is being sought.

| Legislative ID | Title | Enabling powers | Parliamentary procedure | Anticipated laying date | Application | DA clearance | Policy area |
|----------------|--|-----------------|-------------------------|-------------------------|--|--------------|-------------------|
| NID/013 | The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 | EUWA Section 8c | Draft affirmative | Monday 17 July | England Wales Scotland Northern Ireland | Consent | Windsor Framework |
| NID/014 | The Windsor Framework (Retail Movement Scheme; Public Health, Marketing and Organics Standards) Regulations 2023 | EUWA Section 8c | Draft affirmative | Monday 17 July | England Wales Scotland Northern Ireland | Consent | Windsor Framework |
| NID/011 | The Windsor Framework (Retail Movement Scheme) Regulations 2023 | EUWA Section 8c | Made negative | Tuesday 8 August | England Wales Scotland Northern Ireland | Consent | Windsor Framework |
| NID/012 | The Windsor Framework (Plant Health) Regulations 2023 | EUWA Section 8c | Made negative | Wednesday 30 August | England Wales Scotland Northern Ireland | Consent | Windsor Framework |
| NID/015 | The Windsor Framework (Sanitary and Phytosanitary Grant Scheme) Regulations 2023 | EUWA Section 8c | Made negative | Wednesday 30 August | England Wales Scotland Northern Ireland | Consent | Windsor Framework |

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Rt Hon Lord Benyon Minister for Biosecurity,
Marine and Rural Affairs
UK Government
Department for Environment, Food and Rural Affairs
Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ref: NID/014

E: correspondence.section@defra.gov.uk

30th June 2023

Dear Richard,

Thank you for your letter of 23 May informing me of the UK Government's intention to lay the draft Windsor Framework (Retail Movement Scheme: Public Health, Marketing and Organic Product Standards and Miscellaneous Provisions) Regulations 2023.

I am giving consent to the application of the Regulations in Wales, in terms of the latest versions of the Regulations which I understand will be laid before the UK Parliament on 17 July 2023.

Yours sincerely,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 114
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

7 Gorffennaf 2023

Annwyl Lesley

Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Safonau Cynnyrch Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) Drafft 2023

Yn ein cyfarfod ar 3 Gorffennaf 2023 gwnaethom drafod eich llythyr dyddiedig 30 Mehefin am eich bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Safonau Iechyd y Cyhoedd, Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) Drafft 2023.

Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth ac eglurhad ynghylch rhai materion.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad cyn gynted â phosibl ac erbyn 31 Gorffennaf 2023 fan bellaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

Cwestiwn 1: Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod wedi cael llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon, yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i'r Rheoliadau hyn. A allwch gadarnhau pryd yr ysgrifennodd yr Arglwydd Benyon atoch. Yn eich **llythyr** atom ar 2 Rhagfyr 2022, gwnaethoch ymrwmo i gynnwys dyddiad yr ohebiaeth â Gweinidogion y DU mewn llythyrau at Bwyllgorau'r Senedd.

Cwestiwn 2: A fydddechystal â rhannu'r ohebiaeth berthnasol â'r Arglwydd Benyon gyda ni. Unwaith eto, yn eich **llythyr** atom ar 2 Rhagfyr 2022, gwnaethoch ddweud y bydddech yn ceisio darparu copïau o ohebiaeth gyda Llywodraeth y DU i Bwyllgorau priodol y Senedd.

Cwestiwn 3: Gwnaethoch ddweud wrthym bod y Rheoliadau yn croestorri â pholisi datganoledig. A ydych wedi gwneud asesiad o'r rhaniad wedi datganoli/wedi cadw'n ôl? Os felly, a allwch roi manylion am yr asesiad hwnnw.

Cwestiwn 4: A wnaethoch chi ystyried cyflwyno eich Rheoliadau eich hun i ymdrin â materion o fewn cymhwysedd datganoledig?

Cwestiwn 5: A allwch gadarnhau y cymerwyd y prosesau fframwaith cyffredin perthnasol wrth ddatblygu'r Rheoliadau hyn.

Cwestiwn 6: Ysgrifennodd Llywodraeth yr Alban at Senedd yr Alban ar 22 Mehefin 2023 yn nodi pecyn o bum Offeryn Statudol sy'n gweithredu rhannau o Fframwaith Windsor. Cyfeirir at y Rheoliadau yr ydych wedi ysgrifennu atom yn eu cylch fel NID/014 yn llythyr Llywodraeth yr Alban. Y Rheoliadau eraill yw: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu) 2023 - (NID/011); Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023 - (NID/012); Fframwaith Windsor (Gorfodi etc.) Rheoliadau 2023 - (NID/013); Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cymorth Ariannol) (Marcio Nwyddau Manwerthu) 2023 - (NID/015).

Mae'r llythyr gan Lywodraeth yr Alban i Senedd yr Alban yn nodi: "*NID/011, NID/012 and NID/015 are subject to negative procedure. DEFRA plan to lay NID/011 in Westminster on 8 August 2023 and NID/012 and NID/015 on 30 August 2023. NID/014 is currently subject to draft affirmative procedure but we have been informed by DEFRA that it will likely be changed to the negative procedure, and we therefore propose to treat it as such for consent purposes. It is due to be laid on 17 July 2023 under affirmative procedure, but may be laid in August under negative procedure. NID/013 is subject to draft affirmative procedure and is due to be laid on 17 July 2023.*" Yn benodol ar NID/014, mae Llywodraeth yr Alban yn nodi yn ei llythyr: "*The SI is currently subject to the draft affirmative procedure and is due to be laid on 17 July 2023, to come into force on 1 October 2023. However, the instrument may become subject to the negative procedure if the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill gains Royal Assent before the proposed laying date.*"



Caiff y Rheoliadau sy'n destun eich llythyr eu gwneud o dan adran 8C(1) o *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* (Deddf 2018) ac yn gwneud diwygiadau i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir (RDEUL). Cyn i *Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023* (Deddf 2023) ddod i rym, byddai rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os ydynt yn diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol neu'n cadw prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE (paragraff 8F(2)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018). Ar ôl i adran 9 o Ddeddf 2023 ac Atodlen 3 iddi ddod i rym, mae'r cyfeiriad at brif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir wedi'i ddileu o baragraff 8F(2)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018, sy'n golygu nad oes angen gweithdrefn gadarnhaol mwyach ar gyfer rheoliadau o'r fath.

- a. A yw Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu atoch ynghylch y pedair set arall o Reoliadau y cyfeirir atynt fel NID/011, NID/012, NID/013, ac NID/015 yn llythyr Llywodraeth yr Alban?
- b. Os nad yw Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu atoch am y Rheoliadau eraill, pa gamau y byddwch yn eu cymryd yn awr?
- c. Os yw Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu atoch ynghylch y Rheoliadau eraill, pam bod eich llythyr dyddiedig 30 Mehefin yn cyfeirio at Reoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Safonau Iechyd y Cyhoedd, Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023 (NID/014) yn unig?
- d. A oeddech yn ymwybodol o'r amseriadau ynghylch y Rheoliadau sy'n destun eich llythyr?
- e. A oeddech yn ymwybodol y byddai Deddf 2023 yn golygu na fyddai'r Rheoliadau sy'n destun eich llythyr yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol mwyach?

Cwestiwn 7: A ydych yn ymwybodol o ddeddfwriaeth weithredu bellach sy'n cael ei pharatoi i roi Fframwaith Windsor ar waith ac fel y disgrifir yn y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith? Os felly, a allwch roi manylion, gan gynnwys amseriadau.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|----------------|--|
| TEITL | Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu) 2023 |
| DYDDIAD | 10 Awst 2023 |
| GAN | Lesley Griffiths Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd |

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan y Gweinidog Gwladol y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu) 2023 ("Rheoliadau 2023") i fod yn gymwys mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig (DU).

Gwneir yr OS dan y teitl uchod gan y Gweinidog Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Mae'r OS yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Ar hyn o bryd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae nwyddau bwyd-amaeth a gynhyrchir ac a symudir i Ogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i safonau anifeiliaid, planhigion, iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig yr UE. Bydd y diwygiadau a wnaed i Brotocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir yn Fframwaith Windsor, yn rhannol yn galluogi sefydlu Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu a fydd yn galluogi nwyddau manwerthu penodol i symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon a bodloni safonau iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig Prydain Fawr. Bydd yn dal yn ofynnol i nwyddau fodloni safonau'r UE ar gyfer iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a safonau'r UE sy'n berthnasol i sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Bydd yr UE yn datgymhwyso offerynnau deddfwriaethol perthnasol yr UE ar gyfer y categorïau o nwyddau y gellir eu symud o dan y cynllun symud nwyddau manwerthu, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n gosod safonau ar iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig ar gyfer nwyddau yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar

gyfer eu gorfodi. Fodd bynnag, bydd pwerau gorfodi yn erbyn safonau'r UE yn parhau i fod ar gyfer nwyddau a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon. Felly, mae angen deddfwriaeth ddomestig er mwyn sicrhau bod nwyddau sy'n cael eu symud o dan y cynllun yn ddarostyngedig i safonau Prydain Fawr, a bod yr awdurdodau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon yn gallu gorfodi yn erbyn peidio â chydymffurfio â safonau Prydain Fawr.

Mae'r deddfwriaeth hon yn darparu ar gyfer sefydlu'r Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu. Mae Rheoliadau 2023 yn pennu sut y gall person wneud cais am gymeradwyaeth i symud nwyddau y mae'r Cynllun yn berthnasol iddynt i Ogledd Iwerddon; lleoliad, natur a graddfa'r gwiriadau; a hawliau mynediad, atafaelu a dinistrio nwyddau sy'n peri risg bosibl.

Gosodwyd yr OS gerbron Senedd y DU ar 8 Awst 2023. O ran Rhannau 1 a 2, bydd Rheoliadau 2023 yn dod i rym ar 1 Medi, gyda'r gweddill yn dod i rym ar 1 Hydref.

Unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae Rheoliadau 2023 yn deillio o gytundeb Fframwaith Windsor. Nid yw Rheoliadau 2023 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt gan Lywodraeth y DU ar fioldiogelwch yn y dyfodol.

Nid yw'r offeryn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 2023 yn rhoi swyddogaethau newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol, i sefydlu Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o sefydlu (a chynnal) y Cynllun yn arferadwy yn weinyddol ac yn cynnwys swyddogaeth sefydlu 'telerau ac amodau' y bydd y Cynllun yn gweithredu oddi tanynt. Mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru (a Gweinidogion yr Alban) i delerau ac amodau'r Cynllun cyn sefydlu'r Cynllun, a chyn unrhyw addasiad i'r telerau ac amodau yn y dyfodol. Gall methu â chydymffurfio â thelerau ac amodau'r Cynllun arwain at sancsiynau uniongyrchol o dan y Rheoliadau hyn (e.e. atal neu ddirymu cymeradwyaeth personau i gymryd rhan yn y Cynllun) a bydd yn drosedd bosibl yn unol â rheoliad 12 o Reoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi 2023 etc.) 2023.

Mae Rheoliadau 2023 (Rhan 4) yn gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau ymchwilio a phwerau gorfodi (gan gynnwys hawliau mynediad, a hawliau i atafaelu a gwaredu nwyddau). Mewn perthynas â Chymru, rhoddir swyddogaethau i bersonau a awdurdodir, yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru fel awdurdod priodol Prydain Fawr ar gyfer Cymru.

Rhoddir swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol a bydd rhaglen lywodraethu yn galluogi swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn cael eu harfer mewn modd sy'n adlewyrchu buddiannau Cymru. Yn ogystal, bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi proses gytundeb i weithredu ar gyfer unrhyw newidiadau posibl i'r Cynllun yn y dyfodol.

Y bwriad yw y bydd APHA yn rheoli'r broses a rhedeg y Cynllun o ddydd i ddydd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Pwrpas yr Offeryn Statudol

Pwrpas Rheoliadau 2023 yw amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, yn dilyn cytundeb Fframwaith Windsor. Mae'r offeryn yn mynd i'r afael ag effaith Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2023/1231 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 14 Mehefin 2023 ar reolau penodol sy'n ymwneud â mynediad i Ogledd Iwerddon o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig o rai llwythi o nwyddau manwerthu, planhigion ar gyfer plannu, tatws hadyd, peiriannau a cherbydau penodol a weithredir at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth, yn ogystal â symudiadau anfasnachol rhai anifeiliaid anwes i Ogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu na fydd deddfwriaeth restredig yr UE bellach yn berthnasol i'r nwyddau penodol hynny nac i sefydliadau Gogledd Iwerddon wrth drin y nwyddau hynny yng Ngogledd Iwerddon pan fo gofynion Rheoliad (EU) 2023/1231 yn cael eu bodloni.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, pwrpas ac effaith Rheoliadau 2023 ar gael yma:

[The Windsor Framework \(Retail Movement Scheme\) Regulations 2023 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk)

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr Offeryn hwn o ganlyniad i Gytundeb Fframwaith Windsor y daethpwyd iddo gan y DU a'r UE ac a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2023 ac i amddiffyn bioddiogelwch trwy gyflwyno mesurau amddiffynnol fel y Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu newydd ar draws Prydain Fawr.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

10 Awst 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch chi 1 Awst Gorffennaf 2023. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghaniatâd i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu) 2023 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma: <https://senedd.wales/media/nuijqlju/ws-ld15994-w.pdf>

Rhodddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn yn dilyn Cytundeb Fframwaith Windsor a gyrhaeddwyd gan y DU a'r UE ac a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2023. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 8 Awst 2023 gyda dyddiad cychwyn o 1 Medi (ar gyfer Rhannau 1 a 2, gyda'r gweddill yn dod i rym ar 1 Hydref 2023).

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 121



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

1 Awst 2023

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu) 2023.

Rwyf wedi derbyn llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Benyon yn gofyn am ganiatâd i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Gellid gwneud y darpariaethau gan Weinidogion Cymru wrth arfer ein pwerau ein hunain. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Mae'r offeryn statudol yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Ar hyn o bryd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae nwyddau bwyd-amaeth a gynhyrchir ac a symudir i Ogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i safonau anifeiliaid, planhigion, iechyd cyhoeddus, marchnata ac organig yr UE. Bydd y diwygiadau a wnaed i Brotocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir yn Fframwaith Windsor, yn rhannol yn sefydlu Cynllun Symud Manwerthu a fydd yn galluogi rhai nwyddau manwerthu i symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon a bodloni safonau iechyd, marchnata ac organig y cyhoedd yn y DU. Bydd yn dal yn ofynnol i nwyddau fodloni safonau'r UE ar gyfer iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a safonau'r UE sy'n berthnasol i sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 122
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yr UE yn datgymhwyso offerynnau deddfwriaethol perthnasol yr UE ar gyfer y categorïau o nwyddau a symudir o dan y cynllun symud manwerthu, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n gosod safonau ar iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig ar gyfer nwyddau yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer eu gorfodi. Fodd bynnag, bydd pwerau gorfodi yn erbyn safonau'r UE yn parhau i fod ar gyfer nwyddau a gynhyrchir yn y Gogledd Iwerddon. Felly, mae angen deddfwriaeth ar sail ddomestig i sicrhau bod nwyddau sy'n cael eu symud o dan y cynllun yn ddarostyngedig i safonau y DU, a gall yr awdurdodau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon orfodi yn erbyn peidio â chydymffurfio â safonau'r DU.

Bydd y Cynllun Symud Manwerthu newydd hwn yn caniatáu masnachu nwyddau manwerthu penodedig rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn symlach ar gyfer aelodau'r cynllun, yn unol â'r cytundebau a wnaed gyda'r UE o dan Fframwaith Windsor.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu'r Cynllun Symud Manwerthu newydd, sy'n gweithredu Fframwaith Windsor a'i fwiad yw rheoleiddio symudiad rhai nwyddau manwerthu o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon a pha wiriadau sydd i'w gwneud mewn perthynas â'r nwyddau hynny. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi sut y gall person wneud cais am gymeradwyaeth i symud nwyddau y mae'r Cynllun yn berthnasol iddynt i Ogledd Iwerddon; swyddogaethau ynghylch atal dirymu'r gymeradwyaeth honno; lleoliad, natur a graddfa'r gwiriadau; a hawliau mynediad, atafaelu a dinistrio ac ati nwyddau sy'n peri risg bosibl berthnasol.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn hwn fod yn berthnasol i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Credaf nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol na defnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi ayb.) 2023 drafft

DYDDIAD 06 Medi 2023

GAN Lesley Griffiths Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gyfundeb gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon i wneud Offeryn Statudol o'r enw Rheoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi etc.) 2023 drafft ("Rheoliadau 2023") i fod yn gymwys mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig (DU).

Gwneir yr Offeryn Statudol dan y teitl uchod gan y Gweinidog Gwladol, wrth arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Mae'r Offeryn Statudol yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Ar hyn o bryd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae nwyddau bwyd-amaeth a symudir i Ogledd Iwerddon, ac a gynhyrchir yno, yn ddarostyngedig i safonau anifeiliaid, planhigion, iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig yr UE. Bydd y gwelliannau a wnaed i Brotocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir yn Fframwaith Windsor, yn rhannol yn galluogi sefydlu Cynllun Symud Manwerthu a fydd yn galluogi nwyddau bwyd-amaeth sy'n cael eu manwerthu i symud o DU i Ogledd Iwerddon a bodloni safonau iechyd y cyhoedd, safonau marchnata a safonau organig. Bydd yn dal yn ofynnol i nwyddau fodloni safonau'r UE ar gyfer iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a safonau'r UE sy'n berthnasol i sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Bydd yr UE yn datgymhwyso offerynnau deddfwriaethol perthnasol yr UE ar gyfer y categorïau o nwyddau y gellir eu symud o dan y cynllun symud manwerthu, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n gosod safonau ar iechyd y cyhoedd, marchnata a nwyddau organig ar gyfer nwyddau yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer eu gorfodi. Fodd bynnag, bydd pwerau gorfodi yn erbyn safonau'r UE yn parhau i fod ar gyfer nwyddau a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon. Felly, mae angen

deddfwriaeth ar sail ddomestig i sicrhau bod nwyddau sy'n cael eu symud o dan y cynllun yn ddarostyngedig i safonau'r DU, a bod yr awdurdodau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon yn gallu gorfodi yn erbyn peidio â chydymffurfio â safonau'r DU.

Bydd y Cynllun Symud Manwerthu newydd hwn yn caniatáu masnachu nwyddau manwerthu penodedig rhwng y DU a Gogledd Iwerddon yn symlach ar gyfer aelodau'r cynllun, yn unol â'r cytundebau a wnaed gyda'r UE o dan Fframwaith Windsor.

Pwrpas Rheoliadau 2023 yw darparu ar gyfer gorfodi safonau DU yng Ngogledd Iwerddon. Mae Rheoliadau 2023 yn rhan o gyfres ehangach o offerynnau statudol sy'n cyflawni trefniadau Fframwaith Windsor, gan gynnwys mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gofynion y Cynllun Symud Manwerthu (sy'n peri risg i fiodiogelwch ynys Iwerddon ac a allai fel arall arwain at symud nwyddau'r Cynllun Symud Manwerthu ymlaen i'r UE).

Gosodwyd Rheoliadau 2023 gerbron Senedd y DU ar 4 Medi 2023 i ddod i rym ar 1 Hydref 2023.

Unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r offeryn hwn yn gwneud darpariaeth ar y gyfraith sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon. Mae hefyd yn gwneud diwygiadau i rai offerynnau statudol domestig sy'n berthnasol ym mhob un o wledydd Prydain. Nid yw'r offeryn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Pwrpas Rheoliadau 2023

Pwrpas Rheoliadau 2023 yw diogelu bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Gogledd Iwerddon ("GI") a'r Deyrnas Unedig ("DU"), yn dilyn cytundeb Fframwaith Windsor. Mae'r offeryn yn mynd i'r afael ag effaith Erthygl 1(2) i Reoliad arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd (cyfeirnod arfaethedig (UE) COM (2023)124) ar hyn o bryd yn unol â Fframwaith Windsor, mewn perthynas â rhai nwyddau manwerthu a symudwyd o DU i Ogledd Iwerddon a'u rhoi ar y farchnad yn Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu na fydd deddfwriaeth yr UE bellach yn berthnasol i'r nwyddau penodol hynny nac i sefydliadau Gogledd Iwerddon wrth drin y nwyddau hynny yn y DU lle mae gofynion Rheoliad arfaethedig yr UE yn cael eu bodloni.

Mae Rheoliadau 2023 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, pwrpas ac effaith y Rheoliadau ar gael yma:

[The Windsor Framework \(Enforcement etc.\) Regulations 2023 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

Pam bod caniatâd wedi'i roi?

Rhodddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud yr Offeryn hwn o ganlyniad i Gytundeb Fframwaith Windsor y daethpwyd iddo gan y DU a'r UE ac a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2023 ac i amddiffyn bioddiogelwch drwy gyflwyno mesurau amddiffynnol fel y Cynllun Symud Manwerthu newydd ar draws y DU.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.



Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDDC@senedd.cymru

6 Medi 2023

Annwyl Huw

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr 9 Awst atoch chi. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol i osod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi ayb.) 2023 drafft mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yn: <https://senedd.cymru/media/qyzkwe43/ws-ld16013-w.pdf>.

Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Gallai rhai agweddau o'r Rheoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer ein pwerau ein hunain. Mae'r Rheoliadau'n ymestyn i Ogledd Iwerddon, Lloegr, yr Alban a Chymru. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 4 Medi 2023 gyda dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2023.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r Rheoliadau fod yn berthnasol i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r ddarpariaeth deddfwriaethol yn hygyrch mewn un offeryn. Credaf nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol na defnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

09 Awst 2023

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Fframwaith drafft Windsor (Gorfodi etc.) Rheoliadau 2023

Rwyf wedi derbyn llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Benyon yn gofyn am ganiatâd i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Gellid gwneud y darpariaethau gan Weinidogion Cymru wrth arfer ein pwerau ein hunain. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Mae'r offeryn statudol yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Ar hyn o bryd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae nwyddau bwyd-amaeth a gynhyrchir ac a symudir i Ogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i safonau anifeiliaid, planhigion, iechyd cyhoeddus, marchnata ac organig yr UE. Bydd y diwygiadau a wnaed i Brotocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir yn Fframwaith Windsor, yn rhannol yn sefydlu Cynllun Symud Manwerthu a fydd yn galluogi rhai nwyddau manwerthu i symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon a bodloni safonau iechyd, marchnata ac organig y cyhoedd yn y DU. Bydd yn dal yn ofynnol i nwyddau fodloni safonau'r UE ar gyfer iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a safonau'r UE sy'n berthnasol i sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yr UE yn datgymhwysio offerynnau deddfwriaethol perthnasol yr UE ar gyfer y categorïau o nwyddau a symudir o dan y cynllun symud manwerthu, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n gosod safonau ar iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig ar gyfer nwyddau yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer eu gorfodi. Fodd bynnag, bydd pwerau gorfodi yn erbyn safonau'r UE yn parhau i fod ar gyfer nwyddau a gynhyrchir yn y Gogledd Iwerddon. Felly, mae angen deddfwriaeth ar sail ddomestig i sicrhau bod nwyddau sy'n cael eu symud o dan y cynllun yn ddarostyngedig i safonau Prydain Fawr, a gall yr awdurdodau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon orfodi yn erbyn peidio â chydymffurfio â safonau'r DU.

Bydd y Cynllun Symud Manwerthu newydd hwn yn caniatáu masnachu nwyddau manwerthu penodedig rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn symlach ar gyfer aelodau'r cynllun, yn unol â'r cytundebau a wnaed gyda'r UE o dan Fframwaith Windsor.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi Safonau Prydain Fawr yng Ngogledd Iwerddon, ac yn gwneud darpariaeth ar droseddau, cosbau a ffioedd penodol. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres ehangach o offerynnau statudol sy'n cyflawni trefniadau Fframwaith Windsor, gan gynnwys mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gofynion y Cynllun Symud Manwerthu (sy'n peri risg i fioggiogelwch ynys Iwerddon a gallai fel arall arwain at symud nwyddau'r Cynllun Symud Manwerthu i'r UE). Maent yn darparu am drosedd o beidio â chydymffurfio â thelerau ac amodau'r Cynllun Symud Manwerthu.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn hwn fod yn berthnasol i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Credaf nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol na defnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg at Llyr Gruffydd AS Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|----------------|--|
| TEITL | Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023 |
| DYDDIAD | 05 Medi 2023 |
| GAN | Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd |

Bydd aelodau'r Senedd am wybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig sy'n ymwneud â Chymru.

Mae'r Arglwydd Benyon, y Gweinidog dros Fioddiogelwch, y Môr a Materion Gwledig yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), wedi gofyn am ganiatâd i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023.

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud yr OS uchod, drwy arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r OS yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau yn gosod y syfleini i newid y ffordd y mae planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill yn symud rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon drwy gyflwyno gofynion cychwynnol ar gyfer cynllun Labeli Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon.

Bydd cynllun Labeli Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon yn galluogi symud gwahanol blanhigion a chynhyrchion planhigion o weithredwr proffesiynol Prydain Fawr at weithredwr proffesiynol Gogledd Iwerddon. Mae'n disgwyl bydd y cynllun hwn yn debyg i'r cynllun pasbort planhigion a ddefnyddir yn y DU ar hyn o bryd. Dyma'r planhigion a'r cynhyrchion planhigion sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun Labeli Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon:

- planhigion ar gyfer plannu;
- tatws hadyd;

- cerbydau a pheiriannau sydd wedi cael eu defnyddio at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth a chyfarpar i'w symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.

Gosodwyd yr OS gerbron Senedd y DU ar 5 Medi 2023 i ddod i rym ar 1 Hydref 2023.

Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r mesurau hyn o dan Fframwaith Windsor yn ehangu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru drwy roi swyddogaethau iddynt (yn rhinwedd eu swyddogaeth fel 'Awdurdod Cymwys' Cymru) yn ddilyffethair. Nid yw'r OS yn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Diben y diwygiadau

Diben y Rheoliadau yw diogelu bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau yn gosod y syfleini i newid y ffordd y mae planhigion a gwrthrychau eraill yn symud rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon drwy gyflwyno gofynion cychwynnol ar gyfer cynllun Labeli Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n manylu ar darddiad, diben ac effaith y diwygiadau ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/id/uksi/2023/957>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan, gan fod yr OS yn ymwneud â maes datganoledig, ond, mae'r OS yn gweithredu ledled Prydain Fawr ac yn cael effaith o ran derbyn nwyddau i Ogledd Iwerddon. Mae hefyd yn gosod gofynion ar weithredwyr Gogledd Iwerddon. Bydd gwneud y OS hwn ledled Prydain Fawr yn diogelu bioddiogelwch drwy gyflwyno mesurau diogelu fel Cynllun Labeli Iechyd Planhigion newydd Gogledd Iwerddon. Mae'n hanfodol i fusnesau ein bod yn cynnal yr un drefn ar gyfer Cynllun Labeli Iechyd Planhigion newydd Gogledd Iwerddon y naill ochr a'r llall i'r ffin.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

09 Awst 2023

Annwyl Huw,

Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor am y bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023 erbyn 30 Awst 2023.

Cefais lythyr oddi wrth y Gweinidog Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon AS yn gofyn am gydsyniad ar gyfer y Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliad yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban a Gogledd Iwerddon ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae hwn yn bŵer i Weinidog y Goron wneud rheoliadau mewn cysylltiad â Phrotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael. Mae'r OS yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diben y Rheoliadau yw diogelu bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Mae'r diwygiadau a gynhwysir yn y Rheoliadau yn newid y ffordd y mae planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill yn symud rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon drwy gyflwyno gofynion ar gyfer cynllun Labeli Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon.

Mae cynllun Labeli Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon yn galluogi symud gwahanol blanhigion a chynhyrchion planhigion o weithredwr proffesiynol Prydain Fawr i weithredwr proffesiynol Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn debyg i'r cynllun pasbort planhigion a ddefnyddir yn y DU ar hyn o bryd. Dyma'r planhigion a'r cynhyrchion planhigion sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun Labeli Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon:

- planhigion ar gyfer plannu;
- tatws hadyd;
- cerbydau a pheiriannau sydd wedi'u gweithredu at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth a chyfarpar i'w symud o Brydain Fawr i Gogledd Iwerddon.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a disgwylir y bydd yn cael ei osod gerbron Senedd y DU ar 30 Awst 2023 gyda dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2023.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol bod sylwedd y diwygiadau yn gymwys i Gymru. Mae'r OS yn ymwneud â maes datganoledig, ond mae'r OS yn gweithredu ledled Prydain Fawr ac yn cael effaith o ran derbyn nwyddau i Gogledd Iwerddon. Mae hefyd yn gosod gofynion ar weithredwyr Gogledd Iwerddon. O ystyried y defnydd i Gogledd Iwerddon, ni fyddai o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru i wneud yr OS hwn yn gyfan gwbl ar gyfer Cymru yn unig. Yn ogystal, nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Mae gwneud y rheoliadau ledled Prydain Fawr hefyd yn sicrhau na fydd unrhyw berygl o wahaniaeth deddfwriaethol yn y DU a fyddai'n debygol o beryglu gweithrediad Fframwaith Windsor.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (CCEI).

Yn gywir



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---------|--|
| TEITL | Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cymorth Ariannol) (Marcio Nwyddau Manwerthu) 2023 |
| DYDDIAD | 05 Medi 2023 |
| GAN | Lesley Griffiths, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd |

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan y Gweinidog Gwladol y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cymorth Ariannol) (Marcio Nwyddau Manwerthu) 2023 ("Rheoliadau 2023") i fod yn gymwys mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig (DU).

Gwneir yr OS dan y teitl uchod gan y Gweinidog Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) a (2) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Mae'r OS yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Ar hyn o bryd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae nwyddau bwyd-amaeth a gynhyrchir ac a symudir i Ogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i safonau anifeiliaid, planhigion, iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig yr UE. Bydd y diwygiadau a wnaed i Brotocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir yn Fframwaith Windsor, yn rhannol yn galluogi sefydlu Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu a fydd yn galluogi symud nwyddau manwerthu penodol o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon a bodloni safonau iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig Prydain Fawr. Bydd yn dal yn ofynnol i nwyddau fodloni safonau'r UE ar gyfer iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a safonau'r UE sy'n berthnasol i sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Bydd yr UE yn datgymhwyso offerynnau deddfwriaethol perthnasol yr UE ar gyfer y categorïau o nwyddau y gellir eu symud o dan y cynllun symud nwyddau manwerthu, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n gosod safonau ar iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig ar gyfer nwyddau yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer eu gorfodi. Fodd bynnag, bydd pwerau gorfodi yn erbyn safonau'r UE yn parhau

i fod ar gyfer nwyddau a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon. Felly, mae angen deddfwriaeth ddomestig er mwyn sicrhau bod nwyddau sy'n cael eu symud o dan y cynllun yn ddarostyngedig i safonau Prydain Fawr, a bod yr awdurdodau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon yn gallu gorfodi yn erbyn peidio â chydymffurfio â safonau Prydain Fawr.

Mae'r deddfwriaeth hon yn darparu ar gyfer cymorth ariannol a'r nod yw sicrhau:

- Bod sail statudol ar gyfer dyfarnu cymorth ariannol i ad-dalu neu roi cymorthdaliadau tuag at gostau marcio 'Nid ar gyfer yr UE' ar ddeunyddiau pecynnu a blychau sy'n ofynnol ar gyfer nwyddau sy'n symud drwy'r Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu, ac y mae'n ofynnol arddangos y geiriad hwn arnynt o 1 Hydref 2023 ymlaen
- Bod sail statudol ar gyfer dyfarnu cymorth ariannol mewn unrhyw ffurf y gellir ei roi drwy fenthyciad, grant neu warant.
- Bod sail statudol ar gyfer adfer unrhyw gymorth ariannol a ddyfarnwyd pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol neu ei ddirprwyon yn pennu bod yr arian wedi ei gamddefnyddio, ei gamberchnogi un ai'n anfwriadol neu'n fwriadol, neu o ganlyniad i unrhyw asesiad sy'n rhoi'r seiliau rhesymol i gredu nad yw'r arian a ddyfarnwyd wedi ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd.

Gosodwyd yr OS gerbron Senedd y DU ar 30 Awst 2023 a bydd yn dod i rym ar 1 Hydref.

Unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae Rheoliadau 2023 yn deillio o gytundeb Fframwaith Windsor. Nid yw Rheoliadau 2023 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt gan Lywodraeth y DU ar fiaddiogelwch yn y dyfodol.

Nid yw'r offeryn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 2023 yn rhoi swyddogaethau newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol, i sefydlu cynllun y gellir darparu cymorth ariannol oddi tano er mwyn darparu cymorth sy'n cydymffurfio â'r gofynion marcio nwyddau manwerthu. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddirprwyo swyddogaethau sy'n ymwneud â darparu cymorth ariannol gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru (a Gweinidogion yr Alban).

Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o sefydlu cynllun y gellir darparu cymorth ariannol oddi tano yn arferadwy'n weinyddol ac yn cynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â thorri amodau ar gyfer cymorth ariannol, gwallau gweinyddol, adfer cymorth ariannol ac atal neu derfynu cytundeb a hysbysiadau.

Rhoddir swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol a bydd rhaglen lywodraethu yn galluogi swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn cael eu harfer mewn modd sy'n adlewyrchu buddiannau Cymru. Yn ogystal, bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi proses gytundeb i weithredu ar gyfer unrhyw newidiadau posibl i'r Cynllun yn y dyfodol.

Pwrpas yr Offeryn Statudol

Pwrpas Rheoliadau 2023 yw amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, yn dilyn cytundeb Fframwaith Windsor. Mae'r offeryn yn mynd i'r afael ag effaith Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2023/1231 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 14 Mehefin 2023 ar reolau penodol sy'n ymwneud â mynediad i Ogledd Iwerddon o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig o rai llwythi o nwyddau manwerthu, planhigion ar gyfer plannu, tatws hadyd, peiriannau a cherbydau penodol a weithredir at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth, yn ogystal â symudiadau anfasnachol rhai anifeiliaid anwes i Ogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu na fydd deddfwriaeth restredig yr UE bellach yn berthnasol i'r nwyddau penodol hynny nac i sefydliadau Gogledd Iwerddon wrth drin y nwyddau hynny yng Ngogledd Iwerddon pan fo gofynion Rheoliad (EU) 2023/1231 yn cael eu bodloni.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, pwrpas ac effaith Rheoliadau 2023 ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/id/uksi/2023/956>.

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr Offeryn hwn o ganlyniad i Gytundeb Fframwaith Windsor y daethpwyd iddo gan y DU a'r UE ac a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2023 ac i amddiffyn bioddiogelwch trwy gyflwyno mesurau amddiffynnol fel y Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu newydd ar draws Prydain Fawr.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

05 Medi 2023

Annwyl Huw

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch ar 31 Awst 2023. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol ar gyfer gwneud Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cymorth Ariannol) (Marcio Nwyddau Manwerthu) 2023 ('y Rheoliadau') mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd ar gael yma:

<https://senedd.cymru/media/miipbhfu/ws-ld16009-w.pdf>

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn o ganlyniad i Gytundeb Fframwaith Windsor y daethpwyd iddo gan y DU a'r UE ac a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2023. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithred negyddol ac fe'i osodwyd gerbron Senedd y DU ar 4 Medi 2023, gyda dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2023.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Seilwaith.

Yn gywir,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 138
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

31 Awst 2023

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cymorth Ariannol) (Marcio Nwyddau Manwerthu) 2023 ('y Rheoliadau').

Rwyf wedi derbyn llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Beynon, yn gofyn am gydsyniad ar gyfer y Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaeth y gallai Gweinidogion Cymru ei wneud drwy arfer ein pwerau ein hunain. Bydd y Rheoliadau'n ymestyn i Loegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi ei anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau'n cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) a (2) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Ar hyn o bryd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae nwyddau bwyd-amaeth a gynhyrchir ac a symudir i Ogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i safonau anifeiliaid, planhigion, iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig yr UE. Bydd y diwygiadau a wnaed i Brotocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir yn Fframwaith Windsor, yn rhannol yn sefydlu Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu a fydd yn galluogi symud rhai nwyddau manwerthu o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon a bodloni safonau iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig Prydain Fawr. Bydd yn dal yn ofynnol i nwyddau fodloni safonau'r UE ar gyfer iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a safonau'r UE sy'n berthnasol i sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yr UE yn datgymhwyso offerynnau deddfwriaethol perthnasol yr UE ar gyfer y categorïau o nwyddau y gellir eu symud o dan y cynllun symud nwyddau manwerthu, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n gosod safonau ar iechyd y cyhoedd, marchnata a nwyddau organig ar gyfer nwyddau yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer eu gorfodi. Fodd bynnag, bydd pwerau gorfodi yn erbyn safonau'r UE yn parhau i fod ar gyfer nwyddau a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon. Felly, mae angen deddfwriaeth ar sail ddomestig i sicrhau bod nwyddau sy'n cael eu symud o dan y cynllun yn ddarostyngedig i safonau Prydain Fawr, a bod yr awdurdodau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon yn gallu gorfodi yn erbyn peidio â chydymffurfio â safonau Prydain Fawr.

Bydd y Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu newydd hwn yn caniatáu masnachu nwyddau manwerthu penodedig rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn symlach ar gyfer aelodau'r cynllun, yn unol â'r cytundebau a wnaed gyda'r UE o dan Fframwaith Windsor.

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu'r cynllun cymorth ariannol ('y cynllun) ac yn darparu pŵer disgrisiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol roi neu drefnu rhoi cymorth ariannol i gefnogi cydymffurfio â gofynion marcio nwyddau manwerthu. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â dirprwyo swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol ac adfer unrhyw gymorth ariannol a ddarperir o dan y cynllun. Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno cymorth ariannol, sydd yn debygol o fod ar ffurf grant, er mwyn ad-dalu busnesau am y costau penodol a ysgwyddwyd wrth baratoi ar gyfer y gofynion labelu a fydd yn angenrheidiol o dan y Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu, o 1 Hydref 2023 ymlaen.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ystyrir ei bod yn briodol y tro hwn i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru gan nad oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn gydlynol ac yn gyson a bod y rheoliadau ar gael mewn un Offeryn. Rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd orau o weithredu'r newidiadau angenrheidiol ac na fyddai hynny'n ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Seilwaith.

Yn gywir,



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

30 Awst 2023

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder

Ysgrifennaf yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu y bydd cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder yn cael ei gynnal ar 12 Medi. Bwriadwyd cynnal y cyfarfod hwn yn wreiddiol ar 24 Mai ond fe'i gohiriwyd oherwydd nad oedd modd i'r Arglwydd Bellamy KC, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, fod yn bresennol.

Mae disgwyl i'r cyfarfod hybrid gael ei gadeirio gan yr Arglwydd Bellamy KC a byddaf i'n cynrychioli Llywodraeth Cymru o bell. Mae'r cyfarfod yn debygol o ganolbwyntio ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r Bil Dioddefwyr, Carchardai, Adfer y Llysoedd, Cymorth Cyfreithiol, a Chyfraith yr UE a Ddargedwir.

Byddaf yn rhoi diweddariad yn dilyn y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

Yn gywir



Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

• Mae'r cyfrifoldebau dros weithredu'r confensiwn i'w hysgwyddo ar draws yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â chynnal digwyddiad gan gynnwys yr heddlu ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ogystal â diogelwch, mae hyn yn ymestyn i'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau i sicrhau bod pêl-droed a digwyddiadau chwaraeon eraill yn bleserus ac yn groesawgar i bawb, mewn stadia yn ogystal â manau cyhoeddus lle mae gwylwyr a chefnogwyr yn ymgynnull cyn, yn ystod ac ar ôl y gemau. Mae hyn yn cynnwys agweddau fel arlwyyo da a chyfleusterau toiledau a'r modd y caiff pobl eu cyfarch a'u trin drwy gydol y digwyddiad. Dyna pam mae'r dull cynhwysol a ddefnyddir yng Nghymru o gynllunio a rheoli digwyddiad yn hanfodol.

Rwy'n croesawu diddordeb y pwyllgor yn y confensiwn hwn.

Dymuniadau gorau,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD



Ein cyf/Our ref FM/1990/23

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

llywydd@senedd.cymru

27 Gorffennaf 2023

Annwyl Lywydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Gorffennaf mewn perthynas â Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Defnydd Sengl) (Cymru) 2023 a'r broses gychwyn.

Fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 22 Mawrth, dyma'r tro cyntaf i Fil a basiwyd gan y Senedd gymryd rhan ym mhroses Sefydliad Masnach y Byd (WTO). Roedd y dull a ddefnyddiwyd gennym mewn perthynas â chyfnod segur WTO o chwe mis yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r gofynion a'r mecanweithiau sy'n gysylltiedig â'r broses honno. Rwy'n cydnabod bod budd o adolygu'r broses hon os yw'n helpu i roi mwy o eglurder wrth symud ymlaen a byddaf yn gofyn i fy swyddogion drefnu cyfarfod gyda Chomisiwn y Senedd i drafod ymhellach.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|----------------|--|
| TEITL | Datganiad ar gynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru |
| DYDDIAD | 28 Gorffennaf 2023 |
| GAN | Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad |

Ym mis Mai, adroddais ar gynnydd gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Cyfarfu'r Prif Weinidog, arweinydd Plaid Cymru a minnau â'r Cyd-gadeiryddion y mis hwn am ddiweddariad rheolaidd ar y gwaith sy'n parhau.

Mae'r adroddiad cynnydd diweddaraf oddi wrth y Cyd-gadeiryddion i'w weld yma: [Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad cynnydd – Gorffennaf 2023](#).

Cawsom ein calonogi'n arbennig o glywed am y ffordd y mae'r Comisiwn wedi ymgysylltu â'r cyhoedd ac am eu hymdrechion i sicrhau y bydd yr amrediad llawn o safbwyntiau ar draws y ddadl ynghylch dyfodol cyfansoddiadol Cymru yn cael ei ystyried wrth lunio'r adroddiad terfynol.

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau. Os bydd yr aelodau eisiau imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynghlŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@Senedd.Cymru

2 Awst 2023

Annwyl Huw,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i ofyn am gywiriad i'r cofnod o'm hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf. Mae'n ddrwg gennyf nad oeddwn yn gallu adolygu'r cofnod cyn eich dyddiad cau.

Ym mharagraff 145 awgrymais fod gwaith o Brifysgol Caerdydd - roeddwn yn cyfeirio at y llyfr "The Welsh Criminal Justice System: On The Jagged Edge", gan yr Athro Richard Wyn Jones a Doctor Robert Jones - yn cynnwys ystadegyn bod dwy ran o dair o'r rhai sydd yn y carchar gyda chyfeiriad preswyl yng Nghymru yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mewn gwirionedd, er bod nifer o ystadegau perthnasol, nid oes ystadegyn yn y llyfr ar ba gyfran o bobl yn y carchar yng Nghymru sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac nid yw'r wybodaeth honno yn cael ei chyhoeddi'n rheolaidd ychwaith gan HMPPS.

Rwyf yn gobeithio y bydd y Pwyllgor yn cytuno, er hynny, fod y pwynt yr oeddwn yn ceisio ei gyfleu yn dal yn wir. Mae'r llyfr, er enghraifft, yn cynnwys yr ystadegyn ysgytwol canlynol: ar yr adeg y gwnaed yr ymchwil, am bob 10,000 o bobl Ddu sy'n byw yng Nghymru, dywedwyd bod 91 yn y carchar tra oedd y ffigur cyfatebol ar gyfer pobl Wyn yn 14. Mewn geiriau eraill, roedd pobl Ddu o Gymru wedi'u gorgynrychioli ym mhoblogaeth carchardai yn ôl ffactor o chwech o'i gymharu â'u cymheiriaid Gwyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gellid cymryd y camau priodol i sicrhau bod y cofnod yn adlewyrchu'r uchod.

Yn gywir

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

07 Awst 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr, dyddiedig 12 Gorffennaf ynghylch Cytundeb y DU-Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol.

Dim ond Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer i ddod i gytundeb rhyngwladol sy'n rhwymo'r DU gyfan, gan nad yw'r swyddogaeth hon wedi'i datganoli, yn unol â pharagraff 10(1) o atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae gan y Senedd y pŵer i basio cyfreithiau sy'n ymwneud â chadw a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, gan fod paragraff 10(3) o atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn eithrio'r swyddogaethau hyn o'r elfennau nas datganolwyd ym mharagraff 10(1).

Mae hyn yn golygu bod buddiannau cyfreithlon a hanfodol gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd yn amodau a phrosesau negodi unrhyw gytundebau rhyngwladol sy'n galw am weithredu mewn meysydd datganoledig.

Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i wrthwynebu'r syniad o gynnwys pwerau cydredol megis y rhai yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022. Mae safbwynt Llywodraeth y DU o ran cymryd y pwerau hyn yn gwbl amhriodol ac yn amharchu egwyddor datganoli.

Ni roddodd y Senedd ei chydysniad i Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol. Fodd bynnag, Gweinidogion Cymru sydd â'r swyddogaethau gweithredol perthnasol bellach. Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau, felly, i wneud deddfwriaeth o dan y Ddeddf i weithredu honno

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 194
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a Chytundeb y DU-Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol mewn perthynas â
Chymru, a byddant yn cyflawni'r swyddogaethau hynny yn gyfrifol.

Dymuniadau gorau,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS

Prif Weinidog Cymru

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Mark,

Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth gan y Ddwy Ochr o Gymwysterau Proffesiynol

Byddwch yn gwybod mai'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar **10 Gorffennaf 2023**, gwnaethom ystyried y DU/y Swistir: Cytundeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol. Mae'r cytundeb hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cydnabyddiaeth gan y ddwy ochr o gymwysterau proffesiynol yn y DU a'r Swistir.

Mae'r cytundeb yn ymwneud â gofynion rheoleiddio ar gyfer cymwysterau proffesiynol, y mae rhai agweddau arnynt wedi'u datganoli i Gymru. Ar y sail honno, deallwn fod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch drafftio'r cytundeb a'r testun drafft perthnasol cyn ei lofnodi, a chroesawn yr ymgysylltiad hwn â'r llywodraethau datganoledig.

Gwyddom fod *Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022* (Deddf 2022) yn cynnwys pwerau y gellir eu defnyddio gan Weinidogion y DU neu Weinidogion datganoledig i roi cytundebau cydnabod rhyngwladol ar waith ac felly y gellir eu defnyddio i roi'r cytundeb hwn ar waith. Byddwch yn ymwybodol bod y Senedd wedi gwrthod cydsyniad i Ddeddf 2022 ar ddau achlysur, ar ôl ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Byddem hefyd yn croesawu eich barn ar y berthynas, os o gwbl, rhwng gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel, gan gofio bod y Senedd wedi gwrthod cydsyniad ar gyfer y rhiant-ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried ar gyfer gweithredu'r cytundeb hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 11 Awst 2023.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Awst 2023

Annwyl Huw,

Diolch am yr adroddiad a osodwyd gerbron y Senedd ar 3 Gorffennaf ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) Rhif 6 Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael.

Rwyf wedi ystyried y pedwar argymhelliad yn yr adroddiad, ac rwy'n falch o ddarparu fy ymateb i bob un ohonynt isod.

Argymhelliad 1: Dylai'r Gweinidog nodi yn y ddadl ar gydsyniad deddfwriaethol sydd ar ddod sy'n ymwneud â Memorandwm Rhif 6 sut mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym Memorandwm Rhif 6 yn ymwneud â darpariaethau mewn memoranda blaenorol, a hefyd sut maent yn ymwneud â chanlyniad dadleuon y Senedd ar gynigion cydsyniad a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mawrth 2023.

Fel yr eglurais yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Gorffennaf, roedd llawer o'r gwelliannau'n dechnegol o ran eu natur. Mae tabl ynghlwm yn Atodiad A sy'n cymharu'r darpariaethau ym Memorandwm Rhif 6 a memoranda blaenorol.

Mae'r holl welliannau yn gyson â memoranda blaenorol ac yn cyd-fynd yn llawn â pholisi Gweinidogion Cymru. Maent yn ymwneud ag adrannau o'r Bil a gynhwysir yng Nghynnig 1, y cytunwyd arno yn y Senedd ar 28 Mawrth 2023.

Gallaf gadarnhau hefyd nad oes unrhyw welliannau a gynhwysir yn Memorandwm Rhif 6 yn ymwneud â Chynnig 2, y darpariaethau na chytunwyd arnynt yn y Senedd ar 28 Mawrth.

Argymhelliad 2: Dylai'r Gweinidog nodi yn y ddadl ar gydsyniad deddfwriaethol sydd ar ddod sy'n ymwneud â Memorandwm Rhif 6 pa gamau y mae wedi'u cymryd i ddatrys y materion nad oedd y Senedd wedi rhoi ei chydsyniad ar eu cyfer, fel y nodir yng nghynnig 2 y ddadl cydsyniad deddfwriaethol a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 198
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel yr amlinellais yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Gorffennaf, roedd cynnig 2 yn ymwneud ag elfennau masnach y Bil Caffael yn unig. Cafodd swyddogion a Gweinidogion sawl trafodaeth gyda Llywodraeth y DU cyn y ddatl ar 28 Mawrth ynghylch y materion hyn. Oherwydd y gwahaniaeth mewn safbwyntiau yn y meysydd hyn, nid ydym wedi cael unrhyw ddeialog bellach gyda Llywodraeth y DU.

Gan fod gan Weinidogion Cymru bwerau cydredol yn y Bil Caffael yn y meysydd hyn, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'n rheoliadau ein hunain drwy'r Senedd mewn perthynas â'r cymalau masnach hyn. Byddwn yn dilyn y model a ddefnyddiwyd gennym o dan y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) i ddatblygu ein hofferynnau statudol ein hunain ar gyfer unrhyw gytundebau masnach yn y dyfodol.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor gan ddarparu ymatebion manwl i argymhellion 1 a 2 ar gyfer y cofnod cyhoeddus.

Mae'r llythyr hwn yn darparu'r ymateb i argymhellion 1 a 2 ar gyfer y cofnod cyhoeddus.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor i:

- esbonio'r goblygiadau i'r drefn gaffael yng Nghymru pe na bai'r Senedd yn cydsynio i gynnig 2 ar 28 Mawrth 2023;

Fel y nodwyd yn fy ymateb i argymhelliad 2 uchod, mae gan Weinidogion Cymru bwerau cydredol yn y Bil Caffael mewn perthynas â'r cymalau masnach. Felly, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'n rheoliadau ein hunain drwy'r Senedd yn y maes hwn. Byddwn yn dilyn y model a ddefnyddiwyd gennym o dan y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) i ddatblygu ein hofferynnau statudol ein hunain ar gyfer unrhyw gytundebau masnach yn y dyfodol.

- nodi i ba raddau y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu arfer pwerau i wneud rheoliadau yng Nghymru mewn meysydd datganoledig;

Dylai Aelodau gael eu sicrhau ein bod wedi cymryd pwerau cyfatebol ym mhob maes priodol o'r Bil. Yn yr achosion hyn, dim ond Gweinidogion Cymru all arfer pwerau mewn meysydd datganoledig.

Cytunwyd mewn rhai achosion ei bod yn briodol i Weinidog y Goron arfer pwerau i wneud rheoliadau a phwerau eraill mewn meysydd datganoledig. Rhestrir y pwerau hyn yn Rhan 1 o Atodiad B ac maent yn cynnwys pwerau i Weinidog y Goron yn unig a phwerau cydredol, gan gynnwys pwerau cydredol plws.

Mae'r pwerau cydredol a restrir yn Rhan 2 o Atodiad B yn ymwneud â masnach ryngwladol, sy'n fater y mae'r Senedd hon eisoes wedi pleidleisio arno ac wedi atal cydsyniad.

Mae pwerau o dan y Ddeddf a roddir i "awdurdod priodol" yn cael eu rhoi i Weinidog y Goron, fel y'i diffinnir yn Neddf Gweinidogion y Goron 1975. Mae'r diffiniad hwn yn ehangach na'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Mae'n golygu deiliad swydd yn Llywodraeth Ei Fawrhydi yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n cynnwys y Trysorlys, y Bwrdd Masnach a'r Cyngor Amddiffyn.

- esbonio pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'i meysydd sy'n parhau i beri pryder, gan gynnwys drwy gyflwyno deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol.

Roedd y meysydd sy'n peri pryder yn ymwneud ag elfennau masnach y Bil Caffael yn unig. Gan fod gan Weinidogion Cymru bwerau cydredol yn y Bil Caffael yn y meysydd hyn, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'n rheoliadau ein hunain drwy'r Senedd hon. Byddwn yn dilyn y model a ddefnyddiwyd gennym o dan y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) i ddatblygu ein hofferyn statudol ein hunain.

Rwy'n gobeithio bod yr ymatebion a roddwyd yn ddefnyddiol. Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes angen unrhyw beth pellach arnoch.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government

Atodiad A – Tabl sy'n cymharu fersiynau'r Bil Caffael

Y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022:

<https://bills.parliament.uk/publications/46439/documents/1777>

Y Bil fel y'i diwygiwyd yn Uwch-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 26 Hydref 2022:

<https://bills.parliament.uk/publications/48269/documents/2396>

Y Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi) ar 14 Rhagfyr 2022:

<https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill.pdf>

Y Bil 249 2022-23 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus) ar 24 Chwefror 2023:

<https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0249/220249.pdf>

Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin 13 Mehefin 2023

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|---|---|---|---|---|--|
| <i>RHAN 1 DIFFINIADAU ALLWEDDOL</i> | | | | | |
| Amhert hnasol | Caffael a Chaffael a Gwmpesir | Amherthnasol | 1 | 1 | |
| 1 | Awdurdodau contractio | 1 | 2 | 2 | |
| 2 | Contractau cyhoeddus | 2 | 3 | 3 | |
| 3 | Prisio contractau | 3 | 4 | 4 | |
| 4 | Caffael cymysg: dros y trothwy ac o dan y trothwy | 4 | 5 | 5 | |
| 5 | Contractau â chyfleustodau | 5 | 6 | 6 | |
| 6 | Contractau amddiffyn a diogelwch | 6 | 7 | 7 | |
| 7 | Contractau consesiwn | 7 | 8 | 8 | |
| 8 | Contractau cyffyrddiad ysgafn | 8 | 9 | 9 | |
| 9 | Caffael cymysg: contractau cyfundrefn arbennig | 9 | 10 | 10 | |
| <i>RHAN 2 EGWYDDORION AC AMCANION</i> | | | | | |
| 10 | Caffael yn unol â'r Ddeddf hon yn unig Teitl cymal diwygiedig fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi: Caffael a gwmpesir yn unol â'r Ddeddf hon yn unig | 10 | 11 | 11 | |
| 11 | Amcanion caffael Teitl cymal diwygiedig fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi Caffael a gwmpesir: amcanion | 11 | 12 | 12 | |
| 12 | Datganiad y polisi caffael cenedlaethol | 12 | 13 | 13 | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwy no | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|--|---|---|---|---|--|
| 13 | Datganiad polisi caffael Cymru | 13 | 14 | 14 | |
| <i>RHAN 3</i> DYFARNU CONTRACTAU CYHOEDDUS A GWEITHDREFNAU | | | | | |
| PENNOD 1 <i>CAMAU CYCHWYNNOL</i> | | | | | |
| 14 | Hysbysiadau caffael wedi'u cynllunio | 14 | 15 | 15 | |
| 15 | Ymgysylltu cychwynnol â'r farchnad | 15 | 16 | 16 | |
| 16 | Hysbysiadau ymgysylltu cychwynnol â'r farchnad | 16 | 17 | 17 | |
| 17 | Dyletswydd i ystyried lotiau | 17 | 18 | 18 | |
| PENNOD 2 DYFARNU CYSTADLEUOL | | | | | |
| <i>Telerau caffael</i> | | | | | |
| 18 | Dyfarnu contractau cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn gystadleuol Teitl cymal diwygiedig fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor: <i>Dyfarnu contractau cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn dendro gystadleuol</i> | 18 | 19 | 19 | |
| 19 | Gweithdrefnau tendro cystadleuol | 19 | 20 | 20 | |
| 20 | Hysbysiadau tendro a dogfennau tendro cysylltiedig | 20 | 21 | 21 | |
| 21 | Amodau cyfranogiad | 21 | 22 | 22 | |
| 22 | Meini prawf dyfarnu | 22 | 23 | 23 | |
| 23 | Mireinio meini prawf dyfarnu | 23 | 24 | 24 | |
| 24 | Manylebau Technegol <i>Symudwyd y cymal hwn i Bennod 6 'Darpariaeth gyffredinol ynghylch dyfarniadau a gweithdrefnau', o dan is-adran newydd "Manylebau technegol", fel rhan o welliannau yn yr Uwch-bwyllgor.</i> | 53 | 56 | 56 | |
| 25 | Manylebau is-gontractio | 24 | 25 | 25 | |
| <i>Eithriadau ac addasiadau</i> | | | | | |
| 26 | Eithrio cyflenwyr o ddyfarniad cystadleuol | 25 | 26 | 26 | |
| 27 | Eithrio cyflenwyr o weithdrefn dendro gystadleuol Teitl cymal diwygiedig fel y'i | 26 | 27 | 27 | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|--|---|---|---|---|--|
| | diwygiwyd n yr Uwch-bwyllgor: <i>Eithrio cyflenwyr o weithdrefn hyblyg gystadleuol</i> | | | | |
| 28 | Eithrio cyflenwyr drwy gyfeirio at is-gontractwyr | 27 | 28 | 28 | |
| 29 | Eithrio cyflenwr sy'n fygythiad i ddiogelwch cenedlaethol | 28 | 29 | 29 | |
| 30 | Eithrio cyflenwyr am ymddygiad amhriodol | 29 | 30 | 30 | |
| 31 | Addasu caffael adran 18 Teitl cymal diwygiedig fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi: <i>Addasu caffael adran 19</i> | 30 | 31 | 31 | |
| <i>Neilltuo contractau i gyflenwyr penodol</i> | | | | | |
| 32 | Neilltuo contractau i ddarparwyr cyflogaeth â chymorth | 31 | 32 | 32 | |
| 33 | Neilltuo contractau i gwmnïau cydfuddiannol y sector cyhoeddus | 32 | 33 | 33 | |
| <i>Dyfarnu contractau drwy gyfeirio at farchnadoedd deinamig</i> | | | | | |
| 34 | Dyfarnu cystadleuol drwy gyfeirio at farchnadoedd deinamig | 33 | 34 | 34 | |
| 35 | Marchnadoedd deinamig: sefydlu | 34 | 35 | 35 | |
| 36 | Marchnadoedd deinamig: aelodaeth | 35 | 36 | 36 | |
| 37 | Marchnadoedd deinamig: tynnu aelodau o'r farchnad | 36 | 37 | 37 | |
| 38 | Marchnadoedd deinamig: ffioedd | 37 | 38 | 38 | |
| 39 | Hysbysiadau marchnadoedd deinamig | 38 | 39 | 39 | |
| Amhert hnasol | Hysbysiadau marchnad ddeinamig cyfleustodau cymwys: Dim dyletswydd i gyhoeddi tendr | Amherthnasol | 40 | 40 | |
| PENNOD 3 DYFARNU UNIONGYRCHOL | | | | | |
| 40 | Dyfarnu uniongyrchol mewn achosion arbennig | 39 | 41 | 41 | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwy no | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|--|---|---|---|---|---|
| 41 | Dyfarnu uniongyrchol i ddiogelu bywyd, etc | 40 | 42 | 42 | |
| 42 | Newid i ddyfarnu uniongyrchol | 41 | 43 | 43 | Byddai'r gwelliannau i'r cymal hwn yn golygu na allai awdurdod contractio (AC) ddibynnu ar gymal 19(3)(d) i gyfiawnhau newid i ddyfarnu uniongyrchol ac y byddai'n rhaid iddynt gymhwysu rheolau cymal 19 ar dendrau anarferol o isel cyn dibynnu ar y ffaith honno i newid i ddyfarnu uniongyrchol. Byddai gwelliant pellach yn adlewyrchu'r ffaith y bydd rhai gofynion gweithdrefnol mewn dogfennau tendro cysylltiedig yn hytrach nag yn yr hysbysiad tendro yn unig. |
| 43 | Hysbysiadau tryloywder | 42 | 44 | 44 | |
| PENNOD 4 DYFARNU O DAN FFRAMWEITHIAU | | | | | |
| 44 | Fframweithiau | 43 | 45 | 45 | |
| Amhert hnasol | Fframweithiau: Proses Dewis Cystadleuol | Amherthnasol | 46 | 46 | |
| 45 | Fframweithiau: uchafswm cyfnod | 44 | 47 | 47 | |
| 46 | Fframweithiau: telerau ymhlyg | 45 | 48 | 48 | |
| 47 | Fframweithiau agored | 46 | 49 | 49 | |
| PENNOD 5 AR ÔL DYFARNU, CYFNODAU SEGUR A HYSBYSIADAU | | | | | |
| 48 | Hysbysiadau dyfarnu contract a chrynodebau asesu | 47 | 50 | 50 | |
| 49 | Cyfnodau segur ar ôl dyfarnu contractau | 48 | 51 | 51 | |
| 50 | Dangosyddion perfformiad allweddol | 49 | 52 | 52 | Byddai'r gwelliannau i'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddangosyddion perfformiad allweddol gael eu cyhoeddi, ond nid o reidrwydd cyn yr ymrwymir i'r contract. |
| 51 | Hysbysiadau manylion contract a chyhoeddi contractau | 50 | 53 | 53 | |
| PENNOD 6 DARPARIAETH GYFFREDINOL YNGHYLCH DYFARNU A GWEITHDREFNAU | | | | | |
| <i>Terfynau amser a therfynu</i> | | | | | |
| 52 | Terfynau amser | 51 | 54 | 54 | |
| 53 | Hysbysiadau terfynu caffael | 52 | 55 | 55 | |
| Amhert hnasol | Amherthnasol | <i>Manylebau Technegol</i> | | | |
| 24 | Manylebau Technegol <i>Symudwyd y cymal hwn i Bennod 6</i> | 53 | 56 | 56 | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwy no | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|--------------------------------|---|---|---|---|--|
| | <i>'Darpariaeth gyffredinol ynghylch dyfarniadau a gweithdrefnau', o dan is-adran newydd "Manylebau technegol", fel rhan o'r gwelliannau yn yr Uwch-bwyllgor.</i> | | | | |
| <i>Eithrio cyflenwyr</i> | | | | | |
| 54 | Ystyr cyflenwr a eithriwyd a chyflenwr eithriadwy | 54 | 57 | 57 | Bydd y gwelliant i'r cymal hwn yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i AC fod yn fodlon nad yw amgylchiadau sy'n arwain at gymhwyso'r eithriad yn parhau. Mae gwelliant canlyniadol hefyd i'r cymal hwn sy'n gysylltiedig â'r gwelliant i Atodlen 6. |
| 55 | Ystyried a yw cyflenwr wedi'i eithrio neu'n eithriadwy | 55 | 58 | 58 | Gwneir gwelliant canlyniadol i'r cymal hwn sy'n gysylltiedig â gwelliannau i gymal 57. |
| <i>Gwahardd</i> | | | | | |
| 56 | Hysbysiad eithrio cyflenwr | 56 | 59 | 59 | Bydd y gwelliant i'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i AC hysbysu'r awdurdod priodol os yw'n eithrio cyflenwr ar y sail bod cyflenwr ar y rhestr waharddiadau yn rhinwedd y sail newydd i'w fewnosod gan y gwelliant i Atodlen 6. Hefyd, gwelliant i egluro y byddai'n rhaid i AC hysbysu'r awdurdod priodol dim ond os yw'n eithrio cyflenwr ar sail ei ddyfarniad ei hun (yn hytrach na'r rhestr waharddiadau). |
| 57 | Ymchwiliadau i'r cyflenwr: seiliau ar gyfer eithrio | 57 | 60 | 60 | Bydd y gwelliant i'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog y Goron barhau i adolygu a ddylid ymchwilio i gyflenwyr neu isgontractwyr penodol o dan gymal 60 gan roi sylw i'r ffaith y gallai ACau fod yn dyfarnu contractau cyhoeddus yn ddiarwybod i gyflenwyr neu isgontractwyr a allai fod yn gyflenwyr eithriadwy yn rhinwedd paragraff 14 o Atodlen 7 (bygythiad i ddiogelwch cenedlaethol). Hefyd gwelliannau i egluro rôl ymchwiliadau mewn perthynas â'r rhestr waharddiadau. |
| 58 | Ymchwiliadau o dan adran 57: adroddiadau Teitl cymal diwygiedig fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi: <i>Ymchwiliadau o dan adran 60: adroddiadau</i> | 58 | 61 | 61 | Bydd y gwelliant i'r cymal hwn yn sicrhau bod adroddiadau'r ymchwiliad yn pennu'r disgrifiad o'r contractau y mae cyflenwr i fod yn gyflenwr a eithriwyd mewn cysylltiad â hwy yn rhinwedd y sail a ychwanegir gan y gwelliant i Atodlen 6 ac yn egluro y gellir paratoi'r adroddiad a'i gyhoeddi cyn bod cofnod yn cael ei wneud. |
| 59 | Rhestr waharddiadau | 59 | 62 | 62 | Mae nifer o welliannau i'r cymal hwn o ganlyniad i'r cymalau newydd a fewnosodwyd yn ystod cyfnod y Pwyllgor a oedd yn rhoi hawliau ychwanegol i gyflenwyr a roddwyd ar y rhestr waharddiadau ac o ganlyniad i'r gwelliant i Atodlen 6. |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwy no | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|---|--|---|---|---|--|
| Amhert hnasol | Penderfyniadau gwahardd: rhyddhad interim | Amherthnasol | Amherthnasol | 63 | |
| 60 | Rhestr waharddiadau: cais i ddileu | 60 | 63 | 64 | Bydd y gwelliant i'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog y Goron, ar ôl ystyried cais gan gyflenwr i ddileu neu adolygu cofnod a wnaed ar y rhestr waharddiadau, i hysbysu'r cyflenwr am benderfyniad y Gweinidog a rhoi rhesymau dros y penderfyniad. Mae gwelliant canlyniadol i'r cymal hwn hefyd oherwydd y gwelliannau i gymal 62. |
| 61 | Penderfyniadau gwahardd: apeliadau | 61 | 64 | 65 | Byddai'r gwelliant i'r cymal hwn yn caniatáu i gyflenwyr herio eu bod yn cael eu gwneud yn gyflenwr a eithriwyd mewn perthynas â chontractau penodol yn rhinwedd y sail a ychwanegwyd gan y gwelliant i Atodlen 6 (yn lle gorfod herio'r cofnod cyfan). |
| Amhert hnasol | Llinell amser ar gyfer dileu cyflenwyr | Amherthnasol | 65 | Dilëwyd | |
| Amhert hnasol | Achosion gwahardd a'r weithdrefn gaeedig o ran deunydd | Amherthnasol | Amherthnasol | 66 | |
| RHAN 4 RHEOLI CONTRACTAU CYHOEDDUS | | | | | |
| <i>Telerau ymhlyg mewn contractau cyhoeddus</i> | | | | | |
| 62 | Anfonebu electronig: teler ymhlyg | 62 | 66 | 67 | |
| 63 | Telerau talu ymhlyg mewn contractau cyhoeddus | 63 | 67 | 68 | |
| <i>Hysbysiadau am daliadau a pherfformiad</i> | | | | | |
| 64 | Hysbysiadau cydymffurfio â'r gofynion talu | 64 | 68 | 69 | |
| 65 | Gwybodaeth am daliadau dan gontractau cyhoeddus | 65 | 69 | 70 | |
| 66 | Asesu perfformiad contract | 66 | 70 | 71 | |
| <i>Is-gontractio</i> | | | | | |
| 67 | Is-gontractio: cyfarwyddiadau | 67 | 71 | 72 | |
| 68 | Telerau talu ymhlyg mewn is-gontractau | 68 | 72 | 73 | |
| <i>Addasu contractau cyhoeddus</i> | | | | | |
| 69 | Addasu contract cyhoeddus | 69 | 73 | 74 | |
| 70 | Hysbysiadau newid contract a chyhoeddi addasiadau Teitl cymal diwygiedig fel y'i | 70 | 74 | 75 | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwy no | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|---|---|---|---|---|---|
| | diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor: <i>Hysbysiadau newid contract</i> | | | | |
| 71 | Cyfnod segur gwirfoddol wrth addasu contractau | 71 | 75 | 76 | |
| Amhert hnasol | Cyhoeddi addasiadau | 72 | 76 | 77 | |
| <i>Terfynu contractau cyhoeddus</i> | | | | | |
| 72 | Hawl ymhlyg i derfynu contractau cyhoeddus | 73 | 77 | 78 | |
| Amhert hnasol | Terfynu contractau cyhoeddus: diogelwch cenedlaethol | 74 | 78 | 79 | Byddai'r gwelliant i'r cymal hwn yn golygu, yn yr un modd â'r sail eithrio presennol o ran diogelwch cenedlaethol ym mharagraff 14 o Atodlen 7, y byddai angen i AC perthnasol hysbysu Gweinidog y Goron cyn terfynu contract drwy ddibynnu ar y sail eithrio newydd i'w ychwanegu gan y gwelliant i Atodlen 6. |
| 73 | Hysbysiadau terfynu contract | 75 | 79 | 80 | |
| <i>RHAN 5 GWRTHDARO BUDDIANNAU</i> | | | | | |
| 74 | Gwrthdaro buddiannau: dyletswydd i nodi | 76 | 80 | 81 | |
| 75 | Gwrthdaro buddiannau: dyletswydd i liniaru | 77 | 81 | 82 | |
| 76 | Asesiadau gwrthdaro | 78 | 82 | 83 | |
| <i>RHAN 6 CONTRACTAU O DAN Y TROTHWY</i> | | | | | |
| 77 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy | 79 | 83 | 84 | |
| 78 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: gweithdrefn | 80 | 84 | 85 | |
| Amhert hnasol | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: dyletswydd i ystyried busnesau bach a chanolig | Amherthnasol | 85 | 86 | |
| 79 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: hysbysiadau | 81 | 86 | 87 | |
| 80 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: telerau talu ymhlyg | 82 | 87 | 88 | |
| <i>RHAN 7 CADW AT YMRWYMIADAU RHYNGWLADOL</i> | | | | | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwy no | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|---|--|---|---|---|---|
| 81 | Cyflenwyr gwladwriaeth o dan gytundeb | 83 | 88 | 89 | |
| 82 | Cyflenwyr gwladwriaeth o dan gytundeb: peidio â gwahaniaethu | 84 | 89 | 90 | |
| 83 | Cyflenwyr gwladwriaeth o dan gytundeb: peidio â gwahaniaethu yn yr Alban | 85 | 90 | 91 | |
| Amhert hnasol | Anghydfodau masnach | Amherthnasol | Amherthnasol | 92 | |
| <i>RHAN 8 GWYBODAETH A HYSBYSIADAU: DARPARIAETH GYFFREDINOL</i> | | | | | |
| 84 | Hysbysiadau piblinell | 86 | 91 | 93 | |
| 85 | Esemptiadau cyffredinol o ddyletswyddau i gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth | 87 | 92 | 94 | |
| 86 | Hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth: rheoliadau Teitl cymal diwygiedig fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi: <i>Hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth: rheoliadau a system ar-lein</i> | 88 | 93 | 95 | |
| 87 | Cyfathrebu electronig | 89 | 94 | 96 | |
| 88 | Gwybodaeth yn ymwneud â chaffael | 90 | 95 | 97 | Mae'r gwelliant i'r cymal hwn yn ganlyniadol ar ddarpariaeth debyg yn cael ei gwneud yn y cymal newydd ynghylch cadw cofnodion. |
| Amhert hnasol | Cadw cofnodion | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Byddai'r cymal newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ACau gadw cofnodion i egluro penderfyniadau a wnaed at ddiben dyfarnu neu ymrwmo i gontract cyhoeddus a chofnodion cyfathrebu â chyflenwyr a wnaed cyn yr ymrwymwyd i'r contract, ym mhob achos, yn amodol ar derfynau amser. |
| Amhert hnasol | Diogelu Data | 91 | 96 | 98 | |
| <i>RHAN 9 RHWYMEDIAU AM DORRI DYLETSWYDD STATUDOL</i> | | | | | |
| 89 | Dyletswyddau o dan y Ddeddf hon sy'n orfodadwy mewn achosion sifil | 92 | 97 | 99 | |
| 90 | Atal yn awtomatig ymrwmo i | 93 | 98 | 100 | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwy no | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|---|--|---|---|---|--|
| | gontractau neu eu haddasu | | | | |
| 91 | Rhwymediâu interim | 94 | 99 | 101 | |
| 92 | Rhwymediâu cyn-gontractiol | 95 | 100 | 102 | |
| 93 | Rhwymediâu ôl-gontractiol | 96 | 101 | 103 | |
| 94 | Rhwymediâu ôl-gontractiol: amodau neilltuo | 97 | 102 | 104 | |
| 95 | Terfynau amser ar hawliadau | 98 | 103 | 105 | |
| Amhert hnasol | Achosion Rhan 9 a'r weithdrefn gaeedig o ran deunydd | Amherthna sol | Amherthna sol | 106 | |
| <i>RHAN 10 GORUCHWYLIO CAFFAEL</i> | | | | | |
| 96 | Ymchwiliadau caffael | 99 | 104 | 107 | |
| 97 | Argymhellion yn dilyn ymchwiliadau caffael | 100 | 105 | 108 | |
| 98 | Canllawiau yn dilyn ymchwiliadau caffael | 101 | 106 | 109 | |
| <i>RHAN 11 AWDURDODAU PRIODOL A CHAFFAEL TRAWSFFINIOL</i> | | | | | |
| 99 | Gweinidogion Cymru: cyfyngiadau ar arfer pwerau | 102 | 107 | 110 | |
| 100 | Adran Gogledd Iwerddon: cyfyngiadau ar arfer pwerau | 103 | 108 | 111 | |
| 101 | Gweinidog y Goron: cyfyngiadau ar arfer pwerau | 104 | 109 | 112 | Bydd y gwelliant i'r cymal hwn yn sicrhau y gall Gweinidog y Goron gynnal ymchwiliadau gwahardd a rhoi cyflenwyr ar y rhestr waharddiadau at ddibenion rheoleiddio Awdurdodau Contractio Cymru ac awdurdodau Gogledd Iwerddon a drosglwyddwyd. Mae'r gwelliant hwn yn datrys mater a nodwyd yn y Bil sy'n ymwneud â'r drefn gwahardd a sut y bydd yn gweithredu'n llwyddiannus ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Nid yw'r gwelliant yn effeithio ar allu Gweinidogion Cymru i gynnal ymchwiliadau gwahardd at ddibenion rheoleiddio Awdurdodau Contractio Cymru. Dylid nodi bod cymal 110 wedi'i ddiwygio i greu pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliadau gwahardd at ddiben rheoleiddio ACau nad ydynt yn Awdurdodau Contractio Cymru. Gyda'i gilydd, bydd y gwelliannau hyn yn sicrhau bod trefn gwahardd gydgyssylltiedig sy'n cydnabod y gall ymchwiliadau gwahardd arwain at benderfyniad i roi enw'r cyflenwr ar |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwy no | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|--------------------------------------|--|---|---|---|--|
| | | | | | y rhestr waharddiadau a fydd yn cael effaith ar yr holl awdurdodau contractio. |
| 102 | Diffiniadau yn ymwneud â threfniadau caffael | 105 | 110 | 113 | |
| 103 | Pwerau yn ymwneud â threfniadau caffael | 106 | 111 | 114 | |
| <i>RHAN 12 DIWYGIO A DIDDYMU</i> | | | | | |
| 104 | Datgymhwyso dyletswydd yn adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 | 107 | 112 | 115 | |
| 105 | Contractau amddiffyn un ffynhonnell | 108 | 113 | 116 | |
| 106 | Pwerau cydredol a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 | 109 | 114 | 117 | |
| 107 | Diddymiadau etc | 110 | 115 | 118 | |
| <i>RHAN 13 CYFFREDINOL</i> | | | | | |
| 108 | Pŵer i ddatgymhwyso'r Ddeddf hon mewn perthynas â chaffael gan GIG yn Lloegr | 111 | Dilëwyd | 119 | |
| Amhert hnasol | Cymhwyso'r Ddeddf hon i gaffael gan GIG Lloegr | Amherthna sol | 116 | Dilëwyd | |
| 109 | Pŵer i ddiwygio'r Ddeddf hon mewn perthynas â chyfleustodau preifat | 112 | 117 | 120 | |
| 110 | Rheoliadau | 113 | 118 | 121 | |
| 111 | Dehongli | 114 | 119 | 122 | |
| 112 | Mynegai ymadroddion diffiniedig | 115 | 120 | 123 | |
| 113 | Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, etc | 116 | 121 | 124 | |
| 114 | Rychwant | 117 | 122 | 125 | |
| 115 | Cychwyn | 118 | 123 | 126 | |
| 116 | Teitl byr | 119 | 124 | 127 | |
| YR ATODLENNI | | | | | |
| Atodlen 1 | Symiau trothwy | Atodlen 1 | Atodlen 1 | Atodlen 1 | |
| Atodlen 2 | Contractau esempt | Atodlen 2 | Atodlen 2 | Atodlen 2 | |
| Amhert hnasol | Rhan 1 – contractau esempt parti i gontract | Amherthna sol | Amherthna sol | Atodlen 2 | |
| Amhert hnasol | Rhan 2 – contractau esempt pwnc | Amherthna sol | Amherthna sol | Atodlen 2 | |
| Atodlen 3 | Amcangyfrif gwerth contract | Atodlen 3 | Atodlen 3 | Atodlen 3 | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwy no | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi | Y cymal fel y'i dygwyd o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus | Effaith y gwelliannau a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13/06/23 (o fewn cymhwysedd yn unig) |
|--------------------------------|--|---|---|---|--|
| Atodlen 4 | Gweithgareddau cyfleustodau | Atodlen 4 | Atodlen 4 | Atodlen 4 | |
| Amhert hnasol | Rhan 1 - Gweithgareddau sy'n weithgareddau cyfleustodau | Amherthnasol | Atodlen 4 | Atodlen 4 | |
| Amhert hnasol | Rhan 2 - Gweithgareddau nad ydynt yn weithgareddau cyfleustodau | Amherthnasol | Atodlen 4 | Atodlen 4 | |
| Atodlen 5 | Cyfiawnhau dyfarnu uniongyrchol | Atodlen 5 | Atodlen 5 | Atodlen 5 | |
| Atodlen 6 | Seiliau eithrio gorfodol | Atodlen 6 | Atodlen 6 | Atodlen 6 | |
| Atodlen 6 | Rhan 1 - Troseddau | Rhan 1 Troseddau | Rhan 1 Troseddau | Atodlen 6 | |
| Atodlen 6 | Rhan 2 - Seiliau eithrio gorfodol eraill | Rhan 2 Seiliau eithrio gorfodol eraill | Rhan 2 Seiliau eithrio gorfodol eraill | Atodlen 6 | Byddai'r gwelliant i'r rhan hon o Atodlen 6 yn ychwanegu sail eithrio gorfodol newydd a fyddai'n caniatáu i Weinidog y Goron, yn dilyn ymchwiliad o dan gymal 60 gan awdurdod priodol (a allai gynnwys Gweinidogion Cymru), roi cyflenwr ar y rhestr waharddiadau ar sail orfodol am resymau diogelwch cenedlaethol ond dim ond ar gyfer mathau penodol o waith, gwasanaethau neu nwyddau diffiniedig. |
| Atodlen 6 | Rhan 3 - Cyffredinol | Rhan 3 Cyffredinol | Rhan 3 Cyffredinol | Atodlen 6 | Mae gwelliant i baragraff 43 o Atodlen 6 o ganlyniad i'r gwelliant i Ran 2 o Atodlen 6. |
| Atodlen 7 | Seiliau eithrio yn ôl disgrisiwn | Atodlen 7 | Atodlen 7 | Atodlen 7 | |
| Atodlen 8 | Addasiadau contract a ganiateir | Atodlen 8 | Atodlen 8 | Atodlen 8 | |
| Atodlen 9 | Cyflenwyr gwladwriaeth o dan gytundeb (cytundebau rhyngwladol penodedig) | Atodlen 9 | Atodlen 9 | Atodlen 9 | |
| Atodlen 10 | Contractau amddiffyn un ffynhonnell | Atodlen 10 | Atodlen 10 | Atodlen 10 | |
| Atodlen 11 | Diddymiadau a dirymiadau | Atodlen 11 | Atodlen 11 | Atodlen 11 | |

Atodiad B

Pwerau gwneud rheoliadau Gweinidog y Goron yng Nghymru mewn meysydd datganoledig

Rhan 1

Adrannau 59 i 66 (achosion gwahardd a'r weithdrefn gaeedig o ran deunydd). Gwnaed gwelliant i gymal 112 yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin a fydd yn galluogi Gweinidog y Goron i gynnal ymchwiliadau gwahardd a rhoi cyflenwyr ar y rhestr waharddiadau at ddibenion rheoleiddio Awdurdodau Contractio Cymru. Nid yw hyn yn effeithio ar allu Gweinidogion Cymru i gynnal ymchwiliadau gwahardd at ddiben rheoleiddio Awdurdodau Contractio Cymru. Gwnaed gwelliant hefyd i Gymal 110 i greu pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliadau gwahardd at ddiben rheoleiddio awdurdodau contractio nad ydynt yn Awdurdodau Contractio Cymru. Cytunwyd bod y gwelliannau hyn yn briodol oherwydd gyda'i gilydd byddant yn sicrhau bod trefn wahardd gydgysylltiedig sy'n cydnabod y gall ymchwiliadau gwahardd arwain at benderfyniad i roi enw'r cyflenwr ar y rhestr waharddiadau a fydd yn cael effaith ar yr holl awdurdodau contractio. Cyfeiriwyd at hyn ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 6.

Adran 67 (Anfonebu electronig: teler ymhlyg) Bydd gan Weinidog y Goron a Gweinidogion Cymru bwerau cydredol i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig ynghylch y ffurf ofynnol ar gyfer anfoneb electronig, ond bydd angen cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan Weinidog y Goron. Barnwyd bod pŵer cydredol plws yn briodol, yn bennaf er mwyn darparu cysondeb o ran safonau a chystrawennau e-anfonebu sylfaenol ar draws gwledydd y DU i osgoi dryswch a chostau ychwanegol i gyflenwyr. Cyfeiriwyd at hyn yn fy llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC) ym mis Medi 2022 (gweler paragraff 70 o adroddiad LJCC ym mis Hydref 2022).

Adran 109 (Canllawiau yn dilyn ymchwiliadau caffael) Bydd gan Weinidog y Goron a Gweinidogion Cymru bwerau cydredol i gyhoeddi canllawiau yn dilyn ymchwiliadau caffael at ddiben rheoleiddio awdurdod Cymreig datganoledig, ond bydd angen cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi canllawiau o'r fath gan Weinidog y Goron. Cyfeiriwyd at hyn ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2.

Adran 124 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.) Bydd gan Weinidog y Goron a Gweinidogion Cymru bwerau cydredol i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig mewn perthynas â darpariaeth ganlyniadol ond bydd angen cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan Weinidog y Goron. Cyfeiriwyd at hyn ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 5.

Adran 126 (Cychwyn) Dim ond Gweinidog y Goron sy'n gallu gwneud rheoliadau mewn perthynas â chychwyn, ond rhaid i Weinidog y Goron gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cychwyn darpariaethau'r Bil sy'n rheoleiddio caffael gan awdurdod Cymreig datganoledig. Pe bai cydsyniad o'r fath yn cael ei wrthod, gallai Gweinidogion y DU ddiwygio'r Ddeddf fel nad yw'r Ddeddf bellach yn gymwys i reoleiddio caffael gan awdurdod Cymreig datganoledig ac y gallai gael ei chychwyn heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Cyfeiriwyd at hyn ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 5.

Dylid nodi y caiff Gweinidog y Goron arfer pŵer o dan y Ddeddf at ddibenion rheoleiddio awdurdod contractio sy'n awdurdod Cymreig datganoledig, dim ond mewn perthynas â chaffael o dan drefniant caffael a gwerir yn ôl neu drefniant caffael yng Ngogledd Iwerddon

a drosglwyddwyd. Mae trefniadau caffael o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, fframweithiau a marchnadoedd deinamig na chawsant eu dyfarnu gan awdurdod Cymreig datganoledig.

Rhan 2

Adran 89 (Cyflenwyr gwladwriaeth o dan gytundeb) ac adran 92 (Anghydfodau masnach) Bydd gan Weinidog y Goron a Gweinidogion Cymru bwerau cydredol i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig o dan Ran 7 o'r Bil (gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol). Nid yw'n ofynnol i Weinidog y Goron gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o'r fath. Cafodd y darpariaethau hyn eu cynnwys yng Nghynnig Cydsyniad Deddfwriaethol 2 a drafodwyd gan y Senedd ar 28 Mawrth 2023. Ni chafodd y darpariaethau a gynhwyswyd yng nghynnig 2 eu cymeradwyo.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

E-bost: SeneddDCC@senedd.cymru
SeneddCydradd@senedd.cymru

11 Awst 2023

Annwyl Huw a Jenny,

Diolch am adroddiad eich Pwyllgorau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, a osodwyd ar 19 Mai 2023.

Rwy'n nodi'r pedwar argymhelliad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r un argymhelliad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ac rwyf wedi ymateb iddynt isod:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Argymhelliad 1. Rydym o'r farn bod y cymalau o'r Bil a nodir yn y Memorandwm o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o ganlyniad i hynny.

Ymateb:

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn gan y Pwyllgor sy'n cadarnhau'r safbwynt ar gymhwysedd a nodir yn y Memorandwm.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cymal 28 o'r Bil a pham yn y mae'n ymddangos bod gwahaniaeth barn ynghylch a ddylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn ai peidio.

Ymateb:

Rwyf wedi trafod hyn gyda Llywodraeth y DU, sydd wedi cadarnhau eu bod yn cytuno â'm hasesiad nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 28 o'r Bil a bod y nodiadau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 214
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

esboniadol presennol yn anghywir. Maent wedi cytuno i adolygu'r geiriad yn y nodiadau esboniadol a gyhoeddir gyda fersiwn derfynol y Bil er mwyn adlewyrchu hyn yn gywir.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog gadarnhau neu gywiro ein dealltwriaeth o'r sefyllfa, sef yw nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r darpariaethau a gynhwysir yn Rhan 3 o'r Bil ynghylch y system barôl, y Bwrdd Parôl ac atal carcharorion sy'n bwrw dedfryd oes rhag priodi neu ymgymryd â phartneriaeth sifil nes i'r Bil gael ei gyflwyno yn Senedd y DU.

Ymateb:

Nid oeddwn yn ymwybodol o'r darpariaethau a gynhwysir yn Rhan 3 o'r Bil er i'm swyddogion ofyn am gael golwg gynnar ar y Bil cyflawn ar sawl achlysur, gan gynnwys y diwrnod cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin.

Argymhelliad 4. Os nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r darpariaethau yn y Bil ynghylch y system barôl, y Bwrdd Parôl ac atal carcharorion sy'n bwrw dedfryd oes rhag priodi neu ymgymryd â phartneriaeth sifil nes i'r Bil gael ei gyflwyno yn Senedd y DU, dylai'r Gweinidog egluro sut a phryd y gwnaeth Llywodraeth y DU dynnu sylw Llywodraeth Cymru at hyn, a pha esboniad a roddwyd am gynnwys y darpariaethau hyn.

Ymateb :

Mae fy swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chyda f'arweinwyr cyfreithiol a pholisi sydd â diddordeb yn y Bil, ynghlŷn â'r cymalau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil. Fodd bynnag, nid oedd fy swyddogion wedi gweld y Bil terfynol yn ei gyfanrwydd na'i Nodiadau Esboniadol cyn iddo gael ei gyflwyno, nac wedi cael gwybod bod teitl a darpariaethau'r Bil wedi'u newid i 'Bil Dioddefwyr a Charcharorion'.

Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi nad oedd Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin wedi cael gweld y newidiadau i'r Bil. Ar 27 Mehefin 2023, ysgrifennodd cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder gan ddweud *“By introducing two new substantive parts to the Bill that were not included in the original draft bill would appear to be evidence of a fairly dysfunctional policy process. We appreciate that these decisions were taken before you took up your post and welcome the open-minded tone of your speech on Second Reading. We hope that in the future the Government will approach pre-legislative scrutiny with a spirit that reflects the underlying purpose of the exercise, which is to enable Members with a special interest and expertise in justice issues to contribute to examine a Bill before it is formally introduced.”*

Y tro cyntaf i'r newidiadau gael eu codi'n ffurfiol gan Lywodraeth y DU oedd drwy ymgysylltu ar 29 Mawrth 2023, y diwrnod y cyflwynwyd y Bil i Dŷ'r Cyffredin. Roedd hyn drwy e-bost a oedd yn nodi *“The Bill has been expanded to introduce an Independent Public Advocate (Part 2) to support victims of major incidents and their families. It also introduces parole reforms to put public protection at the heart of decision-making (Part 3), and prohibits prisoners who are serving a whole life order from entering into a marriage or civil partnership (Part 4).”*

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod y Senedd yn atal cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion.

Yn ogystal, gwrthwynebodd un Aelod mewn egwyddor i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar faterion datganoledig Cymru gael eu deddfu drwy Fil Llywodraeth y DU

Ymateb:

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Roedd Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") yn gosod cylch ar gyfer cynhyrchu mapiau sain ac adolygu cynlluniau gweithredu ar sain. Yn y dyfodol, bydd y mapiau sain a chynlluniau gweithredu ar sain sy'n cael eu cynhyrchu gan Weinidogion Cymru yn rhan o'r Strategaeth Seinweddau Genedlaethol ("y Strategaeth"). Bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu bob pum mlynedd, fel yr amlinellir yn adran 22 o'r Bil, ond nid oes darpariaeth yn adran 22(7) sy'n galluogi newid y cylch adolygu hwn. Er enghraifft, yn achos etholiad eithriadol yn y Senedd. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol arfer pwerau i ddiwygio Rheoliadau 2006. Mae hyn oherwydd eu bod yn galluogi diwygio'r cylchoedd adolygu ar gyfer mapiau sain a chynlluniau gweithredu ar sain gan Weinidogion Cymru yn y rheoliadau i sicrhau eu bod yn parhau i gyd-fynd â chylch adolygu'r Strategaeth. Nid ystyrid bod angen pwerau ehangach oherwydd mai'r mapiau a'r cynlluniau a fydd yn rhan o'r Strategaeth yw'r unig pethau y bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt.

Mae angen arfer pwerau penodol i ddiwygio Rheoliadau 2006 yn yr amgylchiadau cul a ddisgrifir, ac mae'n debygol iawn pe bai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio y byddai hynny ar y cyd ag adran 22(7) o'r Bil.

Eitem 6.16

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: CG/PO/296/2023
Ein cyf/Our ref: CG/PO/296/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

4th Medi 2023

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf mewn perthynas â'm hymddangosiad yn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 10 Gorffennaf. Croesawais y cyfle i siarad â'r Pwyllgor. Rwyf wedi darparu ymateb manwl i'ch cwestiynau pellach mewn Atodiad i'r llythyr hwn.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 362

Atodiad

1) Sut bydd y Senedd yn gallu craffu ar y gwaith y mae'r Fonesig Vera Baird yn ei wneud fel cynghorydd arbenigol annibynnol ar ddatganoli cyfiawnder?

Penodwyd y Fonesig Vera Baird CB i oruchwylio'r broses o ddylunio a gweithredu'r cynllun gwaith ar gyfer paratoi i ddatganoli cyfiawnder. Mae ei rôl yn bennaf yn cynnwys rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru a'n helpu i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o gyflawni ein gwaith polisi parhaus i baratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder. Felly, mae ei rôl yn un ymgynghorol gan fwyaf ac nid yw'n rhywbeth y gall y Senedd graffu arno'n rhwydd. Fodd bynnag, gallaf roi rhywfaint o sicrwydd bod y gwaith y mae'n ei wneud yn cael ei oruchwylio gennyf fi, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a grŵp o uwch-swyddogion. Yn ogystal â hyn, mae eitem sefydlog ar baratoadau ar gyfer datganoli cyfiawnder ym mhob Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder lle mae'r Fonesig Vera yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir ar y cynllun gwaith datganoli cyfiawnder. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn yn cael eu cyhoeddi wrth gwrs.

Bydd y Senedd yn gallu craffu ar gynigion Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut i fwrw ymlaen ag elfennau o ddatganoli cyfiawnder gan y byddant yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn eu cylch. Bydd y rhain yn cael eu llywio gan gyngor y Fonesig Vera, yn ogystal â chan ddarnau eraill o waith sy'n cael eu gwneud yn benodol ar ddatganoli cyfiawnder ieuencid a'r gwasanaeth prawf, y cyfeiriais atynt yn fy natganiad llafar ar 27 Mehefin. Nid yw'r Fonesig Vera yn gyfrifol am ymgymryd â'r gwaith i gynhyrchu unrhyw un o'r allbynnau hyn nac am ddrafftio cynnwys. Fodd bynnag, bydd ei rôl yn trafod ag arweinwyr prosiectau unigol, yn cynnig cyfeiriad ac yn rhannu ei phrofiad a'i harbenigedd yn cael effaith ar y cynhyrchion terfynol.

2) Roedd eich sylwadau yn ystod y cyfarfod yn awgrymu na ellir defnyddio'r broses datrys anghydfodau rhynglywodraethol mewn perthynas â Biliau unigol y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig oherwydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig â Biliau o'r fath sy'n pasio drwy Senedd y DU. A yw hynny'n gywir? Os felly, sut y gellid datrys anghydfodau sy'n ymwneud â Biliau'r DU? Os na fydd anghydfodau'n cael eu datrys, pa effaith mae hyn yn ei chael ar y gyfraith a wneir i ddinasyddion Cymru mewn meysydd datganoledig?

Mae ffocws cychwynnol yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ar osgoi anghydfodau. Rydym yn gweithredu yn yr ysbryd hwnnw. Pan fo gennym bryderon am ddarn penodol o ddeddfwriaeth y DU, rydym yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU yn y lle cyntaf i sicrhau bod ein safbwyntiau'n cael eu deall, a'r nod yw ei chael i gymryd camau priodol i ddatrys y mater.

Nid yw'n wir na ellir defnyddio'r prosesau anghydfod yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol mewn perthynas â Biliau unigol y DU; fodd bynnag, byddai'r amserlennu cysylltiedig yn debygol o fod yn gymhleth. Weithiau gall fod yn hwyr iawn yn hynt Bil cyn iddi ddod yn amlwg na ellir dod i gytundeb ar lefel rhynglywodraethol, ac er y gellir cynnal y prosesau anghydfod yn gyflym, nid ydynt yn diystyru gallu Senedd y DU i gynnal ac amserlennu busnes deddfwriaethol.

Rydym yn naturiol yn monitro rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn ei chyfanrwydd, ac yn parhau i uwchgyfeirio materion – mewn perthynas â Biliau unigol a materion trawsbynciol – yn ôl yr angen. Rwy'n argyhoeddedig bod amarch parhaus Llywodraeth y DU tuag at Gonfensiwn Sewel yn anfaddeuol ac yn gwbl amhriodol. Mae dinasyddion Cymru yn disgwyl yn briodol y bydd y gyfraith sy'n berthnasol iddynt yn cael ei gwneud mewn ffordd sy'n parchu confensiynau cyfansoddiadol y DU.

3) Pa mor bryderus ydych chi fod y defnydd cynyddol o Filiau'r DU i wneud darpariaeth (sylweddol ar adegau) mewn meysydd datganoledig yn gwthio i'r cyrion y cyfleoedd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid yng Nghymru ymgysylltu â'r broses o wneud y gyfraith honno o ystyried y gweithdrefnau gwahanol sy'n bodoli rhwng y Senedd a Senedd y DU?

Rwy'n dal o'r farn y gall fod sefyllfaoedd pan fo'n synhwyrol ac yn fanteisiol i Filiau'r DU wneud darpariaeth ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol iawn o'r pryderon craffu cysylltiedig, ar gyfer y Senedd yn ogystal ag ar gyfer y cyhoedd ehangach a rhanddeiliaid. Yn anochel, ni fydd y Senedd yn craffu mor fanwl ar ddeddfwriaeth y DU ag ar ddeddfwriaeth a wneir yn y Senedd.

Am y rheswm hwn, rydym yn parhau o'r farn sylfaenol y dylid gwneud deddfwriaeth i Gymru yng Nghymru, yn unol â'r setliad datganol; a phan ystyrir bod deddfwriaeth y DU yn briodol (yn unol â'n hegwyddorion), rydym wedi ymrwymo i sicrhau cymaint o graffu â phosibl drwy'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Rydym yn parhau i geisio gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill i gryfhau ffyrdd o weithio a gwella ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'i rhaglen ddeddfwriaethol, gan gynnwys parch at Gonfensiwn Sewel.

4) Sut ydych chi'n monitro pa gynigion deddfwriaethol mewn rhannau eraill o'r DU a allai gael effaith ar gyfraith Cymru o ganlyniad i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020? A ydych yn ymwybodol o unrhyw gynigion a allai gael effaith yn y dyfodol agos?

Rydym yn cynnal deialog reolaidd â'r llywodraethau datganoledig eraill i roi adborth ar gynigion a allai fod â goblygiadau o ran y Ddeddf Marchnad Fewnol, a chael adborth ar gynigion o'r fath. Mae ein rhyngweithio â Llywodraeth y DU yn fwy ysbeidiol a byddem yn croesawu cydweithio agosach â hi yn y maes hwn. Er bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i fonitro'r cynigion deddfwriaethol gan Lywodraeth y DU, mae hyn yn aml yn ddibynnol ar lefel y rhyngweithio a geir gan Lywodraeth y DU.

Rydym yn ymwybodol o'r safbwynt a gymerwyd gan Lywodraeth y DU ynghylch Deddf Marchnad Fewnol y DU o ran cynllun dychwelyd ernes arfaethedig Llywodraeth yr Alban ar gyfer cynwysyddion diodydd ac rydym yn adolygu sut mae hyn yn effeithio ar ddylunio a gweithredu ein cynllun arfaethedig ein hunain.

5) Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o sut y gallai cynlluniau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gyflwyno cyfyngiadau ar werthu cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen gael eu heffeithio gan egwyddorion mynediad i'r farchnad Deddf Marchnad Fewnol y DU?

Rydym wedi dechrau ystyried a fydd Deddf Marchnad Fewnol y DU yn cael unrhyw effaith ar y cynigion. Fodd bynnag, hyd nes y bydd cyfarwyddiadau polisi manwl wedi'u cwblhau ni allwn wneud asesiad manwl.

- 6) Yn eich datganiad ar 1 Gorffennaf mewn perthynas â Biliau y DU yn cael eu pasio heb gydsyniad y Senedd, gwnaethoch chi ddweud: “Dydy’r setliad datganoli erioed wedi bod dan gymaint o straen â hyn yn ystod yr holl amser ers ei sefydlu, 24 mlynedd yn ôl”. A allwch chi nodi pam eich bod yn credu bod hyn yn wir a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn ymateb?**

Mae Llywodraeth y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi mabwysiadu dull sy’n sylfaenol amharchus a dinistriol tuag at Gofensiwn Sewel, tuag at ddatganoli, a thuag at yr Undeb.

Roedd Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn enghraifft berffaith o’r agwedd hon – ni ellir dadlau yn rhesymegol fod achos eithriadol na brys dros gyflwyno’r Bil, ac eto parhaodd Llywodraeth y DU i symud ymlaen er gwaethaf diffyg cydsyniad y Senedd.

Rwy’n parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar bob cyfle, gan nodi graddfa a natur ein pryderon ar draws ei rhaglen ddeddfwriaethol.

Rydym wedi gweld cynnydd mewn rhai meysydd, er enghraifft y cynnydd diweddar ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio; fodd bynnag, mae llawer o waith i’w wneud o hyd. Rydym yn pwysu ar Lywodraeth y DU am wybodaeth cyn ei rhaglen ddeddfwriaethol nesaf a hynny cyn gynted â phosibl. Y bwriad yw sicrhau sylfaen synhwyrol ar gyfer gweithio rhynglywodraethol cadarn wrth inni symud tuag at y sesiwn Seneddol nesaf.

Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o rôl Tŷ’r Arglwyddi yn y maes hwn. Ymunais â sesiwn frifffio gyda’r Arglwyddi ym mis Ionawr i leisio ein safbwyntiau, ac rwy’n awyddus i barhau â’r cydweithio hwnnw. Rwy’n credu y dylai Llywodraeth y DU fynegi ei rhesymau dros faterion cydsyniad deddfwriaethol yn gliriach, ac ar gam cynharach yn y broses, er mwyn hysbysu’r Arglwyddi yn well a hynny gyda digon o amser.

- 7) Ym mis Ionawr eleni gwnaethoch chi ddweud wrthym nad oeddech yn gwybod am unrhyw amgylchiad ble y gofynnodd Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ei rhan. Ers hynny rydym wedi cael gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gael ei chynnwys ym Mil Ardrethu Annomestig Llywodraeth y DU. A allwch chi egluro’n fanwl:**

- a. **y broses sydd ynghlwm â defnyddio Bil y DU mewn amgylchiadau lle mae cytundeb eang i wneud hynny: pryd fydd trafodaethau’n dechrau, pwy sy’n eu cychwyn, beth yw’r amserlenni, y broses ar gyfer cytuno ar welliannau ac ati.**
- b. **y prosesau cymeradwyo’n derfynol yng Nghabinet Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau y DU drwy gydol eu hynt drwy Senedd y DU.**

Tynnodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol sylw at ein hymwneud â'r Bil Ardrethu Annomestig drwy ddatganiad ysgrifenedig ym mis Mawrth eleni, ymhellach i'r ymrwymiad a gynigiais yn fy llythyr i'r Pwyllgor hwn ar 30 Mehefin 2022.

Mae ymgysylltiad Llywodraeth y DU a phrosesau ac amserlenni Seneddol ar gyfer Biliau unigol y DU yn amrywio'n sylweddol. O ran y Bil Ardrethu Annomestig, roedd ymgysylltu swyddogol gan Lywodraeth y DU yn amserol ac yn effeithiol ar y cyfan, ac roedd yn cynnwys trafodaethau cyn cyflwyno'r Bil. Yn dilyn hynny, archwiliwyd gyda Gweinidogion y posibilrwydd o wneud darpariaeth ar gyfer Cymru drwy'r Bil.

Mae'r sefyllfa honno'n wahanol i'r broses gyda Deddf Banc Seilwaith y DU 2023, er enghraifft, na wnaethom argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad iddi yn wreiddiol pan y'i cyflwynwyd. Yn yr achos hwnnw, cafwyd ymgysylltiad a thrafodaethau sylweddol dilynol gyda'r bwriad o sicrhau darpariaeth addas i Gymru, a arweiniodd yn y pen draw at welliannau a'n galluogodd i argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad. Roedd honno'n broses hir, gyda'r gwelliannau perthnasol yn arwain at ein hargymhelliad i'r Senedd roi cydsyniad chwe mis ar ôl cyflwyno'r Bil.

Gellir cyferbynnu'r enghreifftiau hyn yn glir ag enghreifftiau eraill fel Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023; pan fethodd y prosesau a'r trafodaethau â dal i fyny â hynt y Bil.

Ar lefel gyffredinol, mae Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau ar gyfer eu meysydd mewn modd sy'n gyson â'n hegwyddorion ar gyfer Biliau'r DU, a chaiff y rhain eu rhannu â'r Senedd. Rwyf hefyd yn cael golwg ar y penderfyniadau hynny.

Mae sefyllfaoedd, fel y gwelwyd yn ddiweddar gyda'r Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw, pan fo angen ystyriaeth ehangach gan y Cabinet oherwydd materion penodol. Nid y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer cychwyn y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw, y cytunwyd arno yn y pen draw, oedd ein safbwynt cychwynnol. Byddai ein hegwyddorion wedi gorchymyn bod pwerau cychwyn yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ar ôl pwysu a mesur, gyda chonchesiynau gan Lywodraeth y DU a'r ystyriaeth ehangach o'n hegwyddorion ar gyfer darpariaeth fanteisiol i bobl Cymru, gwnaed penderfyniad ehangach mai argymhell cydsyniad oedd yr opsiwn gorau.

- 8) Wrth inni ystyried y memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig, gwnaethom nodi bod y Bil yn cael ei ddefnyddio i newid gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun ddwy flynedd yn unig yn ôl yn ystod hynt y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (Deddf 2021 erbyn hyn). A oes modd i chi roi eich barn ar ddefnyddio Biliau'r DU i wneud newidiadau i weithdrefnau craffu y cytunwyd arnynt yn neddfwriaeth y Senedd, a pha mor briodol yw'r dull hwn yn eich barn chi?**

Rwy'n ymwybodol bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi darparu ymateb manwl i'r Pwyllgor ar 30 Mehefin.

Yn gyfansoddiadol, mae priodoldeb darpariaeth o'r fath yn cael ei gwneud mewn Bil y DU yn gysylltiedig yn llwyr â'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Dyna pam y tynnir y mater hwn at sylw'r Aelodau drwy ein Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Os yw'r Senedd yn fodlon i ddarpariaeth o'r fath gael ei gwneud mewn Bil y DU, yna mae'n briodol. Os nad yw'r Senedd yn fodlon, yna dylai Llywodraeth y DU ddiwygio'r ddarpariaeth yn briodol.

Mae'r Bil Ardrethu Annomestig yn enghraifft o'r effeithiau cadarnhaol y gall Biliau'r DU eu cael pan fydd y broses gydsynio yn gweithio'n briodol. Cawsom ymgysylltiad da a'n galluogodd i osod ein Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o fewn pythefnos i gyflwyno'r Bil. Yn ei dro, galluogodd hynny i'r Senedd gael mwy o gyfle i graffu nag y gellir ei roi mewn achosion lle nad yw ymgysylltiad o'r fath wedi digwydd.

9) Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y weithdrefn 'cywiro cyn gwneud' yn fwyfwy aml wrth gywiro gwallau mewn is-ddeddfwriaeth. Pwy o fewn Llywodraeth Cymru, yn swyddogion neu yn Weinidogion, sy'n penderfynu a yw gwall mewn offeryn cadarnhaol drafft yn ddigon mân i'w gywiro cyn i'r offeryn gael ei lofnodi?

Roedd fy ngohebiaeth gyda'r Pwyllgor yn gynharach eleni ynghylch y mater hwn yn egluro natur y mân wallau, sy'n aml yn faterion atalnodi bach neu'n faterion teipograffyddol eraill, y mae'r broses gywiro sefydledig yn ymdrin â nhw. Fel yr eglurais, mae'r broses hon yn berthnasol i Offerynnau Statudol (OSau) Cymru, fel y mae i Offerynnau Statudol y DU a'r Alban a Rheolau Statudol Gogledd Iwerddon.

Mae penderfyniadau ar y materion hyn yn cael eu gwneud gan ystod o swyddogion (yn Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r Cofrestrydd OSau os yw amser yn caniatáu) ac weithiau gan Weinidogion hefyd. Fodd bynnag, credaf fod y trafodaethau diweddar yn y Senedd yn nodi nad yw'n fater o'r Cofrestrydd OSau, cyfreithiwr neu aelod o'r Swyddfa Codau Deddfwriaethol yn Llywodraeth Cymru, neu Weinidog yn penderfynu a oes angen symud cromfach mewn Offeryn Statudol, ond yn hytrach y Senedd yn gwybod bod y cywiriad wedi digwydd.

Felly, rwyf wedi gofyn i swyddogion sefydlu dull ar gyfer sicrhau bod cofnod o gywiriad y bwriedir ei wneud neu gywiriad terfynol o wallau ar gyfer offerynnau cadarnhaol drafft yng ngoleuni adroddiadau'r Pwyllgor ar gael. Oherwydd, fel y nododd y Cadeirydd dros dro mewn dadl ddiweddar, mae'n bwysig bod y Senedd yn deall beth y gofynnir iddi ei gymeradwyo.

Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch y mater hwn unwaith y bydd swyddogion wedi nodi dull addas i gefnogi hyn.

10) Pa feini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio, y tu hwnt i'r rhai a nodir mewn Ymarfer Offeryn Statudol, wrth ystyried a yw camgymeriad mewn is-ddeddfwriaeth ddwyieithog yn fân ac nad yw'n berthnasol?

Rydym yn cael ein llywio gan y canllawiau a amlinellais yn flaenorol i'r Pwyllgor yn fy ngohebiaeth gynharach ynghylch y mater hwn.

11) A yw Gweinidogion Cymru yn ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd cyfraith Cymru cyn cydsynio i Lywodraeth y DU wneud is-ddeddfwriaeth mewn

meysydd datganoledig? Os felly, pa feini prawf sy'n cael eu defnyddio i wneud asesiad?

Y safbwynt cychwynnol yw y dylid gwneud deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig yng Nghymru, gyda hygyrchedd y gyfraith yn un o'r egwyddorion sy'n sail i hynny.

Bydd unrhyw benderfyniad i gytuno i ddarpariaeth gael ei gwneud mewn Bil y DU yn cynnwys dadansoddiad o amryw ffactorau, gan gynnwys hygyrchedd.

Byddai'r ffactorau hynny hefyd yn cynnwys manteision posibl cyflwyno darpariaeth mewn Bil y DU mewn sefyllfaoedd pan fo diffyg gwahaniaethau polisi.

Gall y rhain gynnwys adnoddau, eglurder a chydlyniant, pan fo, er enghraifft, materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl rhyng-gysylltiedig cymhleth; neu ddarpariaethau technegol gyda goblygiadau trawsffiniol.

12) A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Diddymiadau Statud?

Fel y nododd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad deddfwriaethol diweddar, rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf am y Biliau cydgrynhoi yn fy adroddiad blynyddol ar gynnydd y rhaglen hygyrchedd. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei osod yn yr hydref, felly byddaf yn rhoi diweddariad llawnach ar y cynigion bryd hynny. Y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd y Bil cyntaf o'r math hwn yn cael ei alw'n 'Bil Deddfwriaeth (Diddymiadau) (Cymru)'.

13) Nododd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil cydgrynhoi ar gynllunio. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch pryd y bydd y Bil hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Senedd?

Bydd diweddariad ar y Bil hwn hefyd yn cael ei roi yn fy adroddiad blynyddol sydd i ddod.

Mick Antoniw AS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

24 Gorffennaf 2023

Annwyl Mick,

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Gorffennaf 2023

Diolch eto am ddod i'n cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2023. Rydym yn ddiolchgar am yr amser rydych yn ei roi yn rheolaidd i'r Pwyllgor.

Fel y nodwyd ar ddiwedd y cyfarfod, mae nifer o gwestiynau yr oeddem yn awyddus i'w gofyn i chi ond nid oedd digon o amser ar eu cyfer. Hefyd, hoffem holi cwestiynau dilynol ar nifer o faterion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod. Felly, byddem yn croesawu cael ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn 1 Medi 2023.

Fe wnaethoch chi a'ch swyddogion hefyd ymrwymo i roi gwybodaeth i ni am garcharorion (Cofnod y Trafodion, paragraffau 141 a 142) a chopi o lythyr am Filiau'r DU sy'n peri pryder y gofynnir/gofynnwyd am gydsyniad amdanynt (Cofnod y Trafodion, paragraffau 187 a 190-191). Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth hon maes o law.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

ATODIAD

Cwestiwn 1: Sut y bydd y Senedd yn gallu craffu ar y gwaith y mae'r Fonesig Vera Baird yn ei wneud fel cynghorydd arbenigol annibynnol ar ddatganoli cyfiawnder?

Cwestiwn 2: Roedd eich sylwadau yn ystod y cyfarfod yn awgrymu na ellir defnyddio'r broses datrys anghydfodau rhynglywodraethol mewn perthynas â Biliau unigol y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig oherwydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig â Biliau o'r fath yn pasio drwy Senedd y DU. A yw hynny'n gywir? Os felly, sut y gellid datrys anghydfodau sy'n ymwneud â Biliau'r DU? Os na fydd anghydfodau'n cael eu datrys, pa effaith mae hyn yn ei chael ar y gyfraith a wneir i ddinasyddion Cymru mewn meysydd datganoledig?

Cwestiwn 3: Pa mor bryderus ydych chi fod y defnydd cynyddol o Filiau'r DU i wneud darpariaeth (sylweddol ar adegau) mewn meysydd datganoledig yn gwthio i'r cyrion y cyfleoedd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid yng Nghymru ymgysylltu â'r broses o wneud y gyfraith honno o ystyried y gweithdrefnau gwahanol sy'n bodoli rhwng y Senedd a Senedd y DU?

Cwestiwn 4: Sut ydych chi'n monitro pa gynigion deddfwriaethol mewn rhannau eraill o'r DU a allai gael effaith ar gyfraith Cymru o ganlyniad i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020? A ydych yn ymwybodol o unrhyw gynigion a allai gael effaith yn y dyfodol agos?

Cwestiwn 5: Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o sut y gallai cynlluniau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gyflwyno cyfyngiadau ar werthu cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen gael eu heffeithio gan egwyddorion mynediad i'r farchnad Deddf Marchnad Fewnol y DU?

Cwestiwn 6: Yn eich datganiad ar 1 Gorffennaf mewn perthynas â Biliau y DU yn cael eu pasio heb gydsyniad y Senedd, gwnaethoch chi ddweud: "Dydy'r setliad datganoli erioed wedi bod dan gymaint o straen â hyn yn ystod yr holl amser ers ei sefydlu, 24 mlynedd yn ôl". A allwch chi nodi pam eich bod yn credu bod hyn yn wir a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn ymateb?

Cwestiwn 7: Ym [mis Ionawr eleni](#) gwnaethoch chi ddweud wrthym nad oeddech yn gwybod am unrhyw amgylchiad ble y gofynnodd Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ei rhan. Ers hynny rydym wedi cael gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gael ei chynnwys ym Mil Ardrethu Annomestig Llywodraeth y DU. A allwch chi egluro'n fanwl:

- y broses sydd ynghlwm â defnyddio Bil y DU mewn amgylchiadau lle mae cytundeb eang i wneud hynny: pryd fydd y trafodaethau'n dechrau, pwy sy'n eu cychwyn, beth yw'r amserlenni, y broses ar gyfer cytuno ar welliannau ac ati.
- y prosesau cymeradwyo'n derfynol yng Nghabinet Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau y DU drwy gydol eu hynt drwy Senedd y DU.



Cwestiwn 8: Wrth inni ystyried y memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig, gwnaethom nodi bod y Bil yn cael ei ddefnyddio i newid gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun ddwy flynedd yn unig yn ôl yn ystod hynt y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (Deddf 2021 erbyn hyn). A oes modd i chi roi eich barn ar ddefnyddio Biliau'r DU i wneud newidiadau i weithdrefnau craffu y cytunwyd arnynt yn neddfwriaeth y Senedd, a pha mor briodol yw'r dull hwn yn eich barn chi?

Cwestiwn 9: Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y weithdrefn 'cywiro cyn gwneud' yn fwyfwy aml wrth gywiro gwallau mewn is-ddeddfwriaeth. Pwy o fewn Llywodraeth Cymru, yn swyddogion neu yn Weinidogion, sy'n penderfynu a yw gwall mewn offeryn cadarnhaol drafft yn ddigon mân i'w gywiro cyn i'r offeryn gael ei lofnodi?

Cwestiwn 10: Pa feini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio, y tu hwnt i'r rhai a nodir mewn Ymarfer Offeryn Statudol, wrth ystyried a yw camgymeriad mewn is-ddeddfwriaeth ddwyieithog yn fân ac nad yw'n berthnasol?

Cwestiwn 11: A yw Gweinidogion Cymru yn ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd cyfraith Cymru cyn cydsynio i Lywodraeth y DU wneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig? Os felly, pa feini prawf sy'n cael eu defnyddio i wneud asesiad?

Cwestiwn 12: A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Diddymiadau Statud?

Cwestiwn 13: Nododd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil cydgrynhoi ar gynllunio. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch pryd y bydd y Bil hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Senedd?



Ein cyf/Our ref: MA/FM/2168/23

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau
Rhyngwladol

5 Medi 2023

Annwyl Huw a Delyth

Hoffwn ddiolch i'r ddau ohonoch, yn ogystal ag aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (CCWLSIRC) a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC) am ystyried y ddau Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) ('y Bil').

Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith bod y Pwyllgorau wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r materion sy'n codi mewn perthynas â darn eang a chymhleth iawn o ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU. Rwyf wedi ystyried y casgliadau yn y ddau adroddiad ac wedi ymateb i'r argymhellion isod (noder fy mod wedi defnyddio cyfeiriadau at gymalau yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, dyddiedig 9 Mehefin).

Cydsyniad deddfwriaethol

Rwy'n falch bod y ddau Bwyllgor o'r farn bod y darpariaethau a ganlyn yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, o dan Reol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer:

- cymalau 65-81 Data Cwsmeriaid a Busnesau (cymalau 61 i 77 fel y'u cyflwynwyd);
- cymal 98 Datgelu gwybodaeth i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau (cymal 92 fel y'i cyflwynwyd);
- cymal 99 Gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth gorfodi'r gyfraith (cymal 93 fel y'i cyflwynwyd);
- Gwelliant 46 Newid i Gymal 65 Data Cwsmeriaid a Data Busnesau (cymal 61 fel y'i cyflwynwyd);
- gwelliannau 8-16, ynghyd â Gwelliant NC5, mewn perthynas â chymal 99 (cymal 93 fel y'i cyflwynwyd), rheoliadau cymal 115 (cymal 108 fel y'i cyflwynwyd), ac ystyr "awdurdod cenedlaethol priodol".

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 372
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodaf fod y ddau Bwyllgor yn credu nad oes angen cysyniad ar gyfer cymalau 56 a 60 (cymalau 54 a 56 fel y'u cyflwynwyd) ac ar gyfer Gwelliant NC3 (cymal 58 bellach) ar y sail nad yw'r darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, rwy'n dal i fod o'r farn bod y darpariaethau hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Pwrpas y pŵer a roddir i awdurdodau cyhoeddus o dan gymalau 56 a 60 yw hwyluso'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Gwirio Digidol (DVS) er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigir i'r defnyddiwr. Er bod telathrebu yn fater a gadwyd yn ôl, nid wyf o'r farn mai'r deunydd sy'n cael ei drosglwyddo sydd o dan sylw ond, yn hytrach, **sut** y mae'r deunyddiau cyfathrebu hynny'n cael eu trosglwyddo. O'r herwydd, rwyf o'r farn bod cymalau 56 a 60 yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus, economi a busnes, sy'n faterion datganoledig, a'u bod, felly, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Cysylltiadau rhwng yr UE a'r DU a Digonolrwydd Data

O ran bod y Deyrnas Unedig yn cadw at y gofynion sydd gan yr UE mewn perthynas â digonolrwydd data, rydym ni, fel chithau, yn pryderu y gallai darpariaethau yn y Bil beryglu hynny. Nodaf hefyd fod y ddau Bwyllgor wedi tynnu sylw at y ffaith bod yr angen i gydymffurfio â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA), sy'n gosod dyletswyddau mewn perthynas â materion a gwmpesir gan y Bil, yn fater arall sy'n peri pryder.

Yn unol â barn y ddau Bwyllgor, nid ydym ni ychwaith yn credu mai mater sy'n berthnasol i fasnach yn unig yw'r risg sy'n gysylltiedig â digonolrwydd data. Mae bodloni gofynion digonolrwydd yr UE yn golygu ei fod yn cydnabod bod y DU yn diogelu data personol i'r un graddau yn union â'r UE, gan olygu bod data personol yn gallu llifo'n ddilyffethair rhwng yr UE a'r DU, gan gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â busnesau preifat.

Rydym, wrth gwrs, wedi ystyried effaith y Bil ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a'n barn ni yw bod darpariaethau'r Bil ar drosglwyddo data personol i drydydd gwledydd yn cydymffurfio â'r darpariaethau yn y Cytundeb hwnnw, sy'n rhai byr iawn ac yn rhai ar lefel uchel.

Defnyddio pŵerau

Nodaf y byddai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi'i chael yn ddefnyddiol pe bai'r cyfeiriad sydd i'w weld yng nghymal 98 o'r Bil (cymal 92 fel y'i cyflwynwyd) at ddefnyddio pŵer Harri'r VIII (a oedd yn bod cynt) wedi'i gynnwys yn y memorandwm gwreiddiol.

Rwyf hefyd yn nodi barn y Pwyllgor hwnnw ar ddefnyddio pŵerau cydredol plws ac ar weithredu cytundebau gofal iechyd rhyngwladol a sut y gellid ailgymhwyso hynny i cytundebau rhyngwladol pan fo gweithredu'r cytundebau hynny o fewn cymhwysedd datganoledig.

Argymhellion

Yn ogystal â nodi casgliadau'r Pwyllgorau, mae'r adroddiadau hefyd yn nodi cyfres o argymhellion ac mae fy ymateb i bob un o'r rheini i'w gweld yn y tabl isod:

Argymhelliad CCWLSIRC

Yng ngoleuni'r risgiau posibl a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data y DU, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor am effaith y Bil ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys trafodaethau rhynglywodraethol ar y Bil wrth iddo fynd drwy Senedd y DU ac yn barhaus pe bai'n cael ei ddeddfu.

Ymateb: Byddaf yn parhau i fynd ati'n rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith bosibl y Bil ar gysylltiadau rhwng yr UE a'r DU drwy'r

broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, yn enwedig mewn perthynas â phryderon am benderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data, hyd nes y byddaf yn fodlon na fydd y Bil yn effeithio ar ofynion digonolrwydd data yr UE.

Argymhelliad 1 LJCC. Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ac i'r Senedd erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ledled y DU ynghylch datgelu gwybodaeth a'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymal 56 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 60 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

Ymateb: Mae fy swyddogion yn parhau i ystyried effeithiau'r cymal hwn ar Gymru ac ar gyrrff cyhoeddus Cymru ac i ystyried a yw'n addas ar eu cyfer, ac maent yn parhau i drafod gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Argymhelliad 2 LJCC. Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ac i'r Senedd erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau mewn perthynas â chymalau 61 i 77 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymalau 65 i 81 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

Ymateb: Mae fy swyddogion yn parhau i ystyried a fyddai pwerau rheoleiddio yn addas ai peidio ac maent yn parhau i drafod gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Argymhelliad 3 LJCC. Pan na fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i weithredu cytundebau rhyngwladol, a bod pwerau i wneud hynny'n cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn lle hynny, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu manylion llawn ac esboniad i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Ymateb: Os bydd hyn yn digwydd, bydd y Senedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy'r broses arferol.

Argymhelliad 4 LJCC. Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ac i'r Senedd erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o gymal 36 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 38 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

Ymateb: Mae fy swyddogion yn ystyried y cefndir i gymal 36, a'r rhesymeg y tu ôl iddo, gyda Llywodraeth y DU er mwyn llywio'n safbwynt, ac mae'r mater hwn yn un sy'n parhau i gael ei drafod. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Argymhelliad 5 LJCC. Rydym yn cefnogi cais Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU y dylai rannu copi ar frys o'i hasesiad risg ar y Bil a cholli'r penderfyniad digonolrwydd.

Ymateb: Byddwn yn parhau i godi effaith bosibl y Bil ar ofynion digonolrwydd data yr UE (fel y nodir yn fy ymateb i argymhelliad 6).

Argymhelliad 6 LJCC. O ystyried y pryderon ynghylch risg bosibl colli'r penderfyniad digonolrwydd, dylai'r Prif Weinidog uwchgyfeirio'r mater hwn i drafodaethau Gweinidogol, yn hytrach na thrafodaeth swyddogol.

Ymateb: Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi codi'n pryderon gyda Gweinidogion y DU ynglŷn ag effaith y Bil ar gadw data'r UE. Byddwn yn parhau i godi'r mater ar lefel swyddogion a lefel y Gweinidogion.

Argymhelliad 7 LJCC. Dylai'r Prif Weinidog roi i'r Pwyllgor hwn erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, farn Llywodraeth Cymru am y Bil gan ei fod yn ymwneud â chydymffurfedd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Ymateb: Mae'r darpariaethau yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu sy'n ymwneud â masnach ddigidol yn fyr iawn ac yn rhai ar lefel uchel. Mae Erthygl 202 yn ymdrin â diogelu data personol a phreifatrwydd yng nghyd-destun masnach ddigidol. Ein barn ni yw bod darpariaethau'r Bil ar drosglwyddo data personol i drydydd gwledydd yn cydymffurfio â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Mae Rhan 3 o'r Cytundeb hwnnw yn sail i'r cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar orfodi'r gyfraith ac ar gydweithrediad barnwrol mewn perthynas â materion troseddol. Mae'n caniatáu i'r DU barhau i gael gweld cronfeydd data'r UE, sy'n cynnwys olion bysedd, DNA a chofnodion troseddol. Mae'r cydweithredu hwn rhwng y DU a'r UE ar faterion sy'n gysylltiedig â gorfodi'r gyfraith yn hanfodol er mwyn cadw pobl yn ddiogel yng Nghymru.

Croesewir y ffaith bod cynnal safonau uchel o ran diogelu data personol yn sail i'r cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, oherwydd y dylai hynny ysgogi Llywodraeth y DU i gynnal y safonau diogelu data y dylai dinasyddion yng Nghymru fedru disgwyl eu gweld. Dylai safonau uchel o ran diogelu data personol leihau'r risg bosibl na fydd yr UE yn fodlon â safonau diogelu data personol y DU a dylai hynny hefyd leihau'r risg y gallai'r UE ddod â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu i ben am y rhesymau hynny.

Rwy'n cytuno â barn y Pwyllgor bod yn rhaid wrth safonau uchel o ran diogelu data oherwydd bod hynny'n sail i gydweithredu er mwyn gorfodi'r gyfraith yn rhyngwladol. Mae gan bobl yng Nghymru yr hawl i fod yn hyderus ac i deimlo'n ddiogel ynghylch sut y mae eu data personol yn cael eu defnyddio, gan gynnwys eu defnyddio at ddibenion gorfodi'r gyfraith. Byddwn yn parhau i bwysleisio hynny yn ein hymwneud â Llywodraeth y DU am y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a'r Cwnsler Cyffredinol. Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon hefyd at bob Aelod, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL YNNI

- 1) Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM), ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
- 2) Cafodd y Bil Ynni ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Gorffennaf 2022. Mae'r Bil ar gael yma: [Energy Bill \[HL\] - Parliamentary Bills - UK Parliament](#). Cafodd taith y Bil ei hatal am gyfnod cyn ailddechrau ar ddiwedd 2022. Mae'r Bil yn gymhleth ac mae ei gwmpas yn eang, ac mae'n cyflwyno nifer o gyfundrefnau rheoleiddio sylweddol i ddeddfwriaeth – yn benodol ym meysydd cludo a storio carbon deuocsid a hydrogen. Mae hyn wedi arwain at yr angen am ddadansoddiadau trwyadl o safbwynt polisi a'r cyfansoddiad.

Amcan(ion) polisi

- 3) Mae Llywodraeth y DU yn amlinellu diben a phrif swyddogaethau'r Bil yn y Nodiadau Esboniadol cysylltiedig¹. Yr amcanion polisi mae Llywodraeth y DU wedi'u datgan yw helpu i gynyddu cadernid a dibynadwyedd systemau ynni ledled y DU, cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymadau'r DU mewn perthynas â newid hinsawdd a diwygio system ynni'r DU, wrth leihau costau i ddefnyddwyr cymaint ag y bo modd a'u hamddiffyn rhag prisiau annheg.

Crynodeb o'r Bil

- 4) Noddir y Bil gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.
- 5) Mae'r Bil yn seiliedig ar dair egwyddor: Ysgogi buddsoddiadau mewn technolegau glân; diwygio system ynni'r DU a diogelu cwsmeriaid; a chynnal diogelwch, diogeledd a chadernid y system ynni ledled y DU.
- 6) O ran ysgogi buddsoddiadau mewn technolegau newydd, mae Rhannau 1, 2 a 3 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod system ynni carbon isel yn cael ei datblygu, i leihau allyriadau o ddiwydiant, trafniadaeth ac, o bosibl, gwres, a darparu ynni carbon isel. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

¹ [Energy Bill \[HL\] publications - Parliamentary Bills - UK Parliament](#)

- a) Sefydlu cyfundrefn rheoleiddio economaidd a thrwyddedu ar gyfer cludo a storio CO₂ gydag Ofgem (Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan) fel y rheoleiddiwr economaidd.
 - b) Galluogi'r Llywodraeth i gyflwyno a gweinyddu modelau busnes ar gyfer hydrogen a dal carbon, gan gynnwys cyflwyno ardoll hydrogen newydd.
 - c) Sefydlu mecanwaith sy'n seiliedig ar y farchnad ar gyfer gwres carbon isel.
 - d) Galluogi cynnal treial effeithiol a diogel ar gyfer gwres hydrogen mewn pentref mawr.
 - e) Hepgor cyfleusterau ynni ymasiad o ofynion trwyddedu safleoedd niwclear o dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965.
- 7) O ran diwygio'r system a diogelu defnyddwyr, mae Rhannau 4 – 9 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod fframweithiau marchnadoedd a threfniadau llywodraethu wedi'u cynllunio i gynyddu diogeledd ynni a sicrhau system ynni sero net, wrth leihau costau i ddefnyddwyr cymaint ag y bo modd. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:
- a) Sefydlu Gweithredwr a Chynllunydd Systemau Annibynnol, corff annibynnol sy'n gweithredu fel llais y gellir ymddiried ynddo yng nghanol y sector ynni.
 - b) Diwygio'r fframwaith llywodraethu presennol ar gyfer codau ynni, gan gynnwys rhoi swyddogaethau newydd i Ofgem i ddarparu arweiniad a goruchwyliaeth strategol ar godau, a chreu categori newydd o reolwyr codau mwy annibynnol i sicrhau system well ar gyfer defnyddwyr a rhagor o gystadleuaeth.
 - c) Sicrhau tendrau cystadleuol o fewn rhwydweithiau trydan ar y tir.
 - d) Galluogi'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i gynnal ymchwiliadau mwy effeithio i'r effeithiau pan fydd cwmnïau'n uno.
 - e) Cyflwyno diffiniad o ryng-gysylltwyr aml-ddiben i fod yn sail i ddatblygu cyfundrefn trwyddedu a rheoleiddio economaidd newydd.
 - f) Cadw'r cap ynni presennol y tu hwnt i 2023.
 - g) Egluro bod storio ynni yn is-set ar wahân o gynhyrchu yn Neddf Trydan 1989.
 - h) Tynnu trothwyon rhwymedigaeth o dan y Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni.
 - i) Hyrwyddo'r broses o gyflwyno mesuryddion deallus ledled Prydain Fawr.
 - j) Rheoleiddio'r farchnad rhwydweithiau gwres.
 - k) Cyflwyno parthau rhwydweithiau gwres mewn ardaloedd lle mai nhw yw'r ateb mwyaf hyfyw ar gyfer datgarboneiddio gwres.
 - l) Gosod gofynion rheoleiddio ar gyfer dyfeisiau sy'n defnyddio ynni mewn ffordd ddeallus, gan gynnwys galluogi swyddogaeth ddeallus orfodol ar gyfer dyfeisiau gwresogi trydan a manau gwefru cerbydau trydan, a sefydlu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer y gweithredwyr sy'n rheoli'r dyfeisiau hyn.
 - m) Sicrhau bod y gyfundrefn ar gyfer perfformiad eiddo o ran ynni yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu uchelgeisiau'r DU mewn perthynas â newid hinsawdd, gan gynnwys cefnogi'r gwaith i gyrraedd targed y DU ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2050.

- 8) O ran diogelwch, diogeledd a chadernid system ynni'r DU, mae Rhannau 10, 11 a 12 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â chyflenwad diogel a chadarn o danwyddau craidd ar gyfer y DU, i sicrhau bod y DU yn wlad niwclear gyfrifol a chymryd camau hanfodol i ddiogelu Silff Cyfandirol y DU wrth newid i fod yn sero-net. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:
- a) Lleihau'r risg o darfu ar y cyflenwad tanwydd a gwella cadernid cyflenwadau tanwydd yn y sector tanwyddau craidd.
 - b) Sicrhau bod y gyfundrefn rheoleiddio amgylcheddol ar gyfer olew a nwy ar y môr yn parhau i fod yn effeithiol, er mwyn cynnal y safonau amgylcheddol presennol a hwyluso'r diwydiant olew a nwy ar y môr i fod yn sero-net
 - c) Diwygio Deddf Petrolewm 1998 i newid y gyfundrefn ffioedd a'r mecanwaith adennill costau ar gyfer rheoleiddio a datgomisiynu gweithgareddau cynhyrchwyr olew a nwy ar y môr.
 - d) Rhoi pwerau i Awdurdod Pontio Môr y Gogledd (a elwir hefyd yr Awdurdod Olew a Nwy neu OGA) i sicrhau bod seilwaith olew a nwy a storio carbon y DU yn parhau i fod yn nwylo'r cwmnïau sydd yn y sefyllfa orau i'w weithredu neu ei ddatgomisiynu.
 - e) Ei gwneud yn gwbl glir bod angen trwydded ar safleoedd niwclear penodol a leolir yn llwyr neu'n rhannol yn neu o dan y môr tiriogaethol sy'n gyfagos â'r DU, a'u bod yn cael eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear.
 - f) Diwygio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer camau terfynol y gwaith o ddatgomisiynu niwclear, gan sicrhau bod y DU yn cydymffurfio ag argymhellion y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ar gyfer dod ag atebolrwydd niwclear trydydd parti i ben, a galluogi dad-drwyddedu safleoedd niwclear ynghynt nag sy'n bosibl ar hyn o bryd.
 - g) Gwella cyfundrefn atebolrwydd niwclear trydydd parti'r DU drwy alluogi'r DU i ymaelodi â'r Confensiwn ar Ddigollediad Atodol am Niwed Niwclear drwy ddiwygiadau i Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965.
 - h) Diwygio cylch gwaith a phwerau'r Heddlu Niwclear Sifil i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi safleoedd seilwaith hanfodol eraill a helpu awdurdodau gorfodi polisi eraill.
- 9) Ni chafodd Llywodraeth Cymru ei chynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r Bil cyn iddo gael ei gyflwyno. Bu rhywfaint o ymwneud â'r Bil o ganlyniad i waith datblygu polisiâu – er enghraifft drwy ymgynghoriadau yn y gorfennol ar nifer o bolisiâu. Cafodd rhai cymalau eu rhannu ar ffurf drafft; fodd bynnag, nid oedd y testun cyfreithiol llawn ar gael i'w adolygu tan ychydig o oriau cyn i'r Bil gael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi.
- 10) Ar hyn o bryd mae amrediad eang o ddarnau o ddeddfwriaeth yn llywodraethu system ynni'r DU, ac mae nifer o'r rhain yn cael eu diwygio gan y Bil. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Ynni 2008, Deddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989, Deddf Petrolewm 1998 a Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Mae'r newidiadau i ddeddfwriaeth yn y Nodiadau Esboniadol sydd ar gael yma: [Energy Bill \[HL\] publications - Parliamentary Bills - UK Parliament](#)

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

- 11) Rwyf o'r farn bod angen cydsyniad mewn perthynas â'r darpariaethau a nodir isod, yn gymaint ag y maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion Rheol Sefydlog 29. Nodwch fod rhifau unrhyw gymalau'n cydfynd â'r rhifau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.
- 12) Mae nifer fawr o'r pwerau sy'n gysylltiedig â pholisi ynni wedi'u cadw'n ôl. Fodd bynnag, o ystyried cymhlethdod pwerau a gedwir yn ôl a phwerau datganoledig, bydd angen cydsyniad deddfwriaethol mewn nifer o feysydd. Mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i leisio pryderon nad yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn parchu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, na chyfrifoldebau datganoledig Gweinidogion Cymru, ac y dylai Llywodraeth y DU geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar gymhwysedd datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell atal cydsyniad ar gyfer y cymalau perthnasol ar yr adeg hon.
- 13) Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ffordd o ymdrin â'r darpariaethau sydd angen gwelliannau. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno memorandwm atodol a chynnig yn nes ymlaen yn ystod taith y Bil drwy Senedd y DU.

Darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru yn argymhell cydsyniad ar eu cyfer

- 14) Mae'r darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod angen **cydsyniad** y Senedd ar eu cyfer yn cael eu crynhoi isod.

a) Rhan 1: Trwyddedu Cludo a Storio Carbon Deuocsid

Mae'r Rhan hon yn sefydlu'r dyletswyddau a'r swyddogaethau i Ofgem weithredu fel y rheoleiddiwr economaidd ar gyfer cludo a storio CO₂, a fframwaith trwyddedu economaidd ar gyfer gweithgareddau cludo a storio carbon. Mae dull sy'n cynnwys y DU gyfan yn cael ei ddefnyddio i sicrhau fframwaith rheoleiddio cyson ledled y DU, lle y disgwylir i rwydweithiau cludo a storio CO₂ groesi ffiniau tiriogaethol. Mae hefyd yn amlinellu pwerau helaeth ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau, gwneud penderfyniadau a rhoi cyfarwyddydau i Ofgem mewn perthynas â'i waith o reoleiddio gweithgareddau cludo a storio CO₂.

Mae angen LCM ar gyfer y darpariaethau y cyfeirir atynt isod am eu bod yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Pennod 1: cymalau 20 – 25

Mae'r cymalau hyn yn dweud bod gan ddeiliad trwydded, neu ddefnyddiwr rhwydwaith cludo a storio y mae penderfyniad gan y rheoleiddiwr economaidd i addasu amod trwydded yn cael effaith sylweddol arno, yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i addasu trwydded i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Mae'n amlinellu gweithdrefn a phŵer yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Bwriad hyn yw sicrhau bod y drefn briodol yn cael ei dilyn a bod digon o fesurau diogelu ar gyfer buddsoddwyr y gall addasiad arfaethedig i drwydded darfu ar eu hawliau yn ystod tymor y drwydded.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon ynghylch yr amodau hyn. Rydym yn cytuno bod eu hangen ac rydym yn argymhell rhoi cydsyniad.

b) Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid ac ati, a chynhyrchu hydrogen

Mae angen LCM ar gyfer y darpariaethau a restrir isod am eu bod yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Pennod 4: cymalau 92 – 95 ac Atodlen 5

Mae'r cymalau hyn yn cyflwyno pwerau ymlaen llaw ar gyfer yr Awdurdod Olew a Nwy ynglŷn â newid rheolwyr cwmni mewn perthynas â phob Trwydded Storio Carbon, ac maent yn gwneud newid rheolwyr heb gydsyniad yr Awdurdod Olew a Nwy ymlaen llaw yn drosedd.

Mae gorgyffwrdd rhwng y cwmpas daearyddol a'r diriogaeth y mae gan y Senedd gymhwysedd yn eu cylch o dan adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Mae'n bwysig nad yw trwyddedau'n destun newidiadau annymunol o ran rheolaeth, ac felly mae Llywodraeth Cymru yn argymhell rhoi cydsyniad.

Pennod 5: cymal 97

Mae Cymal 97 yn gwneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gwariant a darparu cymorth ariannol at ddiben annog, cefnogi neu hwyluso cludo a storio CO₂, cyfleusterau dal carbon sy'n gweithredu ar y cyd â chludo a storio, cynhyrchu hydrogen carbon isel a chludo a storio hydrogen.

Bydd angen cymorth ariannol i gynyddu'r defnydd o'r dechnoleg hon. Felly mae Llywodraeth Cymru yn argymhell rhoi cydsyniad.

c) Rhan 3: Technoleg newydd

Mae angen LCM ar gyfer y ddarpariaeth a restrir isod am ei bod yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, ac nid yw'n ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cymal 111

Mae'r cymal hwn yn newid y diffiniad o "UK removals" yn adran 29(1)(b) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel ei fod yn golygu mewn perthynas â nwy tŷ gwydr "removals of that gas from the atmosphere due to processes, mechanisms or activities".

Roedd y diffiniad blaenorol o "UK removals" yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn cyfeirio at echdyniadau nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer yn unig o ganlyniad i ddefnydd tir, newid defnydd tir neu weithgareddau coedwigaeth yn y Deyrnas Unedig. Drwy newid y diffiniad drwy'r Bil hwn, bydd echdyniadau wedi eu peiriannu hefyd yn dod o fewn y diffiniad.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei fod yn briodol ac yn argymhell rhoi cydsyniad.

d) Rhan 7: Rhwydweithiau Gwres

Cymal 168(1)(b) a (2); a pharagraffau 33(1) a (3)(a) a (d) o Atodlen 15

Cymal 168(1)(b)

Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth drwy reoliadau at ddibenion rhoi pwerau mewn perthynas â datblygu neu gynnal rhwydweithiau gwres perthnasol.

Mae paragraff 101 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer mater a gedwir yn ôl mewn cysylltiad â "Production, distribution and supply of heat and cooling". Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu ar gyfer eithriad i'r mater hwnnw a gedwir yn ôl, mewn cysylltiad â "Heat and cooling networks, but not the regulation of them". Mae'r ddarpariaeth (adran 168(1)(b)) o fewn yr eithriad i'r mater hwnnw a gedwir yn ôl, gan ei bod yn ymwneud â datblygu a chynnal rhwydweithiau gwres ac oeri.

Cymal 168(2) a pharagraffau 33(1) a pharagraffau 33(1) a (3)(a) a (d) o Atodlen 15

Mae cymal 168(2) yn darparu bod Atodlen 15 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch y pwerau i wneud rheoliadau o dan gymal 168.

Mae paragraffau 33(1) a (3)(a) a (d), gyda'i gilydd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol nodi mewn rheoliadau o'r fath yr hawliau sy'n ymwneud â thir y gellir eu rhoi i berson drwy drwydded gosod a chynnal a chadw, a gaiff gynnwys hawl i wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol gaffael gorfodol o hawddfaint neu hawl arall dros dir drwy greu hawl newydd at ddiben gosod neu gynnal gwaith a chyfarpar sy'n ymwneud â rhwydwaith gwres; a hawl i ymgymryd â gwaith o ddisgrifiad penodedig heb fod angen cael caniatâd cynllunio.

Mae paragraff 184 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer mater a gedwir yn ôl mewn perthynas â chynllunio ("Planning...") ond mae'n un sydd wedi'i gyfyngu i faterion penodol, ac nid oes yr un ohonynt yn berthnasol. Mae'r ddarpariaeth, felly, o fewn cymhwysedd y Senedd o ran cynllunio'n ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod yr hawliau a'r pwerau'n briodol ac yn gyson â seilwaith ynni arall. Felly rydym yn argymhell rhoi cydsyniad.

Darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn atal cydsyniad yn eu cylch

- 15) Mae'r darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru yn argymhell **atal cydsyniad** yn eu cylch yn cael eu crynhoi isod.

| Cymalau – Disgrifiad byr | Pam mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) | Argymhellir rhoi/atal cydsyniad a pham |
|--|--|---|
| <p>Rhan 1: Trwyddedu cludo a storio carbon deuocsid</p> <p>Mae'r Rhan hon yn nodi'r dyletswyddau a'r swyddogaethau ar gyfer Ofgem i weithredu fel y rheoleiddiwr ar gyfer cludo a storio CO₂, a fframwaith ar gyfer trwyddedu gweithgareddau cludo a storio CO₂. Mae dull sy'n cynnwys y DU gyfan yn cael ei ddefnyddio i sicrhau fframwaith rheoleiddio cyson ledled y DU, lle y disgwylir i rwydweithiau cludo a storio CO₂ groesi ffiniau tiriogaethol.</p> | | |
| <p>Pennod 1: Trwyddedu gweithgareddau</p> <p>Mae Pennod 1 yn ymwneud â thrwyddedu gweithgareddau, gan gynnwys storio a chludo CO₂. Mae'n nodi mai Ofgem yw'r Rheoleiddiwr Economaidd ar gyfer cludo a storio CO₂, yn gwahardd cludo CO₂ drwy biblinell neu weithredu safle ar gyfer storio CO₂ o dan y ddaear heb drwydded, ac yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i reoleiddio ffyrdd eraill o gludo CO₂ yn y dyfodol.</p> | <p>Mae angen LCM ar gyfer cymalau 1-19, 26-35 ac Atodlen 1.</p> <p>Mae angen LCM ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn deddfu ym maes datganoledig storio carbon deuocsid.</p> <p>Mae'r darpariaethau yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell atal cydsyniad ar gyfer cymalau 1–19, 26–35 ac Atodlen 1, am yr argymhellir gwelliannau neu esboniadau.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am y gwelliannau canlynol: Cymal 1: Gwelliant i gynnwys cyfrannu at dargedau Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ar gyfer yr hinsawdd, fel un o brif amcanion y rheoleiddio economaidd. Cymalau 2 a 3: Am fod cymal 2(3)(b) yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n nodi dulliau eraill o gludo nwy sydd i fod yn "ddulliau cludo trwyddedig", gofynnir i'r gofyniad yng nghymal 3 i'r Ysgrifennydd Gwladol hysbysu Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd datganoledig, gael ei gryfhau i fod yn ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Hefyd, mae cymal 2(7) yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd addasu neu ddirymu darpariaeth yn y Ddeddf hon neu ddeddfiadau eraill, ac felly addasu cymalau mewn perthynas â modelau trwyddedau. Gallai'r pŵer ehangach</p> |

| | | |
|--|---|--|
| | <p>Mae cymal 1 yn nodi prif amcanion a dyletswyddau cyffredinol yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Rheoleiddiwr Economaidd.</p> <p>Mae cymalau 2 – 6 yn ymwneud â gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer:</p> <p>Mae cymal 2 yn cynnwys trosedd cynnal gweithgareddau heb drwydded.</p> <p>Mae cymal 3 yn ymwneud â'r gofynion i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ynghylch cynigion i ychwanegu gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer.</p> <p>Mae cymal 4 yn amlinellu cwmpas tiriogaethol y gwaharddiad</p> <p>Mae cymal 5 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i roi esemptiad o'r gwaharddiad.</p> <p>Mae cymal 6 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddirymu rheoliadau y rhoddwyd esemptiad o'r gwaharddiad o danynt.</p> | <p>hwn hefyd arwain at yr Ysgrifennydd Gwladol yn creu amodau trwydded economaidd sy'n gwrthdaro â swyddogaethau gweithredol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thrwyddedau a'r amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am welliannau i esbonio ehangder y pwerau hyn.</p> <p>Cymal 5: Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi esemptiadau o'r gwaharddiad ar gynnal gweithgaredd yng nghymal 2(1) heb drwydded, gofynnir i'r gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru gael ei newid o ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.</p> <p>Cymal 6: Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dirymu neu dynnu esemptiad yn ôl, gofynnir i'r gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru gael ei newid i ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.</p> <p>Cymal 7: Gofynnir bod gwelliant yn cael ei gyflwyno i'w gwneud yn ofynnol i'r Rheoleiddiwr Economaidd roi'r sylw dyladwy i dargedau newid hinsawdd Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cynlluniau statudol cysylltiedig.</p> <p>Cymal 8: Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer mathau gwahanol o drwydded mewn perthynas â gweithgareddau gwahanol a amlinellir yng nghymal 2(1), gofynnir y dylai cydsyniad gan Weinidogion Cymru fod yn ofynnol os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd datganoledig.</p> <p>Cymal 9: Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol (neu'r rheoleiddiwr economaidd gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol) yn gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r ffordd y gwneir cais am drwyddedau a'r ffi,</p> |
|--|---|--|

| | | |
|--|---|--|
| | <p>Mae cymalau 7 – 16 yn ymwneud â rhoi trwyddedau ac amodau trwyddedau:</p> <p>Mae cymal 7 yn caniatáu i'r Rheoleiddiwr Economaidd roi trwyddedau ar gyfer cludo a storio CO₂.</p> <p>Mae cymal 8 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer mathau gwahanol o drwyddedau mewn perthynas â gweithgareddau gwahanol.</p> <p>Mae cymal 9 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am drwydded. Mae darpariaeth i estyn rhai o'r pwerau hyn i'r Rheoleiddiwr Economaidd, gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.</p> <p>Mae cymal 10 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i gyflwyno cystadleuaeth i'r tendrau ar gyfer trwyddedau.</p> <p>Mae cymalau 11 – 15 yn cynnwys darpariaethau i'r Ysgrifennydd</p> | <p>gofynnir i'r gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru gael ei newid i ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.</p> <p>Cymal 10: Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu trwyddedau ar sail gystadleuol, gofynnir i'r gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru gael ei newid i ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.</p> <p>Cymal 11: Bydd y cyfrifiadau refeniw yn ystyried y costau datgomisiynu. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am rhai allyriadau yn nyfroedd tiriogaethol Cymru. Felly, rhaid i'r trafodaethau ynghylch y costau datgomisiynu ystyried yn llawn farn Gweinidogion Cymru ar yr hyn a fyddai'n golygu datgomisiynu digonol.</p> <p>Cymalau 12 – 15: Gwelliant i newid y gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru i ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae'n bwysig bod cydsyniad Gweinidogion Cymru yn cael ei roi ar gyfer pob cymal trwydded pan fydd trwyddedau o'r fath ar dir Cymru neu ddyfroedd tiriogaethol Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig am y bydd y refeniw a gynhyrchir yn cael ei gysylltu â datgomisiynu sydd, wrth reswm, yn ymwneud â'r amgylchedd.</p> <p>Cymal 16: Dylai fod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gydymffurfio â therfyn amser neu amserlen wrth drosglwyddo i'r Rheoleiddiwr Economaidd ei bwerau i roi trwyddedau. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol hysbysu Gweinidogion Cymru am drosglwyddiadau o'r fath ym mhob achos.</p> <p>Atodlen 1 – mae darpariaeth i hysbysu Gweinidogion Cymru o ddyroddi trwydded yn ystod y cyfnod interim. Gofynnwn i</p> |
|--|---|--|

| | | |
|--|--|---|
| | <p>Gwladol bennu amodau trwyddedau, gan gynnwys amodau cyffredinol a safonol, ac i addasu amodau.</p> <p>Mae cymalau 16 ac Atodlen 1 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i roi trwyddedau yn ystod cyfnod interim.</p> <p>Mae cymal 17 yn nodi cyfrifoldebau'r Rheoleiddiwr Economaidd mewn perthynas â dirymu trwyddedau.</p> <p>Mae cymalau 18 a 19 yn nodi y gellir trosglwyddo trwydded ac yn nodi'r cydsyniad sydd ei angen cyn gwneud hynny.</p> <p>Mae cymalau 26-29 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth.</p> <p>Mae cymal 26 yn caniatáu i'r rheoleiddiwr economaidd ofyn am wybodaeth oddi wrth bersonau perthnasol a darparu gwybodaeth iddynt, gan gynnwys</p> | <p>hyn gael ei newid i ofyniad am gydsyniad Gweinidogion Cymru.</p> <p>Cymal 17: Gwelliant i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael cyfrannu at benderfyniadau trwydded pan fyddant yn effeithio ar bwerau datganoledig (gan mai hysbysu yn unig yw'r gofyniad presennol).</p> <p>Cymalau 18 a 19: Gwelliant i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu pan fydd unrhyw drosglwyddiad yn cynnwys trwydded ar dir Cymru neu ddyfroedd tiriogaethol Cymru.</p> <p>Cymal 32: Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau ar gyfer gorfodi amodau trwydded, gofynnir bod cydsyniad gan Weiniogion Cymru yn ofyniad os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd datganoledig.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn am yr esboniadau canlynol:</p> <p>Eglurhad cyffredinol – Byddai gan y Drwydded Economaidd, ac felly'r Rheoleiddiwr Economaidd a'r Ysgrifennydd Gwladol, swyddogaethau gweithredol ar dir Cymru ac yn nyfroedd tiriogaethol Cymru lle mai Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Trwyddedu Dal a Storio Carbon o dan Ddeddf Ynni 2008 (h.y. Gweinidogion Cymru sy'n trwyddedu storio CO2 o dan y ddaear, ond yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Rheoleiddiwr Economaidd sy'n trwyddedu materion</p> |
|--|--|---|

| | | |
|--|---|---|
| | <p>Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.</p> <p>Mae cymal 27 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am wybodaeth yn uniongyrchol gan ddeiliad trwydded fel sy'n ofynnol at ddibenion swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol.</p> <p>Mae cymal 28 yn gosod rhwymedigaeth ar y rheoleiddiwr economaidd i fonitro cyflwr y farchnad, ac i rannu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu gyda'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn ôl y gofyn.</p> <p>Mae cymal 29 yn darparu i'r rheoleiddiwr economaidd ofyn am wybodaeth berthnasol gan ddeiliaid trwydded er mwyn caniatáu iddo fonitro'r farchnad. Mae hefyd yn sefydlu trosedd pan na fo deiliad y drwydded yn cydymffurfio â chais am wybodaeth berthnasol.</p> <p>Mae cymal 30 yn gosod dyletswydd ar y rheoleiddiwr economaidd i gynnal asesiad</p> | <p>economaidd). Gallai hyn arwain at swyddogaethau gweithredol sy'n gwrthdaro os yw Gweinidogion Cymru am ddiwygio'r cymalau presennol mewn perthynas â modelau yn Neddf Ynni 2008.</p> <p>Mae angen rhagor o eglurhad ynghylch y ffordd y bydd y gyfundrefn economaidd bresennol yn cyd-fynd ac yn rhyngweithio â chyfundrefn drwyddedu Deddf Ynni 2008 mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu o dani.</p> <p>Cymal 4: Mae angen eglurhad ynghylch cyrhaeddiad tiriogaethol y darpariaethau yn y Bil hwn o'u cymharu â chwmpas tiriogaethol y pwerau trwyddedu yn Neddf Ynni 2008.</p> <p>Cymalau 5 a 6: Mae angen rhagor o eglurhad ynghylch y paramedrau y rhoddir eithriadau ynddynt.</p> <p>Cymal 26: Mae'r gofyniad rhannu gwybodaeth yn gyffredinol. Mae angen manylion ynghylch pryd a pham y byddai hwn yn berthnasol.</p> <p>Cymal 30: Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth am y ffordd y byddai'r asesiad effaith yn cael ei gynnal, gyda sylw penodol i faterion amgylcheddol datganoledig a rôl Gweinidogion Cymru.</p> |
|--|---|---|

| | | |
|--|---|--|
| | <p>effaith pan fo'n bwriadu dilyn cynnig a allai gael effaith sylweddol.</p> <p>Mae cymal 31 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r rheoleiddiwr economaidd roi rhesymau dros eu penderfyniadau mewn perthynas â dirymu neu addasu trwydded, rhoi unrhyw gyfarwyddydau neu gydsyniad yn unol ag amod sydd wedi'i gynnwys mewn trwydded, penderfynu ar gwestiwn a atgyfeiriwyd yn unol ag amod sydd wedi'i gynnwys mewn trwydded a gwneud gorchymyn terfynol, gwneud neu gadarnhau gorchymyn 5 dros dro neu ddirymu gorchymyn terfynol neu orchymyn dros dro sydd wedi'i gadarnhau.</p> <p>Mae Cymalau 32 – 35 yn ymwneud â gorfodi: Mae cymal 32 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i orfodi amodau</p> | |
|--|---|--|

| | | |
|---|--|---|
| | <p>trwydded a gofynion eraill a roddir ar ddeiliaid drwydded.</p> <p>Mae cymal 33 yn gwneud rhoi datganiadau anwir mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rhan hon yn drosedd.</p> <p>Mae cymal 34 yn nodi atebolrwydd swyddogion neu endidau.</p> <p>Mae cymal 35 yn amlinellu'r trefniadau troseddol mewn perthynas â'r troseddau.</p> | |
| <p>Pennod 3: Gofynion adrodd</p> <p>Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoleiddiwr Economaidd lunio adroddiad blynyddol y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ei osod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ac y mae rhaid hefyd i Weinidogion Cymru ei osod gerbron y Senedd.</p> | <p>Mae angen LCM ar gyfer cymalau 39 – 41.</p> <p>Mae'r darpariaethau yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell atal cydsyniad am ein bod wedi gofyn am welliannau.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am welliannau fel a ganlyn:</p> <p>Cymal 39: Gwelliant i'w gwneud yn ofynnol ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar raglenni drafft.</p> <p>Cymal 40: Gwelliant i raglen waith y rheoleiddiwr roi'r sylw dyladwy i bolisiau'r Llywodraethau Datganoledig.</p> <p>Cymal 41: Dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys gofyniad i adrodd ar gynnydd yng Nghymru (os nad yw wedi'i gynnwys).</p> |

| | | |
|---|---|--|
| | <p>Mae Cymal 41 yn gosod swyddogaethau ar Weinidogion Cymru. Rhaid hefyd i Weinidogion Cymru osod copi o adroddiad blynyddol yr Ysgrifennydd Gwladol yn y Senedd.</p> | |
| <p>Pennod 4: Cyfundrefn Weinyddu Arbennig</p> <p>Mae'n darparu ar gyfer rhoi Cyfundrefn Weinyddu Arbennig ar waith yn achos ansolfedd cwmni cludo a storio CO₂.</p> | <p>Mae angen LCM ar gyfer cymal 46.</p> <p>Er bod Pennod 4 yn ymwneud yn bennaf ag ansolfedd, mae cymal 46 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio trwyddedau. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer rhai trwyddedau o fewn cwrpas posibl y cymal hwn. Mae'r darpariaethau yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell atal cydsyniad ar gyfer cymal 46 rhag ofn bod rhagor o welliannau neu esboniadau'n cael eu nodi yn dilyn adolygiadau pellach.</p> <p>Mae cymal 46 ei hun yn cydnabod y gallai'r pwerau a ddefnyddiwyd fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae is-adrannau (3) a (6) yn darparu os byddai'r ddarpariaeth sy'n gwneud yr addasiad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai o fewn Deddf gan y Senedd, yna y byddai gofyniad i ymgynghori.</p> |

| | | |
|--|--|---|
| <p>Pennod 5 – Cynlluniau Trosglwyddo</p> <p>Mae'r Bennod hon yn darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau neu rwymedigaethau pan fydd trwydded yn cael ei therfynu. Gall hyn fod yn ofynnol er mwyn caniatáu i'r rhwydwaith barhau i weithredu, neu i sicrhau diogelwch rhwydwaith os yw'n peidio â chael ei weithredu.</p> | <p>Cymalau 50-52 ac Atodlen 3</p> <p>Mae'r cymalau hyn yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud cynllun trosglwyddo statudol lle gellir trosglwyddo eiddo, hawliau neu rwymedigaethau penodol deiliad trwydded oddi tano naill ai i gorff priodol neu i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n cynnwys darpariaethau ynghylch ymgynghori ac ymddygiad.</p> <p>Mae'r darpariaethau yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell atal cydsyniad ar gyfer cymalau 50-52 ac Atodlen 3 ac rydym yn gofyn am welliannau i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cydsynio i'r trosglwyddiad ar gyfer trwyddedau.</p> |
| <p>Pennod 6 – Amrywiol a Chyffredinol</p> | <p>Mae angen LCM ar gyfer cymalau 53-54 ac Atodlen 4.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell atal cydsyniad ar gyfer cymalau 53-54 ac Atodlen 4.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr economaidd rannu gwybodaeth berthnasol ag awdurdod trwyddedu h.y. trefniant cilyddol i'r un y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd.</p> |

| | | |
|--|---|--|
| | <p>dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid yw'n ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p> <p>Mae cymal 53 yn addasu Deddf Ynni 2008 i ddarparu ar gyfer cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng y rheoleiddiwr economaidd a'r awdurdod trwyddedu storio CO2 perthnasol, sef Gweinidogion Cymru mewn rhai achosion.</p> <p>Mae cymal 54 ac Atodlen 4 yn nodi'r diwygiadau canlyniadol i'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n gysylltiedig â'r Rhan hon.</p> <p>Mae gofynion cydweithredu a rhannu gwybodaeth yn berthnasol i Weinidogion Cymru.</p> | |
|--|---|--|

Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen

Mae'r Rhan hon yn sefydlu ffordd o ddarparu cymorth refeniw a chymorth ariannol arall i gwmnïau sy'n cludo a storio CO₂, i gynhyrchwyr hydrogen carbon isel ac i endidau sy'n dal a storio carbon. Mae hefyd yn rhoi pwerau i sefydlu a gweinyddu ardoll ar gyflenwyr trydan, cyflenwyr nwy, a/neu'r rheini sy'n cludo nwy ar longau er mwyn darparu cymorth i gynhyrchu hydrogen carbon isel.

Bydd yr un ffordd o weithredu'n cael ei chyflwyno ledled y DU er mwyn cefnogi cyfraniad y technolegau carbon isel hyn at ddatgarboneiddio ledled y DU, er mwyn lliniaru'r risgiau penodol sy'n wynebu datblygwyr seilwaith wrth iddynt fynd ati i fasnacheiddio ac i gyflwyno technoleg, ac er mwyn meithrin hyder ymhlith buddsoddwyr.

Pennod 1 - Contractau Cymorth Refeniw

Mae'r darpariaethau ym Mhennod 1 yn rhoi pwerau dirprwyedig i sefydlu'r fframwaith manwl ar gyfer modelau busnes, gan gynnwys dynodi parti i gontract a dyletswyddau'r parti hwnnw i ymrwymo ac i reoli contractau ar gyfer modelau busnes gydag endidau carbon, cwmnïau sy'n cludo ac yn storio CO₂, a chynhyrchwyr hydrogen carbon isel. Mae hefyd yn darparu ar gyfer corff dyrannu ar gyfer prosesau

Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymalau 56-60, 63-64 a 68-81 i'r graddau y maent yn ymwneud â dal, cludo a storio carbon deuocsid.

Mae'r darpariaethau yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae cymal 56 yn darparu'r ystyron a'r diffiniadau ar gyfer

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad i gymalau 56-60, 63-64 a 68-81 oherwydd ei bod wedi gofyn iddynt gael eu diwygio.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am y gwelliannau a ganlyn:

Cymal 57 – Yn ôl is-adran (7), caiff rheoliadau cymorth refeniw roi unrhyw swyddogaeth i unrhyw berson. Diwygier yr iaith er mwyn cyfyngu ar gwmpas hyn.

Cymalau 57, 71, 72, 73, 74 a 78 – Gan fod y cymalau hyn yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau am gontractau cymorth refeniw, dylai'r gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru gael ei ddiwygio a'i wneud yn ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.

Cymal 68 – pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon (e.e. penodi person i gyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad â dyrannu contractau cymorth refeniw ar gyfer cynhyrchu hydrogen, a pherson i gyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad â dyrannu contractau cymorth refeniw ar gyfer dal carbon, dylai fod yn

| | | |
|--|--|---|
| <p>dyrannu cystadleuol yn y dyfodol.</p> | <p>termau amrywiol a ddefnyddir ym Mhennod 1.</p> <p>Mae cymal 57 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol reoleiddio contractau cymorth refeniw. Mae cymal 58 yn nodi dyletswyddau'r parti i gontract cymorth refeniw. Mae cymal 59 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddynodi parti i gontractau cymorth refeniw ar gyfer cludo a storio CO2. Mae cymal 60 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo parti i gontract cludo a storio i gynnig ymrwymo i gontract gyda pherson cymwys (deiliad trwydded). Mae cymal 63 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddynodi parti i gontract ar gyfer Dal Carbon. Mae cymal 64 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo parti i gontract Dal Carbon i gynnig ymrwymo i gontract gyda pherson cymwys .</p> | <p>ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd datganoledig. Cymal 69 – Dylai fod yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru.</p> |
|--|--|---|

| | | |
|--|--|--|
| | <p>Mae cymalau 68 – 74 yn ymwneud â dyrannu contractau:</p> <p>Mae cymal 68 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, benodi person i ddyrannu contractau.</p> <p>Mae cymal 69 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi telerau ac amodau safonol contractau.</p> <p>Mae cymal 70 yn ymwneud â hysbysiadau dyrannu.</p> <p>Mae cymal 71 yn caniatáu ar gyfer rheoliadau a fydd yn nodi sut i wneud penderfyniadau ar ddyrannu contractau.</p> <p>Mae cymal 72 yn gosod dyletswydd i gynnig contract ar ôl iddo gael ei ddyrannu ac mae'n caniatáu ar gyfer cysylltu telerau ac amodau â chynigion.</p> <p>Mae adran 73 yn caniatáu ar gyfer addasu termau safonol ac mae cymal 74 yn cynnwys darpariaethau atodol.</p> <p>Mae cymalau 75 - 76 yn cynnwys darpariaethau am bartion i gontractau.</p> | |
|--|--|--|

| | | |
|--|--|--|
| | <p>Mae cymal 75 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddirymu hysbysiad dynodi parti i gontract. Mae cymal 76 yn ymwneud â darpariaethau ar gyfer dosrannu symiau i bartïon i gontractau cymorth refeniw os nad yw rhwymedigaethau o dan y contract yn cael eu bodloni'n llawn.</p> <p>Mae cymal 77 yn nodi y caiff rheoliadau cymorth refeniw wneud darpariaethau sy'n ymwneud â gwybodaeth a chyngor.</p> <p>Mae cymal 78 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal ymgynghoriad, gan gynnwys gyda Gweinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau cymorth refeniw.</p> <p>Mae cymal 79 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud cynlluniau ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau neu rwymedigaethau dynodedig, gan gynnwys mewn perthynas â phartïon i gontractau cymorth refeniw a phartïon dyrannu.</p> | |
|--|--|--|

| | | |
|--|--|--|
| | <p>Mae cymal 80 yn darparu ar gyfer addasu cynlluniau trosglwyddo. Mae cymal 81 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol mewn perthynas â Phennod 1.</p> | |
| <p>Pennod 2 – Datgomisiynu gosodiadau storio carbon</p> <p>Mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud ac addasu rheoliadau i weithredu cyfundrefn a gyllidir ar gyfer datgomisiynu gosodiadau alltraeth sy'n dal, yn defnyddio ac yn storio carbon.</p> | <p>Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymalau 82-84</p> <p>Mae Pennod 2 yn ymwneud â datgomisiynu gosodiadau storio carbon, gan gynnwys y pŵer i wneud rheoliadau ynglŷn â chymorth ariannol ar gyfer costau datgomisiynu. Mae'r cymalau, felly, yn deddfu mewn maes datganoledig.</p> <p>Mae'r darpariaethau yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad ar gyfer cymalau 82-84 ac yn argymhell eu bod yn cael eu diwygio.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am y gwelliannau a ganlyn: Cymal 82 – Dylai fod yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer unrhyw reoliadau eilaidd a fydd yn deillio o'r Bil hwn a hefyd mewn unrhyw achosion yn y Rhan hon lle y cynigir y dylid ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Cymalau 82 ac 83 – Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, dylai cydsyniad Gweinidogion Cymru fod yn ofynnol os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd datganoledig.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad ar gyfer yr holl gymalau uchod ac yn gofyn iddynt gael eu diwygio.</p> |

| | | |
|--|--|--|
| | <p>Mae cymalau 82 ac 83 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynglŷn ag ariannu costau datgomiynu a chostau etifeddol a ysgwyddir mewn perthynas â gosodiadau storio carbon.</p> <p>Mae cymal 84 yn cymhwyso Rhan 4 o Ddeddf Petrolwim 1998 mewn perthynas â chefnu ar osodiadau storio carbon.</p> | |
| <p>Pennod 3 – Datganiad Strategaeth a Pholisi</p> <p>Mae'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi strategaeth a datganiad polisi ar gyfer dal, defnyddio a storio carbon. Byddai angen i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r rheoleiddiwr economaidd eu hystyried wrth gyflawni swyddogaethau Rhan 1 (Trwyddedu cludo a storio carbon deuocsid). Mae hefyd yn nodi'r broses a'r amserlenni ar gyfer paratoi ac adolygu'r datganiad hwn.</p> | <p>Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymalau 88-91</p> <p>Bwriedir y datganiad polisi hwn ar gyfer y DU gyfan. Mae Pennod 3 yn ymwneud â'r gofyniad sydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi strategaeth a datganiad polisi ar ddal, defnyddio a storio carbon. Bwriedir y datganiad hwn am bolisi ar gyfer y DU gyfan, h.y. gan gynnwys Cymru. Mae gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, ond mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai fod angen cydsyniad</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad ar gyfer cymalau 88-91 ac yn argymhell bod angen gwelliannau neu eglurhad. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am y gwelliannau a ganlyn:</p> <p>Cymalau 90 a 91 – Dylai'r gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru gael ei newid yn ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.</p> <p>Cymal 91 – Dylai fod gofyniad i ymgynghori'n gyhoeddus am ddatganiad polisi drafft.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad ar gyfer cymal 88 rhag ofn y bydd, ar ôl ystyried mwy ar y cymal hwnnw, yn gweld bod angen rhagor o welliannau neu fwy o eglurhad.</p> |

| | | |
|---|--|---|
| | <p>Gweinidogion Cymru i'r graddau y mae'r polisi yn ymwneud â Chymru.</p> <p>Mae'r darpariaethau yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p> | |
| <p>Pennod 5 – Cyffredinol</p> <p>Mae Pennod 5 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliad ynglŷn â chaffael hawliau i ddefnyddio cyfleusterau storio a phibellau.</p> | <p>Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymal 96</p> <p>Mae Pennod 5 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliad ynglŷn â chaffael hawliau i ddefnyddio cyfleusterau storio a phibellau. Mae hyn yn debygol o effeithio ar y maes datganoledig sy'n ymwneud â storio carbon deuocsid. Mae dyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, ond dylai fod angen cael eu cydsyniad.</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad ar gyfer cymal 96 ac mae'n gofyn iddo gael ei ddiwygio.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am welliannau fel a ganlyn: Cymal 96 – Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon (e.e. ynglŷn â chaffael hawliau ar gyfer seilwaith), dylai fod yn ofynnol iddo gael cydsyniad Gweinidogion Cymru os bydd y rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd datganoledig.</p> |

| | | |
|---|---|---|
| | <p>Mae'r darpariaethau yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio megis dal, cludo a storio carbon deuocsid, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p> <p>Mae cymal 96 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynglŷn â mynediad at seilwaith cludo a storio CO2.</p> | |
| Rhan 3 – Technoleg Newydd | | |
| <p>Pennod 1 – Cynlluniau Gwres Carbon Isel</p> <p>Cymalau 98-107. Mae'r cymalau yn galluogi rhwymedigaeth ar, er enghraifft, weithgynhyrchwyr offer gwresogi nwy ac olew i werthu mwy o gyfarpar</p> | <p>Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymalau 98-107</p> <p>Mae paragraff 101 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer mater a gedwir yn ôl mewn cysylltiad â "Production, distribution and supply of heat and cooling". Mae</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad ar gyfer cymalau 98-107 oherwydd ei bod wedi gofyn iddynt gael eu diwygio.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am newidiadau i'r cymalau i adlewyrchu'r isod: Gofyniad i Weinidogion Cymru roi eu cydsyniad ar gyfer unrhyw reoliadau a fydd yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig y Senedd.</p> |

| | | |
|--------------------------------------|---|--|
| <p>carbon isel fel pypiau gwres.</p> | <p>hefyd yn darparu eithriad i'r mater hwnnw a gedwir yn ôl, sef: “Schemes providing incentives to generate or produce, or to facilitate the generation or production of, heat or cooling from sources of energy other than fossil fuel or nuclear fuel”.</p> <p>Mae'r cymalau hyn yn bendant o fewn yr eithriad hwnnw, ac felly o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.</p> <p>Mae cymal 98 yn pennu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy gyfrwng rheoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer sefydlu a gweithredu un neu ragor o gynlluniau gwres carbon isel.</p> <p>Mae cymal 99 yn pennu cwmpas y rheoliadau.</p> <p>Mae cymal 100 yn darparu ar gyfer gosod targed ar gyfer gwres carbon isel.</p> <p>Mae cymal 101 yn cynnwys rhagor o ddarpariaethau ynglŷn â rheoleiddio'r cynllun, gan gynnwys monitro a chydymffurfio.</p> | <p>Bod Gweinidogion Cymru yn cael pwerau i newid a/neu ddirymu agweddau, neu agweddau arfaethedig, ar sut y bydd y cynllun yn gweithredu yng Nghymru, gan wneud hynny fesul achos, pan fo hynny o fewn cymhwysedd datganoledig.</p> <p>Gofyniad bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi Gweinidogion Cymru yn weinyddwyr ar y cynllun ar ôl cael cais i'r perwyl hwnnw oddi wrth Weinidogion Cymru, a'i fod yn gwneud hynny yn unol â'r amserlen a geisir gan Weinidogion Cymru. Hyd nes y gwneir cais, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw'r pŵer i benodi'r gweinyddwr ar gyfer y DU gyfan.</p> |
|--------------------------------------|---|--|

| | | |
|--|--|--|
| | <p>Mae cymal 102 yn darparu i'r rheoliadau benodi gweinyddwr. Mae cymal 103 yn ymwneud â gorfodi, cosbau a throsteddau. Mae cymal 104 yn darparu ar gyfer rheoliadau i wneud darpariaethau mewn perthynas â thaliadau. Mae cymal 105 yn ymwneud ag apeliadau. Mae cymal 106 yn ymwneud â rheoliadau'r cynllun, gan gynnwys gweithdrefnau. Mae cymal 107 yn cynnwys diffiniadau sy'n gysylltiedig â'r bennod hon.</p> | |
|--|--|--|

| Rhan 4 – Gweithredwr a Chynllunydd System Annibynnol (ISOP) | | |
|---|--|--|
| <p>Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer sefydlu corff newydd – Gweithredwr a Chynllunydd System Annibynnol (ISOP).</p> <p>Mae'r ISOP i fod yn gorff sector cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio datblygiad y systemau trosglwyddo trydan a nwy a gweithrediad y system drosglwyddo trydan.</p> <p>Mae llawer o'r swyddogaethau y bydd yr ISOP yn ymgymryd â hwy ar hyn o bryd yn cael eu cyflawni gan weithredwyr trwyddedig sy'n eiddo i National Grid plc a gwneir darpariaeth ar gyfer trosglwyddo'r gweithredwyr cyfan neu rannau o'r gweithredwyr hyn o'u perchnogaeth bresennol, fel rhan o waith sefydlu'r ISOP.</p> | <p>Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymal 125 a pharagraff 9 o Atodlen 6</p> <p>Mae'r darpariaethau y cyfeirir atynt isod yn ymwneud â threth ddatganoledig, sydd o fewn yr eithriad i'r mater a gedwir yn ôl ym mharagraff 15 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn yr Atodlen honno.</p> <p><u>Cymal 125 a pharagraff 9 o Atodlen 6</u></p> <p>Cyflwynodd cymal 125 Atodlen 6, sy'n rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud un neu fwy o gynlluniau i drosglwyddo eiddo, hawliau neu rywmedigaethau o un person i berson arall wrth baratoi ar gyfer dynodi person neu mewn cysylltiad ag ef neu at y diben o alluogi'r Gweithredwr a Chynllunydd System</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad gan fod y Bil yn ceisio rhoi pŵer i Drysorlys EF amrywio'r ffordd y mae'r dreth trafodiadau tir yn gweithredu.</p> <p>Nid yw'n briodol i Weinidogion y DU a Senedd y DU fod yn gyfrifol am y pŵer i wneud newidiadau. Dylai Gweinidogion Cymru a'r Senedd benderfynu ar faterion o'r fath.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am dynnu'r dreth trafodiadau tir o'r rhestr o drethi.</p> |

| | | |
|-----------------------------|--|--|
| | <p>Annibynnol i gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau.</p> <p>Mae paragraff 9 o'r Atodlen honno yn rhoi pŵer i Drysorlys EF wneud rheoliadau sy'n amrywio effaith treth berthnasol i gael effaith mewn perthynas â chynllun trosglwyddo. Caiff y Trysorlys arfer y pŵer hwnnw i wneud darpariaeth er mwyn i ddarpariaeth dreth fod yn gymwys, neu fod yn gymwys gydag addasiadau, mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n cael ei drosglwyddo; neu i unrhyw beth sy'n cael ei drosglwyddo i'w drin mewn ffordd benodol at ddibenion darpariaeth dreth.</p> <p>Mae "treth berthnasol" yn cynnwys treth trafodiadau tir, sy'n dreth ddatganoledig o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Cymru 2006.</p> | |
| Rhan 11 – Olew a Nwy | | |

| | | |
|---|--|--|
| <p>Diogelu'r Amgylchedd</p> <p>Mae'r rhan hon yn rhoi i mewn i gyfraith ddomestig bwerau a oedd yn deillio gynt o Gyfraith yr UE a Deddf 1972, a ddefnyddid er mwyn gwneud Rheoliadau Llongau Masnach (Confensiwn Bod yn Barod am Lygredd Olew, Ymateb Iddo a Chydweithredu mewn Perthynas ag Ef) 1998. Mae'r pwerau'n ehangach ac yn ymdrin hefyd â storio carbon deuocsid a dadlwytho a storio nwy, yn ogystal â chynhyrchu a storio hydrogen.</p> <p>Mae'n galluogi pwerau sylfaenol a fyddai'n sicrhau bod y gyfundrefn rheoleiddio amgylcheddol ar gyfer olew a nwy ar y môr yn parhau'n addas i'r diben drwy ganiatáu i newidiadau gael eu cynnwys drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol.</p> | <p>Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymalau 225 – 226</p> <p>Mae cymal 225 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gyfrifol am seilwaith penodedig penodol drefnu bod cynllun brys ar gael er mwyn ymateb i lygredd olew ar y môr.</p> <p>Mae cymal 226 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth, drwy reoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y goblygiadau i safleoedd perthnasol wrth benderfynu a ddylid cyflawni neu sut i gyflawni swyddogaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau olew a nwy ar y môr neu gynhyrchu neu storio nwy ar y môr.</p> <p>Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd, rheoli llygredd etc. y mae gan y Senedd gymhwysedd</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad tra bydd yn ceisio eglurhad ynglŷn â sut y mae hyn rhyngweithio â'r systemau presennol ar gyfer hysbysu am lygredd ar y môr ac ymateb i'r digwyddiadau hynny.</p> <p>Byddwn yn cadarnhau'n cyngor terfynol pan fydd y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU wedi dod i ben.</p> |
|---|--|--|

| | | |
|--|---|--|
| | yn eu cylch. Nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. | |
|--|---|--|

| | | |
|--|---|---|
| <p>Datgomisiynu olew a nwy ar y môr: cynlluniau codi tâl</p> <p>Mae'n creu pwerau i sefydlu cynllun codi tâl er mwyn adennill costau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â datgomisiynu seilwaith olew a nwy a storio carbon ar y môr.</p> | <p>Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymal 227</p> <p>Mae cymal 227 yn diwygio Deddf Petrolwim 1998 ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol mewn manau eraill i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud cynllun sy'n darparu ar gyfer taliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 4 o'r Ddeddf honno.</p> <p>Mae Rhan 4 o'r Ddeddf honno'n ymwneud â chefnu ar osodiadau alltraeth a phiblinellau tanfor a'u datgomisiynu.</p> <p>At ei gilydd, mae gosodiadau alltraeth a phiblinellau tanfor (a ddiffinnir yn adran 44 o'r Ddeddf honno) yn osodiadau a phiblinellau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo, etc. nwy (gan gynnwys carbon deuocsid) ac olew o fewn paramedrau daearyddol penodol ar y môr.</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad tra bydd yn ceisio eglurhad ynghylch i ba raddau y byddai'r ddarpariaeth yn gymwys yn nyfroedd tiriogaethol Cymru.</p> <p>Byddwn yn cadarnhau'n cyngor terfynol pan fydd y trafodaethau hynny wedi dod i ben.</p> |
|--|---|---|

| | | |
|---|--|---|
| | <p>Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r graddau y mae'n ymwneud â charbon,. Mae gan y Senedd gymhwysedd mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd a gwastraff, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel cludo a storio carbon deuocsid.</p> | |
| Rhan 13 – Cyffredinol | | |
| <p>Mae cymal 238 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn cysylltiad â'r Ddeddf neu mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaethau a wneir o dan y Ddeddf.</p> <p>Mae'r pŵer yn cynnwys y pŵer i ddiwygio, diddymu neu ddirymu Deddfau neu Fesurau Senedd Cymru.</p> | <p>Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymal 238</p> <p>Mae cymal 238 yn rhoi pwerau eang i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ac, i'r graddau y mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â materion datganoledig, mae'r pŵer hwnnw hefyd yn ymwneud â materion datganoledig.</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru am weld gofyniad yn cael ei gyflwyno lle y bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer rheoliadau sy'n ymwneud â materion datganoledig.</p> |

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

19) Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad. Yn benodol, mae Llywodraeth y DU wedi dod i'r casgliadau isod:

- a) Ar gyfer Rhan 1, sy'n ymdrin â Thrwyddedu Cludo a Storio Carbon Deuocsid, mae darpariaethau ar draws y Rhan honno'n sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae rhai o'r darpariaethau'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl, yn enwedig y rheini sy'n ymdrin â swyddogaethau o dan y gyfraith ar gystadleuaeth, a phrosesau ansolfedd.
- b) Ar gyfer Rhan 2, sy'n ymdrin â Dal, Storio etc. Carbon Deuocsid a Chynhyrchu Hydrogen, mae darpariaethau ar draws y Rhan honno'n sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r graddau y mae dal carbon a chludo a storio CO₂ yn faterion sydd, at ei gilydd, o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, maent wedi dod i'r casgliad bod darpariaethau mewn perthynas â hydrogen yn rhai a gadwyd yn ôl yn rhinwedd D2 Olew a Nwy yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u bod felly y tu allan i gymhwysedd datganoledig. Pan fo cymalau'n ymwneud â'r ardoll hydrogen a'i gweinyddu, mae Llywodraeth y DU o'r farn bod darpariaeth o'r fath yn fater a gadwyd yn ôl am ei fod yn ymwneud â threth yn unol â mater A1 a gadwyd yn ôl, ac nad yw'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei sbarduno. Yn yr un modd, mae'r ddarpariaeth o ran bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn dynodi strategaeth a datganiad polisi ar ddal, defnyddio a storio carbon y tu allan i gymhwysedd datganoledig oherwydd ei fod yn ymwneud â pholisi ar gyfer y Deyrnas Unedig.
- c) Ar gyfer Rhan 3, sy'n ymdrin â Thechnoleg Newydd, mae'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei sbarduno yng Nghymru oherwydd bod cynlluniau sy'n cynnig cymhellion i greu neu gynhyrchu gwres neu i oeri, neu i hwyluso creu neu gynhyrchu gwres neu i oeri, gan ddefnyddio ffynonellau ynni heblaw tanwydd ffosil neu danwydd niwclear yn eithriad i'r mater sy'n ymwneud â pholisi gwres a gadwyd yn ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.
- d) Ar gyfer Rhan 7, sy'n ymdrin â Rhwydweithiau Gwres, mae Llywodraeth y DU wedi barnu bod y broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei sbarduno oherwydd bod hawliau a phwerau penodol a roddir drwy'r gyfundrefn drwyddedu arfaethedig yn dod o fewn cwmpas cymhwysedd datganoledig i'r graddau y maent yn ymwneud â chynllunio ac ar y sail nad ydynt yn dod o fewn y mater sy'n ymwneud â chynllunio a gadwyd yn ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.
- e) Ar gyfer Rhan 11, sy'n ymdrin ag Olew a Nwy, bydd y broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei sbarduno am y

rhesymau a ganlyn. O ran trefniadau ar gyfer ymateb i lygredd olew ar y môr (cymal 225) a lleihau effeithiau gweithgareddau olew neu nwy ar y môr (cymal 226), bydd y broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei sbarduno oherwydd bod y sefyllfa o ran cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r moroedd tiriogaethol sy'n cyffinio â Chymru yn amrywio gan ddibynnu ar y gweithgarwch sydd o dan sylw. O ran datgomisiynu gosodiadau storio olew a nwy a charbon deuocsid ar y môr – adennill costau (cymal 227), mae'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei sbarduno o fewn y moroedd tiriogaethol oherwydd bod y sefyllfa o ran cymhwysedd deddfwriaethol yn amrywio gan ddibynnu ar y gweithgarwch sydd o dan sylw, gydag olew a nwy yn faterion a gadwyd yn ôl a storio CO2 yn fater a ddatganolwyd.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni

- 20) Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau yn y Bil hwn ar lefel y DU oherwydd ei bod yn ffordd effeithlon o gyflwyno deddfwriaeth sy'n rhychwantu Cymru, yn enwedig pan fo'r polisïau, yn gyffredinol, yn gydnaws â'i gilydd. Mae nifer o gynlluniau neu gyfundrefnau yn rhai y mae'n fwy priodol eu cyflwyno ar lefel y DU gyfan, o ystyried natur diriogaethol drawsffiniol y gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio.
- 21) Mae polisi ynni yn gyfuniad cymhleth o faterion a gadwyd yn ôl a materion a ddatganolwyd, ac mae'r Bil Ynni yn ffordd gydlynol o gyrraedd y nod yn y maes hwn.
- 22) Wedi dweud hynny, mae nifer mawr o faterion yn peri pryder ac yn rhai y bydd angen eu datrys ar fyrder cyn y gellir argymell rhoi cydsyniad. Y prif beth sy'n peri pryder i mi yw'r methiant i adlewyrchu'r setliad datganoli yn ddigonol, yn enwedig rôl Gweinidogion Cymru fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn meysydd lle datganolwyd cymhwysedd. Mae'n hanfodol sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu dylanwadu ar gynlluniau neu bolisïau ar lefel y DU gyfan sy'n effeithio ar brosiectau trawsffiniol sylweddol. Mae nifer o welliannau eraill yn cael eu hawgrymu, fel yr amlinellir yn y tabl ym mharagraff 15.

Goblygiadau ariannol

- 23) Mae'n bosibl y bydd rhai goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru y gall fod angen eu hystyried. Pe bai'r Bil yn cyflwyno unrhyw bwerau newydd a fyddai'n cael eu gweinyddu gan Weinidogion Cymru, byddai angen gofyn i Lywodraeth y DU am sicrwydd y byddai'n darparu'r adnoddau cyfatebol.

Casgliad

- 24) Er y gallai cyflawni'r darpariaethau hyn mewn Bil ar lefel y DU fod yn ffordd briodol o ddeddfu, oni bai a hyd nes y caiff y materion sy'n peri pryder eu datrys, nid wyf yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i'r Bil hwn.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
29 Mehefin 2023

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

BIL YNNI

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os bydd Bil Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n newid y cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Ynni ("y Bil") yn Senedd y DU, Tŷ'r Arglwyddi, ar 6 Gorffennaf. Ataliwyd taith y Bil am gyfnod cyn ailddechrau yn rhan olaf 2022. Gosodais LCM ar 29 Mehefin 2023 ynghylch y Bil fel y'i cyflwynwyd, sy'n cynnwys crynodeb o'r Bil.
3. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn yn ymwneud â gwelliannau i'r Bil a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Ionawr 2023 ac yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin 2023, y cyfeirir atynt fel cymalau Pecyn Gwelliannau Amgylcheddol Ynni Gwynt Alltraeth ("cymalau OWEIP").
4. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yn dilyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar gael yn [Energy Bill \[HL\] \(parliament.uk\)](#). Mae cymalau OWEIP ar gael yn Rhan 13, Pennod 1, cymalau 286 – 291. Mae'r rhan hon, ynghyd â Phennod 2, yn disodli Rhan 13 – Cyffredinol y cyfeirir ati yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ynni, sydd bellach yn Rhan 15 o'r fersiwn ddiweddaraf i gael ei chyhoeddi.

Amcan y Polisi

5. Yr amcan polisi mae Llywodraeth y DU wedi'i ddatgan ar gyfer OWEIP¹ yw cyflymu datblygiadau ynni gwynt ar y môr.
6. Bydd angen nifer o ganiatadau ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y môr mawr o fewn cwmpas cymalau OWEIP cyn iddynt fynd yn eu blaen:
 - a. Mae angen caniatâd cynllunio gan Weinidogion Cymru cyn *cynllunio* gorsaf gynhyrchu 350MW neu lai yn ardal glannau Cymru.
 - b. Ar gyfer gorsaf gynhyrchu dros 350MW mae angen Gorchymyn Cydsyniad Datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008 wedi'i roi gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn ardal glannau ac ardal môr mawr Cymru).

¹ [Policy Statement Offshore Wind Environmental Improvement Package Measures \(publishing.service.gov.uk\)](#)

- c. Ar gyfer gorsaf gynhyrchu o dan 350MW mae angen caniatâd o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989. Rhoddir caniatâd gan Weinidogion Cymru ar gyfer ardal glannau ac ardal môr mawr Cymru.
 - d. Ar gyfer *adeiladu a gweithredu* gorsaf gynhyrchu a'r seilwaith cysylltiedig yn ardal glannau neu ardal môr mawr Cymru bydd angen trwydded forol gan CNC o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009²
 - e. Os yw'r orsaf gynhyrchu yn gyfan gwbl yn ardal y môr mawr gallai'r Ysgrifennydd Gwladol 'ystyried' trwydded forol drwy'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer gorsaf gynhyrchu dros 350MW yn unig.
7. Mae gan Weinidogion Cymru, Ysgrifenyddion Gwladol ac CNC amryw rolau fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes trwyddedu morol a chaniatâd cynllunio yn nyfroedd Cymru, yn dibynnu ar faint a lleoliad y datblygiadau. Wrth wneud penderfyniadau a chyn rhoi unrhyw ganiatadau, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad perthnasol gyntaf asesu datblygiadau ar gyfer unrhyw effeithiau posibl.
 8. Mae angen asesiadau technegol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MCAA) 2009 ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol, ac o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (Cymru a Lloegr) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (Cymru a Lloegr) ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau). Gyda'i gilydd cyfeirir at Barthau Cadwraeth Morol, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig fel Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a'u diben yw adfer, gwarchod a chynnal bioamrywiaeth drwy ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau allweddol.
 9. Pan fydd angen mae'n ofynnol i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad perthnasol gynnal asesiad priodol (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) cyn rhoi unrhyw ganiatâd. Dim ond os na fydd y prosiect yn cael effaith niweidiol ar Ardal Forol Warchodedig y gellir rhoi caniatâd.
 10. Disgwylir i ddatblygwyr ynni ar y môr mawr ystyried effeithiau eu prosiectau ar yr amgylchedd, gan gynnwys y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a darparu tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau eu penderfyniadau. Os nad oes modd osgoi, lleihau neu lliniaru'r effeithiau, gall y sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried rhanddirymiad ar gyfer y cynllun neu'r prosiect. O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, gellir defnyddio rhanddirymiad os yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn fodlon bod angen gwneud hynny oherwydd Rhesymau Hanfodol er Bydd Cyhoeddus Tra Phwysig. Rhaid i ddatblygwr ddangos nad oes ffordd arall o fwrw ymlaen a fyddai'n lleihau'r risg o gyflawni amcanion cadwraeth Ardal Forol Warchodedig yr effeithir arni, a bod y manteision i'r cyhoedd yn fwy na'r risg o niwed i'r amgylchedd.

²Dirprwyodd Gweinidogion Cymru eu swyddogaeth awdurdod trwyddedu i CNC o dan Orchymnion Trwyddedu Morol (Dirprwy Swyddogaethau) (Cymru) 2013 a 2017

11. Os defnyddir rhanddirymiad, mae dyletswyddau ar y sawl sy'n gwneud y penderfyniad i sicrhau bod cydlyniant cyffredinol y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn cael ei ddiogelu a bod mesurau cydbwysu wedi cael eu sicrhau. Mae'n bosibl y byddant yn atodi amodau i'w caniatâd y cyfeirir atynt fel "mesurau cydbwysu" pan fydd angen gwneud hynny. Diben mesurau cydbwysu felly yw gwneud iawn am effeithiau niweidiol i'r amgylchedd na ellir eu hosgoi sy'n rhwystro amcanion cadwraeth Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ac yn cynnal cydlyniant y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.
12. Mae'r Bil yn darparu pwerau sylfaenol i weithredu OWEIP. Mae'r Nodiadau Esboniadol mewn perthynas â'r Bil Ynni [HL] fel y daethant o Dŷ'r Arglwyddi ar 25 Ebrill 2023 yn dweud y "bydd y pecyn hwn yn fynd i'r afael ag effeithiau seilwaith ynni gwynt ar y môr mawr yn yr amgylchedd morol ac yn cyflymu'r broses gydsynio. Bydd y pwerau hyn yn galluogi asesiadau gwell o effeithiau seilwaith datblygiadau ynni gwynt ar y môr mawr ar amgylchedd safleoedd gwarchoddedig. Pan fydd angen mesurau cydbwysu ar gyfer difrod i'r rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol neu Ardal Forol Warchoddedig, bydd y cymalau hyn yn galluogi cynnal mesurau cydbwysu drwy ddatblygwyr yn gweithio ar y cyd, os yw hynny'n briodol, drwy "fesurau cydbwysu strategol". Bydd y pwerau'n galluogi cyflwyno Cronfa(eydd) Adfer Morol yn y dyfodol, a fydd yn mecanwaith dewisol arall y gallai ddatblygwyr ddewis ei ddefnyddio i gynnal eu mesurau cydbwysu"³.
13. Nod Llywodraeth y DU ar gyfer cymalau OWEIP o fewn y Bil Ynni, felly, yw
- galluogi defnyddio mesurau cydbwysu strategol i ddileu rhwystrau i roi caniatâd ar gyfer cynlluniau neu brosiectau ynni gwynt ar y môr mawr a fydd yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd Gwarchoddedig;
 - galluogi sefydlu Cronfa neu Gronfeydd Adfer Morol i hwyluso'r mesurau hynny, a
 - galluogi diwygiadau i'r gyfundrefn asesu amgylcheddol o dan yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd a chyfundrefn asesu parthau cadwraeth morol sy'n berthnasol i roi caniatâd a thrwyddedau ar gyfer cynlluniau a phrosiectau ynni gwynt ar y môr mawr i hwyluso'r newidiadau hynny.

Crynodeb o gymalau OWEIP

14. Mae'r cymalau OWEIP yn cynnwys y canlynol:

- Cymal 286 (Ystyr "gweithgarwch gwynt ar y môr mawr perthnasol") – yn diffinio'r gweithgareddau gwynt ar y môr mawr sy'n dod o dan gymalau OWEIP, gan gynnwys (a) cynllunio, adeiladu, gweithredu neu datgomisiynu seilwaith trydan gwynt neu (b) nodi ardal ar gyfer gweithgarwch o fewn (a) ni waeth a yw unrhyw seilwaith trydan gwynt yn cael ei ystyried. Bwriad y diffiniad yw cynnwys gweithgarwch ac asesiadau ar lefel cynllun yn ogystal â seilwaith, gan gynnwys seilwaith dosbarthu.
- Cymal 287 (Digolledu strategol am effeithiau amgylcheddol andwyol) – yn darparu pan fo awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru,

³ [Energy \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk)

o dan rwymedigaethau i ddigolledu amgylcheddol ar gyfer gweithgareddau ynni gwynt ar y môr mawr perthnasol, caiff yr awdurdod cyhoeddus bennu y dylai'r mesurau sydd i'w cymryd neu eu sicrhau gan yr awdurdod gyfrif tuag at gyflawni'r rhwymedigaethau hynny.

- Cymal 288 (Cronfa Adfer Morol) – yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliad, sefydlu un neu fwy o gronfeydd adfer morol, y gellir gwneud taliadau ohonynt tuag at fesurau digolledu amgylcheddol sy'n ofynnol o ganlyniad i weithgareddau gwynt ar y môr mawr perthnasol. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, ddirprwyo swyddogaethau ar gyfer rhedeg cronfeydd adfer morol, gan gynnwys i awdurdodau cyhoeddus Cymru mewn perthynas â dyfroedd Cymru (ar y glannau ac ar y môr). Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ganslo swyddogaethau dirprwyedig o'r fath, ac nid yw dirprwyo swyddogaeth yn atal yr Ysgrifennydd Gwladol rhag arfer swyddogaeth ddirprwyedig. Nodwch nad oes unrhyw bwerau cydredol yma.
- Cymal 289 (Asesu effeithiau amgylcheddol ac ati) – yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon i wneud rheoliadau ynghylch asesu effeithiau amgylcheddol gweithgareddau gwynt ar y môr mawr perthnasol ac mewn perthynas â digolledu amgylcheddol. Ar gyfer Gweinidogion Cymru, cyfyngir hyn i wneud rheoliadau mewn perthynas ag ardal glannau Cymru (h.y. o fewn 0-12 milltir forol ar gyfer seilwaith ynni gwynt ar y môr mawr perthnasol 350MW neu lai, tra bo gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer mewn perthynas ag ardal môr mawr Cymru (h.y. 12 – 200 milltir forol) ac mewn perthynas ag ardal glannau Cymru ar gyfer datblygiadau dros 350MW.
- Cymal 290 (Rheoliadau o dan adran 289: ymgynghori a gweithdrefn) – yn darparu'r gofyn i ymgynghori ynghyd â gofynion gweithdrefnol eraill sy'n ymwneud â gwneud rheoliadau o dan Gymal 289 fel y'i disgrifir uchod. Mae hyn yn cynnwys gofynion ar yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban a DAERA i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar ddatblygu rheoliadau newydd mewn rhai amgylchiadau, a gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff a nodir, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol, wrth wneud rheoliadau o dan gymal 289 sy'n ymwneud ag ardal glannau Cymru ar gyfer datblygiadau 350MW neu lai.
- Cymal 291 (Dehongli Pennod 1) - yn cynnwys diffiniadau ac ymadroddion pellach a ddefnyddir yn y cymalau a restrir uchod.

Yr angen am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Rhan 13, Pennod 1, Cynhyrchu Trydan Gwynt ar y Môr

15. O fewn ardal glannau Cymru, mae diogelu'r amgylchedd, trwyddedu morol a chynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni o dan 350MW o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, gallai Bil Seneddol wneud darpariaeth debyg ar gyfer gwelliannau OWEIP, yn gymaint ag y mae darpariaeth o'r fath yn berthnasol o fewn ardal glannau Cymru yn unig, ac nid oedd yn culhau ei chwmpas yn benodo i "weithgareddau perthnasol ar y môr"

16. Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymalau OWEIP oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac maent yn effeithio ar feysydd datganoledig diogelu'r amgylchedd, cynllunio a thrwyddedu morol, yn gymaint ag y maent yn berthnasol i ardal glannau Cymru ac i weithgareddau perthnasol ar y môr mawr sy'n 350MW neu'n lai.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

17. Barn Llywodraeth y DU yw bod mesurau OWEIP yn sbarduno'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd⁴. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymalau OWEIP am eu bod yn newid cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru neu fod ganddynt y potensial i gael eu harfer i newid cymhwysedd gweithredol presennol Gweinidogion Cymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gymalau OWEIP

18. Mae caniatâd cynllunio a thrwyddedu morol yn nyfroedd Cymru yn gymhleth, fel yr amlinellir ym mharagraffau 6 a 7 uchod. Mae gan Weinidogion Cymru, Ysgrifenyddion Gwladol ac CNC amryw rolau fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, yn dibynnu ar faint a lleoliad y datblygiadau.
19. Er bod Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y bwriad y tu ôl i gymalau OWEIP yn ddoeth, fy mhrif bryder yw nad ydynt yn adlewyrchu'n ddigonol y setliad datganoli, yn benodol rôl Gweinidogion Cymru fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig.
20. Isod mae crynodeb o'r darpariaethau y mae gan Lywodraeth Cymru bryderon penodol yn eu cylch. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol ddwywaith ynglŷn â'r newidiadau i'r cymalau yr hoffwn eu gweld, fel y'u nodir yn y tabl. Ar hyn o bryd nid yw'r rhain wedi cael eu datrys.

⁴Fel y cadarnhawyd gan y llythyr oddi wrth yr Arglwydd Callanan, y Gweinidog dros Fusnes, Ynni a Chyfrifoldeb Corfforaethol, am gyflwyno cymalau OWEIP ar 9 Ionawr 2023.

| Cymalau – Disgrifiad byr | Pam mae angen LCM | Argymell gwrthod cydsyniad a pham |
|--|--|--|
| RHAN 13: CYNHYRCHU TRYDAN GWYNT AR Y MÔR, OLEW A NWY | | |
| <p>Pennod 1 – CYNHYCHU TRYDAN GWYNT AR Y MÔR MAWR</p> <p>Mae cymal 288 (<i>cronfa adfer morol</i>) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i sefydlu cronfa adfer morol, hynny mewn perthynas â dyfroedd y DU. Ar hyn o bryd nid oes gofyn ar i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau. Mae rheoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i:</p> <p>penderfynu a yw taliad i'r gronfa adfer morol yn bodloni'r amod digolledu ar berson, h.y. a oedd amod mewn trwydded forol i ddatblygwr ddigolledu am rywbeth penodol.</p> <p>dirprwyo swyddogaethau rheoli/rhedeg cronfa adfer morol y môr, h.y. caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddirprwyo gwaith</p> | <p>Mae angen LCM ar gyfer cymalau 286 - 291</p> <p>Mae angen LCM ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac am ei fod yn effeithio ar feysydd datganoledig diogelu'r amgylchedd, cynllunio a thrwyddedu morol, i'r graddau ei fod yn ymwneud ag ardal glannau Cymru a phrosiectau gwynt ar y môr mawr perthnasol 350MW neu lai.</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymell peidio â rhoi cydsyniad ar gyfer cymal 288 am ei bod yn argymell gwelliannau neu esboniadau.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am y gwelliannau canlynol:</p> <p>Cymal 288 – rhoi pŵer i Weiniogion Cymru wneud rheoliad i sefydlu a rhedeg Cronfa Adfer Morol lle'u bod ar hyn o bryd yn awdurdod priodol sydd â dyletswydd i sicrhau mesurau digolledu ar gyfer safleoedd morol gwarchoddedig Ewropeaidd.</p> <p>Ni ddylid cael gwneud rheoliadau i sefydlu cronfa adfer morol a fyddai'n effeithio ar ranbarth glannau Cymru ar gyfer gweithgareddau 350MW neu lai heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.</p> |

| | | |
|--|---|---|
| <p>rheoli/rhedeg y gronfa i Weinidogion Cymru ar gyfer gweithgareddau gwynt ar y môr mawr perthnasol yn nyfroedd Cymru os mai nhw yw'r awdurdod priodol</p> | | <p>Eglurhad ynghylch sut y mae penderfyniad i dalu i'r gronfa yn bodloni amod digolledu a phenderfyniad pwy yw hyn - cysylltiad amlwg â rôl a chyfrifoldeb Gweinidogion Cymru.</p> <p>Eglurhad bod yn rhaid wrth gydsyniad Gweinidogion Cymru i redeg cronfa o'r fath yng Nghymru, ac i ddirprwyo ei rhedeg i awdurdod cyhoeddus yng Nghymru.</p> |
| <p>Mae cymal 289 (<i>asesu effeithiau amgylcheddol ac ati</i>) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r Rheoliadau Cynefinoedd a phroses asesu parthau cadwraeth morol ("MCZ") ar gyfer gweithgareddau gwynt ar y môr mawr perthnasol 350MW neu lai yn ardal glannau Cymru. Fel arall, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer hwn yn ardal môr mawr Cymru ar gyfer pob</p> | <p>Mae angen LCM ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac am ei fod yn effeithio ar feysydd datganoledig diogelu'r amgylchedd, cynllunio a thrwyddedu morol, i'r graddau ei fod yn ymwneud ag ardal glannau Cymru a phrosiectau gwynt ar y môr mawr perthnasol 350MW neu lai.</p> | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell peidio â rhoi cydsyniad ar gyfer cymal 289 am ei bod yn argymhell gwelliannau neu esboniadau.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am y gwelliannau canlynol:</p> <p>Dileu'r cyfeiriad at 'qualifying Secretary of State functions' yn isadran 2b.</p> |

| | | |
|--|--|---|
| <p>prosiect gwynt ar y môr mawr perthnasol (h.y. gan gynnwys rhai 350MW neu lai) a gweithgareddau gwynt ar y môr mawr perthnasol dros 350MW yn ardal glannau Cymru.</p> <p>Caiff y rheoliadau wneud: darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag asesu effeithiau amgylcheddol gweithgareddau gwynt ar y môr mawr perthnasol ar safleoedd gwarchoddedig; darpariaeth i awdurdod cyhoeddus gymryd mesurau digolledu neu sicrhau eu cymryd, am unrhyw effeithiau amgylcheddol andwyol gweithgareddau gwynt ar y môr mawr perthnasol ar safleoedd gwarchoddedig ("mesurau digolledu").</p> | | <p>Diwygiad ynghylch rôl Gweinidogion Cymru o ran rhoi trwydded forol ar gyfer pob datblygiad yn nyfroedd y glannau, dros a than 350MW, lle na chaiff Ysgrifennydd Gwladol farnu ar y drwydded.</p> |
|--|--|---|

Goblygiadau ariannol

21. Mae' bosibl y bydd costau sylweddol yn deillio o gymalau OWEIP, yn enwedig os bydd swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru i weithredu cronfa ader morol heb yr amgen i roi cydsyniad a heb reolaeth dros ei chylch gwaith. Hyd yma, nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi eglurder ynghylch maint posibl y costau hyn, am y bwriedir darparu manylion y ffordd y byddai cronfa adfer morol yn cael eu darparu gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliad ar ôl i gymalau OWEIP ddod i rym. Pe bai'r Bil yn cyflwyno unrhyw bwerau newydd i'w gweinyddu gan Weinidogion Cymru, byddai angen sicrwydd gan Lywodraeth y DU y byddai adnoddau cyfatebol yn cael eu darparu.

Casgliad

22. Yn fy marn i, ar hyn o brydnid yw'r gwelliannau sy'n ymwneud â'r OWEIP yn adlewyrchu'r setliad datganoli'n foddhaol, yn arbennig rôl Gweinidogion Cymru am benderfyniadau mewn meysydd â chymhwysedd datganoledig. O ystyried y pryderon hyn, rwy'n argymhell bod y Senedd yn gwrthod rhoi cydsyniad ar gyfer cymalau OWEIP yn y Bil ar yr adeg hon.

Julie James AS
Gweinidog Newid Hinsawdd
24 Gorffennaf 2023

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
(MEMORANDWM RHIF 3)**

BIL YNNI

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod LCM, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
2. Cafodd y Bil Ynni ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 6 Gorffennaf 2022. Cafodd taith y Bil ei hatal am gyfnod cyn ailddechrau ar ddiwedd 2022. Gosodais LCM ar 29 Mehefin 2023 ar y Bil fel y cafodd ei gyflwyno, sy'n cynnwys crynodeb o'r Bil.
3. Gosodais LCM atodol (sLCM) ar 25 Gorffennaf 2023 yn ymdrin â gwelliannau i'r Bil a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Ionawr 2023 ac yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin 2023. Cymalau'r Pecyn Gwelliant Amgylcheddol Gwynt Alltraeth ("cymalau OWEIP" ac "OWEIP") yw'r enw ar y diwygiadau hyn. Maen nhw'n rhan o Bennod 1 o Ran 13 o'r Bil (sLCM OWEIP).
4. Mae'r LCM hwn yn ymdrin â gwelliannau eraill a wnaed i'r Bil ers ei gyflwyno ac mae'n ymdrin â'r Bil fel yr oedd wrth adael Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin fel y'i cyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2023. Mae Atodiad 1 yn dangos rhifau'r cymalau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, a rhifau'r cymalau fel yr oeddynt y Bil ar 11 Gorffennaf 2023.
5. Rwy'n gosod y sLCM hwn yn ystod y toriad gan fod Tŷ'r Cyffredin wedi trefnu y caiff Cyfnod Adroddiad y Bil ei gynnal ar 5 Medi 2023.
6. I weld y Bil gyda'r gwelliannau a wnaed yn dilyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, cliciwch yma <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0340/220340.pdf>.

Amcan y Polisi

7. Mae Llywodraeth y DU yn amlinellu diben a phrif swyddogaethau'r Bil yn y Nodiadau Esboniadol cysylltiedig¹ (dyddiad y fersiwn diweddaraf yw 25 Ebrill 2023). Yr amcanion polisi mae Llywodraeth y DU wedi'u datgan yw helpu i gynyddu cadernid a dibynadwyedd systemau ynni ledled y DU, cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymadau'r DU mewn perthynas â newid

¹ [Energy Bill \[HL\] publications - Parliamentary Bills - UK Parliament](#)

hinsawdd a diwygio system ynni'r DU, gan yr un pryd leihau costau i ddefnyddwyr cymaint ag y bo modd a'u hamddiffyn rhag prisiau annheg.

Y sefyllfa ers i mi osod yr LCM ac sLCM OWEIP gerbron Senedd Cymru

8. Gosodais LCM ar 29 Mehefin 2023, ar y Bil a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU (Tŷ'r Arglwyddi) ar 6 Gorffennaf 2022. Dywedodd y Memorandwm hwnnw mai barn Llywodraeth Cymru yw ei bod hi'n briodol delio â'r darpariaethau ym Mesur y DU fel ffordd effeithlon o gyflwyno deddfwriaeth sy'n ymestyn i Gymru, yn enwedig lle bo'n polisïau'n cyd-fynd. Mae'n fwy priodol cyflwyno rhai cynlluniau neu gyfundrefnau ar lefel y DU gyfan, o ystyried natur diriogaethol drawsffiniol y gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio.
9. Roedd nifer arwyddocaol o ofidiau ynghylch y Bil fel y'i cyflwynwyd. Fy mhryder pennaf oedd methiant y Bil i adlewyrchu'r setliad datganoli yn ddigonol, yn enwedig rôl Gweinidogion Cymru fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Mae'n hanfodol sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cael dylanwadu ar gynlluniau neu bolisïau ar lefel y DU sy'n effeithio ar brosiectau trawsffiniol arwyddocaol. O ganlyniad, argymhellais fod Senedd Cymru yn gwrthod rhoi ei chydysniad i'r Bil.
10. Gosodais sLCM OWEIP ar 25 Gorffennaf 2023. Yn fy marn i, nid yw cymalau OWEIP fel y'u cyflwynwyd yn adlewyrchu'r setliad datganoli yn ddigonol, yn enwedig rôl Gweinidogion Cymru fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig. O ystyried y pryderon hynny, argymhellais fod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydysniad i gymalau OWEIP y Bil.
11. Bu trafodaethau di-dor â Llywodraeth y DU am y Bil ac ailadroddais fy marn yno bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar reoliadau a gyflwynir sy'n effeithio ar faterion datganoledig. Mae Llywodraeth y DU wedi dal at eu safbwynt bod ymgynghori'n ddigon.
12. Rwy'n dal o'r farn nad oes rheswm pam na allwn weithio gyda'n gilydd i ddarparu rheoliadau trawsffiniol mewn ffordd sy'n osgoi rheoliadau gwahanol trwy broses sy'n gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Nid yw proses ymgynghori yn amddiffyniad boddhaol o safbwynt cyfansoddiadol.

Crynodeb o'r newidiadau i'r Bil ers ei gyflwyno

Rhan 1: Trwyddedu Cludo a Storio Carbon Deuocsid:

Pennod 1 Trwyddedu Gweithgareddau

13. Roedd yr LCM yn nodi barn Gweinidogion Cymru bod cymalau ym Mhennod 1 o Ran 1 o'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru am eu bod yn gwneud darpariaeth ynghylch storio carbon deuocsid

sy'n faes datganoledig. Mae'r darpariaethau'n ymwneud â gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel cludo a storio carbon deuocsid a ddaliwyd ac nad ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cafodd y cymalau a ddisgrifir isod eu diwygio yn fersiwn 11 Gorffennaf 2023 y Bil, ac maent yn dal i wneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Felly, mae angen sLCM ar gyfer y diwygiadau i'r cymalau hyn, sydd wedi'u crynhoi isod.

- 14 Mae cymal 9 (Gweithdrefn ar gyfer ceisio am drwydded) yn cynnwys is-gymal newydd (10) sy'n cymhwyso'r diffiniad o "appropriate devolved authorities" yn adran 10(6) i is-adran (3) lle mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan adran (2) neu (6). Croesewir yr esboniad yn yr adran newydd hon ond rwyf o hyd o'r farn y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i Weinidogion Cymru am eu cydsyniad cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 9. O ganlyniad, rwy'n argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod ei chydsyniad i gymal 9.
- 15 Mae cymal 19 (Rhoi cydsyniad i drosglwyddo) yn cynnwys is-gymalau (4) a (5) newydd sydd wedi'u hail-ddrafftio i esbonio'n glir yr hyn y mae'n rhaid i'r rheoleiddiwr economaidd ei wneud pan na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi cyfarwyddyd i roi cydsyniad i drosglwyddo trwydded o dan Gymal 18 (trosglwyddo trwyddedau). Croesewir yr esboniad yn yr adran newydd hon ac rwy'n argymhell bod Senedd Cymru yn rhoi ei chydsyniad i gymal 19.
- 16 Mae Cymal 29 (pŵer i fynnu gwybodaeth at ddibenion monitro) yn cynnwys is-gymalau (5) a (6) newydd sy'n ymdrin â datgelu gwybodaeth i'r rheoleiddiwr economaidd gan sicrhau nad yw'r datgeliad yn mynd yn groes i'r deddfwriaeth diogelu data. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwelliant hwn gan ei fod yn sicrhau nad yw unrhyw wybodaeth a ddatgelir yn mynd yn groes i'r deddfwriaeth diogelu data ac yn argymhell bod Senedd Cymru yn rhoi ei chydsyniad i gymal 29.
- 17 Mae Cymal 32 (gorfodi rhwymedigaethau deiliaid trwyddedau) yn cynnwys Atodlen 3 newydd i'r Bil sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi amodau trwyddedau a gofynion eraill a osodir ar ddeiliaid trwydded gan neu o dan Ran 1 o'r Bil. Mae Atodlen 3 yn disodli pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau a nodir yng nghymal 32 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod yna drefn orfodi gyson ac yn croesawu'r rheoliadau hyn yn y Bil ac yn argymhell bod Senedd Cymru yn rhoi ei chydsyniad i gymal 32.

Rhan 1: Trwyddedu Cludo a Storio Carbon Deuocsid:
Pennod 4 Trefn Weinyddol Arbennig

- 18 Diwygiwyd cymal 46 (Addasu amodau trwyddedau) i adlewyrchu'n well mai bwriad ymgynghori fyddai fel awdurdod trwyddedu storio carbon mewn perthynas ag ansolfedd. Yn yr LCM, argymhellodd Llywodraeth Cymru atal cydsyniad yn amodol ar ei ystyried ymhellach.

- 19 Yn dilyn trafodaeth bellach gyda Llywodraeth y DU a gwneud gwelliant wedi hynny i'r cymal hwn, ein barn ni yw bod y cymal hwn yn ymwneud ag 'ansolfedd' sy'n fater a gedwir yn ôl ac nad yw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Felly nid oes angen cydsyniad Senedd Cymru ar gyfer cymal 46.

Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen **Pennod 1 Contractau Cymorth Refeniw**

- 20 Yn is-gymal (7) o gymal 67 (dynodi parti i ddal carbon), mae'r diffiniad o "carbon capture entity" wedi'i newid i berson sy'n cynnal gweithgareddau yn y Deyrnas Unedig i ddal carbon deuocsid sydd yn yr atmosffer ac sydd wedi'i doddi yn nŵr y môr, hynny'n ogystal â charbon deuocsid sydd wedi'i gynhyrchu gan weithgareddau masnachol neu ddiwydiannol fel y'i drafftwyd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Mae'r cymal wedi'i newid i ddiffinio gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn y "Deyrnas Unedig" i gynnwys dyfroedd tiriogaethol wrth y Deyrnas Unedig (is-gymal (8)(a)), a dyfroedd mewn Parth Mewnforio a Storio Nwy (is-gymal (8)(b)).
- 21 Mae'r gwelliannau hyn yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel dal carbon deuocsid. Nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn Atodlen 7A GOWA. Mae angen sLCM felly i'r graddau bod y cymal hwn o'i wella yn ymwneud â'r môr tiriogaethol wrth Gymru. Rwy'n croesawu hyn ac yn argymhell bod Senedd Cymru'n rhoi ei chydysyniad.
- 22 Yng nghymal 73 (pŵer i benodi cyrff dyrannu), mae is-gymal (2) newydd wedi'i ychwanegu er mwyn gallu arfer y pŵer i benodi o dan is-gymal (1) fel bod mwy nag un penodiad yn cael ei wneud o dan y paragraff hwnnw yr un pryd. Mae'r gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth sy'n ymdrin â'r gwastraff a diogelu'r amgylchedd sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel dal carbon deuocsid. Nid yw'n ymwneud ag unrhyw fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn Atodlen 7A GOWA. Mae angen sLCM felly, i'r graddau ei fod yn ymwneud â dal carbon deuocsid ond nid â chynhyrchu hydrogen. Rydym yn argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydysyniad. Dylid gofyn i Weinidogion Cymru am eu cydsyniad os bydd y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen **Pennod 2 Datgomisiynu Gosodiadau Storio Carbon**

- 23 Mae gwelliant wedi'i wneud i is-gymal (1) o gymal 92 (ariannu costau datgomisiynu ac ati) i nodi'n benodol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth i fynnu bod pobl berthnasol yn darparu diogelwch mewn perthynas â gadael neu ddatgomisiynu safleoedd, piblinellau neu osodiadau carbon deuocsid yn y dyfodol. Mae hyn yn newid y Bil fel y'i drafftwyd oedd yn cyfeirio at "carbon storage solutions". Mae is-gymal (2) yn diffinio gweithgarwch sy'n gysylltiedig â charbon deuocsid ac mae is-gymal (3) yn diffinio lleoliad safleoedd i gynnwys y

rhai sydd yn, o dan neu ar fôr tiriogaethol y DU neu ddyfroedd y Parth Mewnforio a Storio Nwy.

- 24 Mae'r gwelliannau i'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol gan eu bod yn ymdrin â gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel dal carbon deuocsid. Nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn Atodlen 7A GOWA. Mae angen sLCM felly, i'r graddau bod y cymal hwn o'i newid yn gymwys i'r môr tiriogaethol wrth Gymru.
- 25 Mae'r gwelliannau hyn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch cwmpas y rheoliadau ac rydym yn argymhell bod Senedd Cymru'n rhoi ei chydysyniad i gymal 92.

Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen

Pennod 5 Gwybodaeth am storio carbon a samplau

- 26 Mae Pennod 5 newydd (gwybodaeth am storio carbon a samplau), sy'n cynnwys cymalau 106 i 126, wedi'i mewnosod yn Rhan 2. Mae'r Bennod hon yn fras yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â gwybodaeth am storio carbon ac am samplau sylweddau a gafwyd gan neu ar ran trwyddedai wrth gynnal gweithgarwch o dan drwydded storio carbon y trwyddedai. Mae'r drwydded storio carbon yn golygu trwydded a roddir gan yr Awdurdod Olew a Nwy (OGA) o dan adran 18(1) o Ddeddf Ynni 2008 (cymal 106(2)) neu sy'n cael effeithiau fel pe bai wedi cael ei roi ganddo.
- 27 Mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel dal carbon deuocsid. Nid yw'n ymwneud ag unrhyw fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn Atodlen 7A GOWA. Mae angen sLCM felly ar gyfer holl gymalau'r Bennod hon. Ceir crynodeb ohonynt isod:
 - 27.1 Mae cymal 106 (diffiniadau allweddol) a chymal 126 (Dehongli Pennod 5) yn cynnwys diffiniadau a ddefnyddir trwy'r Bennod hon.
 - 27.2 Mae Cymal 107 (Cadw gwybodaeth a samplau) yn rheoleiddio'r gofyniad y gallai fod angen i drwyddedeion penodedig ddarparu gwybodaeth am storio carbon a samplau.
 - 27.3 Mae cymal 108 (Paratoi a chytuno ar gynlluniau gwybodaeth a samplau) yn ei gwneud yn ofynnol i berson cyfrifol baratoi cynllun gwybodaeth a samplau.
 - 27.4 Mae cymal 109 (Cynlluniau gwybodaeth a samplau: ategol) yn ei gwneud yn ofynnol i'r OGA gytuno ar unrhyw newidiadau i gynlluniau gwybodaeth a samplau.

- 27.5 Mae cymal 110 (Gwybodaeth a samplau: cydgysylltwyr) yn ei gwneud yn ofynnol penodi cydlynedd gwybodaeth a samplau o fewn trwyddedai neu weithredwr archwilio.
- 27.6 Mae Cymal 111 (Pwerau OGA i fynnu gwybodaeth a samplau) yn rhoi pŵer i'r Awdurdod Olew a Nwy ofyn am wybodaeth a samplau.
- 27.7 Mae cymal 112 (Gwahardd yr OGA rhag datgelu gwybodaeth neu samplau) yn gwahardd yr OGA rhag datgelu gwybodaeth neu samplau.
- 27.8 Mae Cymal 113 (Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i fynnu gwybodaeth a samplau) ac Atodlen 7 newydd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i fynnu gwybodaeth a samplau a ddelir gan yr OGA at ddiben swyddogaethau a roddir gan neu o dan unrhyw Ddeddf, monitro perfformiad yr OGA neu unrhyw achos Seneddol.
- 27.9 Mae cymal 114 (Pŵer OGA i roi hysbysiadau cosb) yn rhoi pŵer i'r OGA roi hysbysiadau cosb, sef yr hysbysiadau y cyfeirir atynt yng nghymalau 115 i 118.
- 27.10 Mae cymal 115 (hysbysiadau gorfodi) yn diffinio hysbysiad gorfodi.
- 27.11 Mae cymal 116 (hysbysiadau cosb ariannol) yn diffinio hysbysiad cosb ariannol.
- 27.12 Mae cymal 117 (Hysbysiadau dirymu) yn diffinio hysbysiad dirymu.
- 27.13 Mae cymal 118 (Hysbysiadau gwared gweithredydd) yn nodi'r broses ar gyfer trwydded gwaredu gweithredydd.
- 27.14 Mae Cymal 119 (Dyletswydd OGA i roi hysbysiadau rhybudd cosb) yn rhoi dyletswydd ar yr OGA i roi hysbysiadau rhybudd cosb.
- 27.15 Mae Cymal 120 (Cyhoeddi manylion cosbau) yn rhoi pwerau i OGA gyhoeddi manylion unrhyw hysbysiad cosb a roddir gydag eithriadau a nodir yn y cymal.
- 27.16 Mae cymal 121 (Hysbysiadau cosb dilynol) yn rhoi pwerau i'r OGA o ran hysbysiadau cosb dilynol.
- 27.17 Mae cymal 122 (Tynnu hysbysiadau cosb yn ôl) yn rhoi pŵer i'r OGA dynnu hysbysiad cosb yn ôl.
- 27.18 Mae cymal 123 (Cosbau: pwerau o ran gwybodaeth) yn rhoi pŵer i'r OGA ei gwneud yn ofynnol darparu dogfennau neu wybodaeth arall at ddiben ymchwiliad sy'n ymwneud â gofyniad cosbadwy neu i alluogi'r OGA benderfynu a ddylid gosod cosb.

- 27.19 Mae cymal 124 (Apeliadau) yn cyflwyno Atodlen 8 newydd sy'n diffinio'r apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan yr OGA mewn perthynas â gwybodaeth a samplau penodol ym Mhennod 5.
- 27.20 Mae cymal 125 (Gweithdrefn ar gyfer gwneud penderfyniadau gorfodi) yn amlinellu'r weithdrefn ar gyfer gwneud penderfyniadau gorfodi.
- 28 Mae gorgyffwrdd rhwng cwmpas daearyddol yr OGA a'r diriogaeth y mae gan Senedd Cymru gymhwysedd drosti o dan adran 108A o'r GOWA i'r graddau bod y darpariaethau'n gymwys i weithgareddau storio ym môr tiriogaethol Cymru. Cyfyngir pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran gwneud rheoliadau i roi trwyddedau storio carbon trwy'r OGA. O'r herwydd, ni wnaiff y rheoliadau hyn ymestyn i weithgareddau Deddf Ynni 2008 yng Nghymru (tir mawr a dyfroedd mewnol Cymru). Yno, Gweinidogion Cymru yw'r unig awdurdod trwyddedu.
- 29 Mae'n bwysig bod gweithgaredd trwyddedig yn gofyn am yr un wybodaeth a samplau â'r system sydd mewn grym ledled Prydain Fawr. O'r herwydd, rwyf wedi gofyn am welliant i'r Bennod hon er mwyn cynnwys y trwyddedau a roddir gan Weinidogion Cymru a chynnwys proses o ofyn am gydsyniad os bydd y rheoliadau'n effeithio ar feysydd cymhwysedd deddfwriaethol. Rydym yn argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymalau 107-125.

Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen

Pennod 6 Cyffredinol

- 30 Fel a nodwyd yn yr LCM, mae cymal 127 (cael at seilwaith) (cymal 96 gynt) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch caffael hawliau i ddefnyddio safle storio carbon deuocsid yn y ddaear neu biblinell a ddefnyddir neu y bwriedir ei defnyddio i gludo carbon deuocsid. Mae'r cymal hwn wedi'i newid i gynnwys rhestr o'r math o ddarpariaeth y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud trwy reoliad o dan y cymal hwn, sy'n cynnwys rhoi disgrisiynau i unrhyw berson a chreu troseddau. Mae'r cymal hwn (fel y'i newidiwyd) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel dal carbon deuocsid. Nid yw'n ymwneud ag unrhyw fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn Atodlen 7A GOWA. Mae angen sLCM felly.
- 31 Cyn gwneud rheoliadau o dan y Rhan hon, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Dylid newid y gofyn i ymgynghori i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru felly rwy'n argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 127.

Rhan 11 Cynlluniau Cyfleoedd i Arbed Ynni

- 32 Mae Rhan newydd wedi'i chyflwyno i'r Bil mewn perthynas â'r Cynllun Cyfleoedd i Arbed Ynni (ESOS). Bwriad y mesurau hyn yw gwella ansawdd archwiliadau ESOS a rhoi pwerau i ehangu'r cynllun i gynnwys elfennau sero net mewn archwiliadau. Bydd y newidiadau hyn yn weithredol ledled y DU. Mae'r cymalau a restrir isod yn darparu o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i'r graddau bod darpariaeth yn ymwneud ag annog defnyddio ynni'n effeithiol (heblaw trwy waharddiad neu reoleiddiad).
- 32.1 Mae cymal 250 (Cynlluniau cyfleoedd i arbed ynni) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol reoleiddio i sefydlu un neu fwy ESOS.
- 32.2 Mae cymal 251 (Cymhwysu cynlluniau cyfleoedd i arbed ynni) yn ymwneud â'r prosesau ar gyfer gwneud cais am ESOS.
- 32.3 Mae cymal 252 (Y gofyn i asesu'r defnydd o ynni) yn nodi'r gofyn i asesu'r defnydd o ynni.
- 32.4 Mae cymal 253 (Aseswyr) yn darparu bod rheoliadau ESOS yn rhoi swyddogaethau i asesydd mewn perthynas ag asesu a monitro cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodir gan y rheoliadau ac adrodd arnynt.
- 32.5 Mae cymal 254 (Cynlluniau gweithredu ESOS) yn darparu bod rheoliadau ESOS yn gwneud darpariaeth i gyfranogwyr gynhyrchu cynlluniau gweithredu ESOS.
- 32.6 Mae cymal 255 (Gweithredu i arbed ynni neu i leihau allyriadau) yn nodi'r gweithrediadau y caiff rheoliadau ESOS ddarparu ar eu cyfer.
- 32.7 Mae cymal 256 (Gweinyddu'r cynllun) yn darparu bod rheoliadau ESOS yn nodi gweinyddiaeth y cynllun.
- 32.8 Mae cymal 259 (Rheoliadau ESOS: gweithdrefn ac ati) yn nodi'r weithdrefn i reoliadau ESOS ddod i rym, gan gynnwys y gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru i'r graddau bo'r rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.
- 32.9 Mae cymal 260 (Cyfarwyddyd i weinyddwyr y cynllun) yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd i weinyddwr cynlluniau.
- 32.10 Mae cymal 261 (Cymorth ariannol i weinyddwyr a chyfranogwyr y cynllun) yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol roi neu drefnu rhoi cymorth ariannol i weinyddwyr a chyfranogwyr y cynllun.
- 32.11 Mae Cymal 262 yn dehongli Rhan 11.
- 33 Mae Llywodraeth Cymru o blaid ESOS ar gyfer y DU gyfan. Fodd bynnag, pan fydd rheoliadau ESOS yn cynnwys darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig Senedd Cymru, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol

ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau. Rwy'n argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 259. Yn fy marn i, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad

- 34 Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad Senedd Cymru. Yn benodol, mae Llywodraeth y DU wedi dod i'r casgliad:
- 34.1 Ar gyfer Rhan 1 - Trwyddedau Cludo a Storio Carbon Deuocsid – bod darpariaethau ar draws y Rhan yn ymdrin â phroses yr LCM. Ond, mae rhai darpariaethau'n ymwneud â materion sydd wedi'u cadw'n ôl, yn enwedig y rhai sy'n delio â swyddogaethau o dan gyfraith cystadleuaeth a phrosesau ansolfedd.
- 34.2 Ar gyfer Rhan 2 ar Ddal, Storio ac ati Carbon Deuocsid a Chynhyrchu Hydrogen, mae darpariaethau ar draws y Rhan yn ymdrin â phroses yr LCM i'r graddau bod dal carbon a chludo a storio CO₂ yn fater sydd fel arfer o fewn cymhwysedd datganoledig. Ond mae hi o'r farn bod darpariaethau mewn perthynas â hydrogen yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl, diolch i gymal D2 Olew a Nwy yn GOWA ac nad ydynt felly o fewn cymhwysedd datganoledig. O ran y cymalau sy'n ymwneud â'r ardoll hydrogen a'i gweinyddiad, mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y ddarpariaeth honno'n fater sydd wedi'i gadw'n ôl am ei fod yn ymwneud â threth at ddiben mater cadw A1 ac nad yw'n berthnasol i broses yr LCM.
- 34.3 Ar gyfer Rhan 11 ar ESOS, mae Llywodraeth y DU o'r farn bod proses yr LCM wedi'i dilyn ar gyfer y Rhan hon ond nid yw'n darparu unrhyw fanylion penodol ynghylch cymalau unigol.

Barn Llywodraeth Cymru am y newidiadau i'r Bil Ynni hyd at 11 Gorff 2023.

- 35 Gosodais LCM ar 29 Mehefin 2023 am y Bil fel y'i cyflwynwyd. Nid yw'r gwelliannau a wnaed i'r Bil ers ei gyflwyno yn newid y safbwynt a fynegais yn y Memorandwm hwnnw.
- 36 Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu nifer o'r gwelliannau i'r Bil gan eu bod yn rhoi esboniadau defnyddiol a manylion ychwanegol ar sut y bydd y mesurau cyntaf a gyflwynwyd yn y Bil yn gweithredu. Barn Llywodraeth Cymru o hyd yw bod y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n hanfodol i helpu'r DU i newid i sero net.
- 37 Fel gyda'r Bil fel y'i cyflwynwyd, nid yw'r gwelliannau a wnaed i'r Bil, a hynny mewn nifer o feysydd, yn parchu cymhwysedd Senedd Cymru'n ddigonol. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell na ddylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad i gymalau 9, 73, 106 i 126, 127 a 259 ac

rydym am i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y caiff rheoliadau newydd mewn perthynas â Phenodau 5 a 6 o Ran 2 a Rhan 11 ddod i rym. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi fy safbwynt.

Tabl 1: Crynodeb o farn Llywodraeth Cymru ynghylch cydsyniad

| Cymalau a newidiwyd – Bil Ynni 11 Gorffennaf 2023 | |
|---|--|
| Yn argymhell bod Senedd Cymru'n rhoi ei chydsyniad | Yn argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad. |
| Rhan 1: 19, 29, 32. | Rhan 1: 9 |
| Rhan 2: 67, 92 | Rhan 2: 73, 106-126, 127 |
| Rhan 11: 250-256, 260-262 | Rhan 11: 259 |
| Atodlen 3 | Atodlenni 7 ac 8 |

Goblygiadau ariannol

- 38 Efallai y bydd goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru y gallai fod angen eu hystyried. Pe bai'r Bil yn cyflwyno unrhyw bwerau newydd a fyddai'n cael eu gweinyddu gan Weinidogion Cymru, byddai angen cael sicrwydd gan Lywodraeth y DU y darperid adnoddau cyfatebol.

Casgliad

- 39 Er y gallai cyflawni'r darpariaethau hyn mewn Bil y DU fod yn ffordd briodol o ddeddfu, oni bai a hyd nes y bydd y materion sy'n peri pryder wedi'u datrys, nid wyf yn argymhell bod Senedd Cymru'n rhoi ei chydsyniad i'r Bil hwn.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
01 Medi 2023

Atodiad 1:

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|--|--|---|
| Rhan 1 – Trwyddedu Cludo a Storio Carbon | | |
| 1 | Prif amcanion a dyletswyddau cyffredinol yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Rheoleiddiwr Economaidd | 1 |
| 2 | Gwahardd gweithgareddau heb eu trwyddedu | 2 |
| 3 | Ymgynghori ar gynigion ar gyfer dod â gweithgareddau eraill o dan drwydded | 3 |
| 4 | Cwmpas tiriogaethol y gwaharddiad | 4 |
| 5 | Eithrio rhag y gwaharddiad | 5 |
| 6 | Dirymu esemptiad neu ei dynnu'n ôl | 6 |
| 7 | Y pŵer i roi trwyddedau | 7 |
| 8 | Y pŵer i greu mathau o drwydded | 8 |
| 9 | Y drefn ar gyfer gwneud cais am drwydded. | 9 |
| 10 | Tendro cystadleuol am drwyddedau | 10 |
| 11 | Amodau trwydded: cyffredinol | 11 |
| 12 | Amodau safonol trwyddedau | 12 |
| 13 | Newid amodau trwydded | 13 |
| 14 | Newid amodau o dan adran 13: ategol | 14 |
| 15 | Newid trwy orchymyn o dan ddeddf arall | 15 |
| 16 | Pŵer interim yr Ysgrifennydd Gwladol i roi trwyddedau | 16 |
| 17 | Dod â thrwydded i ben | 17 |
| 18 | Trosglwyddo trwyddedau | 18 |
| 19 | Cydsyniad i drosglwyddo | 19 |
| 20 | Apelio at y CMA | 20 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| 21 | Trefn apelio at y CMA | 21 |
| 22 | Penderfyniad gan y CMA ar yr apêl | 22 |
| 23 | Pwerau CMA ar ganiatáu apêl | 23 |
| 24 | Terfynau amser i CMA benderfynu ar apêl | 24 |
| 25 | Penderfyniad ar apêl gan CMA: ategol | 25 |
| 26 | Darparu gwybodaeth i/gan y rheoleiddiwr economaidd | 26 |
| 27 | Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i fynnu gwybodaeth | 27 |
| 28 | Monitro, casglu gwybodaeth ac ati | 28 |
| 29 | Pŵer i fynnu gwybodaeth at ddiben monitro | 29 |
| 30 | Dyletswydd i gynnal asesiad o'r effaith | 30 |
| 31 | Rhesymau am benderfyniadau | 31 |
| 32 | Gorfodi'r ymrwymadau ar ddeiliaid trwydded | 32 |
| 33 | Gwneud datganiadau ffug ac ati | 33 |
| 34 | Atebolrwydd swyddogion endidau | 34 |
| 35 | Trafodion troseddol | 35 |
| 36 | Swyddogaethau o dan Ddeddf Fenter 2002 | 36 |
| 37 | Swyddogaethau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 | 37 |
| 38 | Adrannau 36 a 37: ategol | 38 |
| 39 | Blaen-raglenni gwaith | 39 |
| 40 | Gwybodaeth am ddatganiad polisi a strategaeth CCUS | 40 |
| 41 | Adroddiad blynyddol ar swyddogaethau trwyddedu cludo a storio | 41 |
| 42 | Gorchmynion gweinyddu cludo a storio | 42 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| 43 | Amcan gweinyddu cludo a storio | 43 |
| 44 | Cymhwyso rhai o ddarpariaethau Deddf Ynni 2004 | 44 |
| 45 | Gweinyddu, trosglwyddo cynlluniau ac ati | 45 |
| 46 | Newid amodau trwyddedau | 46 |
| 47 | Newidiadau o dan Ddeddf Fenter 2002 | 47 |
| 48 | Pŵer i wneud rhagor o newidiadau i'r ddeddfwriaeth ansolfedd | 48 |
| 49 | Dehongli Pennod 4 | 49 |
| 50 | Cynlluniau trosglwyddo | 50 |
| 51 | Ymgynghori ar gynigion trosglwyddo | 51 |
| 52 | Cynnal cynlluniau trosglwyddo | 52 |
| 53 | Cydweithrediad rhwng yr awdurdod trwyddedu storio a'r rheoleiddiwr economaidd | 53 |
| 54 | Gwelliannau ynghylch Rhan 1 | 54 |
| 55 | Dehongli Rhan 1 | 55 |
| Rhan 2 – Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen | | |
| 56 | Pennod 1: dehongli | 56 |
| 57 | Contractau cymorth refeniw | 57 |
| 58 | Dyletswyddau dyrannu parti cymorth refeniw | 58 |
| 59 | Dyrannu parti cludo a storio | 59 |
| 60 | Cyfarwyddyd i gynnig contract | 60 |
| | Dyrannu parti cludo hydrogen | 61 |
| | Cyfarwyddyd i gynnig contract â darparwr cludo hydrogen cymwys | 62 |
| | Dyrannu parti storio hydrogen | 63 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| | Cyfarwyddyd i gynnig contract â darparwr storio hydrogen cymwys | 64 |
| 61 | Dyrannu parti i gynhyrchu hydrogen | 65 |
| 62 | Cyfarwyddyd i gynnig contract â darparwr cludo hydrogen cymwys | 66 |
| 63 | Dyrannu parti i ddal carbon | 67 |
| 64 | Cyfarwyddyd i gynnig contract â darparwr storio hydrogen | 68 |
| 65 | Penodi gweinyddwr yr ardoll hydrogen | 69 |
| 66 | Ymrwymadau cyfranogwyr y farchnad | 70 |
| | Taliadau i gyfranogwyr perthnasol y farchnad | 71 |
| 67 | Swyddogaethau gweinyddwr yr ardoll hydrogen | 72 |
| 68 | Y pŵer i benodi cyrff dyrannu | 73 |
| 69 | Amodau safonol y contractau cymorth refeniw | 74 |
| 70 | Hysbysiadau dyraniadau | 75 |
| 71 | Dyrannu contractau | 76 |
| 72 | Dyletswydd i gynnig contract ar ôl ei ddyrannu | 77 |
| 73 | Newid amodau safonol | 78 |
| 74 | Adrannau 75 i 78: ategol | 79 |
| | Amodau'r drwydded ynghylch swyddogaethau rhai cyrff dyrannu | 80 |
| 75 | Darpariaeth arall ynghylch dynodiadau | 81 |
| 76 | Cymhwyso arian a ddelir gan barti cymorth refeniw | 82 |
| 77 | Gwybodaeth a chyngor | 83 |
| | Gorfodi | 84 |
| 78 | Ymgynghori | 85 |
| 79 | Cynlluniau trosglwyddo | 86 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| 80 | Newid cynlluniau trosglwyddo | 87 |
| 81 | Cyfarwyddwyr cysgodol ac ati | 88 |
| | Newid trwyddedau ac ati o ran ymrwymiadau'r ardoll | 89 |
| | Trwyddedau i weithredwyr systemau trydan a chynllunwyr systemau nwy: newidiadau | 90 |
| | Adrannau 89 a 90: Ategol | 91 |
| 82 | Cyllido costau datgomisiynu ac ati | 92 |
| 83 | Adran 92: ategol | 93 |
| 84 | Darpariaethau Rhan 4 Deddf Betrolwim 1998 | 94 |
| 85 | Cymorth ar gyfer newid defnydd: gosodiadau | 95 |
| 86 | Cymorth ar gyfer newid defnydd: piblinau'r rhwydwaith storio carbon | 96 |
| 87 | Cymorth ar gyfer newid defnydd: ategol | 97 |
| 88 | Dynodi datganiad polisi a strategaeth | 98 |
| 89 | Dyletswyddau o ran beth i'w ystyried yn y datganiad | 99 |
| 90 | Adolygu | 100 |
| 91 | Gofynion gweithdrefnol | 101 |
| 92 | Pennu'r darpariaethau mewn trwyddedau storio carbon deuocsid | 102 |
| 93 | Cynnwys hawlebau storio mewn trwyddedau storio carbon deuocsid | 103 |
| 94 | Troseddau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau storio carbon deuocsid | 104 |
| 95 | Pŵer OGA i fynnu gwybodaeth am newid rheolaeth ar ddeiliad trwydded | 105 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| | Diffiniadau allweddol | 106 |
| | Cadw gwybodaeth a samplau | 107 |
| | Paratoi a chytuno ar gynlluniau gwybodaeth a samplau | 108 |
| | Cynlluniau gwybodaeth a samplau: ategol | 109 |
| | Gwybodaeth a samplau: cydgysylltwyr | 110 |
| | Pwerau OGA i fynnu gwybodaeth a samplau | 111 |
| | Gwahardd OGA rhag datgelu gwybodaeth neu samplau | 112 |
| | Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i fynnu gwybodaeth a samplau | 113 |
| | Pŵer OGA i roi hysbysiadau cosbi | 114 |
| | Hysbysiadau gorfodi | 115 |
| | Hysbysiadau cosb ariannol | 116 |
| | Hysbysiadau dirymu | 117 |
| | Hysbysiadau gwaredu gweithredwr | 118 |
| | Dyletswydd OGA i roi hysbysiadau rhybuddio am gosbau | 119 |
| | Cyhoeddi manylion cosbau | 120 |
| | Hysbysiadau cosbau dilynol | 121 |
| | Tynnu hysbysiad cosbau yn ôl | 122 |
| | Cosbau; Pwerau gwybodaeth | 123 |
| | Apeliadau | 124 |
| | Gweithdrefn penderfyniadau gorfodi | 125 |
| | Dehongli Pennod 5 | 126 |
| 96 | Mynediad at seilwaith | 127 |
| 97 | Cymorth ariannol | 128 |
| Rhan 3 – Trwyddedu prosiectau piblinau hydrogen | | |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|--|--|
| | Diffiniadau Allweddol y Rhan | 129 |
| | Dynodi | 130 |
| | Gweithdrefn dynodi | 131 |
| | Dirymu dynodiad | 132 |
| | Rhoi, estyn neu gyfyngu trwydded cludo nwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol | 133 |
| | Ceisiadau i roi ac ati trwydded cludo nwy | 134 |
| | Newid trwydded cludo nwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol | 135 |
| | Hyd a lled y pwerau newid o dan adran 135 | 136 |
| | Y weithdrefn ac ati ar gyfer newid o dan adran 135 | 137 |
| | Gwybodaeth a chyngor | 138 |
| | Amodau trwyddedau cludo nwy ar gyfer cludo hydrogen | 139 |
| | Cyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r GEMA | 140 |
| | Diddymu Rhan 3 | 141 |
| Rhan 4 – Techneg newydd | | |
| 98 | Cynlluniau gwres carbon isel | 142 |
| 99 | Cymhwyso'r cynllun | 143 |
| 100 | Pennu targedau ac ati | 144 |
| 101 | Darpariaeth arall am reoliadau'r cynllun | 145 |
| 102 | Gweinyddu'r cynllun | 146 |
| 103 | Gorfodi, cosbau a throseddau | 147 |
| 104 | Cymhwyso'r symiau a dalwyd yn rhinwedd adran 101(4) neu 103(3) | 148 |
| 105 | Apeliadau | 149 |
| 106 | Rheoliadau'r cynllun: gweithdrefn ac ati | 150 |
| 107 | Dehongli Pennod 1 | 151 |
| Pennod 2 | | |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| 108 | Newid y cod nwy | 152 |
| 109 | Rheoliadau i ddiogelu defnyddwyr | 153 |
| | Pŵer i newid Deddf Nwy 1986 o ran hydrogen | 154 |
| Pennod 3 | | |
| 110 | Cyfleusterau ynni ymasu: nid oes angen trwydded safle niwclear | 155 |
| | Trin tanwydd carbon wedi'i ailgylchu a thanwydd sy'n deillio o niwclear fel tanwydd cludiant adnewyddadwy | 156 |
| 111 | Deddf Newid Hinsawdd 2008: ystyr "UK removals" | 157 |
| Rhan 5 – Gweithredydd a Chynllunydd Systemau Annibynnol | | |
| 112 | Gweithredydd a Chynllunydd Systemau Annibynnol ("the ISOP") | 158 |
| 113 | Dynodi ac ati | 159 |
| 114 | Dyletswydd i hyrwyddo amcanion penodol | 160 |
| 115 | Dyletswydd i roi sylw i faterion penodol | 161 |
| 116 | Dyletswydd i roi sylw i ddatganiad polisi a strategaeth | 162 |
| 117 | Trwyddedu gweithgaredd gweithredydd y system drydan | 163 |
| 118 | Cyfarwyddyd fel bod trwydded trawsyrru yn cael effaith trwydded gweithredydd system drydan | 164 |
| 119 | Trwyddedu gweithgaredd cynllunio system nwy | 165 |
| 120 | Newid trwyddedau ac ati | 166 |
| 121 | Gweithdrefn newid o dan adran 166 | 167 |
| 122 | Rhoi cyngor, dadansoddiad neu wybodaeth | 168 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| 123 | Pŵer i fynnu gwybodaeth oddi wrth bersonau rheoledig ac ati | 169 |
| 124 | Dyletswydd i gadw golwg ar ddatblygiadau yn y sector ynni | 170 |
| 125 | Trosglwyddiadau | 171 |
| 126 | Trefniadau pensiwn | 172 |
| 127 | Cymorth ariannol ar gyfer yr ISOP | 173 |
| 128 | Cyllid ar draws sectorau | 174 |
| 129 | Prif amcan a dyletswyddau cyffredinol yr Ysgrifennydd Gwladol a GEMA o dan Ran 5 | 175 |
| 130 | Newidiadau mân a chanlyniadol | 176 |
| 131 | Dehongli Rhan 5 | 177 |
| 132 | Rheoliadau o dan Ran 5 | 178 |
| Rhan 6 – Llywodraethu Codau Nwy a Thrydan | | |
| 133 | Dynodi codau ac ati | 179 |
| 134 | Ystyr "code manager" a "code manager licence" | 180 |
| 135 | Dynodi systemau canolog | 181 |
| 136 | Trwydded o dan Ddeddf Nwy 1986 i gyflawni swyddogaeth rheoli cod | 182 |
| 137 | Trwydded o dan Ddeddf Drydan 1986 i gyflawni swyddogaeth rheoli cod | 183 |
| 138 | Dewis rheolwr codau | 184 |
| 139 | Dewis heb gystadleuaeth | 185 |
| 140 | Dewis trwy gystadleuaeth | 186 |
| 141 | Datganiad ar gyfeiriad strategol | 187 |
| 142 | Trosglwyddo swyddogaethau o dan adran 187 i Weithredydd a Chynllunydd Systemau Annibynnol | 188 |
| 143 | Newid dogfennau dynodedig gan GEMA | 189 |
| 144 | Newidiadau o dan adran 189 | 190 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|--|--|
| 145 | Cyfarwyddyd ynghylch systemau canolog dynodedig | 191 |
| 146 | Cyfarwyddyd o dan adran 191 | 192 |
| 147 | Prif amcan a dyletswyddau cyffredinol yr Ysgrifennydd Gwladol a GEMA o dan Ran 6 | 193 |
| 148 | Adroddiad blynyddol GEMA i ystyried materion ynghylch dogfennau dynodedig | 194 |
| 149 | Rheoliadau o dan Ran 6 | 195 |
| 150 | Dehongli Rhan 6 | 196 |
| 151 | Darpariaeth bontio a threfniadau pensiwn | 197 |
| 152 | Newidiadau mân a chanlyniadol | 198 |
| Rhan 7 – Diwygio'r Farchnad a Diogelu'r Defnyddiwr | | |
| | Prif wrthwynebiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a GEMA | 199 |
| 153 | Tendrau cystadleuol ar gyfer prosiectau trydan | 200 |
| 154 | Uno mentrau yn y rhwydwaith ynni | 201 |
| 155 | Trwydded ar gyfer rhedeg rhyng-gysylltwyr aml-ddiben | 202 |
| 156 | Amodau safonol trwyddedau MPI | 203 |
| 157 | Rhedeg rhyng-gysylltwyr aml-ddiben: annibyniaeth | 204 |
| 158 | Rhoi trwyddedau MPI i weithredwyr sy'n bod | 205 |
| 159 | Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati | 206 |
| 160 | Gwelliannau canlyniadol o ran rhyng-gysylltwyr aml-ddiben | 207 |
| | Taliadau cymorth trydan i ddiwydiannau ynni-ddwys | 208 |
| | Ardoll i dalu am daliadau cymorth trydan | 209 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|--|---|---|
| 161 | Estyn y cap ar y tariff nwy a thrydan domestig | |
| 162 | Storio trydan | 210 |
| 163 | Tâl yn lle cydymffurfio â rhai ymrwymadau ar gwmnïau ynni | 211 |
| 164 | Mesuryddion clyfar: estyn yr amser i arfer pwerau | 212 |
| Rhan 8 – Rhwydweithiau Gwres | | |
| 165 | Y rhwydwaith gwres perthnasol | 213 |
| 166 | Y Rheoleiddiwr | 214 |
| 167 | Ffyrdd amgen i ddatrys anghydfodau â defnyddwyr | 215 |
| 168 | Rheoliad rhwydweithiau gwres | 216 |
| 169 | Rheoliad rhwydweithiau gwres: gweithdrefn | 217 |
| 170 | Adfer costau gan GEMA a NIAUR | 218 |
| 171 | Rhwydweithiau gwres: awdurdod trwyddedu yn yr Alban | 219 |
| 172 | Rhwydweithiau gwres: gorfodi yn yr Alban | 220 |
| 173 | Dehongli Pennod 1 | 221 |
| 174 | Rheoliadau ynghylch parthau rhwydweithiau gwres | 222 |
| 175 | Awdurdod Parthau Rhwydweithiau Gwres | 223 |
| 176 | Cydgysylltwyr Parthau | 224 |
| 177 | Nodi, dynodi ac adolygu parthau | 225 |
| 178 | Sut mae pennu parthau | 226 |
| 179 | Ceisiadau am wybodaeth am adran 177 neu 178 | 227 |
| 180 | Rhwydweithiau gwres mewn parthau | 228 |
| 181 | Darparu rhwydweithiau gwresogi ardal mewn parthau | 229 |
| 182 | Gorfodi gofynion parth rhwydweithiau gwres | 230 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| 183 | Cosbau | 231 |
| 184 | Cofnodion, gwybodaeth ac adrodd | 232 |
| 185 | Dehongli Pennod 2 | 233 |
| Rhan 9 – Dyfeisiau Clyfar o ran Ynni a Rheoli Llwythi | | |
| 186 | Dyfeisiau clyfar o ran ynni a rheoli llwythi | 234 |
| 187 | Rheoliadau clyfar o ran ynni | 235 |
| 188 | Gwaharddiadau a gofynion: ategol | 236 |
| 189 | Gorfodi | 237 |
| 190 | Cosbau, troseddau ac adfer costau | 238 |
| 191 | Apeliadau yn erbyn camau gorfodi | 239 |
| 192 | Rheoliadau: gweithdrefn ac ategol | 240 |
| 193 | Pŵer i newid amodau ac ati trwydded: rheoli llwyth | 241 |
| 194 | Pŵer i newid amodau ac ati trwydded: gweithdrefn | 242 |
| 195 | Rheoli llwyth: ategol | 243 |
| 196 | Cymhwyso dyletswyddau cyffredinol i swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoli llwythi | 244 |
| 197 | Trwyddedu gweithgareddau o ran rheoli llwythi | 245 |
| Rhan 10 – Perfformiad Eiddo o ran Ynni | | |
| 198 | Pŵer i wneud rheoliadau o ran perfformiad ynni | 246 |
| 199 | Rheoliadau o ran perfformiad ynni mewn eiddo newydd | 247 |
| 200 | Cosbau | 248 |
| 201 | Rheoliadau o dan y Rhan 10 hon | 249 |
| Rhan 11 – Cynlluniau Cyfleoedd i Arbed Ynni | | |
| | Cynlluniau Cyfleoedd i Arbed Ynni | 250 |
| | Rhoi cynlluniau cyfleoedd i arbed ynni ar waith | 251 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| | Y gofyn i asesu'r defnydd o ynni | 252 |
| | Aseswyr | 253 |
| | Cynlluniau gweithredu ESOS | 254 |
| | Gweithredu i arbed ynni neu leihau allyriadau | 255 |
| | Gweinyddu'r cynllun | 256 |
| | Gorfodi, cosbau a throsteddau | 257 |
| | Apeliadau | 258 |
| | Rheoliadau ESOS: gweithdrefn ac ati | 259 |
| | Cyfarwyddyd i weinyddwyr y cynllun | 260 |
| | Cymorth ariannol i weinyddwyr a chyfranogwyr y cynllun | 261 |
| | Dehongli Rhan 11 | 262 |
| Rhan 12 – Cadernid y Sector Tanwydd Craidd | | |
| 202 | Amcan cyffredinol | 263 |
| 203 | "Gweithgarwch y sector tanwydd craidd" a chysyniadau allweddol eraill | 264 |
| 204 | Cyfarwyddyd i gyfranogwyr penodol y sector tanwydd craidd | 265 |
| 205 | Y weithdrefn ar gyfer rhoi cyfarwyddyd | 266 |
| 206 | Troseddau peidio â chydymffurfio â chyfarwyddyd | 267 |
| 207 | Pwerau cyfatebol i wneud rheoliadau | 268 |
| 208 | Pŵer i fynnu gwybodaeth | 269 |
| 209 | Dyletswydd i roi gwybod am ddigwyddiadau | 270 |
| 210 | Mynd yn groes i ofyn o dan adran 269 neu 270 | 271 |
| 211 | Darparu gwybodaeth ar adegau penodol | 272 |
| 212 | Datgelu gwybodaeth a ddelir gan yr Ysgrifennydd Gwladol | 273 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|--|--|
| 213 | Datgelu gwybodaeth gan HMRC | 274 |
| 214 | Apelio yn erbyn hysbysiad neu gyfarwyddyd | 275 |
| 215 | Datganiadau ffug ac ati | 276 |
| 216 | Troseddau o dan reoliadau | 277 |
| 217 | Achos ar gyfer trosedd | 278 |
| 218 | Atebolwydd swyddogion ac endidau | 279 |
| 219 | Gorfodi ac ymgymeriadau | 280 |
| 220 | Arweiniad: cosbau troseddol a sifil | 281 |
| 221 | Arweiniad: Craffu seneddol | 282 |
| 222 | Cymorth ariannol at ddiben cadernid a pharhad | 283 |
| 223 | Pŵer i newid y trothwy | 284 |
| 224 | Dehongli Rhan 12 | 285 |
| Rhan 13 – Cynhyrchu Trydan Gwynt, Olew a Nwy Alltraeth | | |
| | Ystyr "relevant offshore wind activity" | 286 |
| | lawndal strategol am effeithiau amgylcheddol andwyol | 287 |
| | Cronfa adfer y môr | 288 |
| | Asesu effeithiau amgylcheddol ac ati | 289 |
| | Rheoliadau o dan adran 289: ymgynghori a gweithdrefn | 290 |
| | Dehongli Pennod 1 | 291 |
| 225 | Trefn ar gyfer ymateb i lygredd olew yn y môr | 292 |
| 226 | Cynefinoedd: lleihau effeithiau gweithgareddau olew a nwy ac ati alltraeth | 293 |
| 227 | Datgomisiynu olew a nwy alltraeth: cynlluniau codi tâl | 294 |
| 228 | Cymalau enghreifftiol ar gyfer trwyddedau petrolewm | 295 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|--|--|---|
| 229 | Pŵer OGA i fynnu gwybodaeth am newid rheolaeth ar ddeiliad trwydded | 296 |
| Rhan 14 – Sector Niwclear Sifil | | |
| 230 | Cymhwyso'r gofyn am drwydded safle niwclear i'r môr tiriogaethol | 297 |
| 231 | Datgomisiynu safleoedd niwclear ac ati | 298 |
| 232 | Safleoedd gwaredu eithriedig | 299 |
| 233 | Llofnodi'r Confensiwn ar lawndal Ategol am Ddifrod Niwclear | 300 |
| | Confensiwn ar lawndal Ategol am Ddifrod Niwclear: Pŵer Gweithredu | 301 |
| 234 | Darparu gwasanaethau plismona ychwanegol | 302 |
| 235 | Darparu cymorth i luoedd eraill | 303 |
| 236 | Pwerau gorfodi traws-ffiniol | 304 |
| 237 | Cyhoeddi cynllun strategaeth tair blynedd | 305 |
| | Diwydiant niwclear sifil: newid y cynlluniau pensiwn niwclear perthnasol | 306 |
| | Ystyr "relevant nuclear pension scheme" | 307 |
| | Gwybodaeth | 308 |
| | Rhagor o ddiffiniadau | 309 |
| | Cymhwyso deddfau pensiwn perthnasol | 310 |
| | Gweithdrefn rheoleiddio | 311 |
| | Great British Nuclear | 312 |
| | Statws y Goron | 313 |
| | Amcanion Great British Nuclear | 314 |
| | Cymorth ariannol | 315 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| | Cyfarwyddyd ac arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol | 316 |
| | Adroddiad blynyddol | 317 |
| | Cyfrifon blynyddol | 318 |
| | Cynlluniau trosglwyddo | 319 |
| | Cynlluniau trosglwyddo: iawndal | 320 |
| | Cynlluniau trosglwyddo: trethu | 321 |
| | Cynlluniau trosglwyddo: darparu gwybodaeth neu gymorth | 322 |
| | Ad-dalu ac iawndal mewn cysylltiad â dynodi | 323 |
| | Trefniadau pensiwn Great British Nuclear | 324 |
| Rhan 15 | | |
| 238 | Pŵer i wneud newidiadau canlyniadol | 325 |
| 239 | Rheoliadau | 326 |
| 240 | Dehongli | 327 |
| 241 | Hyd a lled | 328 |
| 242 | Cychwyn | 329 |
| 243 | Teitl byr | 330 |
| Atodlenni | | |
| Atodlen 1 | Pŵer interim yr Ysgrifennydd Gwladol i roi trwyddedau | Atodlen 1 |
| Atodlen 2 | Gweithdrefn apelio o dan adran 20 | Atodlen 2 |
| | Gorfodi ymrwymadau deiliaid trwydded | Atodlen 3 |
| Atodlen 3 | Cynlluniau trosglwyddo | Atodlen 4 |
| Atodlen 4 | Newidiadau sy'n ymwneud â Rhan 1 | Atodlen 5 |
| Atodlen 5 | Trwyddedau storio carbon deuocsid: darpariaethau'r drwydded | Schedule 6 |
| | Deunydd y caniateir ei ddatgelu gan OGA | Atodlen 7 |
| | Gwybodaeth a samplau Storio Carbon: apeladau | Atodlen 8 |

| Rhif y Cymal adeg ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi 6 Gorffennaf 2022 | Disgrifiad o'r Cymal | Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd y Pwyllgor 11 Gorffennaf 2023 |
|---|---|--|
| Atodlen 6 | Cynllunydd a Gweithredydd Systemau Annibynnol: trosglwyddo | Atodlen 9 |
| Atodlen 7 | Cynllunydd a Gweithredydd Systemau Annibynnol: pensiynau | Atodlen 10 |
| Atodlen 8 | Newidiadau mân a chanlyniadol mewn cysylltiad â Rhan 5 | Atodlen 11 |
| Atodlen 9 | Llywodraethu codau'r diwydiant trydan a nwy: darpariaeth bontio | Atodlen 12 |
| Atodlen 10 | Llywodraethu codau'r diwydiant trydan a nwy: pensiynau | Atodlen 13 |
| Atodlen 11 | Newidiadau mân a chanlyniadol mewn cysylltiad â Rhan 6 | Atodlen 14 |
| Atodlen 12 | Tendrau cystadleuol ar gyfer prosiectau trydan | Atodlen 15 |
| Atodlen 13 | Uno mentrau rhwydweithiau ynni | Atodlen 16 |
| Atodlen 14 | Rhyng-gysylltwyr aml-ddiben: newidiadau canlyniadol | Atodlen 17 |
| Atodlen 15 | Rheoliad rhwydweithiau gwres | Atodlen 18 |
| Atodlen 16 | Trwyddedu gweithgareddau o ran rheoli llwythi | Atodlen 19 |
| Atodlen 17 | Ymgymeriadau gorfodi | Atodlen 20 |
| Atodlen 18 | Trwyddedau petrolewm: newidiadau i gymalau enghreifftiol | Atodlen 21 |
| Atodlen 19 | Llofnodi'r Confensiwn ar lawndal Ategol am Ddifrod Niwclear | Atodlen 22 |



Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2328/23

Elin Jones AS
Llywydd

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Medi 2023

Annwyl Elin, Huw a Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r Bil Ynni (y Bil) a gyflwynwyd gerbron Tŷ'r Arglwyddi, Senedd y DU ar 6 Gorffennaf 2022. Fel y gwyddoch, gosodais Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil fel y'i cyflwynwyd ar 29 Mehefin 2023.

Ar 25 Gorffennaf, rhoddais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (sLCM) gerbron ar gymalau Pecyn Gwella Amgylcheddol Gwynt Alltraeth (OWEIP) y Bil. Cyflwynwyd y cymalau hynny fel gwelliannau i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Ionawr 2023, gyda gwelliannau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Bil gan Lywodraeth y DU ar 7 Mehefin 2023.

Memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol eraill

Rwyf bellach yn ysgrifennu atoch wrth osod ail sLCM i ymdrin â'r gwelliannau eraill a wnaed i'r Bil ers ei gyflwyno. Mae'n ymdrin â'r Bil fel ar ddiwedd Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ac fel y'i cyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2023. Mae'r gwelliannau sy'n ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru yn ymwneud â Rhannau 1, 2, ac 11.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu nifer o'r gwelliannau i'r Bil gan eu bod yn rhoi esboniadau defnyddiol a manylion ychwanegol ar sut y bydd y mesurau cyntaf a gyflwynwyd yn y Bil yn gweithredu. Fodd bynnag, fel gyda'r Bil fel y'i cyflwynwyd, mewn nifer o feysydd, nid yw'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn parchu cymhwysedd Senedd Cymru'n ddigonol. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydysniad i gymalau 9, 73, 106-126, 127 a 259. Yma rydym am ei wneud yn ofyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i Weinidogion Cymru am eu cydysniad cyn y gall rheoliadau newydd ddod i rym yn hytrach na phroses ymgynghori fel sydd yn nrafft cyfredol y Bil.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i drafod y Bil gyda Llywodraeth y DU, ond hyd yma nid wyf wedi cael cynnig gwelliannau derbyniol i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn y Memorandwm Cydysniad Deddfwriaethol neu'r sLCM sydd wedi'u gosod hyd yma. Rwy'n ategu barn Llywodraeth Cymru ein bod yn cefnogi bwriad y polisi a nodir yn y Bil ac rwyf hefyd yn cytuno bod angen i lawer o'r rheoliadau a gynigir weithredu'n effeithiol ar lefel y DU gyfan. Rwyf dal o'r farn nad oes rheswm pam na all Llywodraeth y DU weithio gyda ni i reoleiddio ar draws ffiniau mewn ffordd sy'n osgoi gwahaniaethu o ran rheoleiddio trwy broses sy'n gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

Fel gyda'r LCMs eraill, rwy'n gwerthfawrogi ein bod y tu allan i'r terfyn amser arferol o ddwy wythnos ar gyfer gosod yr LCM atodol hwn. Bu hynny'n rhannol oherwydd y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r Bil, ond hefyd oherwydd cymhlethdod y materion sy'n cael eu hystyried.

Dadl ar y cynnig cydysniad deddfwriaethol

Ar hyn o bryd mae Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin a Thrydydd Darlleniad y Bil wedi'i drefnu ar gyfer 5 Medi. Disgwylir i Dŷ'r Arglwyddi ddechrau ystyried y gwelliannau ar 12 Medi.

Rwy'n anhygoel o bryderus na fydd yr amserlen ar gyfer y Bil hwn yn rhoi digon o amser i ddatrys pryderon ar lefel rynglywodraethol, ac na fydd cyfle ystyrlon gan Senedd Cymru i ystyried ei barn am gydsynio. Rwyf wedi gofyn i Weinidogion y DU gymryd camau ar unwaith i ohirio Cyfnodau terfynol Tŷ'r Cyffredin er mwyn cael mwy o amser i drafod, ac er mwyn i Senedd Cymru gael ystyried y Bil hwn ar adeg ystyrlon.

Yn ôl yr amserlen bresennol, rwyf yn y sefyllfa anffodus o orfod gofyn i Senedd Cymru drafod Cynnig Cydysniad Deddfwriaethol y Bil hwn pan ddaw'r cyfle cyntaf, sef 12 Medi 2023. Rwy'n gwerthfawrogi y bydd hyn yn golygu na chaiff Pwyllgorau perthnasol Senedd Cymru yr amser i graffu ar yr sLCMs gafodd eu gosod yn ystod y toriad, ac mae'n debygol na fyddant wedi cael amser chwaith i adrodd ar y Memorandwm Cydysniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 29 Mehefin 2023. Ond bydd cynnal y ddadl ar y dyddiad hwn yn gyfle i Senedd Cymru gyfleu ei barn yn glir wrth Lywodraeth y DU a Senedd y DU yn fuan.

O bryder mwy fyth yw'r posibilrwydd y bydd y Bil hwn yn cael ei wthio drwy Senedd y DU er na fydd wedi cael cydysniad Senedd Cymru. Y confensiwn cyfansoddiadol yw na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru. Nid oes rheswm rhesymol o gwbl i awgrymu nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn 'normal'. Felly, rwyf wedi gofyn am sicrwydd diamwys, os na fydd Senedd Cymru'n rhoi ei chydysniad i'r Bil hwn, y bydd Llywodraeth y DU yn ymrwmo i barchu Confensiwn Sewel fel y dywedodd y byddai, a pheidio â deddfu mewn perthynas â Chymru.

Rheol Sefydlog 29 a goblygiadau o ran adrodd

Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes eisoes wedi pennu 15 Medi fel y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar yr LCM gwreiddiol. Os bydd naill ai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad neu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith mewn sefyllfa i gyhoeddi adroddiad cyn y ddadl ar 12 Medi, byddaf yn ymateb yn unol â hynny yn naddl Senedd Cymru ac yn ysgrifenedig yn ôl y gofyn.

Rwy'n cydnabod, fodd bynnag, yr anhawster sylweddol y mae hyn yn debygol o'i achosi a'r realiti y gallai hyn fod yn anymarferol. Felly, byddaf hefyd yn cymryd camau i gyflwyno cynnig i atal Rheol Sefydlog 29.8 er mwyn gallu cynnal y ddadl ar 12 Medi, a chan atal hefyd Reolau Sefydlog 11.16 a 12.20(i).

Rwy'n parchu ac yn gwerthfawrogi rôl Pwyllgorau Senedd Cymru o fewn y broses cydsyniad deddfwriaethol, ac yn gresynu'r sefyllfa hon yn fawr. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, credaf oherwydd trywydd y Bil hwn, ei bod yn hanfodol bod Senedd Cymru'n cael mynegi ei barn ar fyrder.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS a'r Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

25 Gorffennaf 2023

Annwyl Elin

Ysgrifennais i atoch chi ar 29 Mehefin 2023 am y Bil Ynni ('y Bil') a gyflwynwyd gerbron Tŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 6 Gorffennaf 2022. Cafodd taith y Bil ei hatal am gyfnod, cyn iddo ailgychwyn ddiwedd 2022, a disgwyliar i nifer o welliannau eto gael eu cyflwyno yn ystod camau olaf taith y Bil drwy Senedd y DU.

Yn dilyn y llythyr hwnnw a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, rwy'n ysgrifennu nawr am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (sLCM) am y cymalau sy'n ymdrin â'r Pecyn Gwelliannau Amgylcheddol Gwynt Alltraeth (OWEIP) yn y Bil. Roedd chwe chymal OWEIP ym Mhennod 1 o Ran 13 y Bil, sef Cymalau 286-291. Cafodd y cymalau eu gosod fel gwelliannau i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Ionawr 2023 a chafodd rhagor o welliannau i'r Bil eu gosod gan Lywodraeth y DU ar 7 Mehefin 2023.

Amcan Llywodraeth y DU o ran cymalau OWEIP yw cyflymu datblygiadau gwynt ar y môr trwy:

- Alluogi mesurau digolledu strategol i ddatflocio'r rhwystrau ar gyfer cydsynio cynlluniau gwynt ar y môr a fydd yn cael effaith andwyol ar safleoedd a warchodir gan Ewrop;
- Caniatáu sefydlu Cronfa neu Gronfeydd Adfer y Môr i hwyluso'r mesurau hynny, a
- Caniatáu newid y drefn asesu amgylcheddol o dan Asesiad y Rheoliad Cynefinoedd (HRA) a threfn asesu parthau cadwraeth morol (MCVZ) sy'n berthnasol i gydsynio a thrwyddedu cynlluniau a phrosiectau gwynt y môr er mwyn hwyluso'r newidiadau hynny.

Cewch ragor o fanylion y ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru yn yr sLCM am gyd-destun.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 452
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth y DU yn credu bod gwelliannau OWEIP yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl ac felly y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Maen nhw'n dadlau mai prif bwrpas gwelliannau OWEIP yw cyflymu datblygiad prosiectau gwynt ar y môr er mwyn cynyddu cynhyrchiant y DU o ynni gwynt y môr, sy'n ymwneud â'r mater a gedwir yn ôl "Cynhyrchu, trawsyrru a chyflenwi trydan".

Barn Llywodraeth Cymru yw bod gwelliannau OWEIP yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru am bwrpas sydd o fewn cymhwysedd Senedd Cymru o ran diogelu'r amgylchedd, trwyddedau morol a chynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu syn llai na 350MW, i'r graddau bod gwelliannau OWEIP yn ymwneud â rhanbarth glannau Cymru.

Rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU sawl gwaith bellach i leisio pryderon nad yw cymalau OWEIP, fel y maent wedi'u drafftio, yn parchu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, na chyfrifoldebau datganoledig Gweinidogion Cymru, Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell gwrthod rhoi cydsyniad ar gyfer cymalau OWEIP ar yr adeg hon, a gosodais y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar 25 Gorffennaf 2023.

Fel gyda'r LCM, rwy'n sylweddoli bod y dyddiad cau arferol o bythefnos ar gyfer gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol o dan Reol Sefydlog 29 wedi hen fynd heibio. Bu hyn yn rhannol oherwydd y ffordd mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r Bil, ond hefyd oherwydd cymhlethdod y materion sy'n cael eu hystyried. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU wneud rhagor o newidiadau i'r Bil ac i'r cymalau wrth i Dŷ'r Cyffredin barhau i'w ystyried. O gofio pwysigrwydd mesurau OWEIP i'n gallu i reoli amgylchedd y môr ac o gofio nad ydym yn teimlo bod Llywodraeth y DU yn parchu'r setliad datganoli, rwy'n awyddus i'r LCM hwn ganolbwyntio ar y cymalau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU fel gwelliannau. Bydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol arall i ymdrin â'r gwelliannau eraill i'r Bil a fydd yn cael eu gosod cyn gynted ag y bo modd. Disgwylir i'r Bil symud drwy gamau olaf Senedd y DU ym mis Medi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS, a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir



Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Department for Energy Security & Net Zero

Andrew Bowie MP
Minister for Nuclear and Networks

**Department for Energy Security
& Net Zero**

www.gov.uk

Our ref: MCB2023/16220

Huw Irranca-Davies MS
Chair
Legislation, Justice, and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardiff
CF99 1SN

24 July 2023

Dear Huw,

Thank you for your letter of 12 July 2023 regarding the legislative consent process in the Senedd for the Energy Bill and the engagement that has so far taken place between the UK Government and the Welsh Government.

I take devolution very seriously and do not recognise the remarks made by Minister James during your Committee's recent meeting. I am committed to the Sewel Convention and, as the Minister leading the Bill, I have a fundamental interest in ensuring that it works to the benefit of every part of the UK.

The Energy Bill is a very large piece of legislation. As introduced, the Bill contained 243 clauses and 19 Schedules and has been amended during its passage to now contain 330 clauses and 22 Schedules. The policy scope of the Bill is wide, covering everything from carbon capture and hydrogen production to energy code governance reform, heat networks regulation and offshore wind electricity generation.

I recognise that the devolution landscape for energy is complicated, particularly in Wales and I am mindful that some provisions in the Bill engage the LCM process in the Senedd. The Bill respects the devolution settlement while ensuring that we limit regulatory divergence as far as possible in the interests of supporting cross-border nascent industries like CCUS and hydrogen.

I do not believe it is the case that the Welsh Government had no knowledge of the Bill's contents prior to its introduction. My officials shared draft clauses where possible and held a series of 'deep dive' sessions with Welsh Government officials on each measure well in advance of the Bill's introduction. Notwithstanding the short delay to the Bill when the urgent Energy Prices Act 2022 was prioritised, and the additional complexities associated with large pieces of legislation, the Welsh Government has now had the best part of a year to consider it.

When the Bill was first introduced in the UK Parliament, my predecessor wrote to Minister James to set out the UK Government's devolution analysis and seek her support for an LCM for the devolved provisions. At subsequent amending stages in the UK Parliament, my predecessors and I wrote to Minister James in similar terms.

My officials have sought to engage their counterparts extensively about the Bill, including seeking weekly meetings since the Bill was introduced. In addition, there have been many conversations, meetings, and emails between Welsh Government officials and UK Government officials who lead on the Bill's individual measures.

The Welsh Government's delay in laying the Legislative Consent Memorandum has not helped our discussions. Indeed, the Memorandum presents the first instance I have seen which sets out the Welsh Government's concerns with the Bill in full. As the Memorandum only covers the Bill as introduced, I still do not know the Welsh Government's position on large parts of the Bill which have been amended. Close engagement between UK and Welsh Government officials has mitigated these shortcomings to an extent and has allowed for a package of amendments to be shared at official level. I intend to write to Minister James shortly to set out these amendments formally.

In the committee session, Minister James raised concerns around ensuring sufficient time for consultation on draft proposals. My department will always seek to engage the Welsh Government at the earliest opportunity. This is why, within the context of the Energy Bill, I proposed to Minister James that the Bill is amended to introduce new statutory protections which ensure that consultation on draft proposals for secondary legislation would take place over a statutory period of time.

Minister James also raised discussions between the UK and Welsh governments relating to offshore wind. I have responded to several of Minister James's letters on the offshore wind environmental improvement measures in the Bill and I discussed the Energy Bill issues with Minister James when we met on 22 May 2023. The offshore wind measures were also discussed in a meeting between Minister Stuart and Minister James on the 26 April 2023. My door is always open to further discussions on this and any other matter.

Yours aye,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Andrew Bowie', with a stylized flourish at the end.

Andrew Bowie MP
Minister for Nuclear and Networks

Andrew Bowie AS
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddiogelwch
Ynni a Sero Net

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Andrew,

Y Bil Ynni

Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru bellach wedi cychwyn ar broses cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd mewn perthynas â darpariaethau perthnasol yn **y Bil Ynni** ("y Bil"). Ar 29 Mehefin 2023, gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd ("y Gweinidog"), **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ("y Memorandwm") gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil. Mae'n debyg y byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai'r Senedd atal cydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil ar hyn o bryd.

Yn y Memorandwm a osodwyd gerbron y Senedd, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn datgan nad oedd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil cyn iddo gael ei gyflwyno, ac "nid oedd... testun cyfreithiol llawn [y Bil] ar gael i'w adolygu tan ychydig o oriau cyn i'r Bil gael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi". Dywed y Gweinidog Newid Hinsawdd hefyd fod Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i godi pryderon nad yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn parhau cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd na chyfrifoldebau datganoledig Gweinidogion Cymru.

Gwahoddwyd y Gweinidog Newid Hinsawdd i gyfarfod fy Mhwyllgor **ar 10 Gorffennaf**, lle y cawsom drafod â hi'r camau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd o ran y Bil hyd hynny. Yn benodol, gwnaethom drafod yr amgylchiadau a oedd wedi cyfrannu at y ffaith bod y Memorandwm wedi cael ei osod gerbron y Senedd bron i flwyddyn ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno yn Senedd y DU. Byddem fel arfer yn disgwyl i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod gerbron y Senedd o fewn pythefnos i Fil â darpariaethau perthnasol gael ei gyflwyno yn Senedd y DU. Ymhellach i'r datganiadau a wnaed yn y Memorandwm, nododd y Gweinidog yn glir bod yr oedi yn rhannol oherwydd y diffyg deialog a chydweithredu rhwng y ddwy Lywodraeth. **Dywedodd wrthym:**



- “We would have very much wanted for the Welsh Government to have been involved in the development of the Bill months before the Bill was published. We would have had detailed discussions with UK Government Ministers on matters within our competence and so on. Not a single scrap of that happened at all. Nothing, absolutely not.” [Cofnod y Trafodion, paragraff 6]
- “I’m quite annoyed by the situation the UK Government has put in where we’re struggling to keep up with the changes in a Bill that are rapid and don’t involve us at the right level at all.” [Cofnod y Trafodion, paragraff 7]
- “...there’s just nothing good to say about the way the UK Government has treated the devolution settlement. The Bill has been drafted without any nod to devolution whatsoever. (...) from a political point of view, I would say that it’s news to the energy team [in the UK Government] that there is such a thing as a devolution settlement. It’s been a hard-fought battle to get them to even understand what we’re trying to say.” [Cofnod y Trafodion, paragraff 14]
- “I have, a number of times, not just in this instance, been summoned to speak to a Minister of the UK Government at 17:30 with no idea of what they want to talk to me about, only to be told that tomorrow morning, they’re going to publish X, so that they can say they’ve consulted us. Well, I’m sorry, I don’t think that’s sufficient consultation at all.” [Cofnod y Trafodion, paragraff 19]
- “I’ve made a number of representations to the Secretary of State for BEIS, as it was then, and the Secretary of State and Ministers within the new Department for Energy Security and Net Zero. In March this year, following the UK Government amendments, with the offshore wind environment improvement package, I set out my concerns to the new Secretary of State on the clauses and on the initial considerations of the Bill. I’ve requested a meeting to discuss the concerns, but no offer to meet has been forthcoming. The first and only meeting on this Bill I have had with a UK Government Minister was with Minister Bowie in May 2023, and I have to say, in that meeting, Minister Bowie showed no appreciation that any kind of devolution settlement existed. There’s no getting away from that. It was a very short meeting, and their view was that it just doesn’t engage the devolution—. Well, they just didn’t have any appreciation of it at all.” [Cofnod y Trafodion, paragraff 29. Gweler hefyd baragraff 20]
- “We do normally have much better engagement. (...) but I think that what we’re looking at here is somebody who just did not realise that there was any devolution issue in it until the last minute.” [Cofnod y Trafodion, paragraff 21]

Mae'r datganiadau a'r sylwadau a wnaed gan y Gweinidog Newid Hinsawdd yn peri pryder. Byddem yn croesawu ac yn gwerthfawrogi cael eich ymateb i'r hyn glywsom gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, yn enwedig manylion yr ymgysylltu – ar lefel Gweinidogion a swyddogion – rhwng eich adrannau perthnasol, a sut yr ydych wedi ceisio mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru. .

Byddwn yn croesawu cael ymateb erbyn 1 Medi 2023, fel y gall fy Mhwyllgor drafod y dystiolaeth yn llawn cyn cyflwyno adroddiad i'r Senedd cyn y ddadl a gynhelir ar gynnig cydsyniad ar gyfer y Bil.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Gwir Anrhydeddus Grant Shapps AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net; y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol; a'r Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Anfonir copi o'r llythyr hwn hefyd at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn y Senedd.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon